



Cyfarfod

**Y CYNGOR**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD IAU, 12FED GORFFENNAF, 2018**

**\*NODER**

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**<http://www.gwynedd.public-i.tv/core/portal/home>**

Lleoliad

**Siambr Dafydd Orwig, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**[eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru](mailto:eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru)**

(DOSBARTHWDYD 4/7/18)

**DYDD MERCHER, 4 GORFFENNAF 2018**

Annwyl Gyngorydd,

**CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – DYDD IAU, 12 GORFFENNAF 2018**

**FE'CH GWYSIR TRWY HYN** i gyfarfod o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.00 y.h.**, **DYDD IAU** nesaf, **12FED GORFFENNAF, 2018 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON, GWYNEDD. LL55 1SH**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Yr eiddoch yn gywir



Prif Weithredwr

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i'r grwpiau gwleidyddol yn ystod y bore:-

Plaid Cymru - Siambr Dafydd Orwig  
Annibynnol – Siambr Hywel Dda  
Llais Gwynedd – Ystafell Gwyrfai  
Annibynnol Unedig Gwynedd – Ystafell Daron

# RHAGLEN

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. COFNODION

5 - 20

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 3 Mai, 2018 fel rhai cywir (ynghlwm).

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

## 5. GOEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL

Derbyn unrhyw ohebiaeth, gyfathrebiadau neu fusnes arall a ddygir gerbron yn arbennig dan gyfarwyddyd y Cadeirydd.

## 6. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 7. CWESTIYNAU

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Adran 4.19 y Cyfansoddiad.

## 8. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL RHIANT CORFFORAETHOL GWYNEDD 2017/18

21 - 30

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc (ynghlwm).

## 9. CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU - TREFNIADAU LLYWODRAETHU

31 - 87

Cyflwyno adroddiad yr Arweinydd (ynghlwm).

## 10. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD 2017/18

88 - 125

Cyflwyno adroddiad yr Arweinydd (ynghlwm).

**11. ADRODDIAD BLYNYDDOL CRAFFU 2017/18** 126 - 146

Cyflwyno Adroddiad Blynyddol Craffu 2017/18 (ynghlwm).

**12. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR STATUDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2017/18** 147 - 184

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol (ynghlwm).

**13. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR** 185 - 187

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democraidaidd (ynghlwm).

**14. YMATEBION I RYBUDDION O GYNNIG BLAENOROL**

**(A) YMATEB I RYBUDD O GYNNIG BLAENOROL Y CYNGHORYDD ELIN WALKER JONES** 188 - 189

Cyflwyno, er gwybodaeth - llythyr gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cyngorydd Elin Walker Jones i gyfarfod 8 Mawrth, 2018 ynglŷn â threth ar blastigion yng Nghymru (ynghlwm).

**(B) YMATEBION I RYBUDD O GYNNIG BLAENOROL Y CYNGHORYDD JUDITH HUMPHREYS** 190 - 193

Cyflwyno, er gwybodaeth – llythyrau gan Lywodraeth San Steffan a Llywodraeth Cymru mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cyngorydd Judith Humphreys i gyfarfod blynyddol 3 Mai, 2018 ynglŷn â Dinasyddiaeth Gysylltiol y UE (ynghlwm).



---

## Y CYNGOR DYDD IAU, 3 MAI 2018

---

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Annwen Hughes (Cadeirydd);  
Y Cynghorydd Edgar Wyn Owen (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Craig ab Iago, Menna Baines, Freya Hannah Bentham, Dylan Bullard, Stephen Churchman, Steve Collings, Annwen Daniels, R.Glyn Daniels, Anwen Davies, Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Aled Evans, Dylan Fernley, Peter Antony Garlick, Simon Glyn, Gareth Wyn Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, R.Medwyn Hughes, Sian Wyn Hughes, Judith Humphreys, Nia Jeffreys, Peredur Jenkins, Aeron M.Jones, Aled Wyn Jones, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Charles W.Jones, Elin Walker Jones, Elwyn Jones, Huw Wyn Jones, Keith Jones, Kevin Morris Jones, Linda A.W. Jones, Sion Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Beth Lawton, Dilwyn Lloyd, Dafydd Meurig, Linda Morgan, Dafydd Owen, Dewi Owen, W.Roy Owen, Jason Parry, Rheinallt Puw, Dewi Wyn Roberts, Elfed P.Roberts, Gareth A.Roberts, John Pughe Roberts, W.Gareth Roberts, Mair Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Hefin Underwood, Catrin Wager, Cemlyn Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gethin Glyn Williams, Gruffydd Williams ac Owain Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards ac Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwyr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol / Swyddog Monitro), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol), Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned), Gwyn Morris Jones (Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol), Rhun ap Iarll (Uwch Gyfreithiwr / Dirprwy Swyddog Monitro), Vera Jones (Rheolwr Democratiaeth), Cara Owen (Rheolwr Cynllunio) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

Rhodddwyd anerchiad gan y Cynghorydd Annwen Daniels, Cadeirydd 2017/18.

### 1. CADEIRYDD

Etholwyd y Cynghorydd Annwen Hughes yn gadeirydd am 2018/19.

Llofnododd y Cynghorydd Annwen Hughes ddatganiad yn derbyn y swydd o Gadeirydd Cyngor Gwynedd am 2018/19.

### 2. IS-GADEIRYDD

Etholwyd y Cynghorydd Edgar Wyn Owen yn is-gadeirydd am 2018/19.

Llofnododd y Cynghorydd Edgar Wyn Owen ddatganiad yn derbyn y swydd o is-gadeirydd Cyngor Gwynedd am 2018/19.

### 3. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Eric Merfyn Jones, Dilwyn Morgan, Nigel Pickavance a Peter Read.

### 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 8 Mawrth, 2018 fel rhai cywir.

## **5. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

'Roedd yr aelodau wedi derbyn nodyn briffio ymlaen llaw gan y Swyddog Monitro ynglŷn ag eitem 13 ar y rhaglen – Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau Etholedig. Oherwydd natur yr adroddiad, ac er mwyn cydymffurfio â gofynion y Côd Ymddygiad, datganodd y Cadeirydd fuddiant personol yn yr eitem ar ran yr holl aelodau oedd yn bresennol, ond gan nad oedd yn fuddiant sy'n rhagfarnu, byddai gan yr aelodau yr hawl i gymryd rhan yn y drafodaeth ac i bleidleisio ar y mater.

Datganodd y Cynghorydd W.Gareth Roberts fuddiant personol yn eitem 17(b) ar y rhaglen – Rhybudd o gynnig gan y Cynghorydd Alwyn Gruffydd, oherwydd bod ei fab-yng-nghyfraith yn gweithio i'r Gwasanaeth Ieuencid.

'Roedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

## **6. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Cydymdeimlwyd â theuluoedd:-

- Beryl Ellis, aelod o staff yr Adran Amgylchedd ers blynyddoedd lawer, a fu farw'n ddiweddar.
- Y cyn-gynghorydd Tecwyn Thomas, fu'n aelod o'r Cyngor hwn rhwng 1999 a 2004. Rhoddwyd teyrnged iddo gan y Cynghorydd Sion Jones.

Nodwyd bod y Cyngor hefyd yn dymuno cofio am bawb o fewn cymunedau'r sir sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Safodd y Cyngor fel arwydd o barch.

Dymunwyd yn dda i'r Cynghorydd Eric Merfyn Jones, fu'n dioddef o anhwylder yn ddiweddar ac a oedd yn derbyn llawdriniaeth heddiw.

Llongyfarchwyd y Cynghorwyr Dilwyn Lloyd a Stephen Churchman ar godi £440 tuag at yr Ambiwllans Awyr drwy gyhoeddi a gwerthu'r calendr digri' o Gynghorwyr Gwynedd ym mis Rhagfyr y llynedd. Cyflwynwyd yr arian i'r elusen ym Maes Awyr Caernarfon ym mis Chwefror.

Nodwyd diolchiadau'r Cynghorwyr Dilwyn Lloyd a Stephen Churchman i bawb, yn enwedig y rhai hynny gytunodd i'w lluniau gael eu cynnwys.

Llongyfarchwyd y corau o Wynedd fu'n llwyddiannus yn yr Ŵyl Ban Geltaidd yn ddiweddar.

## **7. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL**

Dim i'w nodi.

## **8. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

## 9. CWESTIYNAU

*(Dosbarthwyd atebion ysgrifenedig yr Aelodau Cabinet i'r cwestiynau i'r aelodau ymlaen llaw.)*

### (1) Cwestiwn gan y Cynghorydd Mike Stevens

“O ganlyniad i'r ffaith bod y cyfnod treial gyda Kingdom wedi dirwyn i ben yn gynamserol a lle bu ymgais i ymdrin â phroblem mae Llywodraeth Cymru yn ei disgrifio fel troseddau amgylcheddol e.e. creu sbwriel, gwaredu slei bach a'r mwyaf pryderus, sef baeddu gan gŵn, pa gamau mae swyddogion y Cyngor yn bwriadu cymryd i atal pobl Gwynedd rhag boddi dan fynydd o lanast ci?”

### **Ateb gan yr Aelod Cabinet Prifffyrdd a Bwrdeistrefol, y Cynghorydd Gareth Griffith**

“Roedd y mater yma gerbron y Pwyllgor Craffu Cymunedau bythefnos yn ôl i heddiw ac yn dilyn hynny mae'r pwyllgor craffu wedi cynnig edrych ar dri cham:-

- i) Cydweithio gyda siroedd eraill cyfagos i wella ar y ddarpariaeth.
- ii) Ail ystyried y lefelau staffio presennol yn yr Uned Gorfodaeth Stryd.
- iii) Ehangu'r cydweithio rhyngadrannol lle mae staff o adrannau eraill y Cyngor yn derbyn yr hawl dirprwyedig i orfodi ar y stryd.”

### **Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Mike Stevens**

“Beth fedrwn ni wneud i sicrhau bod y swyddogion yn gweithredu ar yr argymhellion yma?”

### **Ateb gan yr Aelod Cabinet Prifffyrdd a Bwrdeistrefol, y Cynghorydd Gareth Griffith**

“Rydych chi'n aelod o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau, ond nid oeddech chi yn y cyfarfod dan sylw o'r hyn 'rydw i'n gofio. Yn y cyfnod byr ers y pwyllgor craffu 'rydw i wedi cyfarfod gyda phennaeth yr adran fore dydd Mawrth a gallaf ddweud fod cyfarfod yn mynd i gymryd lle cyn hir gydag Ynys Môn, sef un o'r cynghorau nesaf atom. Gallaf ddweud hefyd, o ran y 6 warden sy'n cael eu cyflogi ar hyn o bryd gan yr Adran Forwrol, mae'r mater yna wedi cymryd cam ymhellach. Unwaith y bydd hyfforddiant wedi ei roi a systemau yn eu lle, 'rydym yn gobeithio rowlio hyn i mewn, a byddai hynny'n cynnwys eich ardal chi hefyd yn amlwg gan eich bod ar yr arfordir ac mae'r Cyngor, yn y cyfnod byr ers y pwyllgor craffu wedi symud ymlaen hefo hynny.”

### (2) Cwestiwn gan y Cynghorydd Sion Jones

“Pa drafodaethau rhwng aelodau, swyddogion a Llywodraeth Cymru sydd wedi; ac yn cymryd lle ar gyfer sicrhau bod Gwynedd yn cael ei amddiffyn yn dilyn gadael yr UE, a sicrhau parhad o swyddi i'n trigolion a buddsoddiadau i'r sir yn cael ei gyllido gan yr UE?”

### **Ateb gan Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn**

“Cwestiwn amserol iawn. Mae'n gyfnod hynod o bryderus i ni yng nghefn gwlad Cymru. Mae'r ansicrwydd a'r diffyg atebion i gwestiynau digon sylfaenol yn peri pryder. Mae yna restr yn yr ateb ysgrifenedig o bob math o bwyllgorau,

gweithgorau a chyfarfodydd sydd wedi bod yn y gorffennol. Gallaf eich sicrhau mai un o fy mhrif amcanion i fel Arweinydd y Cyngor ydi i fod yn llais dros y Gymru wledig. Dyna pam 'rydw i wedi cael fy mhenodi yn Gyd-gadeirydd Fforwm Gwledig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac 'rydw i'n gobeithio defnyddio'r fforwm hwnnw i fod yn llais cryf, nid yn unig dros Wynedd, ond yn llais cryf dros gefn gwlad Cymru. Felly mae yna ymdrechion glew mewn amgylchiadau digon dyrys. 'Roeddwn mewn cyfarfod hefo Ysgrifennydd Cymru yn ddiweddar lle'r oedd yn rhoi ei adroddiad ar y sefyllfa ddiweddaraf o safbwynt Westminster a phryd hynny nid oedd yna gytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Westminster. Mae'n dipyn o siom bellach bod Llywodraeth Cymru wedi ildio'r grymoedd i Westminster ac mae hynny yn ychwanegu at y pryder a sut y bydd pa bynnag arian fydd ar gael ar ôl i ni ymadael ag Ewrop yn cael ei ddsbarthu. Mae'n bryder sylweddol iawn i mi fod yna ddiffyg dealltwriaeth a diffyg gwybodaeth sylfaenol iawn ymysg gweinidogion a gweision sifil Westminster a hynny'n gwneud i mi bryderu fwy fyth na fyddwn ni'n cael ein rhan deg o ba bynnag arian fydd ar gael ar ôl i ni ymadael ag Ewrop."

### **Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Sion Jones**

"Pa gefnogaeth uniongyrchol mae'r Cyngor hwn yn rhoi i fusnesau yng Ngwynedd?"

### **Ateb gan Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn**

"Mae yna waith sylweddol iawn yn digwydd gyda'r Bwrdd Uchelgais yn y Gogledd ac mae'r sector breifat yn rhan fawr o'r gwaith hwnnw. A dweud y gwir, maent yn ganolog i'r holl beth. Mae Cynllun Twf y Gogledd yn ymwneud â thwf economaidd ac 'rwy'n credu bod angen i ni bwysleisio ar y cymunedau gwledig. Mae yna waith i'w wneud i ddatblygu polisïau sy'n rhoi cefnogaeth adfywio i gymunedau gwledig sydd ar hyn o bryd yn wan, os ydynt yn bodoli. Dyna'r math o drafodaeth fyddaf yn ei gael. Hefyd, mae Lesley Griffiths, AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig wedi ffurfio'r hyn mae hi'n alw'n fwrdd crwn o bobl sydd â diddordeb yn y maes i drafod materion Brexit. Mae Cadeirydd Powys a minnau fel Cyd-gadeiryddion y Fforwm Gwledig wedi gofyn am fod yn aelodau o'r bwrdd hwnnw, ond yn anffodus, mae hi wedi gwrthod caniatáu i ni fod yna gan ddweud bod cyfraniad y swyddog yn ddigonol i gynrychioli llywodraeth leol. Mi fyddwn yn ei chyfarfod yn fuan iawn ac rydw i eisiau ei rhoi yn ôl ar y trywydd iawn ac efallai y gall yr aelod gael gair gyda hi hefyd yn y cyfamser. Ar y mater o gefnogaeth busnes, nid yw'r ffeithiau o'm blaen, felly gai ofyn i'r Pennaeth Economi a Chymuned ddod ymlaen i roi cyfeiriad ar hynny?"

### **Ateb gan y Pennaeth Economi a Chymuned**

"Mae'r cymorth uniongyrchol i fusnesau wedi lleihau'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Y brif gronfa 'roeddem yn ei defnyddio oedd cronfa oedd yn cael ei hariannu gydag arian Ewropeaidd. Bellach mae'r gronfa yna wedi dod i ben sy'n golygu nad oes gan Gyngor Gwynedd bot grantiau uniongyrchol i fusnesau. Wedi dweud hynny, mae gennym 2 swyddog sy'n gweithio i gefnogi busnesau i gael mynediad i gronfeydd o wahanol ffynonellau. Mae gennym gronfa fenthyciad i gronfeydd o unrhyw gronfa arall sy'n golygu ein bod yn edrych ar y risg, gan fod yna risg uwch i'r busnesau hynny, ac mae'r cyfraddau llog yn adlewyrchu hynny. Ond ar wahân i'r gronfa fenthyciad, nid oes gennym ni arian uniongyrchol i fusnesau. Mae yna nifer o gronfeydd ar gael i fusnesau yn

genedlaethol, gan Lywodraeth Cymru a gwahanol fudiadau. Yn anffodus, mae hyn yn hynod gymhleth i fusnesau. Mae busnesau angen mynd ar y we a chwilio ac mae'n gymhleth iawn gallu cael mynediad i wybodaeth. Rôl ein swyddogion yw helpu busnesau i gael gafael ar y cymorth mwyaf priodol iddynt hwy. Mae'n amrywio ar draws sectorau, o fusnesau bach i fusnesau mawr i fusnesau gwledig, felly'r cymorth anuniongyrchol yna i helpu busnesau i ddarganfod eu ffordd ydi'r prif gymorth sydd ar gael gan y Cyngor rwan."

### **(3) Cwestiwn gan y Cynghorydd Edgar Wyn Owen**

"Mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi diddymu nifer o grantiau i ysgolion yn ddiweddar. Credaf fod grant dillad ysgol i blant o gefndiroedd difreintiedig a roddir pan fo plentyn yn cychwyn eu haddysg uwchradd yn un o'r rhain. Faint o blant Gwynedd sydd wedi derbyn y grant yma yn y 2 flynedd ddiwethaf ac a oes cynlluniau gan y Cyngor i gynorthwyo'r teuluoedd a fydd yn cael eu heffeithio gan hyn?"

#### **Ateb gan yr Aelod Cabinet Addysg, y Cynghorydd Gareth Thomas**

"Mae'n briodol iawn sôn am y toriadau mae Llywodraeth Cymru yn rhoi ar y grantiau i ysgolion. O lywodraeth sy'n dweud eu bod yn cefnogi addysg, mae'n syndod beth yw maint y toriadau maen nhw'n rhoi ar grantiau, sydd wrth gwrs yn effeithio ar ysgolion. Mae'r grantiau mae'r aelod yn sôn amdanynt i'r bobl fwyaf difreintiedig, sef y plant sy'n cael cinio am ddim, ac 'roedd y grantiau yma yn cynnig £105 i blentyn oedd yn cychwyn ysgol uwchradd, ac fel 'rydw i wedi nodi yn yr ateb, yn 2016/17 roedd 151 o'r plant yma yng Ngwynedd a 174 yn 2017/18. Dyna'r niferoedd, ond y teuluoedd mwyaf difreintiedig ydi'r rhain ac mae'n wrthyn gen i fod y Llywodraeth Lafur wedi torri'r arian yma i'r teuluoedd mwyaf difreintiedig. Ond yr hyn 'rydw i'n falch iawn ohono yw bod y Cyngor yma am barhau hefo'r grantiau yma allan o goffrau'r Cyngor. Mi ddaru ni gyflwyno cais i barhau i gefnogi'r teuluoedd mwyaf difreintiedig yma ac 'rydw i'n hynod falch bod y Cyngor goleuedig yma yn medru parhau hefo'r grantiau."

### **Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Edgar Wyn Owen**

"Beth mae'r Cyngor yn ei wneud i gynorthwyo'r plant yma wrth iddynt fynd yn hyn?"

#### **Ateb gan yr Aelod Cabinet Addysg, y Cynghorydd Gareth Thomas**

"£105 oedd y grant fel 'roedd plentyn yn dechrau'r ysgol uwchradd, ond mae'r Cyngor wedi bod yn cefnogi'r teuluoedd yma fel mae'r plant yn mynd yn hyn yn yr ysgol hefyd drwy gynnig £45 y flwyddyn ar gyfer gwisg ysgol i'r plant. Y Cyngor yma sydd wedi bod yn cynnig y gefnogaeth yma ar hyd y blynyddoedd, nid Llywodraeth Cymru. O ran niferoedd, mae yna 691 o'r plant wedi cael y £45 yn ystod 2016/17 a 636 yn y flwyddyn yma, sy'n gwneud cyfanswm o 842 yn 2016 ac 810 yn 2017. Felly mae dros 800 o blant y flwyddyn yn cael cefnogaeth ariannol tuag at wisg ysgol gan Gyngor Gwynedd a chan Gyngor Gwynedd fydd yr holl arian yn dod yn y dyfodol gan fod y grant wedi ei diddymu."

Ar ddiwedd yr eitem hon, mynegodd y Cynghorydd Owain Williams ei anfodlonrwydd o ddeall nad oedd cwestiwn a gyflwynodd yn swyddfeydd y Cyngor ar y 26ain o Ebrill am gael ei ganiatáu. Nododd hefyd ei fod wedi bwriadu gofyn yr un cwestiwn yn y Grŵp Busnes, ond bod y cyfarfod hwnnw wedi'i ganslo.

Mewn ymateb, cadarnhaodd y Swyddog Monitro fod y cwestiwn wedi'i dderbyn yn swyddfeydd y Cyngor yr wythnos flaenorol, ond trwy amryfusedd, na chafodd ei ddwyn i'w sylw ef tan yn hwyr ar fore'r Cyngor, ac felly nad oedd yn bosib' delio â'r cwestiwn yn y cyfarfod hwn. Ychwanegodd y byddai'n anfon llythyr o ymddiheuriad at yr aelod ac yn cysylltu ag ef i sicrhau bod ei gwestiwn gerbron cyfarfod nesaf y Cyngor ym mis Gorffennaf.

#### **10. PAPUR GWYRDD LLYWODRAETH CYMRU – “CRYFHAU LLYWODRAETH LEOL: CYFLAWNI DROS EIN POBL**

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad yn gwahodd trafodaeth ar gyfres o egwyddorion y dylai'r Cyngor eu mabwysiadu o ran unrhyw drafodaeth i'r dyfodol fel y gellir llunio ymateb i'r papur ymgynghorol sy'n gyson gyda safbwynt y Cyngor.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd:-

- Nad yw'n bosib' i gynghorau cymuned dderbyn rhagor o gyfrifoldebau heb gynyddu eu praeseptau, a byddai hynny, yn ei dro, yn gosod baich ariannol ychwanegol ar deuluoedd sy'n ei chael yn anodd ymdopi yn barod.
- Bod rhai cynghorau cymuned yn debygol o fod yn fwy parod i helpu nag eraill a sut oedd datrys hynny?
- Ei bod yn adeg anodd i wireddu'r cynigion hyn gan fod yna fwy o doriadau a heriau ar y gorwel. Hefyd, 'roedd y broses o uno cynghorau yn gostus ac nid oedd yn glir o ble 'roedd yr arian am ddod ar gyfer hynny.
- Na welwyd tystiolaeth y byddai uno'n well na'r drefn bresennol.
- Ei bod yn drueni nad yw Comisiwn Williams wedi edrych ar y sector gyhoeddus yn ei chyfanrwydd.
- Bod yna farn bod Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn rhy fawr ac mai dyna pam mae'n wynebu gymaint o broblemau. Os uno, dylid gwneud hynny mewn ffordd ystyrlon a pherthnasol i'n trigolion.
- Bod uno cynghorau a chanoli popeth yn amddifadu pobl ar draws Cymru o'r pŵer i wneud penderfyniadau'n lleol ac mai cydweithio rhwng awdurdodau yw'r ffordd ymlaen.
- Bod y ddogfen yn amwys iawn. Gellid dehongli'r cynnwys mewn nifer o ffyrdd gwahanol ac mae angen mwy o gyfeiriad ac i'r amcanion fod yn gliriach.
- Bod y ddogfen yn canolbwyntio ar uno, yn hytrach na chydweithio.
- Bod angen newid radical yn y ffordd mae cynghorau cymuned a thref yn gweithio yng Nghymru gan ystyried pa fath o bwerau sydd eu hangen arnynt ar gyfer gweithredu dros eu cymunedau.
- Pryder ynglŷn ag effaith y toriadau ar y 3ydd sector a'r angen i yrru neges glir at y Comisiwn Ffiniau a'r Llywodraeth i ddweud bod yr amser wedi dod i roi'r gorau i ad-drefnu ac i gydweithio a chanolbwyntio ar bobl o fewn ein cymunedau.
- Bod Cyngor Gwynedd yn barod iawn i wrando i wrando ar lais pobl ifanc.
- Y cefnogir yr egwyddor o uno'n wirfoddol gyda Chyngor Ynys Môn yn hytrach na chael ein gorfodi i uno gyda mwy o gynghorau. Byddai hyn yn arbed arian ac yn osgoi dyblygu gwaith a rhaid cofio hefyd bod gan lawer o'r cynghorau presennol boblogaeth fwy na Gwynedd a Môn gyda'i gilydd.
- Bod yna ddadleuon dros uno cynghorau ac o bosib' y byddai yna arbedion yn deillio o hynny, ond byddai angen gweld tystiolaeth o hynny yn gyntaf.
- Bod yna ormod o orchmynion yn dod o'r canol a dylai'r cynghorau eu hunain gael penderfynu beth yw'r drefn orau, boed yn uno neu gydweithio ag eraill, gan hefyd bennu lefel unrhyw gydweithio.

- Os yw'r llywodraeth yn mynd yn bellach oddi wrth y bobl o ganlyniad i uno cynghorau sir, rhaid sicrhau bod yna haen agosach o lywodraeth, sef y cynghorau cymuned, ond ni chredir y gallent ddygymod â darparu gwasanaethau fel mae pethau ar hyn o bryd. Gan hynny, o bosib' bod cwestiwn o uno yno hefyd.

### **PENDERFYNWYD mabwysiadu'r egwyddorion.**

#### **11. ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Cyflwynodd y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol ei adroddiad blynyddol ar ran y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yng nghyswllt y gefnogaeth i aelodau sydd wedi ei gynnis hyd yma dros gyfnod y Cyngor hwn, ynghyd â'r elfennau sy'n parhau i gael eu datblygu.

Diolchodd y Pennaeth i gadeirydd y pwyllgor, y Cynghorydd Dewi Roberts ac i weddill aelodau'r pwyllgor am eu cefnogaeth a hefyd i'r tîm sy'n cael ei arwain gan y Rheolwr Democratiaeth.

Nododd hefyd fod y gwaith a wneir, a'r ddarpariaeth i gefnogi aelodau yn eu rolau, wedi ei asesu yn annibynnol gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru eleni a'i fod yn falch o adrodd fod Cyngor Gwynedd wedi llwyddo i ennill "Breinlen Cymru ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Cynghorwyr", sy'n cael ei adnabod ar lafar fel Siarter Aelodau.

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, y Cynghorydd Dewi Roberts ychydig eiriau gan ddiolch i'r Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, y Rheolwr Democratiaeth, aelodau'r pwyllgor ac aelodau'r tîm am eu gwaith.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd:-

- Y sylwir bod y ffigurau gwyllo gwe-ddarllodiadau yn dangos bod y cyfarfod arbennig o'r Cyngor ym mis Gorffennaf y llynedd i drafod y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd wedi bod o ddiddordeb neilltuol i'r cyhoedd.
- Nad oedd y diffyg ymateb i e-byst gan swyddogion yn dderbyniol ac y dylai'r protocol ar gysylltiadau aelodau a swyddogion fod yn ei le erbyn hyn.

#### **12. PENODI CADEIRYDD I'R PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Gwahoddwyd y Cyngor i benodi cadeirydd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer 2018/19.

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Dewi Owen yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd am 2018/19.**

#### **13. CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I AELODAU ETHOLEDIG**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd adroddiad yn gofyn i'r Cyngor benderfynu ar yr uwch gyflogau i'w talu am y flwyddyn i ddod a chynigiwyd argymhellion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gan Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, y Cynghorydd Dewi Roberts.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd:-

- Na chredid ei bod yn ddoeth i'r aelodau dderbyn unrhyw godiad cyflog, yn enwedig o ystyried nad oedd y staff wedi cael llawer o godiad yn eu cyflogau hwy. Mewn ymateb, eglurodd y Prif Weithredwr fod y staff yn cael isafswm cynnydd o 2% yn eu cyflogau eleni, gyda'r rhai ar y cyflogau isaf yn derbyn hyd at 9%. 'Roedd yr aelodau yn cael cynnydd o 1.49%. 'Roedd wedi gweld sylw yn ddiweddar a olygai, o gyfrifo'r holl oriau y mae aelodau'n weithio, eu bod, mewn gwirionedd, yn cael eu talu islaw'r isafswm cyflog.
- Bod angen talu cyflogau teg i gynghorwyr, yn enwedig os yw'r Cyngor am ddenu pobl o gefndiroedd difreintiedig i fod yn aelodau.
- Bod yr argymhelliad i bennu'r cyflog dinesig ar gyfer Cadeirydd y Cyngor ar Lefel 1 yn gam yn rhy bell yn yr hinsawdd bresennol a chynigiwyd ac eiliwyd gwelliant i gadw cyflog y Cadeirydd ar Lefel 2. I'r gwrthwyneb, nodwyd bod y Cadeirydd yn cynrychioli'r Cyngor ar bob math o achlysuron pwysig ac felly'n teilyngu cyflog dinesig Lefel 1.
- Ei bod yn beryglus cychwyn rhoi pwysau ar gynghorwyr i gymryd gostyngiad yn eu cyflogau a bod y cynnydd, er yn fychan, yn haeddiannol.
- Bod Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol eu hunain yn dweud, yn ôl yr indecs, y dylai cynghorydd fod ar gyflog sylfaenol o £15,000.
- Nad oedd rhaid i gynghorwyr gadw'r £200 ychwanegol a'i bod yn rhydd i unrhyw un gyfrannu'r swm tuag at weithgareddau yn eu cymuned pe dymument.
- Bod dyletswyddau Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Gofal yn llawer ehangach na'r hyn a restrir yn Atodiad 1.

Pleidleisiwyd ar y gwelliant i gadw cyflog Cadeirydd y Cyngor ar Lefel 2 a chafodd ei dderbyn.

#### **PENDERFYNWYD**

- Parhau i dalu uwch gyflogau i'r 18 rôl a restrir ym mharagraff 2.2 o'r adroddiad.**
- Y dylid pennu'r cyflog dinesig ar gyfer Cadeirydd y Cyngor ar Lefel 2 (£21,800).**
- Y dylid pennu'r cyflog dinesig ar gyfer Is-gadeirydd y Cyngor ar Lefel 2 (£16,300).**

#### **14. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaidd adroddiad ar gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor a materion perthynol.

Cyfeiriodd aelod at y ffaith bod dau o aelodau Grŵp Annibynnol Unedig Gwynedd wedi datgan nad ydynt yn dymuno eistedd ar unrhyw bwyllgorau. Mewn ymateb, eglurodd y Swyddog Monitro fod y seddau'n cael eu cynnig i'r grwpiau, ac os na fydd y seddau hynny wedi'u llenwi ar ôl 3 wythnos, bod modd i'r Cyngor adolygu'r sefyllfa.

#### **PENDERFYNWYD**

- Mabwysiadu'r dyraniad seddau yn unol â'r hyn a nodir yn yr atodiad i'r cofnodion hyn.**
- Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanaeth Democratiaeth wneud penodiadau i'r pwyllgorau ar sail cydbwysedd gwleidyddol ac yn unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol.**
- Mabwysiadu cadeiryddiaethau'r pwyllgorau craffu ar sail cydbwysedd gwleidyddol, fel a ganlyn:**



## **15. ADOLYGIAD O'R CYNLLUN DIRPRWYO CYNLLUNIO**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad yn gwahodd y Cyngor i fabwysiadu addasiadau i'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio Adran 13 Atodiad 3 Rhan 11 Pennaeth Rheoleiddio yn unol â'r hyn a nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd:-

- Y credir bod yr hyn sy'n cael ei gynnig yn rhesymol, ond bod angen sicrhau bod pobl leol yn cael mewnbwn i unrhyw gais cynllunio.
- Pryder bod barn a hawliau'r unigolyn a'r cynghorwyr yn cael eu tanseilio. Mewn ymateb, eglurodd y Swyddog Monitro fod hawl yr aelodau i alw cais i mewn yn parhau.
- Bod rhai ceisiadau'n dod gerbron y Pwyllgor Cynllunio'n ddiangen a dyna pam bod y newidiadau bychain hyn i'r cynllun dirprwyo am wneud gwahaniaeth.
- Nad mater o swyddogion yn cymryd mwy o bwerau ydoedd, eithr mater o reoleiddio'r sefyllfa a bod y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn gofyn i'r swyddogion dderbyn mwy o gyfrifoldebau am resymau effeithlonrwydd.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r addasiadau i'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio Adran 13 Atodiad 3 Rhan 11 Pennaeth Rheoleiddio yn unol â'r hyn a nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.**

## **16. CYNLLUN LLESIANT GWYNEDD A MÔN**

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad yn gwahodd y Cyngor i gymeradwyo Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn.**

## **17. RHYBUDDION O GYNNIG**

(A) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cyngorydd Judith Humphreys o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

**“Mae'r Cyngor hwn yn nodi:**

- **Bod dinasyddiaeth yr Undeb Ewropeaidd yn rhoi'r hawl i unigolion deithio, gweithio, neu astudio yn unrhyw le oddi fewn i'r Undeb Ewropeaidd.**
- **Bod yr ystod o hawliau sydd gan unigolion yr UE yn rhan greiddiol o'u hunaniaeth Ewropeaidd.**
- **Bod miloedd o bobl ar draws Cymru wedi mynegi pryder ynglŷn â'r ffaith bod eu dinasyddiaeth Ewropeaidd yn cael ei gymeryd oddi arnynt o ganlyniad i Refferendwm yr UE 2016 ynghyd â phenderfyniad llywodraeth y DU i adael yr UE.**
- **Bod mwyafrif sylweddol o boblogaeth Gwynedd wedi pleidleisio i Aros yn yr Undeb Ewropeaidd.**
- **Bod astudiaeth a ryddhawyd gan Jill Evans ASE ac sydd wedi ei chynnal gan Yr Athro. Volker Roeben o Brifysgol Abertawe sy'n dwyn y teitl**

**“Dichonolrwydd Dinasyddiaeth Gysylltiol yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer Dinasyddion y DU ar ôl Brexit.”/ “The Feasibility of Associate EU Citizenship for UK Citizens Post-Brexit**

**Mae'r Cyngor hwn yn nodi prif ganfyddiadau'r adroddiad hwn hefyd:**

- **Bod parhau â Dinasyddiaeth yn yr Undeb Ewropeaidd yn bosibl i ddinasyddion Cymru, Yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr o dan gyfraith Ewropeaidd a chyfraith Ryngwladol gyfredol.**
- **Y gellid cyflawni hyn drwy ddeddfwriaeth UE a'r cytundeb ymadael rhwng y DU a'r UE.**
- **Na fydd angen adolygu unrhyw gytundebau Ewropeaidd er mwyn cyflawni hyn.**
- **Bod cyfraith dinasyddiaeth y DU yn hyblyg ac yn derbyn yr egwyddor na ddylai unrhyw un golli ei ddinasyddiaeth yn erbyn ei h/ewylllys**

**Mae'r Cyngor yn croesawu:**

**Bod cynnig Plaid Cymru yn galw ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod hawliau dinasyddion y DU i ddinasyddiaeth yr UE yn cael ei gadw wedi ei basio gan Dŷ'r Cyffredin.**

**Mae'r Cyngor yn galw ar:**

- **Lywodraeth y DU i roi cynnig o Ddinasyddiaeth Gysylltiol yr Undeb Ewropeaidd gerbron yn ystod trafodaethau Brexit.**
- **Lywodraeth Cymru i fynnu drwy'r Cydbwyllgor Gweinidogion (Trafodaethau Ewropeaidd) bod Llywodraeth y DU yn cynnwys Dinasyddiaeth Gysylltiol yr UE fel rhan o'i safiad negydu.”**

Yn ystod y drafodaeth, mynegwyd cefnogaeth i'r cynnig gan nifer o'r aelodau ar y sail eu bod yn teimlo bod ganddynt hunaniaeth Ewropeaidd a hawl fel dinesyddion Ewrop i deithio ac astudio yn Ewrop a chael eu diogelu gan hawliau Ewrop, a'u bod yn anfodlon i'r hawliau hynny gael eu tynnu oddi arnynt.

Nododd eraill, er nad oedd ganddynt wrthwynebiad i'r cynnig fel y cyfryw, nad oeddent yn credu ei fod yn mynd i newid unrhyw beth.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig.**

(B) Cyn cychwyn trafod yr eitem hon, cyflwynodd y Cyngorydd Jason Parry ddeiseb i'r Cadeirydd. Diolchodd y Cadeirydd i'r aelod am y ddeiseb gan nodi y byddai'n ei throsglwyddo i'r adran berthnasol.

Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cyngorydd Alwyn Gruffydd o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

**“Bod y Cyngor hwn yn gofyn i Gabinet y Cyngor ail-ystyried dyfodol Gwasanaeth Ieuencid y Sir gan ragdybio o blaid cynnal clybiau ieuencid a pharhau gyda'r cymorth ariannol traddodiadol i fudiadau gwirfoddol megis yr Urdd a Mudiad y Ffermwyr Ifanc.”**

Nododd cynigydd y rhybudd o gynnig ymhellach:-

- Ei fod yn cyflwyno'r cynnig yn sgil penderfyniad y Cabinet i gau holl glybiau ieuencid Gwynedd a gosod trefn sirol newydd yn ei le, nad sydd wedi ei brofi'n hyfyw nac o unrhyw werth.
- Y byddai'r clwb sirol yn golygu colli arbenigedd gweithwyr ieuencid profiadol a chynyddu'r swyddogion llawn amser canolog o'r 5 presennol i bron i 20.
- Ei bod yn ymddangos bod yr ymgynghoriad gyda'r bobl ifanc yn annyls, ac o bosib' yn anghyfreithlon gan na soniwyd ynddo am y posibilrwydd o gau'r clybiau presennol.
- Bod yr ymgynghoriad gyda'r cynghorau cymuned wedi bod yn annigonol, gyda rhai yn cael eu hamddifadu o unrhyw ohebiaeth ar y mater o gwbl.
- Os bu angen dychwelyd ac ail-ystyried unrhyw bolisi erioed, mai hwn ydoedd.
- Bod y Cyngor yn fodlon cadw clybiau yn agored ar yr amod bod cyfraniad yn cael ei wneud tuag at hynny gan y cynghorau cymuned, ond na welai bod gan y gwasanaeth sirol newydd unrhyw ffydd bod hynny am lwyddo.
- Nad oedd yna gofnod o drafodaethau anffurfiol gyda'r heddlu ac asiantaethau sy'n ymwneud â thor-cyfraith wrth lunio'r model sirol newydd.
- Ei fod yn pryderu bod y drefn newydd yn gwahaniaethu ac yn creu system elitaidd ac yn mynd yn erbyn delfrydau sylfaenwyr y gwasanaeth.
- Bod y Cyngor yn ymhyfrydu yn llwyddiannau pobl ifanc y sir yn Eisteddfodau'r Urdd ac Eisteddfod y Ffermwyr Ifanc, felly beth oedd y cyfiawnhad dros arbed ychydig arian rhag mynd i'r mudiadau hynny?
- Bod cyfraniad y mudiadau hyn i hyfywdra'r Gymraeg yn ein cymunedau ac i sefydliad y Siarter Iaith wedi bod yn allweddol, ac y byddai'n flaengar ymestyn y Siarter i'r clybiau ieuencid hefyd.
- Bod y ddeiseb a dderbyniwyd yn dangos bod dros 6000 o bobl yn anfodlon gyda'r newidiadau i'r gwasanaeth.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd:-

- Ei bod yn hanfodol bod y Cabinet yn ail-ystyried gan fod y plant a'r bobl ifanc yn magu hyder o fewn y mudiadau hyn.
- Bod y gwasanaeth yn cyflawni swyddogaeth hanfodol a bod cau'r clybiau ieuencid yn ymosodiad ar genedlaethau'r dyfodol.
- Nad oedd yn briodol cael y clybiau hyn yn yr ysgolion a bod angen adeiladau ar eu cyfer.
- Oni allai'r 11,000 o fyfyrwyr ym Mangor, sy'n cyfrannu dim i goffrau'r Cyngor, gyfrannu mewn rhyw ffordd, e.e. drwy gynnydd yn eu rhenti?
- Bod pawb eisiau sicrhau'r gwasanaeth gorau bosib' o fewn yr hinsawdd anodd.
- Bod angen teilwrio'r model newydd i ateb gofynion pobl ifanc Gwynedd a chymunedau amrywiol iawn Gwynedd. Hefyd, gan fod yna ddwy adain o waith dan sylw, 'roedd angen model sy'n cadw lle i'r traddodiadol yn y model newydd ac yn sicrhau bod yr holl bwyslais yn gywir. Gan gydnabod y pryderon, cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant i'r cynnig oedd yn mynd i fwy o fanylder na'r cynnig gwreiddiol, ond ei fod yn yr un ysbryd, sef:-

**“Bod y Cyngor hwn hefyd yn gofyn i Gabinet y Cyngor ail-ystyried elfennau penodol o'r model newydd ar gyfer Gwasanaeth Ieuencid y Sir a hynny oherwydd ein pryderon ar 3 chyfrif:-**

- 1) y newid pwyslais o'r cymunedol i les unigolion
- 2) yr effaith ar ardaloedd mwyaf difreintiedig y sir
- 3) yr effaith ar yr iaith Gymraeg

**Gofynnwn felly i'r Cabinet gynnal trafodaethau brys, hynny erbyn diwedd y mis hwn, os yn bosib', gyda phob un o'r cynghorau tref, cymuned a dinas ynghyd ag**

asiantaethau perthnasol eraill. Diben hynny fyddai edrych ar ffyrdd o gydweithredu er mwyn ariannu parhad cynifer â phosib' o glybiau ieuenctid y sir, lle dymunir hynny, tros y cyfnod traws-ffurfiannol ac er mwyn rhoi cymorth priodol i'r mudiadau ieuenctid gwirfoddol a fu'n derbyn nawdd tan yn ddiweddar.

**Gofynnwn hefyd i'r Cabinet gynnal asesiad ieithyddol o effaith yr ad-drefnu ac asesiad o'i effaith gymunedol ar ardaloedd mwyaf difreintiedig y sir."**

Yn ystod y drafodaeth ar y gwelliant, nodwyd:-

- Y pryderid bod y gwelliant yn ymgais i lastwreiddio'r cynnig a gwthio'r mater i un ochr yn y gobaith y byddai'n cael ei anghofio amdano.
- Dylid cael gwasanaeth sy'n briodol ar gyfer anghenion y bobl ifanc a bod y clybiau ieuenctid yn rhoi'r cyfle i bobl ifanc ddod ynghyd i gymdeithasu ac adeiladu cysylltiadau gydag ystod eang o bobl ifanc ar draws y gymdeithas ac yn gyfle hefyd i warchod iaith a diwylliant y gymuned.
- Bod y penderfyniad i ddifa'r gwasanaeth wedi'i sleifio i mewn drwy'r drws cefn.
- Y gofynnwyd i'r cynghorau cymuned a thref am gyfraniadau wedi iddynt osod eu praeseptau ar gyfer 2018/19 ac ar adeg pan mae eu cyllidebau hwythau'n dynn.
- Mai'r clybiau ieuenctid yw calon y Gwasanaeth Ieuenctid yng Ngwynedd.
- Bod gan yr aelodau rôl i gynrychioli pobl yn eu cymunedau, ac o sgwrsio gyda phobl yn lleol, ei bod yn amlwg nad oedd yna ddymuniad am glwb ar ôl ysgol.
- Yn sgil y penderfyniad anodd yn 2016 bod angen torri £270,000 oddi ar y gwasanaeth, mai'r dewis oedd ail-fodelu neu gau'r mwyafrif o'r clybiau.
- Bod yr adran wedi ymgynghori'n eang ar y cynigion, gan ofyn i'r bobl ifanc beth sy'n bwysig iddynt, ac wedi ymateb i hynny drwy gynnig rhaglen o weithgareddau.
- Y byddai'r trefniadau newydd ar gael i'r bobl ifanc drwy gydol y flwyddyn ymhob cwr o'r sir ac felly'n rhagori ar y ddarpariaeth bresennol, lle nad oedd gan fwyafrif y bobl ifanc fynediad i glybiau ieuenctid yn eu pentrefi.
- Bod nifer o gynghorau cymuned eisoes wedi penderfynu, neu'n ystyried, cynnal clybiau'n lleol.
- Y credid bod y gwelliant yn gyfaddawd rhesymol sy'n cryfhau, yn hytrach nag yn glastwreiddio, y cynnig gwreiddiol.
- Y cydnabyddir bod y Cyngor yn y sefyllfa sydd ohoni oherwydd methiant Llywodraethau San Steffan a Chymru i drosglwyddo'r cynnydd yn y grant i'r cynghorau.
- Y byddai'r trefniadau newydd yn golygu y byddai yna glybiau traddodiadol yn rhedeg ochr yn ochr â'r model newydd ac yn rhoi cyfle i gynghorau cymuned gymryd cyfrifoldeb dros yr hyn sy'n digwydd yn eu cymunedau eu hunain.
- Bod hyn yn gyfle i'r aelodau nad oeddent yn rhan o'r penderfyniad yn 2016 i gael rhoi eu barn. Ni fu sôn am gau clybiau pan 'roedd yr aelodau'n canfasio adeg etholiadau 2017 ac 'roedd yn ymddangos hefyd nad oedd rhai o'r swyddogion ieuenctid eu hunain yn ymwybodol bod hyn yn yr arfaeth. Ni chredid chwaith y bu sôn am gau'r clybiau ar yr adeg y rhoddwyd cyflwyniad ar y cynigion newydd i'r fforymau ardal ym mis Rhagfyr y llynedd.
- Er y pryder y byddai llawer o'r bobl ifanc sy'n mynychu'r clybiau ieuenctid yn yr ardaloedd difreintiedig ar hyn o bryd yn debygol o ddatgysylltu â chymdeithas yn gyffredinol gan fod y clwb yn cynnig lloches iddynt oddi wrth alcohol, cyffuriau, ac mewn rhai achosion, trais yn y cartref, y croesawir y trafodaethau sy'n mynd rhagddynt gyda'r cynghorau cymuned i sicrhau gwasanaeth traddodiadol yn ychwanegol i egwyddorion eraill y model.

- Rhaid cydnabod nad yw'r gwasanaeth presennol am fod yn gynaliadwy i'r dyfodol oherwydd y sefyllfa ariannol sy'n ein hwynebu a'i fod yn anaddas i gyfarch anghenion pobl ifanc ym mhob cymuned o'r sir a phobl ifanc o bob oedran rhwng 11 a 25.
- Mai 14% yn unig o bobl ifanc y sir sy'n defnyddio'r gwasanaeth ar hyn o bryd. Wedi siarad â'r bobl ifanc, 'roedd yn amlwg nad oedd y gwasanaeth presennol yn apelio atynt, yn enwedig y bobl ifanc hŷn yn yr ystod oedran 16-25, a'u bod yn awyddus i gael mynediad at weithwyr ieuenctid drwy gydol yr wythnos, drwy'r ysgol ac yn eu cymunedau ar benwythnosau ac yn y gwyliau ysgol.
- Mai'r bobl ifanc yw calon y gwasanaeth ieuenctid, ac nid adeiladau.
- Nad oedd yn deg dweud y byddai'r model newydd yn difa'r gwasanaeth.
- Byddai aros gyda'r drefn bresennol yn golygu y byddai'n rhaid cau rhai clybiau'n gyfan gwbl tra byddai'r model newydd yn arwain at gynnal gweithgareddau ymhob cymuned.
- Y dymunid diolch i'r mudiadau trydydd sector am gynnal trafodaethau gyda'r Cyngor ac i'r Gwasanaeth Adfywio am eu cymorth i'r mudiadau hefyd.
- Y golygai'r gwelliant wneud asesiad teg o effaith y model newydd ar yr iaith Gymraeg, a thrwy gyflogi mwy o weithwyr llawn amser, byddai gan y Cyngor fwy o reolaeth ar y gweithgareddau, a mawr hyderid y byddai'r Gymraeg yn gryfach o fewn yr hyn y bydd y gwasanaeth yn ei gynnig.
- Bod y gwasanaeth presennol yn cyrraedd llai na 25% o'r bobl ifanc a bod y gwrthwynebwyr yn ceisio amddiffyn y lleiafrif. I'r gwrthwyneb, 'roedd y gwelliant yn cynnig cynllun newydd fydd yn cyrraedd llawer mwy na 25% o'r bobl ifanc.
- Mai mater i'r aelodau oedd cadw'r clybiau yn agored yn eu wardiau eu hunain.
- Y credid y byddai'r gwelliant yn gwneud cyfiawnder â'r Urdd a Mudiad y Ffermwyr Ifanc.
- Y pryderid y byddai cau'r clybiau yn arwain at blant a phobl ifanc heb ddim i'w wneud yn cicio sodlau ar gorneli strydoedd ac yn cyflawni mân droseddau.
- Y pryderid bod y Cyngor wedi methu cysylltu'n gywir ac yn amserol gyda'r cynghorau cymuned i esbonio beth oedd ar fin digwydd, ond bod y gwelliant yn cynnig ffordd i fynd yn ôl at y cynghorau cymuned i drafod ymhellach.
- Bod pobl ifanc yn cael cymorth gyda phroblemau personol yn y clybiau.
- Bod angen llawer o arbenigedd y dyddiau hyn i weithio gyda phobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl, ac oherwydd hynny, bod angen hyfforddiant, swyddi proffesiynol a chefnogaeth, ac ati. Mae'r bobl ifanc angen bob cymorth y gellir ei roi iddynt ac mae'r model newydd yn gyfle i wneud hynny.
- Hyd yn oed pe na fyddai yna angen am doriad ariannol, byddai'r Cyngor wedi gorfod edrych ar y maes hwn a bu sôn yn ôl yn 2007 bod angen trawsnewid y gwasanaeth i gwrdd â gofynion pobl ifanc yn yr unfed ganrif ar hugain.
- Y credir bod yna glybiau ieuenctid presennol sy'n tanseilio polisi iaith y Cyngor a bod y drefn newydd yn mynd i atgyfnerthu'r polisi iaith.
- Y dylid, o gael y drefn newydd, fod yn adolygu'r sefyllfa yn rheolaidd ac yn cymryd sylw o unrhyw bryderon gan edrych oes sail i'r pryderon hynny.
- Na ddymunir cael sefyllfa o ddryswch ac oedi a bod y gwelliant yn cyfeirio at drafodaethau brys er mwyn cyrraedd y lle gorau ar gyfer plant a phobl ifanc.
- Bod y gwasanaeth yn gweithio i ddiogelu dyfodol y clybiau mae pobl yn dymuno eu cadw'n agored.
- Bod y model newydd positif ac arloesol wedi'i lunio gan swyddogion sydd â phrofiad blynyddoedd o weithio yn y maes.

Galwyd am bleidlais gofrestredig ar y gwelliant a phleidleisiodd mwy na chwarter yr aelodau oedd yn bresennol o blaid hynny.

Yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn, cofnodwyd y bleidlais ganlynol ar y gwelliant:-

### **O blaid (39)**

Y Cynghorwyr Craig ab Iago, Menna Baines, Dylan Bullard, Steve Collings, Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Aled Evans, Simon Glyn, Gareth Griffith, Selwyn Griffiths, Annwen Hughes, Sian Wyn Hughes, Judith Humphreys, Nia Jeffreys, Peredur Jenkins, Aled Wyn Jones, Berwyn Parry Jones, Charles W. Jones, Elin Walker Jones, Huw Wyn Jones, Linda A.W. Jones, Cai Larsen, Beth Lawton, Dafydd Meurig, Linda Morgan, Dafydd Owen, Edgar Wyn Owen, Rheinallt Puw, Gareth A. Roberts, Mair Rowlands, Paul Rowlinson, Dyfrig Siencyn, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Catrin Wager, Cemlyn Williams, Elfed Williams, Gethin Glyn Williams a Gruffydd Williams.

### **Yn erbyn (30)**

Y Cynghorwyr Freya Bentham, Stephen Churchman, R. Glyn Daniels, Anwen Davies, Dylan Fernley, Peter Garlick, Alwyn Gruffydd, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, R. Medwyn Hughes, Aeron M. Jones, Anne Lloyd Jones, Elwyn Jones, Keith Jones, Kevin Morris Jones, Sion Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Dilwyn Lloyd, Dewi Owen, W. Roy Owen, Jason Parry, Dewi Roberts, Elfed Roberts, John Pughe Roberts, Angela Russell, Mike Stevens, Hefin Underwood, Eirwyn Williams, Gareth Williams ac Owain Williams.

### **Atal (1)**

Y Cynghorydd Annwen Daniels

Gan i'r gwelliant gael ei dderbyn, eglurodd y Swyddog Monitro fod y cynnig wedi newid a bod angen pleidlais bellach gyda geiriad y gwelliant yn hytrach na'r geiriad gwreiddiol. Pleidleisiodd mwyafrif o blaid y cynnig.

**PENDERFYNWYD bod y Cyngor hwn hefyd yn gofyn i Gabinet y Cyngor ailystyried elfennau penodol o'r model newydd ar gyfer Gwasanaeth Ieuenctid y Sir a hynny oherwydd ein pryderon ar 3 chyfrif:-**

- 1) **y newid pwyslais o'r cymunedol i les unigolion**
- 2) **yr effaith ar ardaloedd mwyaf difreintiedig y sir**
- 3) **yr effaith ar yr iaith Gymraeg**

**Gofynnwn felly i'r Cabinet gynnal trafodaethau brys, hynny erbyn diwedd y mis hwn, os yn bosib', gyda phob un o'r cynghorau tref, cymuned a dinas ynghyd ag asiantaethau perthnasol eraill. Diben hynny fyddai edrych ar ffyrdd o gydweithredu er mwyn ariannu parhad cynifer â phosib' o glybiau ieuenctid y sir, lle dymunir hynny, tros y cyfnod traws-ffurfiannol ac er mwyn rhoi cymorth priodol i'r mudiadau ieuenctid gwirfoddol a fu'n derbyn nawdd tan yn ddiweddar.**

**Gofynnwn hefyd i'r Cabinet gynnal asesiad ieithyddol o effaith yr ad-drefnu ac asesiad o'i effaith gymunedol ar ardaloedd mwyaf difreintiedig y sir."**

Nododd cynigydd y cynnig gwreiddiol fod ei gynnis yn gofyn yn syml i'r Cabinet ailystyried eu penderfyniad a dyna'n fras oedd yn y gwelliant hefyd. Yn hynny o beth, nid oedd ganddo wrthwynebiad i'r gwelliant gan ei fod yn cael ei gwmpasu o fewn ei gynnis. Rhybuddiodd, fodd bynnag, y byddai'n cadw llygaid barcud ar y sefyllfa ac yn dod â'r mater yn ôl gerbron y Cyngor pe na fyddai'r Cabinet yn rhoi ystyriaeth ddwys i hyn, gan ragfarnu yn erbyn cau clybiau ieuenctid a rhagfarnu hefyd yn erbyn peidio rhoi arian tuag at y mudiadau gwirfoddol.

(C) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Catrin Wager o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

**“Mae'r Cyngor hwn yn cydnabod fod eitemau hylendid misglwyf yr un mor hanfodol â phapur toiled ar gyfer hylendid personol disgyblion benywaidd, ac yn croesawu'r cyllid refeniw a gynnigir gan Lywodraeth Cymru i ddarparu nwyddau hylendid am ddim mewn ysgolion. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn nodi nad yw'r £29,497 o gyllid a gynnigir ar gyfer 2017/18 yn debygol o gwrdd â chost y ddarpariaeth yng Ngwynedd. Mae'r Cyngor felly yn gofyn i'r Aelod Cabinet Addysg ymchwilio i'r costau sydd ynghlwm â hyn, a'r ffordd orau o ddarparu eitemau hylendid am ddim i ferched oedran ysgol, gan sicrhau bod modd i ferched ifanc Gwynedd gael gafael ar eitemau hylendid hanfodol heb embaras, waeth beth fo'u hincwm teuluol.”**

Mynegwyd cefnogaeth i'r cynnig gan nifer o'r aelodau ar y sail bod merched ifanc yn teimlo'n hynod swil am godi'r pwnc a bod yn well ganddynt fynd adref o'r ysgol yn hytrach na gofyn i'r athrawon am eitemau hylendid misglwyf. Mynegwyd gobaith y byddai arian ar gael hefyd ar gyfer offer gwaredu priodol.

Nododd yr Aelod Cabinet Addysg y byddai'n barod iawn i edrych i mewn i'r mater hwn ynghyd â'r gwaith ymchwil manwl a gyflawnwyd gan y cynigydd.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00yp a daeth i ben am 5.00yp.

---

**CADEIRYDD**

## ATODIAD

A	Plaid Cymru	Annibynnol	Llais Gwynedd	Llafur Rhyddfrydol	A G
Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi	10	5	2	0	1
Pwyllgor Craffu Cymunedau	10	5	2	1	0
Pwyllgor Craffu Gofal	10	5	1	0	1
Archwilio a Llywodraethu	10	5	1	1	1
B	Plaid Cymru	Annibynnol	Llais Gwynedd	Llafur Rhyddfrydol	A G
Gwasanaethau Democrataidd	8	5	1	0	1
Cynllunio	8	4	1	1	1
Trwyddedu Canolog Iaith	8	4	1	1	0
Penodi Prif Swyddogion	8	5	1	0	1
Apelau Cyflogaeth	4	2	1	0	0
<b>Nifer y seddau</b>	<b>84</b>	<b>45</b>	<b>13</b>	<b>4</b>	<b>6</b>
C	Plaid Cymru	Annibynnol	Llais Gwynedd	Llafur Rhyddfrydol	A G
Pensiynau	4	2	0	1	0
Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol	6	3	1	0	1
CYSAG	4	3	0	0	0
Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y cyd	5	2	1	0	0
<b>Cyfanswm y seddau</b>	<b>103</b>	<b>55</b>	<b>15</b>	<b>5</b>	<b>7</b>



## ADRODDIAD I'R CYNGOR LLAWN

<b>DYDDIAD</b>	<b>12fed Gorffennaf 2018</b>
<b>AELOD CABINET</b>	<b>CYNGHORYDD DILWYN MORGAN</b>
<b>TEITL YR ADRODDIAD</b>	<b>ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL RHIANT CORFFORAETHOL 2017-18</b>
<b>AWDUR</b>	<b>MARIAN PARRY HUGHES PENNAETH ADRAN PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD</b>

### Adroddiad Blynyddol Panel Rhiant Corfforaethol Gwynedd

2017-18

#### **Cyflwyniad**

Cyflwynir yr adroddiad hwn i amlygu rôl a chyfrifoldebau'r Cyngor i weithredu fel rhieni corfforaethol ar gyfer plant mewn gofal, i rannu gwybodaeth am weithrediad y panel dros y flwyddyn ddiwethaf ac i amlinellu bwriadon y panel ar gyfer y dyfodol. Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth gyfredol am niferoedd a phatrymau ym maes plant mewn gofal.

#### **1.0 Rôl a Chyfrifoldebau'r Cyngor**

Mae Panel Rhiant Corfforaethol wedi ei sefydlu yng Ngwynedd fel ymhob sir arall yng Nghymru fel ffordd i gadw trosolwg o les a buddiannau plant mewn gofal. Mae disgwyliad gan Lywodraeth Cymru y bydd aelodau a staff pob awdurdod lleol yn ymagweddu'n gadarnhaol i rôl rhiantu corfforaethol. Yn 2009 rhyddhaodd Llywodraeth Cymru ar y cyd gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol, ddogfen o'r enw 'Pe bai'n blentyn i mi...' sy'n amlygu rôl a chyfrifoldeb aelodau fel rhieni corfforaethol.

Ynghlwm â rôl y rhiant corfforaethol mae disgwyliad y bydd y rhiant yn:

- Adnabod eu plant, eu hanghenion, eu talentau a'u breuddwydion ac yn hyrwyddo eu buddiannau
- Dal uchelgais ar gyfer eu dyfodol ac yn disgwyl y gorau ganddynt ac ar eu cyfer
- Cymryd diddordeb yn eu llwyddiannau a dangos balchder yn eu llwyddiannau a'u dathlu gyda hwy
- Gwrando ar eu barn a sicrhau bod y farn yn dylanwadau ar ymarfer, datblygiadau gwasanaethau a pholisïau
- Sicrhau eu bod yn rhan o gynllunio eu bywydau
- Cydnabod, cefnogi a pharchu eu hunaniaeth ymhob ffordd.
- Hyrwyddo a chefnogi cyflawniad academiaidd uchel
- Cefnogi eu gwydnwch iechyd a lles emosiynol

- Cefnogi eu siwrne o fod yn blant i oedolion a hyrwyddo eu potensial economaidd a'u paratoi i fod yn drigolion cyfrifol.
- Sicrhau fod y plant a'r bobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth y Cyngor a phartneriaid y Cyngor drwy gyfnodau heriol iawn yn eu bywydau.

Er mwyn cynnal y rôl yma mae'r Cyngor wedi sefydlu Panel Rhiant Corfforaethol sy'n cynnwys y person ifanc sydd wedi bod mewn gofal, yr Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd, Arweinydd y Cyngor, Aelodau Cabinet perthnasol a rhiant maeth. Mae'r Panel hefyd yn cynnwys y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaeth Cymdeithasol, Pennaeth yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd a'r Pennaeth Addysg, ynghyd â chynrychiolaeth ar lefel Uwch Reolaethol o'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Economi a Chymuned. Drwy'r Panel mae'r Cyngor, sef yr holl aelodau etholedig, yn dirprwyo eu cyfrifoldeb yn y maes i'r Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd. Mae gan y Panel yr hawl i ofyn i faterion sy'n achosi pryder iddynt gael eu craffu gan y Pwyllgor Craffu perthnasol ar eu rhan.

Yn ymarferol o ddydd i ddydd, mae'r gwaith o weithredu yn y maes i sicrhau fod y Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau a dyletswyddau statudol tuag at blant mewn gofal yn eistedd gyda'r Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd drwy'r timau gwaith cymdeithasol. Mae'r Pennaeth Adran yn atebol i Gyfarwyddwraig Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Defnyddir y term 'rhiantu corfforaethol' i ddisgrifio'r cyfrifoldeb ar y cyd sydd gan y Cyngor a'i bartneriaid i sicrhau gofal effeithiol, diogel ac addas ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gofal, yn ogystal â'r rhai sydd wedi gadael gofal. Oherwydd bod plant mewn gofal mewn risg uwch o gael eu heithrio yn gymdeithasol o gymharu â'u cyfoedion nad ydynt mewn gofal, mae'n hanfodol fod y Cyngor, fel rhiant corfforaethol, yn sicrhau bod y profiad o fod mewn gofal yn un cadarnhaol a chefnogol. Rôl y Panel Rhiant Corfforaethol yw gweithio i sicrhau fod yr hyn a nodir yn cael ei ddiwallu.

### **1.1 Hyfforddiant i Aelodau**

Mae hyfforddiant rhiantu corfforaethol yn cael ei ddarparu yn flynyddol i aelodau ac fe gynhaliwyd gweithdy i godi ymwybyddiaeth a hyfforddi aelodau ar Ionawr 10fed 2018. Cafwyd adborth cadarnhaol o'r gweithdy a'r bwriad yw i ail adrodd yr un gweithdy i'r aelodau nad oedd yn bresennol yn ystod y flwyddyn i ddod. 2016/17. Trafodwyd nifer o faterion yn ystod y gweithdy gan gynnwys rhinweddau rhiant da; beth yn union yw'r ddealltwriaeth sydd yn bodoli o'r rôl rhiant corfforaethol; ymarferion i greu ymwybyddiaeth o brofiadau plant mewn gofal; sut gellid arfogi aelodau'r panel gyda'r wybodaeth berthnasol er mwyn gofyn y cwestiynau iawn. Tynnwyd sylw at Strategaeth Rhiantu Corfforaethol Cyngor Gwynedd ar gyfer 2017-20.

### **1.2 Strategaeth y Panel ar gyfer 2017-20**

Yn ystod 2017 datblygwyd a chyhoeddwyd Strategaeth Rhiantu Corfforaethol Cyngor Gwynedd ar gyfer y cyfnod 2017-20. Mae'r strategaeth bresennol yn disodli'r un oedd yn bodoli yn flaenorol, ac mae yn canolbwyntio ar weithredu fel rhieni i sicrhau fod plant a phobl ifanc sydd mewn gofal ac wedi gadael gofal y Cyngor yn cael y cyfleoedd gorau. Derbyniwyd a

mabwysiadwyd y strategaeth gan y Panel yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2017. Cafwyd mewnbwn pwysig iawn gan berson ifanc oedd wedi bod mewn gofal, ac mae'r strategaeth yn cychwyn gyda'i negeseuon am yr hyn y dylem fel aelodau a swyddogion fod yn ymwybodol ohono wrth ddarparu gofal. Mae yn llythyr pwerus a thrawiadol, ac mae wedi gosod y sail ar gyfer y strategaeth. Bu i'r Panel adnabod yr angen i fod yn llawer mwy gweithredol yn eu rôl o sicrhau'r cyfleoedd gorau i blant a phobl ifanc ac i dreiddio yn ddyfnach i rai o'r materion, er enghraifft addysg, iechyd, lles emosiynol, sefydlogrwydd ac yn y blaen. Yn sgil y strategaeth mae pum gweithgor wedi ei sefydlu ac yn cael eu harwain gan aelodau'r panel ac maent yn edrych ar faterion penodol o ran safon ac ansawdd gwasanaethau gan roi pwysau ar farn rhieni, gofalmwyr a phlant a phobl ifanc am y gefnogaeth a'r gwasanaeth y maent yn ei dderbyn. Mae'r gweithgору yn adrodd yn ôl i'r Panel Rhiantu Corfforaethol ar ganlyniad eu gwaith ac yn adnabod meysydd sydd angen gwaith pellach neu angen eu cryfhau. Y nod o weithredu o dan drefn wahanol yw ein bod yn rhoi'r plentyn yn ganolog i holl weithrediad y panel, ac o hynny daw gwell dealltwriaeth o rôl rhiant corfforaethol a gwell dealltwriaeth o brofiadau plant a phobl ifanc. Bydd modd adnabod unrhyw rwystrau y maent yn dod ar eu traws mewn unrhyw elfen o'u bywydau a gweithredu i symud y rhwystrau hynny i orau ein gallu gyda chefnogaeth ein partneriaid.


Un mater o bwys a dderbyniodd sylw yng nghyfarfod Ebrill 2018 o'r panel oedd argymhelliad i ystyried eithriad treth Cyngor i'r rhai sydd yn gadael gofal. Rhoddwyd sylw i'r mater gan Gomisiynydd Plant Cymru yn dilyn ei hadroddiad 'Breuddwydion Cudd' gyda'r bwriad o osgoi sefyllfaoedd ble mae pobl ifanc sydd yn ceisio sefydlu eu hunain yn annibynnol ar ôl gadael gofal yn mynd i ddyledion treth Cyngor. Cytunwyd mewn egwyddor i'r argymhelliad a bydd adroddiad yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet yn fuan ar gyfer penderfyniad ar yr argymhelliad.

## 2 Y sefyllfa gyfredol


Cyflwynir y wybodaeth isod ar sail ffigyrau diwedd chwarter 4 eleni, sef diwedd Mawrth 2018, gan gynnwys ffigyrau cymharol o'r tair blynedd flaenorol.

Plant mewn gofal	2017/18	2016/17 (at ddiwedd Ch3)	2015/16	2014/15
Nifer o blant mewn gofal ar ddiwedd y chwarter	227	220	207	194
Nifer o blant wedi dod i ofal yn ystod y flwyddyn	49	53	68	64
Nifer o blant wedi gadael gofal yn ystod y flwyddyn	40	44	52	56
Nifer o blant wedi eu mabwysiadu yn ystod y flwyddyn	9	5	9	5

### 2.1 Tuedd y nifer o blant mewn gofal yng Ngwynedd




Mae tuedd 6 mlynedd yn dangos cynnydd o 11.8% yn y nifer o blant mewn gofal dros y cyfnod. Wrth edrych ar ddadansoddiad o'r math o leoliadau dros y cyfnod hwn, gellir gweld bod y cynnydd o ganlyniad i fwy o blant mewn gofal sydd wedi lleoli gyda'u rhieni. Mae'r mathau eraill o leoliadau wedi unai aros yn gyson neu wedi gostwng.



Mae'r patrwm o gynnydd sylweddol felly o ganlyniad i'r nifer o blant sydd mewn lleoliadau gyda'u rhieni yn unol â Rheoliadau Lleoli Plant gyda'u Rhieni, Deddf Plant 1989. Mae meini prawf ar gyfer niwed arwyddocaol wedi ei brofi yn yr achosion hyn, ac yn sgil hynny mae'r plant yn dod yn destun Gorchmynion Gofal, sydd yn rhoi cyfrifoldeb rhiant i'r Cyngor drwy'r llysoedd. Mae'r achosion hyn yn arferol yn rhai o risg uchel, ond mae cynsail cydweithio wedi ei osod rhwng y Cyngor a'r rhieni sydd hyn golygu fod modd rheoli risgiau er mwyn cadw plant adref gyda'u rhieni a diwallu un o brif egwyddorion Deddf Plant 1989, sef i sicrhau fod plant yn cael eu magu yn eu teuluoedd eu hunain.


## 2.2 Ystod oed Plant mewn Gofal, Gwynedd 31/3/2018



### 2.3 Lleoliadau Plant mewn Gofal

O'r cyfanswm plant mewn gofal mae 145 (64%) mewn lleoliadau maeth, 12 (5%) mewn lleoliadau preswyl a 58 (25.6%) wedi ei lleoli gyda'u rhieni. Roedd 4 o blant mewn lleoliadau mabwysiedig ar ddiwedd y chwarter gyda 8 person ifanc yn byw yn annibynnol gyda chefnogaeth.

### Lleoliadau Plant Mewn Gofal 31/3/2018



#### 2.4 Lleoliadau Daearyddol

Ar ddiwedd y flwyddyn roedd 52 (22%) o blant mewn gofal wedi eu lleoli tu allan i Wynedd. Roedd 40% o'r rhain ym Môn a Chonwy, gyda 62% o blant tu allan i Wynedd wedi eu lleoli yng Ngogledd Cymru. Mae 10 o blant wedi eu lleoli tu allan i Gymru, gyda 5 o'r rhain mewn lleoliadau preswyl. Mae amrywiaeth o resymau yn arwain at y gofyn am leoliadau preswyl, ac ymhob achos mae anghenion y plant a'r bobl ifanc yma yn gymhleth ac yn ddwys e.e. materion iechyd meddwl a hunan anafu, ecsploetiaeth rywiol, ymddygiad rhywiol niweidiol. Yr her fwyaf sydd yn ein hwynebu fel Cyngor yw dod o hyd i leoliadau preswyl addas ar gyfer y rhai sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth. Nid yw hyn yn unigryw i Wynedd ac mae yn derbyn sylw yn genedlaethol drwy ymchwiliadau gan Lywodraeth Cymru a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

#### 2.5 Plant ifanc iawn yn dod i Ofal

Mae'r data diweddaraf yn dangos parhad yn y nifer o blant o dan 5 oed sy'n dod i ofal. Hyd at ddiwedd chwarter 4 mae 51% o'r lleoliadau newydd plant mewn gofal ar gyfer plant o dan 5 oed. Dros 5 mlynedd mae plant o dan 5 oed yn cynrychioli 48% o'r holl leoliadau newydd. Mae hyn o ganlyniad i nifer o resymau, ond yn benodol, plant ifanc yn cael eu cam-drin a'u hesgeuluso; trais yn y cartref; camddefnyddio sylweddau ac alcohol; bwydo plant ifanc yn fwrriadol gyda chyffuriau a mamau sydd â phlant blaenorol wedi mynd i ofal yn beichiogi a heb wneud y newid angenrheidiol yn eu bywydau i fedru gofalu yn ddiogel am y plentyn.

#### 2.6 Cynllun ymestyn lleoliadau maethu - "Pan Fydda i'n Barod"

Rhoddodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 gyfrifoldeb newydd ar awdurdodau lleol tuag at bobl ifanc mewn gofal maeth sy'n dymuno parhau i fyw gyda'u gofalwyr maeth tu hwnt i'w pen-blwydd yn 18 oed. Nod y cynllun yw medru cynnig sefydlogrwydd a pharhad i bobl ifanc fel nad ydynt yn symud allan o ofal cyn eu bod yn barod i wneud hynny. Bu Gwynedd yn rhan o raglen beilot i'r cynllun ers 2013 ac ers Ebrill 2016 mae'n gyfrifoldeb statudol ar bob awdurdod lleol yng Nghymru.

Yn ystod 2017-18 mae 11 person ifanc wedi bod yn rhan o'r cynllun ac ar ddiwedd chwarter 4 roedd 11 person ifanc yn parhau mewn trefniant Pan Fyddda l'n Barod. Ers cychwyn y cynllun yn 2013 mae 58% o'r bobl ifanc a oedd yn gymwys ar gyfer y trefniant wedi dewis bod yn rhan ohono. Dengys ystadegau Gwynedd bod hyd y trefniadau hyn yn amrywio, gyda 10% o bobl ifanc yn aros mewn trefniant o'r fath am lai na 6 mis, 40% rhwng 6 a 12 mis a 50% 12 - 15 mis. Gall y trefniant fynd ymlaen hyd at ben-blwydd person ifanc yn 21 oed.

## **2.7 Tîm Trothwy Gofal**

Daeth y Tîm trothwy yn weithredol yn Ionawr 2015. Ers Ebrill 2017 maent wedi gweithio gyda 115 plentyn (73 teulu). Roedd 55 plentyn (34 teulu) yn parhau i dderbyn gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn. Daeth eu hymyrraeth i ben gyda 60 plentyn (39 Teulu) rhwng Ebrill a Mawrth 2018.

Pwrpas yr ymyrraeth mewn 40 o'r achosion oedd i gadw'r plentyn adref ac osgoi mynd a'r plentyn i ofal. Ar adegau, mae'r gwaith a wneir gan y swyddogion yn y tîm yn adnabod yr angen i weithredu i gychwyn achos llys er mwyn symud plentyn o'i gartref oherwydd risgiau iddo ef neu hi. O'r teuluoedd hyn mae 7 plentyn (5 teulu) wedi dod i ofal. Ar ddiwedd yr ymyrraeth roedd 42 plentyn (39 teulu) yn parhau i fyw adref - llwyddwyd i osgoi dod â'r plant yma i ofal a gwelwyd gwelliant sylweddol yng ngallu'r teuluoedd i ymdopi a chynnal eu bywyd teuluol mewn modd cadarnhaol a diogel.

## **2.2 Yr Adran Addysg –**

Yn y flwyddyn addysgol 2017 roedd 17 o ddisgyblion Gwynedd yn blant mewn gofal yn eu blwyddyn olaf o addysg statudol sef blwyddyn 11 ac yn ddisgyblion oedd wedi bod mewn gofal ers dros 12 mis ar 31/08/2017.

Statws cyfreithiol y **17** disgybl oedd fel a ganlyn:-

- **17** ar Gynllun Gofal Llawn ( Adran 31 Deddf Plant 1989)

Roedd **7** disgybl yn derbyn addysg yng Ngwynedd, mewn ysgolion prif lif.

Roedd **1** disgybl yn derbyn addysg yng Ngwynedd, mewn ysgol arbennig.

Roedd **2** ddisgybl yn byw yn all-sirol ac yn derbyn ei addysg yn all-sirol, mewn ysgol prif lif.

Roedd **1** disgybl yn byw yng Ngwynedd ac wedi derbyn ei addysg CA4 fel rhan o gynllun Addysg Gartref Adran Addysg Cyngor Gwynedd.

Roedd **6** disgybl yn byw yn all-sirol ac yn derbyn ei addysg yn all-sirol, mewn sefydliad arbennig.

Cafodd y disgyblion gyfle i sefyll amrywiaeth eang o arholiadau allanol addas megis TGAU, BTEC, OCR, OCR National, Sgiliau Hanfodol, Sgiliau Allweddol a Bagloriaeth Cymru.

Ceir crynodeb isod o'r cymwysterau a enillwyd gan yr **17** disgybl a oedd yn gymwys i sefyll arholiadau allanol eleni. (Disgyblion o fewn Gwynedd ac all-sirol)

Nodir hefyd amcan raddau'r unigolion, yn ôl yr ysgolion.

#### *Data Perfformiad*

Mesur	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
<b>Nifer y plant sy'n gadael gofal 16+</b>							
Gwynedd	<b>15</b>	<b>22</b>	<b>16</b>	<b>12</b>	<b>9</b>	<b>16</b>	<b>17</b>
<b>% 16+ enillodd o leiaf 1 cymhwyster</b>							
Gwynedd	<b>40%</b>	<b>91%</b>	<b>94%</b>	<b>91%</b>	<b>67%</b>	<b>82%</b>	<b>82%</b>
<b>% 16+ enillodd o leiaf 5 A*-G TGAU</b>							
Gwynedd	<b>33%</b>	<b>45.5%</b>	<b>62.5%</b>	<b>50%</b>	<b>67%</b>	<b>82%</b>	<b>80%</b>
<b>% 16+ enillodd o leiaf 5 A*-C TGAU (Gan gynnwys Iaith a Mathemateg)</b>							
Gwynedd	<b>13%</b>	<b>18%</b>	<b>31%</b>	<b>25%</b>	<b>67%</b>	<b>62%</b>	<b>40%</b>

#### **Crynodeb:**

Canran disgyblion a enillodd 5 A\*- C = 40% - Trothwy Lefel 2

Canran disgyblion a enillodd 5 A\*- G = 80% - Trothwy Lefel 1

Canran disgyblion enillodd o leiaf 1 TGAU Gradd A\*-C = 70%

Canran disgyblion enillodd o leiaf 1 TGAU Gradd A\*-G = 90%



## **Darpariaeth ôl 16**

Allan o'r 17 plentyn, mae

- 8 wedi mynd i golegau i ddilyn cyrsiau addas i'w gallu a'u gofynion.
- 2 wedi parhau yn yr Ysgol/Coleg 6ed Dosbarth i ddilyn cwrs Lefel UA/A ym mlwyddyn 12.
- 1 yn parhau mewn addysg arbennig.
- 3 yn parhau mewn uned breswyl arbenigol gyda darpariaeth addysgol
- 2 ddim mewn addysg na gwaith ac yn cael cefnogaeth ôl 16
- 1 mewn gwaith gwirfoddol

### **3.0 Gofal Iechyd Plant mewn Gofal**

Mae pryderon hanesyddol wedi bodoli am allu'r gwasanaeth iechyd i sicrhau fod asesiadau iechyd ar gyfer plant mewn gofal yn digwydd yn amserol. Mae dangosydd perfformiad cenedlaethol ynghlwm â'r weithgaredd yma, ac mae perfformiad yng Ngwynedd wedi bod yn fater o bryder am nifer o flynyddoedd. Mae'r Panel wedi bod yn rhagweithiol ac wedi galw swyddogion perthnasol o'r Bwrdd Iechyd fwy nag unwaith i egluro'r problemau ac i geisio datrys y mater, ac wedi uchafu'r mater i Brif Weithredwr y Bwrdd Iechyd. Mae sawl trafodaeth wedi cymryd lle rhwng swyddogion gweithredol y Bwrdd Iechyd a swyddogion y Gwasanaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd, ac mae peth cynnydd wedi ei wneud sydd yn golygu fod gwelliant yn y niferoedd o blant sydd yn dod i ofal sydd yn derbyn asesiad iechyd yn amserol. Ar ddiwedd 2017-2018, roedd y perfformiad yn cyrraedd y targed, sef 65% ar amser. Roedd 302 o asesiadau iechyd cychwynnol ac adolygol oedd i fod i'w cynnal yn ystod y flwyddyn a chynhaliwyd 196 ar amser. Mae gwelliant wedi bod yn y broses o rannu gwybodaeth am blant rhwng y Gwasanaeth Plant a'r Bwrdd Iechyd. Er hyn, mae'r panel yn awyddus iawn i dderbyn gwybodaeth am batrymau iechyd y plant sydd mewn gofal yng Ngwynedd, er enghraifft, oes cyflyrau penodol yn amlygu, oes problem gyda mynediad i rai disgyblaethau o fewn iechyd, oes materion y mae angen i'r panel edrych arnynt yn fanylach ac yn y blaen. Gobeithir drwy weithredu'r strategaeth newydd y bydd modd mynd yn nes i gael atebion i'r materion penodol yma ac eraill ac y gwelid darlun llawn o anghenion iechyd gyda gwybodaeth ansoddol yn hytrach na data meintiol yn unig yn gyrru rhaglen y panel.

### **Crynhoi**

Fel nodwyd yn yr adroddiad mae'r Panel Rhiant Corfforaethol wedi adnabod yr angen i fod yn fwy gweithredol yn ei olwg i'r dyfodol. Mae'r gwaith yma wedi cychwyn drwy'r grwpiau ffocws penodol sydd wedi eu sefydlu. Adroddwyd ar ddiwedd archwiliad llawn o'r Gwasanaeth Plant gan Arolygiaeth Gofal Cymru ym mis Mai 2018 fod ymagwedd y Panel Rhiant Corfforaethol yn gadarnhaol ac yn ddatblygiadol ei natur a bod hynny yn ei dro yn mynd i sicrhau fod plant a phobl ifanc mewn gofal yng Ngwynedd yn cael cefnogaeth addas drwy eu cyfnod mewn gofal a thu hwnt.

Felly, drwy fabwysiadu datganiad cyhoeddus o addewid o gefnogaeth i blant mewn gofal a chydweithio effeithiol o fewn y Cyngor a chyd partneriaid allanol bydd modd i'r Panel ddylanwadu'n effeithiol er lles plant mewn gofal yng Nghyngor Gwynedd.



# Eitem 9

CYFARFOD	CYNGOR
DYDDIAD	12 Gorffennaf 2018
TEITL	Cynllun Twf Gogledd Cymru - Trefniadau Llywodraethu
AELOD CABINET	Cynghorydd Dyfrig Siencyn – Arweinydd y Cyngor
PWRPAS	I dderbyn cadarnhad y Cyngor ar gyfer y trefniadau Craffu ar gyfer Cyd-bwyllgor y Cynllun Twf
ARGYMHELLIAD	Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r trefniadau Craffu ar gyfer gweithgaredd y Cyd-bwyllgor Prosiect Twf (“Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru”) i’w ymgorffori yn y Cytundeb Llywodraethu cam cyntaf.
AWDUR	Iwan Trefor Jones , Cyfarwyddwr Corfforaethol Iwan Evans, Swyddog Monitro

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno cytundeb llywodraethu sydd ei angen yn ei le er mwyn ffurfioli'r trefniadau cyfansoddiadol ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, ynghyd â rhoi'r hawl i'r Bwrdd wneud penderfyniadau, a hynny gyda chyfyngiadau penodol.
- 1.2. Y Bwrdd Uchelgais sy'n cyd-gordio cais “Cynllun Twf” ar gyfer Gogledd Cymru, sy'n ymwneud â thargedu adnoddau sylweddol a phwerau newydd i'r rhanbarth, yn bennaf er mwyn cryfhau'r economi a chreu swyddi.
- 1.3. Ar y 3ydd o Orffennaf cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i'r Cytundeb Llywodraethu (can cyntaf) yn ddarostyngedig i gadarnhad y Cyngor Llawn o'r trefniadau craffu.

Penderfynwyd:

- a. Nodi a chrosawu cynnydd datblygiad cais y Cynllun Twf ar gyfer y rhanbarth.
- b. Bod y Cytundeb Llywodraethu, cam cyntaf a sefydlu Cyd-bwyllgor ar gyfer y Cynllun Twf **yn derbyn cymeradwyaeth yn ddarostyngedig i gadarnhad y Cyngor Llawn (yn ei gyfarfod ar 12 Gorffennaf, 2018) o'r trefniadau ar gyfer Craffu.**
- c. Bod drafft terfynol o Gais y Cynllun Twf yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Hydref 2018 i'w gymeradwyo cyn bod Penawdau'r Telerau yn cael eu cytuno gyda Llywodraeth Prydain a Llywodraeth Cymru.
- ch. Bod hawl yn cael ei ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd i wneud man newidiadau i'r Cytundeb Llywodraethu cam cyntaf drafft yn ôl yr angen er cwblhau'r cytundeb.

## 2. CEFNDIR

- 2.1. Ym mis Medi 2016, mabwysiadodd y Cabinet y “Weledigaeth ar gyfer Twf yr Economi yng Ngogledd Cymru” sy’n gosod uchelgais strategol ar gyfer y rhanbarth, ac i ddatblygu trafndiaeth ac isadeiledd, sgiliau a swyddi, hybu arloesedd a thwf busnes. Fe wnaeth y Cabinet a phum Cyngor arall sy’n bartneriaid yn y rhanbarth fabwysiadau’r strategaeth hefyd.
- 2.2. Cyflwynwyd ail adroddiad ym mis Mawrth 2017 i’r Cabinet yn nodi bod Gogledd Cymru wedi derbyn gwahoddiad i ddatblygu’r strategaeth yn Gais Cynllun Twf ar gyfer buddsoddiad cenedlaethol gan Lywodraeth Prydain a Llywodraeth Cymru. Ar y pryd, mabwysiadwyd model Cyd-bwyllgor statudol fel yr un mwyaf addas ar gyfer llywodraethu.
- 2.3. Ym mis Medi 2017, cadarnhaodd y Cabinet ei gefnogaeth i’r model Cyd-bwyllgor ac awdurdodwyd yr Arweinydd i fod yn gynrychiolydd y Cyngor ar y “Cyd-bwyllgor Cysgodol” yn y cyfnod interim.
- 2.4. Bellach mae angen symud o drefn “Cyd-bwyllgor Cysgodol” i Gyd-bwyllgor gyda hawliau gweithredol. Enw’r Cyd-bwyllgor fydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Mae Cabinet y 6 Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru yn ystyried cynnwys yr adroddiad templed, sydd ynghlwm i’r adroddiad hwn fel **Atodiad 1**.
- 2.5. Mae’r Cytundeb Llywodraethu (cam cyntaf) drafft (**Atodiad 2**) yn delio â threfniadau gweithredol ac anweithredol. Mae penderfyniadau sydd yn cael eu dirprwyo i’r Cyd-bwyllgor yn faterion Cabinet. Mae’n bwysig nodi hefyd fod y prif benderfyniadau ar gyfeiriad strategol, ymrwymo adnoddau a ffurf y bartneriaeth yn cael eu cadw yn ôl ar gyfer cymeradwyaeth y Partneriaid unigol.
- 2.6. Fodd bynnag mae’r gyfundrefn Craffu ar gyfer y Cyd-bwyllgor yn fater na all y Cabinet ei cymeradwyo a gofynnir i’r Cyngor roi sêl bendith ar gyfer y rhain. Pwysleisir mai’r trefniadau ar gyfer y cytundeb cychwynnol sydd yma a bydd angen rhoi sylw manwl i’r trefniadau craffu addas ar gyfer y cytundeb nesaf fydd ynglŷn â gweithredu a gweinyddu’r Cynllun Twf wedi iddo gael ei gymeradwyo.

### “Craffu

**Bydd penderfyniadau’r Cyd-bwyllgor yn amodol ar graffu a galw i mewn gan unrhyw un o’r cynghorau.**

**O bryd i’w gilydd, gall y cynghorau alw grŵp (“y grŵp cydlynu craffu”) sy’n cynnwys cadeiryddion y pwyllgorau trosolwg a chraffu perthnasol sydd â chyfrifoldeb dros y cynllun twf er mwyn:**

- **Cydlynu unrhyw waith craffu sydd wedi’i gynllunio o’r gwaith sydd wedi’i wneud neu sydd i’w wneud gan y Cyd-bwyllgor, a/neu unrhyw benderfyniadau sydd wedi’u gwneud neu i’w gwneud gan y cydbwyllgor**
- **Cydlynu unrhyw drefniadau i alw penderfyniad a wnaed gan y Cyd-bwyllgor i mewn**

**Cytuno ar drefniadau i wahodd cynghorau o unrhyw rai o’r cynghorau neu’r cyfan i fynychu cyfarfod o bwyllgor trosolwg a chraffu’r cyngor er mwyn craffu gwaith a phenderfyniadau’r Cyd-bwyllgor”**

- 2.7. Mae'n bwysig bod hygrededd yn perthyn i'r trefniadau llywodraethu, a'u bod yn glir a chadarn ac yn cael eu cydnabod gan y ddwy lywodraeth. Mae hynny, yn amlwg, yn allweddol os ydym am ddenu adnoddau i'r rhanbarth, a derbyn grymoedd ychwanegol. Mae'r Cytundeb Llywodraethu (cam cyntaf) yn cyflawni hynny, ac o dderbyn cefnogaeth yr Awdurdodau Lleol, bydd y Cyd-bwyllgor yn symud o fod yn un "cysgodol" i fod yn un "real".
- 2.8. Mae cam cyntaf y Cytundeb Llywodraethu yn cyfeirio at gyfnod cynllunio a datblygu (hyd Ebrill 2019). Bydd angen Cytundeb Llywodraethu newydd – a llawer mwy manwl – ar gyfer yr ail gam, fydd yn delio â'r cyfnod gweithredu ac o Ebrill 2019 ymlaen.
- 2.9 Y prif faterion sydd wedi'u cynnwys yn y Cytundeb Llywodraethu (cam un) yw:-
- cylch gorchwyl a'r aelodaeth
  - trefniadau pleidleisio a gwneud penderfyniadau
  - rhannu risgiau
  - materion i'w cadw'n ôl
  - trefniadau craffu

Cyflwynir y "Map Llywodraethu" sydd yn dangos y cysylltiadau rhwng yr Is Baneli Fforymau yn **Atodiad 3**

- 2.10 Nid yw'r adroddiad hwn yn ceisio cyflwyno cynnwys y Cynllun Twf arfaethedig mewn manylder, gan mai ei brif bwrpas yw cyflwyno trefniadau llywodraethu i'w mabwysiadu.
- 2.11. Bydd drafft o gais llawn y Bwrdd Uchelgais am Adnoddau a phwerau o Lywodraeth Prydain a Llywodraeth Cymru drwy'r Cynllun Twf yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Hydref 2018, cyn y broses lle cyrhaeddir Penawdau'r Telerau (gyda'r ddwy lywodraeth).
- 2.12 . Adroddwyd ar y trefniadau llywodraethu arfaethedig i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 21 Mehefin 2018. Dyma'r prif negeseuon gan aelodau'r Pwyllgor:

*Roedd aelodau'r Pwyllgor yn ddiolchgar o dderbyn diweddariad gan yr Arweinydd i'r trefniadau TwF Economaidd Gogledd Cymru. Mae aelodau'r pwyllgor wedi dangos cefnogaeth i gyfeiriad y cynllun o'r dechrau, ac yn parhau i fod yn gefnogol. Mae'r prif negeseuon heddiw fod bynnag, yn canolbwyntio fwy ar y risgiau sydd angen eu hystyried wrth i'r cynllun ddatblygu.*

#### **RISGIAU ARIANNOL**

*Yn sgil yr adroddiad a'r trafodaethau heddiw, bu i'r aelodau adnabod fod potensial o risgiau a goblygiadau ariannol i'r Cyngor yn sgil y cynllun. Mae angen sicrwydd:*

- *fod y buddion o'r cynllun yn gorbwyso y risgiau ariannol*
- *fod holl aelodau Gwynedd yn fodlon fod pob cam posib yn cael ei gymeryd i leihau'r risgiau ariannol*
- *fod y cynllun busnes a'r cynlluniau prosiect yn wydn, ac yn cael eu rheoli yn gadarn – hynny er mwyn lleihau'r risgiau fod partneriaid yn tynnu allan o brosiectau a'r risg ariannol wedyn yn disgyn i'r awdurdod*
- *fod angen i'r aelodau fod yn gallu craffu y cynlluniau yn aml i sicrhau fod risgiau busnes (ariannol a chyflawni) yn cael eu rheoli*

#### **RISGIAU LLYWODRAETHU**

*Eto, yn deillio o'r wybodaeth i law a'r trafodaethau heddiw, nodwyd y negeseuon a'r risgiau isod ynghylch y trefniadau llywodraethu arfaethedig:*

- *mae cefnogaeth i graffu y cynllun TwF fesul awdurdod*
- *nodwyd pryder am ddirprwyo hawliau i'r Arweinydd, gan dderbyn ar yr un pryd ei fod yn angenrheidiol. Fodd bynnag, rhaid sicrhau fod yr Arweinydd yn bwydo*

*gwybodaeth yn gyson i Aelodau Gwynedd ac yn atebol i'r aelodau am gyfeiriad y cynllun, cynnydd ar brosiectau ac am risgiau'n cael eu rheoli.*

#### **RISGIAU ERAILL**

*Nodwyd hefyd rhai risgiau eraill y dylid eu hystyried*

- *risgiau gwleidyddol, megis newid cyfeiriad o du Llywodraeth Cymru, a'i bod yn hanfodol bod yn effro i hyn*
- *parhau i nodi'r risg gwleidyddol o gydweithio ar draws awdurdodau Gogledd Cymru*

*Fodd bynnag, yn allweddol, nodwyd mai un o'r prif risgiau fyddai peidio gweithio'n Rhanbarthol. Trwy gydweithio'n Rhanbarthol gall Cyngor Gwynedd sicrhau llais cryf i fynnu fod materion a datblygiadau yn dod yn sgil y cynllun i Wynedd gyfan. Nodwyd hefyd gais i roi sylw i ystyried y buddion a'r goblygiadau o Wynedd yn awdurdod lletyol ar gyfer y Cynllun.*

#### **Argymhelliad**

**Fod y Cyngor yn cymeradwyo y trefniadau craffu ar gyfer gwaith “Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru” i'w hymgorffori yn y Cytundeb Llywodraethu cam cyntaf.**

#### **Atodiadau:**

<b>Atodiad 1</b>	Adroddiad Templed
<b>Atodiad 2</b>	Cytundeb Llywodraethu Drafft
<b>Atodiad 3</b>	Map Llywodraethu

#### **Dogfennau Cefndirol:**

Dim.

## TEMPLED - ADRODDIAD I'R CABINET

**Dyddiad y Cyfarfod:** 3 Gorffennaf 2018

**Aelod Cabinet:**

**Awdur:**

**Rhif Ffôn Cyswllt:**

**Teitl yr Eitem:** Cynllun Twf ar gyfer Gogledd Cymru  
– Diweddariad Cynnydd & Trefn Llywodraethu

### 1. CYD-DESTUN DATBLYGU'R CYNLLUN TWF

- 1.1. Mae Cais y Cynllun Twf yn gynnig ffurfiol gan Ogledd Cymru am fuddsoddiad gan Lywodraeth Prydain a Chymru er mwyn ariannu prosiectau fydd yn arwain at dwf economaidd. Mae'n gyfle hefyd i gael pwerau datganoledig i Ogledd Cymru er mwyn hwyluso twf economaidd. Mae gofyn i ranbarthau sy'n gwneud cais gael model llywodraethu cyfreithiol, gwydn ac atebol er mwyn cynllunio a gweithredu eu strategaeth. Disgwylir i ranbarthau fod yn barod i fuddsoddi yn eu strategaethau eu hunain, law yn llaw a'r Llywodraeth(au), mewn adnoddau cyfalaf, rhannu mewn benthyciadau cyfalaf, defnydd tir ac asedau ac wrth ddarparu adnoddau capasiti proffesiynol a chapasiti'r prosiect.
- 1.2. Ers yr adroddiad blaenorol i'r Cabinet, mae model llywodraethu o gydbwyllgor statudol wedi'i sefydlu ar 'ffurf gysgodol'. Golyga 'ffurf gysgodol' fod y Pwyllgor yn cyfarfod ac yn gweithredu drwy gytundeb ffurfiol yr holl bartneriaid ond heb y capasiti i wneud penderfyniadau ar ran partneriaid. Mae angen Cytundeb Rhwng Awdurdodau i ffurfioli'r trefniadau cyfansoddiadol a chyflwyno pwerau i wneud penderfyniadau i'r Bwrdd o fewn cyfyngiadau penodol.
- 1.3. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau ar gyfer cam cyntaf y gwaith rhanbarthol i'w fabwysiadu. Defnyddir y term Cytundeb Llywodraethu yn lle Cytundeb Rhwng Awdurdodau gan fod aelodau'r bartneriaeth yn mynd tu hwn i awdurdodau lleol yn unig.
- 1.4. Mae'r Pwyllgor wedi mabwysiadu'r teitl Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, gan y cyn gorff ymgynghorol rhanbarthol o'r un enw. Aelodau llawn y Bwrdd yw'r chwe awdurdod yn y rhanbarth. Mae Prifysgol Bangor, Prifysgol Wrecsam-Glyndwr, Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo Menai a Chyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy yn aelodau ymgynghorol o'r Bwrdd.

### 2. Y MODEL LLYWODRAETHU A'R CYTUNDEB LLYWODRAETHU

- 2.1. Mae Cytundeb Llywodraethu wedi'i ddatblygu ar gyfer y cam cyntaf hwn o'r Cynllun Twf i'w fabwysiadu gan holl bartneriaid y Bwrdd Uchelgais. Mae'r Cytundeb Llywodraethu wedi'i ddatblygu gan y rhwydwaith Penaethiaid

Cyfreithiol rhanbarthol a chyda chyngor arbenigol ac annibynnol yr ymgynghorwyr cyfreithiol, Pinsents. Mae nodweddion allweddol y Cytundeb Llywodraethu wedi'u crynhoi yn y paragraffau a ganlyn. Cyflwynir copi o'r Cytundeb Llywodraethu yn **Atodiad 2**

- 2.2. Fel nodwyd eisoes, mae'r Bwrdd Uchelgais yn cynnwys cynrychiolwyr o bob awdurdod lleol, y ddwy brifysgol a'r ddau goleg addysg bellach a Chyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy. Dros amser, caiff y Bwrdd ei gefnogi gan nifer o Is-fyrddau arbenigol. Bydd yr Is-fyrddau yn cynnwys amrediad o rhanddeiliaid sydd ynghlwm a'r model llywodraethu. Mae cylch gorchwyl drafft wedi'i baratoi ar gyfer y Bwrdd a'r Is-fyrddau sy'n ymdrin ag aelodaeth; cadeirio; rolau, swyddogaethau, cyfrifoldebau a phwerau; siarad a gwneud penderfyniadau.
- 2.3. Cydbwyllgor gweithredol yw'r model llywodraethu sydd wedi'i fabwysiadu ar gyfer y Bwrdd, h.y. cydbwyllgor o bob Cabinet. Nid yw'r model hwn yn ddelfrydol ar gyfer y ffordd mae'r Bwrdd yn dymuno gweithredu, er enghraifft, ni all y partneriaid nad ydynt yn awdurdodau lleol fod yn aelodau gyda phleidlais o gydbwyllgor gweithredol. Fodd bynnag, y model hwn yw'r un gorau sydd ar gael dan y ddeddfwriaeth bresennol. Er mwyn gweithio o amgylch y cyfyngiadau hyn, cynigir dull gweithredu lle bydd y Bwrdd yn ceisio dod i gonsensws cyn cymryd pleidlais ffurfiol. Disgwylir i fodel deddfwriaethol sy'n caniatáu cyfranogiad llawn gan yr holl bartneriaid gael ei gynnwys gan Lywodraeth Cymru yn ei Fil Diwygio Bil Llywodraeth Leol yn ddiweddarach eleni.
- 2.4. Mae'r Cytundeb Llywodraethu yn cynnwys yr hawl i unrhyw ddau barti ofyn i fater gael ei ailystyried yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd. Byddai hyn yn caniatáu cyfnod "cnoi cil" a byddai'n rhoi mwy o amser i'r Bwrdd ddarganfod datrysiaid i benderfyniadau heriol. Mae'n atgyfnerthu'r bwriad i weithio drwy gonsensws, ac mae'n gwarchod y partïon hynny nad oes ganddynt bleidlais ffurfiol.
- 2.5. Bydd rhai prif feysydd o wneud penderfyniad, a elwir yn "faterion a gedwir yn ôl", y tu allan i awdurdod dirprwyedig y Bwrdd. Byddai angen i benderfyniad arfaethedig y Bwrdd yn achos mater sydd wedi'i gadw yn ôl gael ei ystyried a'i gytuno yn gyntaf gan bob corff partner i'r Bwrdd. Yn achos y chwe chyngor, byddai hyn yn gofyn am benderfyniad ffurfiol gan y Cabinet neu'r Cyngor. Mae'r rhestr o'r materion sydd wedi'u cadw'n ôl yn cynnwys:
  - Cytuno ar swyddogaethau i'w rhoi i'r Bwrdd;
  - Cytuno ar gyfraniadau cyllideb blynyddol ar gyfer y Bwrdd a'r awdurdodau;
  - Ymrwymadau buddsoddi a benthyca a lefelau amlygiad i risg; a
  - Clustnodi tir ac asedau eraill i'w pwlio.
- 2.6. I'r chwe Chyngor, golyga hyn y bydd y penderfyniadau pwysicaf yn cael eu gwneud yn lleol, gyda gwaith y Bwrdd yn derbyn cyfeiriad gan yr aelodau ehangach. Mae darpariaethau cyfansoddiadol o'r math yma yn ffynhonnell o sicrwydd i aelodau, ac maent yn parchu ac yn rhoi gwerth ar rôl y swyddogaeth drosolwg a chraffu cyffredinol.
- 2.7. Yn ystod y cam cyntaf yma, awgrymir y dylai cynigion y Bwrdd ar gyfer y cais fod yn amodol ar graffu lleol drwy'r pwyllgor craffu mwyaf priodol yn y Cyngor, yn hytrach na chyflwyno rhyw ffurf ar graffu rhanbarthol.



- 2.8. Mae gan y Bwrdd y capasiti i greu Is-fyrddau a allai nail ai gael sail statudol neu sail ymgynghorol, yn ddibynnol ar eu swyddogaethau, eu pwerau a'u haelodaeth. Y Byrddau cyntaf i'w creu yw'r Is-Fwrdd Trafnidiaeth a'r Is-Fwrdd Cyflawni Digidol. Bydd y ddau yma yn cael eu cyfansoddi'n ffurfiol fel is-bwyllgorau, ar sail statudol, fel bod ganddynt y gallu i gael pwerau wedi'u dirprwyo iddynt. Bydd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol presennol, a grëwyd gan Lywodraeth Cymru, yn adrodd i Lywodraeth Cymru ac i'r Bwrdd fel Is-Fwrdd ymgynghorol. Bydd y gyfres o Is-fyrddau yr argymhellir bod ei hangen ar gyfer ail gam y Cynllun Twf yn cael ei hymgorffori i'r ail Gytundeb Llywodraethu.
- 2.9. Mae'r Cytundeb Llywodraethu yn cynnwys ymrwymiadau dwyochrog rhwng y partneriaid a pha bynnag gyngor a ddewisir i fod yn awdurdod lletya i'r Bwrdd, megis atebolrwydd wedi'i rannu ar gyfer costau cyflogaeth, Bydd yr holl bartneriaid yn arwyddo'r Cytundeb Llywodraethu er mwyn rhoi sicrwydd iddynt ynghylch hyd a lled eu hymrwymiadau a'u rhwymedigaeth.
- 2.10. Mae'r Cytundeb Llywodraethu a gyflwynir yma ar gyfer cam cyntaf gwaith y Bwrdd yn unig. Bydd ail Gytundeb Llywodraethu mwy cynhwysfawr yn cael ei ddatblygu a'i gyflwyno ar gyfer ail gam – gweithredu a chyflawni'r Cais – yn gynnar yn 2019.

### 3. CAMAU NESAF A CHYMERADWYO'R CYNLLUN TWF

- 3.1. Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi paratoi "ddogfen cynnig" sy'n dwyn ynghyd y cyfiawnhad am fuddsoddiad i'r Gogledd, ein gweledigaeth ac amcanion ein Rhaglenni Strategol a'r portffolio o Brosiectau, a'r achosion economaidd ac ariannol ar gyfer buddsoddiad. Mae'r ddogfen hefyd yn nodi ein gofynion mewn perthynas â phwerau a chyfrifoldebau newydd i'r Gogledd.
- 3.2. Fe welwch yn ogystal 'naratif' o bob prosiect sydd yn rhan o'r Cynllun Twf yn **Atodiad 4**. Mae hyn yn rhoi syniad da i chwi fel aelodau o'r Cabinet beth yw pwrpas a phrif ddeilliannau pob prosiect.
- 3.3. Dyma fydd sail y trafodaethau gyda'r ddwy Lywodraeth, gyda'r bwriad o ddod i gytundeb ynglŷn â'r "penawdau telerau" (Head of Terms Agreement) erbyn Hydref/ Tachwedd 2018.
- 3.4. Erbyn hyn, mae Cais y Cynllun Twf ar gam pellach ei ddatblygiad gyda chynnwys y Cais ar fin cael ei flaenoriaethu yn unol â (1) dewis ac uchelgais rhanbarthol, (2) cyngor anffurfiol gan y Llywodraeth ar raglenni a phrosiectau a allai fod yn gymwys am gefnogaeth ganddi a (3) asesiadau o achosion busnes.
- 3.4. Bydd Cais y Cynllun Twf yn symud trwy ddau gam gymeradwyo. Yn gyntaf, bydd Cytundeb Penawdau'r Telerau, yn ail, cytundeb terfynol o'r cynnwys manwl a fydd yn cynnwys model busnes pum achos llawn a therfynol. Ein nod yw cyrraedd Cytundeb Penawdau'r Telerau yn yr hydref eleni, a'r cytundeb terfynol erbyn blwyddyn ariannol 2019/20.
- 3.5. Bydd drafft terfynol Cais y Cynllun Twf yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais a'r sawl sy'n llofnodi'r Cytundeb Llywodraethu i'w adolygu a chytuno iddo ym mis Medi/Hydref cyn y cam o gyrraedd Penawdau'r Telerau gyda'r ddwy Lywodraeth. Bwriedir cyflwyno'r drafft terfynol i'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu yn ogystal.

- 3.6. Nid y Cynllun Twf yw'r unig ymyrraeth i gefnogi nodau ac amcanion y weledigaeth a'r strategaeth ehangach ar gyfer y rhanbarth. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo i fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn isadeiledd trafnidiaeth yn y rhanbarth law yn llaw a'r Cais, ar y ffyrdd a'r rheilffyrdd, ac mewn buddsoddiadau eraill megis agor safle Porth y Gogledd ar gyfer mewnfuddsoddi, Sefydliad Ymchwil a Gweithgynhyrchu Uwch ym Mrychdyn ac yn M-Sparc ym Môn. Mae'r cynllun Growth Track 360 ar gyfer buddsoddi mewn rheilffyrdd ar draws ffiniau, yn symud ymlaen ar lefel Llywodraeth y DU. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Masnachfreintiau newydd Cymru a'r Gororau gyda gwelliannau i isadeiledd a gwasanaeth. Mae'n bosib gellir negodi rhaglenni buddsoddi pellach ar wahân.
- 3.7. Mae undod y rhanbarth tu ôl i'r weledigaeth a'r strategaeth sydd wedi'u mabwysiadu yn ffactor pwysig wrth gael pwrpas, hygrededd a dylanwad wrth negodi.

- (1) CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY
- (2) CYNGOR SIR DDINBYCH
- (3) CYNGOR SIR Y FFLINT
- (4) CYNGOR GWYNEDD
- (5) CYNGOR SIR YNYS MÔN
- (6) CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM
- (7) PRIFYSGOL BANGOR
- (8) PRIFYSGOL GLYNDŴR WRECSAM
- (9) COLEG CAMBRIA
- (10) GRŴP LLANDRILLO MENAI

---

**CYTUNDEB LLYWODRAETHU 1**  
yn ymwneud â chyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru

---



## CYNNWYS

### Cymal

1	DIFFINIADAU A DEHONGLIADAU	2
2	CYCHWYN, OES A THERFYNU	5
3	EGWYDDORION AC AMCANION ALLWEDDOL	6
4	Y CORFF ATEBOL	7
5	DYLETSWYDDAU'R CORFF ATEBOL	8
6	DYLETSWYDDAU'R PARTÏON ERAILL	9
7	CYNLLUN BUSNES	9
8	GWNEUD PENDERFYNIADAU	10
9	CYD-BWYLLGOR	10
10	CRAFFU	14
11	TÎM GWEITHREDOL	14
12	YMRWYMIAD Y PARTÏON A CHYFRANIADAU	15
13	LLINIARU	19
14	CYFRIFOLDEBAU'R PARTÏON	19
15	TYNNU'N ÔL	20
16	CANLYNIADAU TERFYNU	20
17	EIDDO DEALLUSOL	20
18	CYFRINACHEDD A CHYHOEDDIADAU	21
19	CONTRACTAU (HAWLIAU TRYDYDD PARTI)	21
20	DATRYN ANGHYDFOD	21
21	DIOGELU DATA	22
22	RHYDDID GWYBODAETH A GWYBODAETH AMGYLCHEDDOL	24
23	HYSBYSIADAU	25
24	CYFRAITH LYWODRAETHOL	25
25	ASEINIO	25
26	ILDIO HAWL	25
27	Y CYTUNDEB CYFAN	26
28	GWRTHRANNAU	26

29	PERTHYNAS Y PARTIÖN	26
30	CYFRIFOLDEBAU STATUDOL	26
	ATODLEN 1 - POLISI DIRPRWYO	31
	ATODLEN 2 - CYLCH GORCHWYL	33
	RHAN 1 - CYLCH GORCHWYL Y CYD-BWYLLGOR	33
	RHAN 2 - CYLCH GORCHWYL Y TÎM GWEITHREDOL	35
	RHAN 3 – CYLCH GORCHWYL YR IS-BWYLLGORAU	36
	ATODLEN 3 - MANYLION Y PARTIÖN	37
	ATODLEN 4 - PENAWDAU GWARIANT	38
	ATODLEN 5 - CYFNODAU CYFRIFYDDU	39
	ATODLEN 6 - COD YMDDYGIAD AR GYFER YMGYNGHORWYR Y BWRDD UCHELGAIS	40
	ATODLEN 7 - MANYLION Y CYNRYCHIOLWYR	43
	ATODLEN 8 - FFRAMWAITH SICRWYDD	44
	ATODLEN 9 - CYNLLUN GWEITHREDU	45

**RHWNG**

- (1) **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY** o [xxx] ("Cyngor Conwy");
- (2) **CYNGOR SIR DDINBYCH** o [xxx] ("Cyngor Sir Ddinbych");
- (3) **CYNGOR SIR Y FFLINT** o [xxx] ("Cyngor Sir y Fflint");
- (4) **CYNGOR GWYNEDD** o [xxx] ("Cyngor Gwynedd");
- (5) **CYNGOR SIR YNYS MÔN** o [xxx] ("Cyngor Sir Ynys Môn");
- (6) **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM** o [xxx] ("Cyngor Wrecsam"),

(y cyfeirir atynt ar y cyd fel "y Cyngorau" ac yn unigol fel "Cyngor "); a

- (7) **PRIFYSGOL BANGOR** o [xxx];
- (8) **PRIFYSGOL GLYNDŴR WRECSAM** o [xxx];
- (9) **COLEG CAMBRIA** o [xxx];
- (10) **GRŴP LLANDRILLO MENAI** o [xxx];

(y cyfeirir atynt ar y cyd fel "Ymgynghorwyr" ac yn unigol fel "Ymgynghorydd").

**CRONICLIADAU CEFNDIROL**

- (A) Mae'r Partïon wedi cytuno i gydweithio ac ymrwmo i'r Cytundeb hwn i ffurfioli eu rolau a'u cyfrifoldebau unigol er mwyn cyflawni eu rhwymedigaethau yng nghyswllt Cynllun Twf Gogledd Cymru hyd at y pwynt pan gaiff y Cynllun Twf ei lofnodi gan y Partïon, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.
- (B) Mae'r Partïon wedi cytuno i greu Cyd-bwyllgor gyda threfniant llywodraethu cadarn a fydd, yn y pendraw, yn gyfrifol am oruchwylio a chydlynu cyflawni rhwymedigaethau'r Partïon yng nghyswllt y Cynllun Twf. Mae manylion pellach ynghylch y Cyd-bwyllgor wedi'u nodi yng Nghymal 9 (Cyd-bwyllgor) ac mae ei swyddogaethau wedi'u nodi yn Atodlen 2 (Cylch Gorchwyl y Cyd-bwyllgor).
- (C) Bydd rhwymedigaethau manylach yng nghyswllt y Cynllun Twf wedi'u hymgorffori mewn ail gytundeb llywodraethu, (y "GA2") a gaiff ei ddatblygu gan y Partïon ac yr ymrwymiddo wedi i'r Cynllun Twf gael ei gadarnhau. Caiff swyddogaethau'r Cyd-bwyllgor eu diweddarau ymhellach yn GA2.
- (D) Mae'r Partïon wedi cytuno i benodi Cyngor Gwynedd i weithredu fel Corff Atebol ar gyfer ac ar ran y Partïon a chyflawni rhwymedigaethau'r Partïon yng nghyswllt y Cynllun Twf ac yn unol â'r Cytundeb hwn.
- (E) Dymuna'r Cyngorau ymrwmo i'r Cytundeb hwn a chyflawni'r Cynllun Twf yn unol â'r pwerau sydd wedi'u rhoi iddynt dan Adranau 101, 102, 111 ac 113 Deddf Llywodraeth Leol 1972, Adran 1 Deddf Awdurdod Lleol (Nwyddau a Gwasanaethau) 1970, Adran 25 Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, Adran 2, 19 a 20 Deddf Llywodraeth Leol 2000, Adran 9 Mesur Llywodraeth Leol Cymru a'r holl bwerau galluogi sydd bellach wedi'u breinio i'r Cyngorau.

## 1. DIFFINIADAU A DEHONGLI

1.1 Yn y Cytundeb hwn a'r cronicliadau, oni bai fod y cyd-destun yn gofyn yn wahanol, bydd y termau isod yn golygu'r hyn a nodir isod:-

<b>"Corff Atebol"</b>	sef y Cyngor a benodwyd dan Gymal 4 ( <i>Corff Atebol</i> ) a fydd yn gyfrifol am dderbyn a gwario arian ar gyfer ac ar ran y Partïon yng nghyswllt y Cynllun Twf ac y mae eu dyletswyddau wedi'u nodi dan Gymal 5 ( <i>Dyletswyddau'r Corff Atebol</i> )
<b>"Cyfnod Cyfrifyddu"</b>	sef y cyfnodau hynny sydd wedi'u nodi yn Atodlen 6 ( <i>Cyfnodau Cyfrifyddu</i> ) fel y caiff ei diwygio o bryd i'w gilydd yn unol â thelerau'r Cytundeb hwn
<b>"yr Ymgynghorwyr"</b>	sef y cyrff a'r unigolion sydd wedi'u rhestru isod ynghyd ag unrhyw unigolion a/neu gyrff pellach y mae'r Cyd-bwyllgor yn dewis eu gwahodd yn y rhinwedd hwnnw o bryd i'w gilydd : <ul style="list-style-type: none"><li>• Prifysgol Bangor</li><li>• Coleg Cambria</li><li>• Grŵp Llandrillo Menai</li><li>• Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy</li></ul>
<b>"Cyllideb Flynyddol"</b>	sef cyllideb flynyddol gymeradwy'r Corff Atebol a gedwir ar gyfer ac ar ran y Partïon ac fel sydd wedi'i nodi yng Nghymal 12.4 ( <i>Cyllideb Flynyddol</i> ) sy'n cynnwys talu unrhyw Gostau'r Cyd-bwyllgor yn unol â'r Cytundeb hwn
<b>"Fframwaith Sicrwydd"</b>	sef systemau, prosesau a phrotocolau'r Partïon i asesu prosesau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y Partïon er mwyn cyflawni eu rhwymedigaethau yng nghyswllt y Cynllun Twf a atodir yn Atodlen 8 ( <i>Fframwaith Sicrwydd</i> ) y Cytundeb hwn
<b>"Diwrnod Busnes"</b>	sef unrhyw ddiwrnod heblaw dydd Sadwrn neu ddydd Sul neu ŵyl y banc neu wyliau cyhoeddus yng Nghymru a/neu Lloegr
<b>"Rhanbarth Gogledd Cymru"</b>	sy'n cynnwys chwe ardal weinyddol Cyngor Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Wrecsam
<b>"CEDR"</b>	sef y Ganolfan Datrys Anghydfod
<b>"Cynllun Twf"</b>	sef y cytundeb sydd i'w lofnodi gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a'r [Partïon] sy'n nodi telerau Cynllun Twf Gogledd Cymru
<b>"Dyddiad Cychwyn"</b>	sef dyddiad y Cytundeb hwn

<b>"Gwybodaeth Gyfrinachol"</b>	yr holl wybodaeth, boed yn wybodaeth fasnachol, ariannol, technegol neu fel arall sy'n perthyn i fusnes, materion neu ddulliau yr holl Bartïon neu unrhyw un ohonynt, sydd wedi'i chynnwys neu y gellir ei chanfod mewn pa ffurf bynnag (gan gynnwys, heb gyfyngiad, meddalwedd, data, lluniau, ffilmiau, dogfennau a chyfryngau y gellir eu darllen ar gyfrifiadur), a boed wedi'i marcio neu ei dynodi'n wybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth berchnogol neu beidio, neu'n cael ei datgelu ar lafar neu drwy ei dangos, ac y'i disgrifir ar adeg ei datgelu fel gwybodaeth gyfrinachol, neu sy'n amlwg yn wybodaeth gyfrinachol o natur ei chynnwys neu gyd-destun y datgeliad.
<b>"Deddfwriaeth Diogelu Data"</b>	sef Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol
<b>"Tîm Gweithredol"</b>	sef y tîm a benodir felly o bryd i'w gilydd gan y Partion i gynrychioli buddiannau'r Partion yng nghyswllt materion gweithredol y Cynllun Twf, gan weithio dan gyfarwyddyd y Cyd-bwyllgor ac o fewn ystod y ddirprwyaeth sydd wedi'i nodi yn y Polisi Dirprwyo yn Atodlen 1 ( <i>Polisi Dirprwyo</i> )
<b>"GA2"</b>	sef yr ail gytundeb llywodraethu i ymrwymo iddo gan rai neu'r holl Gynghorau ac Ymgynghorwyr i ffurfioli eu rolau a'u cyfrifoldebau unigol yng nghyswllt Cynllun Twf Gogledd Cymru unwaith y bydd y Cynllun Twf wedi'i lofnodi.
<b>"Cod Ymddygiad GA"</b>	sef y cod ymddygiad ar gyfer ymgynghorwyr y Bwrdd Uchelgais sydd wedi'i nodi yn Atodlen 6
<b>"TEM"</b>	sef Trysorlys Ei Mawrhydi, adran weinidogol o Lywodraeth y DU
<b>"Cyfraniad TEM"</b>	sef yr arian a ddarperir gan TEM yn unol â'r Cynllun Twf ac fel y cyfeirir ato yng Nghymal 12.5 ( <i>Cyfraniadau</i> )
<b>"Cynllun Gweithredu"</b>	sef y cynllun gweithredu a fydd yn gosod, ymhlith pethau eraill, y broses er mwyn cytuno a blaenoriaethu prosiectau i'w caffael, yn unol â'r Cynllun Twf a bydd y profforma ar gyfer hyn yn cael ei drafod a'i gytuno gan y Cyd-bwyllgor yn unol ag Atodlen 9 ( <i>Cynllun Gweithredu</i> ) y Cytundeb hwn
<b>"Eiddo Deallusol"</b>	unrhyw a phob patent, nod masnach, enw masnach, hawlfraint, hawliau moesol, hawliau wrth ddylunio, hawliau mewn cronfeydd data, medr a phob hawl eiddo deallusol arall, boed y rheini'n gofrestredig neu'n bosib eu cofrestru neu beidio, ac yn bodoli yn y Deyrnas Unedig neu mewn unrhyw ran arall o'r byd neu beidio, ynghyd â phob neu unrhyw ewyllys da sy'n perthyn iddynt a'r hawl i wneud cais i'w cofrestru



"Costau Mewnol"	sef fel y diffinnir ym mharagraff 1.1 Atodlen 4 ( <i>Penawdau Gwariant</i> )
"Deunydd ED"	sef yr Eiddo Deallusol yn y Deunydd
"Cyd-bwyllgor"	sef y cyd-bwyllgor a sefydlir gan y Partïon yn unol â Chymal 9 ( <i>Cyd-bwyllgor</i> ) y Cytundeb hwn
"Costau'r Cyd-bwyllgor"	sef fel y diffinnir ym mharagraff 1.2 Atodlen 4 ( <i>Penawdau Gwariant</i> ) ac eithrio unrhyw Gostau Mewnol (oddieithr Costau Mewnol y Corff Atebol y gellir cyfrifo amdanynt fel Costau'r Cyd-bwyllgor)
"Cyfarfod o'r Cyd-bwyllgor"	sef cyfarfod o'r Cyd-bwyllgor sy'n cwrdd yn briodol yn unol â Chymal 9 ( <i>Cyd-bwyllgor</i> )
"Awdurdod Lleol"	sef prif gyngor (fel y diffinnir yn Adran 270 Deddf Llywodraeth Leol 1972) neu unrhyw gorff llywodraethol yng Nghymru a sefydlir yn olynedd i brif gyngor
"Deunydd"	sef yr holl ddata, testun, graffeg, delweddau a deunyddiau neu ddogfennau eraill a grëir, a ddefnyddir neu a gyflenwir gan Barti mewn perthynas â'r Cytundeb hwn, oni bai fod y Parti, cyn eu defnyddio neu eu cyflenwi am y tro cyntaf, yn hysbysu'r Partïon eraill nad yw'r diffiniad hwn yn berthnasol i'r data neu'r testun a gyflenwir
"Materion a Gedwir i'r Partïon"	sef yr ystyr a roddir iddo yng Nghymal 8.1.3
"Cyfraniad y Partïon"	sef yr arian a ddarperir gan y Partïon fel y nodir yng Nghymal 12.5.1(b) ( <i>Cyfraniad y Partïon</i> )
"Parti"	sef unrhyw un o'r Cynghorau neu'r Ymgynghorwyr sy'n rhan o'r Cytundeb hwn o bryd i'w gilydd, ac mae " <b>Partïon</b> " yn golygu'r cwbl ohonynt
"Data Personol"	sef data personol fel y mae wedi'i ddiffinio yn y DDD
"Themâu Rhaglen"	sef yr ystyr a roddir iddo yn y Cynllun Gweithredu
"Sail Gymesur"	sef y gyfran berthnasol i bob Parti wrth gyfeirio at eu cyfraniad ffracsïynol unigol fel y nodir yng Nghymal 12.5.3 ( <i>Cyfraniad y Partïon</i> )
"Costau Cyfieithu"	sef y costau cyfieithu a gyfyd i'r Corff Atebol wrth gydymffurfio ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol sy'n ymwneud â'i rwymedigaethau dan y Cytundeb hwn

## 1.2 Dehongliadau

Yn y Cytundeb hwn, oni bai fod y cyd-destun yn gofyn fel arall:-

- 1.2.1 bydd cyfeiriad at yr unigol yn golygu'r lluosog hefyd, ac i'r gwrthwyneb;
- 1.2.2 bydd cyfeiriad at unrhyw Gymal, Paragraff, Atodlen neu Groniciad, oni bai y nodir yn glir i'r gwrthwyneb, yn gyfeiriad at gymal, paragraff, atodlen neu

groniciad o'r fath yn y Cytundeb hwn;

- 1.2.3 bydd unrhyw gyfeiriad at y Cytundeb hwn neu at unrhyw ddogfen arall yn cynnwys unrhyw amrywiad, newid neu ychwanegiad a ganiatawyd i'r fath ddogfen;
- 1.2.4 bydd unrhyw gyfeiriad at ddeddfwriaeth yn cael ei ddehongli fel cyfeiriad at unrhyw ddiwygiad, newid, uniad neu ailddeddfiad o'r ddeddfwriaeth;
- 1.2.5 tybir bod cyfeiriad at sefydliad cyhoeddus (yn cynnwys, er osgoi amheuaeth, unrhyw Gyngor) yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw olynydd i sefydliad cyhoeddus o'r fath neu unrhyw sefydliad neu endid sydd wedi cymryd swyddogaethau a chyfrifoldebau sefydliad cyhoeddus o'r fath drosodd;
- 1.2.6 mae cyfeiriad at berson yn cynnwys cwmnïau, partneriaethau a chorfforaethau a'u holynwyr, ac aseinau neu drosglwyddai a ganiatawyd;
- 1.2.7 nid yw penawdau ac eglurynnau'r Cymalau, y Paragraffau a'r Atodlenni sydd yng nghorff y Cytundeb hwn yn ffurfio rhan o'r Cytundeb hwn, ac ni chymerir hwy i ystyriaeth wrth greu neu ddehongli'r Cytundeb;
- 1.2.8 bydd geiriau sy'n dod o flaen "**yn cynnwys**", "**gan gynnwys**" ac "**wedi'i gynnwys**" yn cael eu dehongli, heb gyfyngiad, yn ôl y geiriau sy'n dilyn y geiriau hynny;
- 1.2.9 bydd geiriau o ystyr gwrywaidd yn cael eu dehongli i gynnwys y benywaidd neu'r diryw ac i'r gwrthwyneb; a
- 1.2.10 bydd unrhyw gyfeiriad at deitl swyddog o unrhyw un o'r Cyngorau yn cynnwys unrhyw berson sy'n dal y swydd honno o bryd i'w gilydd dan yr un teitl neu deitl gaiff ei amnewid wedi hynny, neu unrhyw swyddog arall o'r Cyngor perthnasol y bydd y Cyngor hwnnw o bryd i'w gilydd yn ei benodi i gyflawni dyletswyddau'r swyddog y cyfeiriwyd ato.

### 1.3 **Atodlenni**

Mae'r Atodlenni i'r Cytundeb hwn yn ffurfio rhan o'r Cytundeb hwn.

## 2. **CYCHWYN, OES A THERFYNU**

### 2.1 **Cychwyn**

Bydd y Cytundeb hwn yn cychwyn ar y Dyddiad Cychwyn.

### 2.2 **Oes y Cytundeb**

Bydd y Cytundeb hwn yn parhau i fod mewn llawn rym o'r Dyddiad Cychwyn hyd nes y cynharaf o'r dyddiadau a ganlyn:-

2.2.1 ymrwymo i GA2; neu

2.2.2 pan fo'r holl Bartion yn cytuno'n ysgrifenedig i'w derfynu.

### 2.3 **Terfynu**

Heb ragfarnu unrhyw hawliau neu gywiriadau eraill, gall y Partïon eraill (y "**Partïon Difeth**") ddod â'r Cytundeb hwn i ben mewn perthynas ag unrhyw Barti unigol (y "**Methianwr**"), gan wneud hynny'n unfrydol, drwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Methianwr sy'n dod i rym pan dderbynnir ef os yw'r Methianwr yn torri'n sylweddol unrhyw un o ddarpariaethau'r Cytundeb hwn, ac os oes posib cywiro'r methiant hwn, yn methu â

chywiro pob methiant yn iawn o fewn trideg (30) Diwrnod Busnes (neu ryw gyfnod arall y mae'r Partïon Di-feth yn cytuno arno) o gael ei hysbysu'n ysgrifenedig o'r methiant gan y Partïon Di-feth ac o'r angen i gywiro'r methiant.

### 3. **EGWYDDORION AC AMCANION ALLWEDDOL**

3.1 Mae'r Partïon yn bwriadu i'r Cytundeb hwn fod yn gytundeb cyfreithiol.

3.2 Mae'r Partïon yn cytuno i gydweithio i gyflawni rhwymedigaethau'r Partïon yng nghyswllt y Cynllun Twf yn unol â'r Cytundeb hwn.

#### 3.3 **Amcanion**

Heb ragfarnu telerau'r Cytundeb hwn, mae'r Partïon yn cytuno y byddant yn cynnal eu perthynas yn unol â'r egwyddorion a ganlyn:-

- Cytuno a sicrhau, ar y cyd, gynllun twf ar gyfer Rhanbarth Gogledd Cymru er mwyn cefnogi nodau ac amcanion y weledigaeth sydd wedi'i mabwysiadu; a
- Bwrw ymlaen â nodau ac amcanion y Strategaeth Twf Ranbarthol

#### 3.4 **Egwyddorion**

Heb ragfarnu telerau'r Cytundeb hwn, mae'r Partïon yn cytuno y byddant yn cynnal eu perthynas yn unol â'r egwyddorion a ganlyn:-

##### 3.4.1 **Bod yn Agored ac Ymddiriedaeth**

Mewn perthynas â'r Cytundeb hwn bydd y Partïon yn agored ac yn ymddiried yn y naill a'r llall wrth ddelio â'i gilydd, yn rhoi gwybodaeth a dadansoddiadau ar gael i'w gilydd, yn trafod ac yn datblygu syniadau'n agored ac yn cyfrannu'n llawn at bob agwedd o wneud y cydweithio'n llwyddiannus. Gan barchu'r angen o bob ochr am gyfrinachedd masnachol, bydd y Partïon yn cofleidio'n barod ymrwymiad i dryloywder yn eu hymwneud ac yn benodol angen i gydymffurfio â mynediad statudol i ofynion gwybodaeth yn cynnwys Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a'r codau ymarfer sy'n eu cefnogi. Bydd y Partïon yn ymwybodol o'r angen i barchu materion o gyfrinachedd masnachol a sensitifrwydd posib;

##### 3.4.2 **Ymrwymiad a Chymhelliant**

Bydd y Partïon wedi'u hymrwymo'n llawn i weithio gyda'i gilydd, yn ceisio ysgogi'r holl weithwyr ac yn mynd i'r afael â heriau cyflawni'r Cynllun Twf yn llawn brwdfrydedd ac yn benderfynol o lwyddo;

##### 3.4.3 **Sgiliau a Chreadigedd**

Mae'r Partïon yn cydnabod bod pob un yn dod â sgiliau a gwybodaeth ddefnyddiol y gellir eu cymhwyso'n greadigol er mwyn cyflawni amcanion y Partïon, parhad, datrys anawsterau a datblygu'r berthynas gydweithio a'r staff sy'n gweithio oddi mewn iddi. Cydnabyddir y bydd hyn yn golygu gwerthfawrogi a mabwysiadu gwerthoedd cyffredin;

##### 3.4.4 **Perthnasau Effeithiol**

Bydd rolau a chyfrifoldebau pob un Parti yn glir, gan ddatblygu perthnasau ar y lefelau priodol ym mhob sefydliad, gyda mynediad hawdd ac uniongyrchol at gynrychiolwyr y naill a'r llall;

#### 3.4.5 **Datblygu ac Addasu**

Mae'r Partïon yn cydnabod eu bod ynghlwm â beth allasai fod yn berthynas hirdymor, sydd angen datblygu ac addasu, a byddant yn ymdrechu'n rhesymol i ddatblygu a chynnal proses ar y cyd effeithiol er mwyn sicrhau bod y berthynas yn datblygu'n briodol ac yn unol â'r egwyddorion a'r amcanion hyn;

#### 3.4.6 **Enw Da**

Mae'r Partïon yn cytuno, mewn perthynas â'r Cytundeb hwn a'r Cynllun Twf yn gyffredinol, y byddant yn rhoi'r sylw pennaf i enw da'r naill a'r llall, ac yn gweithredu gan ystyried codau ymddygiad cyflogwyr ac aelodau pob Parti ei hun ac na fyddant yn gwneud na'n methu â gwneud dim byd a fyddai'n dwyn gwarth ar enw da unrhyw Barti arall neu'n denu cyhoeddusrwydd gwael i unrhyw Barti arall;

#### 3.4.7 **Rhesymoldeb Gwneud Penderfyniadau**

Mae'r Partïon yn cytuno y bydd yr holl benderfyniadau a wneir mewn perthynas â'r Cytundeb hwn a'r Cynllun Twf yn gyffredinol yn cael eu gwneud gan ymddwyn yn rhesymol ac yn ddidwyll;

#### 3.4.8 **Caniatâd Angenrheidiol**

Mae pob Parti drwy hyn yn sicrhau i'r Partïon eraill ei fod wedi derbyn pob caniatâd angenrheidiol sy'n ddigon i sicrhau y dirprwyir y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau y darperir ar eu cyfer yn y Cytundeb hwn;

#### 3.4.9 **Ymrwymïadau Aelodau, Swyddogion, Cyfarwyddwyr a Gweithwyr**

Bydd pob Parti yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod eu haelodau, eu swyddogion, eu cyfarwyddwyr a'u gweithwyr hwy sydd ynghlwm â'r Cynllun Twf yn gweithredu er pennaf les y Cynllun Twf bob tro, ac yn gweithredu gan ystyried cod ymddygiad cyflogwyr ac aelodau pob Parti ei hun, yn rhoi digon o adnoddau i gyflawni'r Cynllun Twf ac yn ymateb yn brydlon i bob cais perthnasol gan y Partïon eraill.

#### 3.4.10 **Cod Ymddygiad GA**

Mae'r Ymgynghorwyr yn cytuno y byddant yn gweithredu yn unol â Chod Ymddygiad GA mewn perthynas â'r Cytundeb hwn a'r Cynllun Twf yn gyffredinol.

### 4. **Y CORFF ATEBOL**

- 4.1 Mae'r Partïon (gan weithredu bob yn un) wedi cytuno mai Cyngor Gwynedd fydd y Corff Atebol sy'n gyfrifol am gyflawni rhwymedigaethau'r Partïon yng nghyswllt y Cynllun Twf yn unol â'r Cytundeb hwn ar gyfer ac ar ran y Partïon, ac y bydd hynny'n dod i rym o'r Dyddiad Cychwyn. Mae Cyngor Gwynedd yn cytuno i weithredu yn y capasiti hwnnw yn amodol ar amodau a thelerau'r Cytundeb hwn ac yn unol â hynny.
- 4.2 Os yw'r Corff Atebol yn methu, a bod y Cytundeb yn cael ei derfynu yng nghyswllt hynny yn unol â Chymal 2.3 (*Cychwyn, Oes a Therfynu*), neu os yw'r Corff Atebol yn tynnu'n ôl yn unol â Chymal 15 (*Tynnu'n ôl*), bydd y Cyd-bwyllgor yn penodi Corff Atebol yn ei le, ac ni fydd gan y Corff Atebol sydd wedi tynnu'n ôl neu, fel sy'n briodol, wedi methu, yr hawl i bleidleisio yng nghyswllt unrhyw benodiad o'r fath.
- 4.3 Pan caiff Corff Atebol newydd ei benodi yn ei le, yn unol â Chymal 4.2 uchod, bydd unrhyw gyfeiriad at Gyngor Gwynedd (yn rhinwedd ei rôl fel y Corff Atebol

cychwynnol) yn cael ei ddarllen gan gyfeirio at y Corff Atebol newydd sydd yn ei le.

- 4.4 Bydd y Corff Atebol yn gweithredu fel Corff Atebol a bydd yn derbyn:-
- 4.4.1 unrhyw Gyfraniad TEM gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ac ar ran y Partïon;
  - 4.4.2 Cyfraniad y Partïon; ac
  - 4.4.3 unrhyw arian arall y gellir ei dderbyn o bryd i'w gilydd yn benodol yng nghyswllt y Cynllun Twf ac sydd er budd yr holl Partïon,

a bydd yn dal ac yn rheoli Cyfraniad TEM, Cyfraniad y Partïon ac unrhyw arian arall o'r fath yn unol â thelerau'r Cytundeb hwn.

## 5. DYLETSWYDDAU'R CORFF ATEBOL

5.1 Ar gyfer oes y Cytundeb hwn, bydd y Corff Atebol:

- 5.1.1 yn gweithredu'n ddiwyd ac yn ddiwyll ym mhopeth a wna gyda'r Partïon eraill a bydd yn gwneud ymdrech resymol i gyflawni rhwymedigaethau'r Partïon yng nghyswllt y Cynllun Twf drwy ac yn unol â'r Cytundeb hwn a'r holl ddeddfwriaeth berthnasol yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:-
  - (a) Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
  - (b) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011;
  - (c) unrhyw hysbysiad cydymffurfio a gyhoeddir dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yng nghyswllt y Corff Atebol; a
  - (d) Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd)
- 5.1.2 yn gweithredu fel y prif ryngwyneb (ar ei ran ei hun ac ar ran y Partïon eraill) gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Chronfa Datblygu Ranbarthol Ewrop ac unrhyw gorff arall sy'n angenrheidiol i gyflawni rhwymedigaethau'r Partïon yng nghyswllt y Cynllun Twf;
- 5.1.3 yn gweithredu fel y Corff Atebol i ddal unrhyw arian a dderbynnir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU (os o gwbl), Cronfa Datblygu Ranbarthol Ewrop (os o gwbl), y Partïon a/neu unrhyw ffynonellau eraill (os o gwbl) yng nghyswllt y Cynllun Twf a bydd ond yn defnyddio ac yn rhyddhau'r arian hwn fel y cytunir yn unol â thelerau arian o'r fath a'r Cytundeb hwn;
- 5.1.4 heb gymryd cyfrifoldeb am gyflawni unrhyw brosiect penodol o fewn y Cynllun Twf ac o fewn cyfyngiadau'r arian sydd wedi'i ddarparu iddo (fel rhan o Gostau'r Cyd-bwyllgor), bydd yn darparu'r gwasanaethau cefnogaeth sydd angen i hwyluso gwaith y Cyd-bwyllgor (a'i is-bwyllgorau a'i grwpiau a sefydlir yn unol â Chymalau 9.21 a 9.23 a'r Swyddfa Ranbarthol y cyfeirir ati yn y Fframwaith Sicrwydd), yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i wasanaethau cyllid, adnoddau dynol, cyfreithiol, TGCh, ystadau, rheoli gwybodaeth, archwilio mewnol a chaffael.  
  
Er osgoi amheuaeth, ni fydd darpariaethau'r Cymal 5.1.4 hwn yw llyffetheirio gallu'r Corff Atebol i ymrwymo i drefniadau gydag unrhyw rai o'r Partïon eraill i ddarparu'r gwasanaethau uchod ar ei ran.
- 5.1.5 heb gymryd cyfrifoldeb am gyflawni unrhyw brosiect penodol o fewn y Cynllun Twf, darparu i Brif Swyddog Cyllid y Corff Atebol ("**Swyddog a151**")

a'r Swyddog Monitro (neu eu dirprwyon a enwebir) i weithredu, yn eu trefn, fel Swyddog Adran 151 a Swyddog Monitro i'r Cyd-bwyllgor; a

5.1.6 heb gyfyngu i'w rolau dan ddarpariaeth flaenorol y Cymal 5.1 hwn, bod â chyfrifoldeb ar y cyd ar gyfer, ond heb fod yn gyfyngedig i, weinyddu materion ariannol y Cyd-bwyllgor (a'i Is-bwyllgorau a'i grwpiau a sefydlir yn unol â Chymalau 9.21 a 9.23), yn cynnwys cyfrifo TAW, cadw cofnodion ariannol, sicrhau y paratoir cyfrifon blynyddol y Cyd-bwyllgor yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol a gwneud trefniadau ar gyfer archwilio'r Cyd-bwyllgor yn allanol.

5.1.7 Defnyddio'r Grŵp Rheoli Prosiect fel sydd wedi'i nodi yng nghymal 11.

## 6. DYLETSWYDDAU'R PARTIÖN ERAILL

6.1 Ar gyfer oes y Cytundeb hwn, bydd y Partiön eraill yn gweithredu'n ddiwyd ac yn ddiwyll ym mhopeth a wnânt gyda'r Corff Atebol a byddant yn gwneud ymdrech resymol i gynorthwyo'r Corff Atebol i gyflawni rhwymedigaethau'r Partiön yng nghyswllt y Cynllun Twf drwy ac yn unol â'r Cytundeb hwn a'r holl ddeddfwriaeth berthnasol.

6.2 Cydnabyddir a chytunir y bydd rhwymedigaethau a chyfrifoldebau pob Parti yn rhwymo unrhyw endid olynol pe byddai unrhyw ad-drefnu Cynghorau neu Ymgynghorwyr yn digwydd.

## 7. CYNLLUN BUSNES

### 7.1 Cynllun Busnes GA2

7.1.1 Bydd y Cyd-bwyllgor yn paratoi (neu'n caffael paratoi), Cynllun Busnes drafft, a fydd yn cydymffurfio â darpariaeth Cymal 7.1.3 isod. Y bwriad yw creu Cynllun Busnes GA2 pum (5) mlynedd trosfwaol a fydd, ymhlith materion eraill, yn nodi amcanion a blaenoriaethau'r Partiön er mwyn cyflawni'r Cynllun Twf. Yna, bwriedir i Gynllun Busnes GA2 gael ei ddiweddarau'n flynyddol.

7.1.2 Bydd cwblhau Cynllun Busnes GA2 ac yna'r penderfyniad i gymeradwyo a mabwysiadu Cynllun Busnes GA2, yn weithredoedd dan GA2 gyda'r penderfyniad terfynol yn Fater a Gedwir i'r Partiön.

7.1.3 Bydd Cynllun Busnes GA2, ymhlith materion eraill, yn ymdrin â'r isod:

- (a) costau a buddsoddiad cyffredinol gan bob Parti dros gyfnod y Cynllun Twf;
- (b) y fethodoleg ar gyfer cytuno ar natur, ystod a blaenoriaeth y prosiectau i'w datblygu er budd cyffredinol Rhanbarth Gogledd Cymru (yn unol â thelerau'r Cynllun Gweithredu);
- (c) y fethodoleg a'r chyfrifoldeb ar gyfer unrhyw archwiliadau allanol yng nghyswllt y Cytundeb hwn;
- (d) methodoleg a chyfrifoldeb unrhyw fonitro perfformiad ynghyd ag unrhyw ddangosyddion perfformiad i alluogi i'r Cyd-bwyllgor fesur cynnydd yn erbyn Cynllun Busnes GA2; ac
- (e) unrhyw adroddiadau monitro refeniw a chyfalaf i'w paratoi ar gyfer y Cyd-bwyllgor ac amlder adroddiadau o'r fath.

## 8. GWNEUD PENDERFYNIADAU

8.1 Yn nhermau'r angen am benderfyniadau a chatau eraill i'w cymryd a'u gwneud yn ystod cyfnod y Cytundeb hwn, mae'r Partïon wedi adnabod y tri chategori a ganlyn, ynghyd â'r modd y byddant yn cael eu gwneud:-

- 8.1.1 **"Mater Dirprwyedig"** - sef mater y disgwylir i'r Tîm Gweithredol neu is-bwyllgor sydd wedi'i sefydlu gan y Cyd-bwyllgor allu gwneud penderfyniad arno o bryd i'w gilydd a bod â'r pŵer i rwymo'r Cyd-bwyllgor wrth wneud hynny;
- 8.1.2 **"Mater i'r Cyd-bwyllgor"** - sef mater sydd o fewn cylch gwaith y Cyd-bwyllgor y gall wneud penderfyniad arno a bod â'r pŵer i rwymo'r Partïon wrth wneud hynny;
- 8.1.3 **"Materion a Gedwir i'r Partïon"** – sef mater y bydd rhaid ei gyfeirio at bob Parti er penderfyniad, ac er osgoi amheuaeth, ni fydd y Cyd-bwyllgor yn ymdrin â'r mater sydd angen penderfyniad hyd nes bod pob un o'r Partïon wedi penderfynu arno'n unfrydol,

ac ym mhob achos, mae materion o'r fath wedi'u hadnabod yn Atodlen 1 (*Polisi Dirprwy*). Caiff y Polisi Dirprwy ei ddiweddarau gan y Cyd-bwyllgor o bryd i'w gilydd.

## 9. Y CYD-BWYLLGOR

9.1 Bydd y Cynghorau'n ffurfio'r Cyd-bwyllgor yn unol â'r cytundeb hwn ("**Cyd-bwyllgor**") er dibenion:-

- 9.1.1 cydlynu cynllunio a chyflawni'r Weledigaeth Twf, gan ganolbwyntio'n wreiddiol ar y Cynllun Twf
- 9.1.2 rhoi cyfeiriad i strategaethau allweddol i gefnogi paragraff 9.1.1 uchod, yn benodol trafndiaeth, sgiliau a chyflogaeth, datblygu'r economi a chynllunio defnydd tir;
- 9.1.3 uno partneriaid o amgylch diben cyffredin i gefnogi 9.1.1 uchod;
- 9.1.4 rhoi cyfeiriad i unrhyw Is-fyrddau y mae'r Cyd-bwyllgor yn dewis eu penodi yn cynnwys comisiynu tasgau neu brosiectau penodol;
- 9.1.5 cynnig prosiectau y gellid ymgymryd â hwy fel rhan o'r Cynllun Twf;
- 9.1.6 trafod prosiectau o'r fath i asesu p'un a oes cyfiawnhad am ddiwydrwydd dyladwy pellach a chyrraedd cytundeb ar y costau y dylid mynd iddynt wrth ymgymryd â gwaith arfarnu pellach;
- 9.1.7 cytuno ar Gynllun Gweithredu profforma a fydd yn gosod y broses ar gyfer cytuno a blaenoriaethu prosiectau a gaiff eu cymryd ymlaen yn unol â'r Cynllun Twf;
- 9.1.8 paratoi Cynllun Busnes drafft yn unol â Chymal 7 (*Cynllun Busnes*); a
- 9.1.9 goruchwylio a chydlynu cyflawni rhwymedigaethau paratoadol y Cynghorau yng nghyswllt y Cynllun Twf,
- 9.1.10 Gwneud yr holl benderfyniadau angenrheidiol i fwrw ymlaen â nodau ac amcanion y Strategaeth Twf Ranbarthol
- 9.1.11 ymgymryd â'r swyddogaethau sydd wedi'u nodi yn Atodlen 2 (Cylch Gorchwyl y Cyd-bwyllgor).

- 9.2 Gall y Cyd-bwyllgor ymgymryd ag unrhyw swyddogaethau eraill o'r fath fel y penna'r Cynghorau o bryd i'w gilydd a'u cymeradwyo fel Materion a Gedwir i'r Partïon.
- 9.3 Ni fydd gan y Cyd-bwyllgor y pŵer i gymeradwyo unrhyw Fater a Gedwir i'r Partïon.
- 9.4 Bydd gan yr Ymgynghorwyr yr hawl i fynychu a siarad yng nghyfarfodydd y Cyd-bwyllgor.
- 9.5 Bydd pob Parti yn penodi un (1) cynrychiolydd i'r Cyd-bwyllgor. Mae manylion pob un o'r cynrychiolwyr wedi'u nodi yn Atodlen 7 (Manylion y Cynrychiolwyr).
- 9.6 Bydd Cadeirydd y Cyd-bwyllgor yn gynrychiolydd Cyngor a benodir i'r Cyd-bwyllgor a chaiff ei benodi'n flynyddol gan y Cyd-bwyllgor yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol. Ni fydd gan y Cadeirydd bleidlais fwrw
- 9.7 Bydd gan bob Parti hawl, o bryd i'w gilydd, i benodi dirprwy wedi'i enwi ar gyfer ei gynrychiolydd. Gall unrhyw ddirprwyon fynychu cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor ond ni fydd ganddynt hawl i siarad na phleidleisio mewn cyfarfodydd oni bai bod y prif gynrychiolydd cyfatebol yn absennol.
- 9.8 Gall pob Parti, ar ei ddisgresiwn, newid ei gynrychiolydd (a'i ddirprwy priodol) a benodir i'r Cyd-bwyllgor, ar yr amod:-
- 9.8.1 bod ganddynt, bob amser, gynrychiolydd wedi'i ethol i'r Cyd-bwyllgor yn unol â'r rolau sydd wedi'u hadnabod yn Atodlen 2 (*Cylch Gorchwyl y Cyd-bwyllgor*);
- 9.8.2 nad oes gan yr olynydd statws nac awdurdod is na'r hyn sydd wedi'i nodi yn Atodlen 2 (*Cylch Gorchwyl y Cyd-bwyllgor*) oni bai y cytuna'r Partïon fel arall; a
- 9.8.3 chaiff manylion unrhyw gynrychiolydd o'r fath eu rhannu gyda'r Partïon eraill yn ysgrifenedig, er mwyn diweddarau'r manylion perthnasol sydd wedi'u nodi yn Atodlen 7 (Manylion y Cynrychiolwyr).
- 9.9 Oni bai bod y Cyd-bwyllgor yn penderfynu fel arall (e.e. os pennir nad oes angen cyfarfod), bydd y Cyd-bwyllgor yn cyfarfod naill ai bob mis neu fel sydd angen yn unol ag amserlen y Cynllun Twf. Caiff cyfarfodydd eu galw ar amseroedd priodol ac wedi rhoi'r hysbysiad statudol angenrheidiol (i'w gyhoeddi drwy'r Corff Atebol) i drafod Materion y Cyd-bwyllgor y cyfeirir atynt yn Atodlen 1 (*Polisi Dirprwyo*).
- 9.10 Disgwylir i bob Cyngor a phob Ymgynghorydd fynychu holl gyfarfodydd y Cyd-bwyllgor lle bo hynny'n bosib.
- 9.11 Gall unrhyw gynrychiolydd ofyn i fater gael ei ystyried yng nghyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor, drwy wneud cais ysgrifenedig i'r Tîm Gweithredol.
- 9.12 Bydd y Tîm Gweithredol yn sicrhau y caiff yr holl raglenni a'r wybodaeth berthnasol yng nghyswllt cyfarfod y Cyd-bwyllgor eu dosbarthu'n amserol a beth bynnag yn unol â gofynion deddfwriaethol.
- 9.13 Gall unrhyw gynrychiolydd ofyn i'r Cadeirydd ar ddechrau cyfarfod y Cyd-bwyllgor i eitem frys gael ei hychwanegu i'r rhaglen, os yw ef neu hi yn ystyried bod angen ystyried mater ar frys, ond mater i'r Cadeirydd benderfynu a yw am ei gynnwys fydd hyn.
- 9.14 Y cworwm angenrheidiol i gyfarfod y Cyd-bwyllgor fydd cynrychiolydd neu ddirprwy o o leiaf 4 Cyngor.
- 9.15 Yng nghyfarfodydd y Cyd-bwyllgor bydd gan bob cynrychiolydd neu ddirprwy priodol



(yn absenoldeb y cynrychiolydd perthnasol) o bob Cyngor un bleidlais.

- 9.16 Yng nghyfarfodydd y Cyd-bwyllgor, bydd gan bob cynrychiolydd neu ddirprwy priodol (yn absenoldeb y cynrychiolydd perthnasol) o bob Ymgynghorydd yr hawl i gynghori'r Cyd-bwyllgor ar benderfyniadau a chaiff eu barn ei chofnodi gan y Cyd-bwyllgor. Er nad oes bwriad i'r Ymgynghorwyr gael hawliau pleidleisio ffurfiol, bydd y Cyd-bwyllgor yn ystyried unrhyw farn neu sylw a wneir gan yr Ymgynghorwyr ac os nad yw'r Ymgynghorwyr yn cytuno gyda phenderfyniad arfaethedig, bydd y Cyd-bwyllgor yn ystyried (gan ymddwyn yn ddidwyll) datgan bod mater yn Fater Heb ei Ddatrys gan y Cyd-bwyllgor.
- 9.17 Gwneir penderfyniadau yng nghyfarfodydd y Cyd-bwyllgor drwy bleidlais fwyafrif syml o'r cynrychiolwyr (neu ddirprwyon fel sy'n briodol) o'r Cynghorau sy'n bresennol, ar yr amod os:
- 9.17.1 yw'r pleidleisiau'n gyfartal (h.y. sefyllfa ddiddatrys); neu
- 9.17.2 bod dau Barti neu fwy yn gwneud cais o'r fath yn y cyfarfod,
- caiff y penderfyniad hwnnw ei ddatgan fel Mater Heb ei Ddatrys gan y Cyd-bwyllgor ac ymdrinnir ag ef yn unol â Chymal 9.18.
- 9.18 Os, mewn cyfarfod o'r Cyd-bwyllgor, nad yw mater yn derbyn penderfyniad, caiff y mater hwnnw ("**Mater Heb ei Ddatrys gan y Cyd-bwyllgor**") ei ohirio er mwyn ei ystyried yng nghyfarfod arferol nesaf y Cyd-bwyllgor, neu adeg gynharach o'r fath fel y cytunir. Os, yn yr ail gyfarfod, nad yw'r Cyd-bwyllgor yn gwneud penderfyniad ar y Mater Heb ei Ddatrys, ni fydd cytundeb ar y Mater Heb ei Ddatrys gan y Cyd-bwyllgor ac ni chaiff ei weithredu gan y Cyd-bwyllgor.
- 9.19 Bydd pob Parti yn darparu'r holl wybodaeth sy'n rhesymol ofynnol ar gais gan y Cyd-bwyllgor i'r Tîm Gweithredol, a byddant yn cydymffurfio ag unrhyw benderfyniadau gan y Cyd-bwyllgor i ofyn am wybodaeth o'r fath.
- 9.20 Bydd pob Parti yn ymgynghori â'r Partïon eraill i sicrhau bod y materion dydd i ddydd sy'n ymwneud â chyflawni rhwymedigaethau'r Partïon yng nghyswllt y Cynllun Twf yn mynd yn eu blaen yn ddiwyd.
- 9.21 Os yw Parti yn dymuno darparu unrhyw wybodaeth a/neu gyflwyno hysbysiad neu orchymyn ar y Cyd-bwyllgor, dylid cyflwyno'r rhain i'r Tîm Gweithredol yn unol â Chymal 23.3 (*Hysbysiadau*). Bydd y Tîm Gweithredol yn cadw cofnod o'r holl wybodaeth, hysbysiadau a gorchymynion a dderbynnir a bydd yn diweddarau pob cynrychiolydd yn brydlon.
- 9.22 Mae'r Partïon yn cydnabod ac yn cytuno y bydd y Cyd-bwyllgor yn mabwysiadu (fel sy'n briodol) reolau sefydlog, rheolau gweithdrefnau ariannol ac unrhyw bolisiau a gweithdrefnau perthnasol eraill contract cyffredinol y Corff Atebol ar gyfer ac ar ran y Partïon wrth gyflawni ei rwymedigaeth dan y Cytundeb hwn a bod prif swyddog cyllid y Corff Atebol ('**Swyddog A151**') a'r Swyddog Monitro (neu eu dirprwyon a enwebir) yn gweithredu, yn y drefn honno, fel Swyddog Adran 151 a Swyddog Monitro'r Cyd-bwyllgor.
- 9.23 Mae'r Ymgynghorwyr yn cydnabod ac yn cytuno y bydd eu cynrychiolydd neu eu dirprwy yn cydymffurfio â thelerau Cod Ymddygiad y GA.
- 9.24 **Gall y Cyd-bwyllgor Ddirprwyo**
- 9.24.1 Gall y Cyd-bwyllgor ddirprwyo unrhyw rai o'r pwerau sydd wedi'u rhoi iddo dan y Cytundeb hwn:
- (a) i is-bwyllgor neu swyddog o un o'r cynghorau;

- (b) i'r fath raddau;
- (c) yng nghyswllt materion o'r fath; ac
- (d) ar amodau a thelerau o'r fath,

yr ystyria'n addas o bryd i'w gilydd (yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau y gellid eu gosod ar ddirprwyo o'r fath gan unrhyw un o'r Cynghorau).

- 9.24.2 Gall y Cyd-bwyllgor ganiatáu y bydd dirprwyo fel hyn yn awdurdodi dirprwyo pwerau'r Cyd-bwyllgor ymhellach yn awtomatig, gan unrhyw berson y maent wedi'u dirprwyo iddo, ar yr amod bod y Cyd-bwyllgor yn nodi hyn yn benodol o fewn awdurdod dirprwyo o'r fath.
- 9.24.3 Gall y Cyd-bwyllgor ddiddymu unrhyw ddirprwyo yn gyfan gwbl neu'n rhannol, neu addasu'r amodau a thelerau unrhyw bryd.

## 9.25 Is-bwyllgorau

- 9.25.1 Cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol, bydd y Cyd-bwyllgor yn sefydlu'r is-bwyllgorau neu'r grwpiau sydd wedi'u nodi isod. Bydd cylch gorchwyl cychwynnol yr is-bwyllgorau, yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Cyd-bwyllgor a'i bwerau i amrywio neu ddiddymu dirprwyo o'r fath yn unol â chymal 9.24 uchod, fel y'i nodir yn nhrydedd rhan Atodlen 2 :
  - (a) is-bwyllgor trafndiaeth; a
  - (b) Chyflawniad Digidol.
- 9.25.2 Bydd y Corff Atebol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau Archwilio Mewnol i'r Cyd-bwyllgor a bydd adroddiadau archwilio yng nghyswllt y Cyd-bwyllgor yn cael eu hystyried gan ei Bwyllgor Archwilio yn unol â'i reolau a'i arferion arferol.
- 9.25.3 Cydnabyddir a chytunir gan y Partïon y bydd yr is-bwyllgorau neu'r grwpiau y cyfeirir atynt yng Nghymalau 9.21, 9.24.1 a 9.25.2:
  - (a) yn ymgymryd â nifer o swyddogaethau yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i wasanaethau archwilio, craffu a/neu ymgynghori yn unol â'u cylch gorchwyl; ac
  - (b) ni fydd ganddynt unrhyw bwerau dirprwyedig i wneud penderfyniadau (oni bai y cymeradwyir hynny'n benodol fel arall gan y Cyd-bwyllgor).
- 9.25.4 Rhaid i is-bwyllgorau neu grwpiau y mae'r Cyd-bwyllgor yn dirprwyo unrhyw rai o'i bwerau iddynt ddilyn gweithdrefnau sy'n seiliedig gyhyd ag sy'n berthnasol ar y darpariaethau hynny yn y Cytundeb hwn sy'n llywodraethu'r Cyd-bwyllgor wrth wneud penderfyniadau.
- 9.25.5 Bydd y Cyd-bwyllgor yn sefydlu aelodaeth, rheolau gweithdrefn a chylch gorchwyl yr holl is-bwyllgorau neu grwpiau neu unrhyw rai ohonynt er mwyn, ymhlith materion eraill, egluro eu rôl briodol ac ystod y dirprwyo a gaiff ei gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor.
- 9.25.6 Gall y Cyd-bwyllgor greu is-bwyllgorau, is-grwpiau neu Gerbyd Pwrpas Arbennig (CPA) ychwanegol (yn amodol ar yr angen i sicrhau cymeradwyaeth anweithredol ar gyfer cwmni masnachu awdurdod lleol a sefydlir dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003) fel y gwêl yn dda o bryd i'w

gilydd.

## 10. **CRAFFU**

- 10.1 Bydd penderfyniadau'r Cyd-bwyllgor yn amodol ar graffu a galw i mewn gan unrhyw un o'r Cynghorau.
- 10.2 O bryd i'w gilydd, gall y Cynghorau alw grŵp ("y Grŵp Cydlynu Craffu") sy'n cynnwys cadeiryddion y pwyllgorau trosolwg a chraffu perthnasol sydd â chyfrifoldeb dros y Cynllun Twf er mwyn:
  - 10.2.1 Cydlynu unrhyw waith craffu sydd wedi'i gynllunio o'r gwaith sydd wedi'i wneud neu sydd i'w wneud gan y Cyd-bwyllgor, a/neu unrhyw benderfyniadau sydd wedi'u gwneud neu i'w gwneud gan y Cyd-bwyllgor
  - 10.2.2 Cydlynu unrhyw drefniadau i alw penderfyniad a wnaed gan y Cyd-bwyllgor i mewn
  - 10.2.3 Cytuno ar drefniadau i wahodd cynghorau o unrhyw rai o'r Cynghorau neu'r cyfan i fynychu cyfarfod o bwyllgor trosolwg a chraffu'r Cyngor er mwyn craffu gwaith a phenderfyniadau'r Cyd-bwyllgor

## 11. **TÎM GWEITHREDOL A GRŴP RHEOLI PROSIECT**

### 11.1 **Cyfansoddiad ac Awdurdod y Tîm Gweithredol a'r Grŵp Rheoli Prosiect**

- 11.1.1 Bydd y Partïon yn ffurfio'r Tîm Gweithredol er dibenion gweithredu'r Cynllun Twf a rheoli rhwymedigaethau'r Partïon o ddydd i ddydd yng nghyswllt y Cynllun Twf ac ymgymryd â'r swyddogaethau sydd wedi'u nodi yn Atodlen 2, (*Cylch Gorchwyl y Tîm Gweithredol*).
- 11.1.2 Ni fydd gan y Tîm Gweithredol unrhyw bwerau i wneud penderfyniadau yn unol â'r Cytundeb hwn.
- 11.1.3 Bydd pob Parti yn penodi un cynrychiolydd o blith uwch swyddogion i'r Tîm Gweithredol ac unrhyw gynrychiolwyr eraill y gall y Cyd-bwyllgor eu pennu o bryd i'w gilydd. Bydd y cadeirydd yn gynrychiolydd fel y penna'r Cyd-bwyllgor o bryd i'w gilydd.
- 11.1.4 Bydd gan bob Parti hawl, o bryd i'w gilydd, i benodi dirprwy i'w uwch swyddog a bydd gan y dirprwy hwn (ym mhob achos) yr hawl i fynychu cyfarfodydd y Tîm Gweithredol yn lle'r uwch swyddog.
- 11.1.5 Ar eu disgrisiwn, bydd y Partïon yn disodli eu cynrychiolwyr (a'u dirprwyon perthnasol) a benodir i'r Tîm Gweithredol ar yr amod bod hyn ar yr un sail â'r sawl a benodwyd yn wreiddiol ac ar yr amod na chaiff yr un uwch swyddog o'r Tîm Gweithredol ei symud na'i ddisodli gan unrhyw Barti heb i'r Parti hwnnw roi rhybudd ysgrifenedig ymlaen llaw cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol a beth bynnag o fewn deg (10) Diwrnod Busnes o'i fwriad i symud neu ddisodli'r cynrychiolydd hwnnw.
- 11.1.6 Bydd y Tîm Gweithredol yn cyfarfod fel sydd angen yn unol â'r amserlen ar gyfer y Cynllun Twf a, beth bynnag, ar amseroedd y mae'r Tîm Gweithredol yn penderfynu arnynt.
- 11.1.7 Bydd y Tîm Gweithredol yn rhoi cyfarwyddyd a chyngor i'r Grŵp Rheoli Prosiect ar weithrediad penderfyniadau'r Cyd-bwyllgor.
- 11.1.8 Bydd y Corff Atebol yn defnyddio swyddogion i weithredu penderfyniadau'r Cyd-bwyllgor, sef y Grŵp Rheoli Prosiect.

11.1.9 O bryd i'w gilydd, gall Partïon secondio'u gweithwyr i'r Grŵp Rheoli Prosiect

## 12. YMRWYMIAD Y PARTÏON A CHYFRANIADAU

### 12.1 Cyffredinol

Yn amodol ar Gymal 15 (*Tynnu'n Ôl*), mae'r Partïon yn cytuno i ymrwymo i'r Cynllun Twf yn unol â thelerau'r Cytundeb hwn, ac i beidio â chomisiynu neu ymgymryd ag unrhyw gaffaeliad a/neu brosiect a fyddai'n ceisio neu'n peri cyflawni'r cyfan neu unrhyw ran o'r Cynllun Twf y tu allan i delerau'r Cytundeb hwn.

### 12.2 Costau Mewnol

12.2.1 Yn amodol ar Gymal 12.2.2, bydd y Costau Mewnol a geir gan bob Parti (yn cynnwys y Corff Atebol) yn cael eu talu gan y Parti sy'n darparu'r adnodd mewnl hwnnw.

12.2.2 Mae'r Partïon yn cytuno drwy hyn, os yw un o'r Partïon yn credu ei fod yn debygol o gael Costau Mewnol anghymesur, y caiff y mater hwnnw ei gyfeirio at y Cyd-bwyllgor am benderfyniad ynghylch a fydd costau o'r fath yn anghymesur ac a ddylai'r Partïon eraill wneud unrhyw gyfraniadau i'r gost hon.

### 12.3 Costau'r Cyd-bwyllgor

12.3.1 Bydd unrhyw Gostau'r Cyd-bwyllgor a geir gan y Cyd-bwyllgor yn cael eu rhannu ar Sail Gymesur rhwng y Partïon yn unol â'r Cytundeb hwn. Byddant yn ffurfio rhan o'r Gyllideb Flynyddol y cyfeirir ati yng Nghymal 12.4 isod.

12.3.2 Bydd gofyn i bob Parti baratoi cyfrifon yn cynnwys manylion unrhyw Gostau'r Cyd-bwyllgor a geir yn unol ag Atodlen 4 (*Penawdau Gwariant*) ("**y Cyfrifon**") ar gyfer pob Cyfnod Cyfrifyddu ac ar gyfer unrhyw gyfnodau cyfrifo pellach a/neu eraill yn ôl penderfyniad y Cyd-bwyllgor ac a gaiff eu hymgorffori i Atodlen 5 (*Cyfnodau Cyfrifo*). Er osgoi amheuaeth, ni fydd y Cyfrifon hyn yn cynnwys unrhyw gostau refeniw na gofynion buddsoddiad cyfalaf yng nghyswllt gweithredu unrhyw brosiect arfaethedig a byddant yn ymwneud â chostau gweithredu a rheoli'r Cyd-bwyllgor.

12.3.3 Bydd pob Parti:-

- (a) yn y Cyfrifon, yn gwneud cofnodion gwir a chyflawn o'r holl daliadau perthnasol a wnaed ganddo yn ystod y Cyfnod Cyfrifyddu blaenorol;
- (b) o fewn un (1) mis o ddiwedd pob Cyfnod Cyfrifyddu, bydd pob Parti yn darparu Cyfrifon heb eu harchwilio i'r Corff Atebol ar gyfer y Cyfnod Cyfrifyddu hwnnw ynghyd ag ardystiad bod y Cyfrifon hynny yn cydymffurfio â'r Cymal 12 hwn (*Ymrwymiad y Partïon a Chyfraniadau*);
- (c) yn enwebu unigolyn i fod yn gyfrifol am sicrhau bod y Parti hwnnw ei hun yn cydymffurfio â'r Cymal 12 hwn (*Ymrwymiad y Partïon a Chyfraniadau*) a rhoddir gwybod i'r Partïon eraill beth yw enw, cyfeiriad a rhif ffôn pob unigolyn sydd wedi'i enwebu yn unol â'r Cymal 12.3.3(c) hwn (*Ymrwymiad y Partïon a Chyfraniadau*) yn unol â Chymal 23 (*Hysbysiadau*); ac
- (d) os yw unigolyn a enwebir gan Barti yn unol â Chymal 12.3.3(c) (*Ymrwymiad y Partïon a Chyfraniadau*) yn newid, bydd y Parti

hwnnw yn rhoi gwybod i'r Partïon eraill ar unwaith pwy yw'r enwebai newydd.

- 12.3.4 Bydd y Corff Atebol:
- (a) o fewn deg (10) Diwrnod Busnes o dderbyn y Cyfrifon a gyflwynir gan y Partïon eraill yn unol â Chymal 12.3.3(b) yn paratoi datganiad cysoni yn adnabod y taliadau a wnaed gan bob Parti a'r gweddill sy'n daladwy gan bob un neu sy'n ddyledus iddynt; ac
  - (b) o fewn ugain (20) Diwrnod Busnes o baratoi'r datganiad cysoni, yn anfon copi o'r datganiad cysoni ynghyd â naill ai anfoneb mantoli neu, yn amodol ar Gymal 12.3.4(b), taliadau credyd i bob Parti.
- 12.3.5 Ni fydd gorfodaeth ar y Corff Atebol i wneud unrhyw daliadau sy'n dyladwy dan y Cytundeb hwn hyd nes bod y Corff Atebol wedi derbyn yr arian gan y Cyd-bwyllgor yn unol â'r Cymal 12.3 hwn.
- 12.3.6 Bydd Parti sy'n derbyn anfoneb am daliad yn ei dalu'n llawn o fewn ugain (20) Diwrnod Busnes. Rhaid rhoi gwybod am unrhyw gamgymeriad mewn anfoneb mantoli i'r Corff Atebol o fewn pum (5) Diwrnod Busnes o anfon anfoneb mantoli o'r fath. Bydd anfoneb mantoli wedi'i diwygio yn cael ei chyhoeddi gan y Corff Atebol a bydd y Parti sy'n derbyn yr anfoneb hon yn ei thalu'n llawn o fewn ugain (20) Diwrnod Busnes.
- 12.3.7 Mae'r Partïon yn cytuno drwy hyn, os yw un o'r Partïon yn ymgymryd ag unrhyw waith neu'n cael unrhyw gostau neu dreuliau er mwyn ymgymryd ag unrhyw waith neu'n cael unrhyw gostau neu dreuliau nad ydynt o fewn cyllideb neu ystod y gwaith sydd wedi'i nodi yn y Cytundeb hwn neu wedi'i gytuno ymlaen llaw gan y Cyd-bwyllgor, caiff y mater hwnnw ei gyfeirio gan y Tîm Gweithredol i'r Cyd-bwyllgor am benderfyniad ynghylch a fydd y gwaith, y gost neu'r treuliau hyn yn rhan o'r Cynllun Twf neu p'un a ddylai'r gwaith, y gost neu'r treuliau hyn fod yn gyfrifoldeb llwyr ar y Parti sy'n ymgymryd â hwy neu sy'n gofyn amdanynt (yn ôl fel y bo'n digwydd).

## 12.4 Cyllideb Flynyddol

- 12.4.1 Yn amodol ar Gymal 12.4.2, bydd y Gyllideb Flynyddol i'r Corff Atebol cyn derbyn unrhyw Gyfraniad TEM (sy'n cynnwys unrhyw gostau'r Cyd-bwyllgor), yn cael ei pharatoi ar ffurf drafft gan y Corff Atebol a'i chytuno gan y Cyd-bwyllgor a bydd pob un o'r Partïon yn cyfrannu tuag at y Gyllideb Flynyddol ar Sail Gymesur.
- 12.4.2 Yn gychwynnol, yng nghyswllt y Gyllideb Flynyddol:
- (a) bydd pob Cyngor (ac eithrio'r Corff Atebol) yn talu swm o bumdeg mil o bunnoedd (£50,000); ac
  - (b) ac eithrio'r NWMD, bydd pob Ymgynghorydd yn talu'r swm o bum mil ar hugain (£25,000);
- i'r Corff Atebol o fewn [deg (10) Diwrnod Busnes] o'r Dyddiad Cychwyn. Bydd y Corff Atebol yn ychwanegu £50,000 ei hun i'r Gyllideb Flynyddol.
- 12.4.3 Bydd y Corff Atebol yn dal ac yn cyfrifo am y Gyllideb Flynyddol ar ran y Cyd-bwyllgor a'r Partïon eraill.
- 12.4.4 Bydd yr NWMD, yn hytrach na thalu arian yn gorfforol i'r Corff Atebol, yn ymgymryd i gyfrannu £50,000 mewn nwyddau i'r Corff Atebol a'r Cyd-bwyllgor, sef gwasanaethau a gweithlu.

12.4.5 Bydd unrhyw orwariant ar y Gyllideb Flynyddol yn cael eu cyfrif amdanynt gan y Partïon ar Sail Gymesur.

12.4.6 Caiff Cyllideb Flynyddol i'r Corff Atebol yn dilyn cadarnhau'r Cynllun Twf ei chytuno fel rhan o GA2, ynghyd â'r broses o ddiweddarau cyllideb o'r fath a chanlyniadau unrhyw orwariant ar y gyllideb honno.

## 12.5 Cyfraniadau

### 12.5.1 Cyfanswm cyfraniadau

Mae'r Partïon yn cydnabod ac yn cytuno yr ariannir cyflawni rhwymedigaethau'r Partïon yng nghyswllt y Cynllun Twf fel a ganlyn yn y pendraw:

- (a) swm y cytunir arno yn y Cynllun Twf gan TEM ("**Cyfraniad TEM**") a gaiff ei fanylu yn GA2;
- (b) swm y cytunir arno yn y Cynllun Twf fel cyfanswm gan y Partïon ("**Cyfraniad y Partïon**") a gaiff ei fanylu yn GA2; a
- (c) chyfraniad pob Parti tuag at y Gyllideb Flynyddol, ar Sail Gymesur, yn unol â Chymal 12.4 (*Cyllideb Flynyddol*).

### 12.5.2 Cyfraniad TEM

Cydnabyddir a chytunir y caiff Cyfraniad TEM ei gynnwys yn y Cynllun Twf. Byd GA2 yn nodi manylion amseriad Cyfraniad TEM, unrhyw eithriadau o Gyfraniad TEM ac unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â Chyfraniad TEM.

### 12.5.3 Cyfraniad y Partïon

- (a) Yn amodol ar Gymal 12.5.3(b), bydd pob Parti yn cyfrannu at gyfanswm Cyfraniad y Partïon yn unol â'r cyfrannau isod (a bydd unrhyw gyfeiriadau yn y Cytundeb hwn at "**Sail Gymesur**" yn defnyddio'r cyfrannau hyn):

<b>Partïon</b>	<b>Cyfran y Cyfraniad</b>
Cyngor Conwy	1/8fed
Cyngor Sir Ddinbych	1/8fed
Cyngor Sir y Fflint	1/8fed
Cyngor Gwynedd	1/8fed
Cyngor Sir Ynys Môn	1/8fed
Cyngor Wrecsam	1/8fed
Prifysgol Bangor	1/16eg
Prifysgol Wrecsam	1/16eg
Coleg Cambria	1/16eg
Grŵp Llandrillo Menai	1/16eg
NWMD	£0 mewn arian gyda 1/8 i'w gyflawni "mewn nwyddau" yn unol â chymal 11.4.4
<b>Cyfanswm</b>	<b>Cyfraniad Llawn</b>

- (b) Cydnabyddir a chytunir y caiff amlen fforddiadwyedd ar gyfer pob Parti ei chymeradwyo gan y Partïon fel rhan o GA2 ac y bydd unrhyw benderfyniad i gynyddu'r amlen fforddiadwyedd yn Fater a Gedwir i'r Partïon.

### 12.5.4 Archwiliad

Bydd pob Parti yn caniatáu i'r holl gofnodion y cyfeirir atynt yn y Cytundeb hwn gael eu harchwilio a'u copïo o bryd i'w gilydd gan y Corff Atebol, neu unrhyw gynrychiolwyr o'r Corff Atebol neu unrhyw gynrychiolwyr eraill sydd angen yn rhesymol fynediad iddynt er mwyn ymgymryd ag unrhyw archwiliad o'r arian sydd wedi'i dderbyn a'i wario yn unol â'r Cytundeb hwn.

### 12.5.5 Cadw Cofnodion

Caiff y cyfrifon y cyfeirir atynt yn y Cymal 12 hwn (Ymrwymiad y Partïon a Chyfraniadau) eu cadw am gyfnod o o leiaf deg (10) mlynedd wedi cyflawni'r Cynllun Twf yn unol â'r Cytundeb hwn.

### 13. LLINIARU

Bydd pob Parti bob amser yn cymryd pob cam rhesymol i leihau a lliniaru unrhyw golled y mae gan y Cyngor perthnasol hawl i wneud hawliad amdano yn erbyn y Parti/Partïon eraill yn unol â'r Cytundeb hwn.

### 14. CYFRIFOLDEBAU'R PARTÏON

- 14.1 Bydd y Corff Atebol yn indemnio pob un o'r Partïon eraill yn y Cytundeb hwn ac yn parhau i'w hindemnio rhag unrhyw golledion, hawliadau, treuliau, gweithredoedd, gorchmynion, costau a chyfrifoldebau sy'n wynebu'r Parti hwnnw, os yw hynny'n codi o'r ffaith fod y Corff Atebol wedi methu'n fwriadol neu dorri'n fwriadol ei rwymedigaethau dan y Cytundeb hwn (ac nid yw bwriadol yn y cyd-destun hwn, er osgoi amheuaeth, yn cynnwys materion sydd y tu allan i reolaeth resymol y Corff Atebol neu faterion sy'n codi o unrhyw weithred esgeulus neu o beidio â gwneud rhywbeth mewn perthynas â rhwymedigaethau o'r fath).
- 14.2 Ni wneir unrhyw hawliad yn erbyn y Corff Atebol i adfer unrhyw golled neu niwed a allai ddigwydd wrth i'r Corff Atebol gyflawni ei rwymedigaethau dan y Cytundeb hwn, neu sy'n codi o hynny, oni bai ac i'r graddau fod y fath golled neu niwed yn codi o'r ffaith fod y Corff Atebol wedi methu'n fwriadol neu dorri'n fwriadol ei rwymedigaethau dan Gymal 14.1 (*Cyfrifoldebau'r Partïon*).
- 14.3 Bydd pob un o'r Partïon eraill (yn gweithredu bob yn un) yn indemnio'r Corff Atebol ac yn parhau i'w indemnio rhag yr holl golledion, hawliadau, treuliau, gweithredoedd, gorchmynion, costau a chyfrifoldebau a allai ddod i law'r Corff Atebol wrth iddo gyflawni ei rwymedigaethau dan y Cytundeb hwn ar gyfer y Parti hwnnw, neu sy'n codi o'r ffaith fod Parti wedi methu'n fwriadol neu dorri'n fwriadol ei rwymedigaethau dan y Cytundeb hwn (ac nid yw bwriadol yn y cyd-destun hwn, er osgoi amheuaeth, yn cynnwys materion sydd y tu allan i reolaeth resymol y Parti hwnnw neu faterion sy'n codi o unrhyw weithred esgeulus neu o beidio â gwneud rhywbeth mewn perthynas â rhwymedigaethau o'r fath) oni bai ac i'r graddau y ceid yr un canlyniad o unrhyw dorri bwriadol gan y Corff Atebol o unrhyw rwymedigaethau o'r fath.
- 14.4 Mae'r Cynghorau'n cytuno ac yn cydnabod y bydd y swm sydd i'w dalu i'r Corff Atebol gan unrhyw rai o'r Partïon eraill dan Gymal 14.3 (*Cyfrifoldebau'r Partïon*) yn cael ei dalu gan bob un Parti i'r graddau y mae'n gyfrifol amdano, fodd bynnag, os yw'r cyfrifoldeb yn un a rennir rhwng y Partïon (fel nad yw'n rhesymol ymarferol pennu'r union gyfrifoldeb rhwng y Partïon) fe rennir y swm sydd i'w dalu yn gyfartal rhwng y Partïon ar Sail Gymesur.
- 14.5 Ar achlysur hawliad dan y Cymal 14 hwn (*Cyfrifoldebau'r Partïon*) lle nad yw'n rhesymol ymarferol pennu i ba raddau mae pob Parti yn gyfrifol (gan gynnwys y Corff Atebol), caiff y swm ei rannu rhwng y Cynghorau (gan gynnwys y Corff Atebol) ar Sail Gymesur. Er osgoi amheuaeth, caiff unrhyw hawliad sy'n codi ac eithrio yn sgil y Corff Atebol neu'r Partïon eraill yn methu'n fwriadol neu'n torri'n fwriadol ei rannu ymhlith y Partïon (yn cynnwys y Corff Atebol) ar Sail Gymesur.
- 14.6 Bydd Parti sy'n derbyn hawliad am golledion, treuliau, gweithredoedd, gorchmynion, costau ac ymrwymadau yn rhoi gwybod i'r Partïon eraill cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib, ac yn rhoi manylion yr hawliad iddynt.
- 14.7 Ni fydd yr un Parti wedi'i indemnio yn unol â'r Cymal 14 hwn (*Cyfrifoldebau'r Partïon*) oni bai ei fod wedi rhoi rhybudd yn unol â Chymal 14.6 (*Cyfrifoldebau'r Partïon*) i'r Parti arall y bydd yn gorfodi ei hawl i indemniad dan y Cytundeb hwn yn ei erbyn.
- 14.8 Ni fydd yr un Parti ("**yr Indemniwr**") yn gyfrifol nac wedi'i rwymo i indemnio'r Partïon eraill (yn cynnwys y Corff Atebol) ("**y Buddiolwr**") os yw unrhyw yswiriant a gedwir gan y Buddiolwr ar yr adeg berthnasol yn rhoi indemniad rhag y golled sydd wedi arwain at hawliad o'r fath, ac os yw'r Buddiolwr yn adfer y golled dan bolisi yswiriant



o'r fath (eithr mai'r Indemniwr fydd yn gyfrifol am y swm a ddidynnir dan unrhyw bolisi yswiriant o'r fath ac am unrhyw swm dros yr uchafswm sydd wedi'i yswirio dan bolisi yswiriant o'r fath).

## 15. **TYNNU'N ÔL**

- 15.1 Ni chaiff unrhyw Barti dynnu'n ôl o'r Cytundeb hwn heb dderbyn caniatâd y Partion eraill.
- 15.2 Caiff cyfnod cloi i mewn ei gytuno fel rhan o GA2, ac yn dilyn hynny bydd modd i Bartion dynnu'n ôl. Fodd bynnag, gall iawndal fod yn daladwy os yw Parti'n tynnu'n ôl a bydd y mecanwaith i gyfrifo'r iawndal hwn wedi'i chynnwys yn GA2.

## 16. **CANLYNIADAU TERFYNU**

- 16.1 Os caiff y Cytundeb ei derfynu yn unol â Chymal 2.3 (*Terfynu*), eithr y rhwymedigaethau sydd wedi'u nodi yng Nghymal 12 (*Ymrwymiad y Partion a Chyfraniadau*), Cymal 14 (*Cyfrifoldebau'r Partion*), y Cymal 16 hwn (*Canlyniadau Terfynu*) a Chymal 18 (*Cyfrinachedd a Chyhoeddiadau*), caiff y Partion eu rhyddhau o'u rhwymedigaethau perthnasol a ddisgrifir yn y Cytundeb hwn.
- 16.2 Mae'r Partion yn cydnabod ac yn cytuno:-
- 16.2.1 bod y Cynllun Twf wedi'i fodelu ar sail cyfranogiad gan yr holl Bartion a bod buddion economaidd sylweddol i'w cyflawni o ganlyniad i'r cydweithio hwn; ac
- 16.2.2 yn unol â hynny, os caiff y Cytundeb hwn ei derfynu yng nghyswllt unrhyw Barti yn unol â Chymal 2.3 (*Terfynu*) bydd y Methianwr hwn yn atebol i'r Parti neu'r Partion Di-feth am eu costau rhesymol a phriodol yng nghyswllt y Cynllun Twf.

## 17. **EIDDO DEALLUSOL**

- 17.1 Bydd pob Parti yn cadw holl Eiddo Deallusol yn ei Ddeunydd.
- 17.2 Bydd pob Parti yn rhoi i bob Parti arall drwydded anghyfyngedig a pharhaol na ellir ei throsglwyddo ac sy'n rhydd rhag unrhyw freindal, i ddefnyddio, addasu, newid a datblygu ei Ddeunydd ED er mwyn cyflawni rhwymedigaethau'r Partion yng nghyswllt y Cynllun Twf ac er unrhyw ddiben arall sy'n deillio o'r Cynllun Twf, waeth a yw'r parti sy'n rhoi'r drwydded yn parhau i fod yn barti yn y Cytundeb hwn ai peidio.
- 17.3 Heb ragfarnu Cymal 17.1 (*Eiddo Deallusol*), os oes mwy nag un Parti yn berchen ar Ddeunydd ED, neu a chanddynt hawl neu fuddiant llesol neu gyfreithiol ar unrhyw agwedd o'r Deunydd ED am unrhyw reswm (gan gynnwys, heb gyfyngiad, na all yr un Parti unigol ddangos ei fod wedi cyflenwi neu greu'r Deunydd ED perthnasol yn annibynnol heb gymorth un neu fwy o'r Partion eraill), bydd pob un o'r Partion a gyfrannodd at y Deunydd ED perthnasol yn rhoi i bob Parti arall yn y Cytundeb hwn drwydded anghyfyngedig a pharhaol na ellir ei throsglwyddo ac sy'n rhydd rhag unrhyw freindal, i ddefnyddio a manteisio ar Ddeunydd ED o'r fath fel petai'r holl Bartion eraill yw unig berchennog y Deunydd dan Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988 neu unrhyw statud perthnasol arall neu reol mewn cyfraith.
- 17.4 Er osgoi amheuaeth, bydd gan unrhyw endid neu berson sy'n barti i'r Cytundeb hwn ar ddyddiad y Cytundeb, ac sydd wedi trwyddedu unrhyw Eiddo Deallusol dan y Cytundeb hwn, hawl anghyfyngedig a pharhaol i barhau i ddefnyddio'r Eiddo Deallusol trwyddedig yng nghyswllt y Cynllun Twf.
- 17.5 Mae pob Parti yn gwarantu bod ganddo, neu y bydd ganddo'r hawliau angenrheidiol i ganiatáu'r trwyddedau sydd wedi'u nodi yng Nghymal 17.2 (*Eiddo Deallusol*) a 17.3

(*Eiddo Deallusol*) yng nghyswllt y Deunydd ED sydd i'w drwyddedu.

- 17.6 Mae pob Parti yn cytuno i weithredu unrhyw gamau neu ddogfennau pellach neu'n cytuno i wneud unrhyw beth y mae Parti arall yn gwneud cais rhesymol amdano (ar gost y Parti/Partïon sy'n gwneud y cais) i roi grym llawn i delerau'r Cytundeb hwn.

## 18. **CYFRINACHEDD A CHYHOEDDIADAU**

- 18.1 Bydd pob Parti ("**Cyfamodwr**"), yn ystod oes y Cytundeb hwn a thrwy'r adeg wedi iddo derfynu neu ddod i ben, yn cadw unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol am y busnes neu Wybodaeth Gyfrinachol sy'n perthyn i unrhyw Barti arall, ac sydd wedi dod i'w sylw drwy'r Cytundeb hwn neu mewn cysylltiad ag ef, yn breifat ac yn gyfrinachol, ac ni fydd yn ei defnyddio na'i datgelu (boed hynny er ei fudd ei hun neu er budd trydydd parti).

- 18.2 Ni fydd y rhwymedigaeth a nodir yng Nghymal 18.1 (*Cyfrinachedd a Chyhoeddiadau*) yn berthnasol i wybodaeth:-

18.2.1 sy'n dod i'r byd cyhoeddus neu a gaiff wedyn ei datgelu i'r cyhoedd (oni bai fod hynny drwy fethiant ar ran y Cyfamodwr neu unrhyw berson arall y mae gan y Cyfamodwr hawl i ddatgelu gwybodaeth iddo dan y Cytundeb hwn); neu

18.2.2 y mae'n ofyn cyfreithiol i'w datgelu; neu

18.2.3 oedd eisoes ym meddiant y Cyfamodwr (heb gyfyngiadau o ran ei defnydd) ar ddyddiad ei derbyn; neu

18.2.4 lle mae rheolau unrhyw gorff llywodraethol neu reolaethol gan gynnwys unrhyw ganllawiau o bryd i'w gilydd yn gofyn neu'n argymhell bod gwybodaeth yn agored ac yn cael ei datgelu gan gyrff cyhoeddus; neu

18.2.5 sydd rhaid ei datgelu er mwyn darparu gwybodaeth berthnasol i yswiriwr neu frocer yswiriant mewn perthynas â chael unrhyw yswiriant sy'n ofynnol dan y Cytundeb hwn.

- 18.3 Pan ganiateir datgelu dan Gymal 18.2.3 (*Cyfrinachedd a Chyhoeddiadau*) neu 18.2.4 (*Cyfrinachedd a Chyhoeddiadau*) bydd y sawl sy'n derbyn y wybodaeth yn destun rhwymedigaeth cyfrinachedd tebyg i'r un yn y Cymal 18 hwn (*Cyfrinachedd a Chyhoeddiadau*) a bydd y Parti sy'n datgelu'r wybodaeth yn rhoi gwybod am hyn i'r sawl sy'n derbyn y wybodaeth.

- 18.4 Ni fydd unrhyw Barti yn gwneud unrhyw ddatganiad cyhoeddus neu ddatganiad i'r wasg nac yn cyhoeddi unrhyw ddogfen gyhoeddus arall sy'n ymwneud â, yn gysylltiedig â neu'n codi o'r Cytundeb neu unrhyw gytundeb arall sy'n ymwneud â'r Cynllun Twf heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw y Partïon eraill.

## 19. **CONTRACTAU (HAWLIAU TRYDYDD PARTI)**

Nid yw'n fwiad gan y Partïon fel partïon i'r Cytundeb hwn i unrhyw un o'i delerau allu cael eu gorfodi dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999 gan unrhyw unigolyn nad yw'n barti iddo.

## 20. **DATRYS ANGHYDFOD**

- 20.1 Bydd unrhyw anghydfod sy'n codi mewn perthynas ag unrhyw agwedd o'r Cytundeb hwn yn cael ei ddatrys yn unol â'r Cymal 20 hwn (*Datrys Anghydfod*). Mae'r Partïon yn ymrwymo ac yn cytuno i fwrw ymlaen ag ymagwedd bositif tuag at ddatrys anghydfod sy'n ceisio (yng nghyd-destun y bartneriaeth hon) canfod ateb, sy'n osgoi gweithdrefnau cyfreithiol, a chynnal perthynas weithio gref rhwng y Partïon.

- 20.2 Mewn unrhyw achos o anghydfod neu wahaniaeth rhwng y Partïon sy'n gysylltiedig â'r Cytundeb hwn (boed hynny'n fater o ddehongli'r contract neu fel arall), yna, ac eithrio mewn perthynas ag anghydfod neu anghytundeb ynghylch Mater a Gedwir i'r Partïon, ymdrinnir â'r mater fel a ganlyn, gan ei gyfeirio yn y lle cyntaf i'r Cyd-bwyllgor a fydd yn ystyried unrhyw anghydfod neu anghytundeb o'r fath yng nghyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor sydd wedi'i raglennu, i geisio datrys y mater cynhennus mewn modd didwyll.
- 20.3 Mewn perthynas ag anghydfod neu anghytundeb sy'n ymwneud â Mater a Gedwir i'r Partïon, neu os yw'r Cyd-bwyllgor yn methu â datrys yr anghydfod neu'r anghytundeb o fewn pum (5) Diwrnod Busnes o gyfarfod yn unol â Chymal 20.2 (*Datrys Anghydfod*), yna gall y Partïon sydd mewn anghydfod neu'r Cyd-bwyllgor (yn ôl fel y bo'n digwydd) gyfeirio'r mater at:-
- 20.3.1 Brif Weithredwr, Rheolwr Gyfarwyddwr, Arweinydd Cyngor (neu unrhyw bennaeth sefydliad perthnasol arall) y Partïon perthnasol; neu
- 20.3.2 gyflafareddu gan y parti hwnnw fel y gall y Partïon perthnasol gytuno; neu
- 20.3.3 awdurdodaeth gyfyngedig Llysoedd Cymru a Lloegr.
- 20.4 Bydd unrhyw anghydfod ac/neu anghytundeb sydd i'w datrys gan y penaethiaid sefydliadau perthnasol, cyflafareddu neu Lysoedd Cymru a Lloegr (yn ôl fel y bo'n digwydd) dan y Cytundeb hwn yn cael eu cyfeirio atynt ar fyrder er mwyn iddynt wneud penderfyniad.
- 20.5 Bydd y Partïon, ar gais, yn rhoi ar fyrder i'r penaethiaid sefydliadau perthnasol neu'r cyflafareddwr neu Lysoedd Cymru a Lloegr (yn ôl fel y bo'n digwydd) unrhyw gymorth, dogfennau a gwybodaeth allai fod arnynt eu hangen er mwyn gwneud penderfyniad.
- 20.6 Os caiff cyflafareddwr ei benodi i benderfynu ar anghydfod yn unol â Chymal 20.3 (*Datrys Anghydfod*), yna pennir bod y cyflafareddwr yn gweithredu fel arbenigwr ac nid fel canolwr a bydd ei benderfyniad (yn absenoldeb camgymeriad amlwg) yn derfynol ac yn rhwymol i'r Partïon.
- 20.7 Bydd costau datrys unrhyw anghydfod ac/neu anghytundeb rhwng y Partïon dan y Cytundeb hwn yn cael eu hysgwyddo gan y Partïon perthnasol ar Sail Gymesur i'r anghydfod dan sylw, ac eithrio os yw'r penaethiaid sefydliadau perthnasol, y cyflafareddwr neu Lysoedd Cymru a Lloegr (yn ôl fel y bo'n digwydd) yn cyfarwyddo fel arall.

## 21. **DIOGELU DATA**

- 21.1 Mewn perthynas â phob Data Personol, bydd pob Parti yn cydymffurfio â'r GDPR bob amser (fel rheolydd data os oes angen) sy'n cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) cadw cofrestrriad neu hysbysiad dilys a diweddar dan y GDPR sy'n diogelu'r holl weithgareddau prosesu data fydd yn cael eu gweithredu yng nghyswllt y Cynllun Twf.
- 21.2 Bydd pob Parti:-
- 21.2.1 yn prosesu Data Personol sy'n perthyn i unrhyw Parti arall yn sgil derbyn cyfarwyddiadau gan y Parti hwnnw yn unig (yn amodol ar gydymffurfio â chyfraith berthnasol);
- 21.2.2 ddim ond yn ymgymryd â phrosesu Data Personol sydd ei angen yn rhesymol yng nghyswllt y Cynllun Twf ac ni fydd yn trosglwyddo unrhyw Ddata Personol i unrhyw wlad na thiriogaeth y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd; ac
- 21.2.3 yn gwneud pob ymdrech resymol i beri bod yr holl is-contractwyr a thrydydd parti perthnasol yn cydymffurfio â'r Cymal 21.2 hwn (*Diogelu Data*). Er osgoi

amheuaeth, mae is-gontractwr perthnasol yn un sy'n prosesu Data Personol sy'n berchen i un neu unrhyw Barti.

21.3 Ni fydd y Partïon yn datgelu Data Personol i unrhyw drydydd parti oni bai am:

21.3.1 i weithwyr ac is-gontractwr a thrydydd parti y mae datgelu'r wybodaeth iddynt yn rhesymol angenrheidiol er mwyn i'r Partïon gyflawni rhwymedigaethau'r Partïon yng nghyswllt y Cynllun Twf; neu

21.3.2 i'r graddau sy'n angenrheidiol dan orchymyn llys neu er mwyn cydymffurfio ag unrhyw gyfreithiau perthnasol yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) unrhyw statud, is-ddeddf, Cyfarwyddeb Ewropeaidd neu reoliad.

ar yr amod bod unrhyw ddatgeliad i unrhyw is-gontractwr neu unrhyw drydydd parti dan Gymal 21.3.1 (*Diogelu Data*) yn cael ei wneud yn amodol ar delerau ysgrifenedig sy'n sylweddol yr un fath â'r telerau sydd wedi'u cynnwys yn y Cymal 21 hwn (*Diogelu Data*) a ddim llai llym na hwy, ac y bydd yr holl Bartïon yn rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r holl Bartïon eraill am unrhyw ddatgelu Data Personol sy'n berchen iddynt hwy y mae gofyn iddynt hwy neu is-gontractwr neu drydydd parti ei wneud dan Gymal 21.3.2 (*Diogelu Data*) ar unwaith pan fyddant yn ymwybodol o ofyniad o'r fath.

21.3.3 Bydd y Partïon yn gweithredu ac yn cynnal ac yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod yr holl is-gontractwyr perthnasol ac unrhyw drydydd parti yn gweithredu ac yn cynnal yr holl fesurau technegol a threfniadaethol rhesymol angenrheidiol i atal prosesu Data Personol heb ganiatâd neu'n anghyfreithlon, ac yn erbyn unrhyw golled, dinistr neu ddifrod damweiniol i Ddata Personol yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i gymryd camau rhesymol i sicrhau bod unrhyw weithiwr neu asiant i is-gontractwr perthnasol neu unrhyw drydydd parti sydd â mynediad i'r Data Personol yn ddibynadwy ac yn gywir.

21.3.4 Gall unrhyw Barti ofyn, ar ôl cyfnod rhesymol, am ddisgrifiad ysgrifenedig o'r dulliau technegol a threfniadaethol a ddefnyddir gan unrhyw Barti arall a'r is-gontractwyr perthnasol y cyfeirir atynt yng Nghymal 21.2.3 (*Diogelu Data*). O fewn pum (5) Diwrnod Busnes o gais o'r fath, bydd y Parti y gofynnwyd iddo wneud hynny, yn darparu manylion ysgrifenedig o'r holl fesurau hyn y mae'n eu cynnal i lefel resymol fel y gall y Parti sy'n gwneud y cais bennu p'un a yw'n cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data, yng nghyswllt y Data Personol. Bydd pob Parti yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod yr is-gontractwyr ac unrhyw drydydd parti perthnasol hefyd yn cydymffurfio â chais o'r fath gan unrhyw Barti arall.

21.4 Bydd yr holl Bartïon yn sicrhau fod unrhyw Ddata Personol y maent yn ei gael ac yn ei ddarparu i unrhyw Barti arall wedi'i gael yn gyfreithlon ac yn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data ac na fydd y defnydd ohono yn unol â'r Cytundeb hwn yn torri unrhyw ddarpariaethau'r Ddeddf Diogelu Data.

21.5 Os:-

21.5.1 dan y Ddeddf Diogelu Data bod gofyn i unrhyw Barti ddarparu gwybodaeth i destun data (fel y'i diffinnir yn y Ddeddf Diogelu Data) yng nghyswllt Data Personol pan fo'r data hwn ym meddiant neu dan reolaeth unrhyw Barti arall; a

21.5.2 bod y Parti y mae gofyn iddo ddarparu'r wybodaeth yn rhoi gwybod i'r Parti sy'n rheoli yn ysgrifenedig mai dyma'r sefyllfa,

yna bydd y Parti sy'n rheoli yn gwarantu cydweithredu'n rhesymol ac yn amserol gyda'r Parti y mae gofyn iddo ddarparu'r wybodaeth wrth iddo fodloni ei rwymedigaethau dan y Ddeddf Diogelu Data, yn cynnwys gwneud copïau o'r Data

Personol perthnasol i'r graddau y mae yn ei feddiant.

- 21.6 Bydd pob Parti yn darparu'r wybodaeth hon sy'n ymwneud â Data Personol a'i brosesu i'r llall cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol fel y gallai'r Parti arall wneud cais rhesymol amdano yn ysgrifenedig ac y gall y parti y gofynnir iddo ddarparu'r data perthnasol ei ddarparu'n rhesymol er mwyn i'r Parti arall allu:-
- 21.6.1 cydymffurfio â'i rwymedigaethau dan y Cymal hwn a'r Ddeddf Diogelu Data; ac
- 21.6.2 asesu p'un a yw prosesu'r Data Personol perthnasol yng nghyswllt y Cytundeb hwn yn torri neu y gall dorri'r Ddeddf Diogelu Data mewn modd sy'n faterol a heb ei ganiatáu mewn gwirionedd gan unrhyw ddatganiad canllaw a gyhoeddir gan y Comisiynydd Gwybodaeth.
- 21.7 Bydd y Partïon oll yn cymryd camau rhesymol (gan roi sylw i natur eu rhwymedigaethau bob un dan y Cytundeb hwn) i warchod cywirdeb unrhyw Ddata Personol.
- 21.8 Bydd y Partïon yn gweithio gyda'i gilydd i greu a chytuno ar brotocol rhannu gwybodaeth yn benodol yng nghyswllt eu cydweithio ar y Cynllun Twf a byddant yn adolygu'n barhaus unrhyw brotocolau rhannu gwybodaeth presennol a ddefnyddir yng nghyswllt y Cynllun Twf i sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol i'r Cynllun Twf ac adnabod pa Ddata Personol sydd angen ei brosesu ac ar ba sail i sicrhau y cydymffurfir â'r Cymal 21 hwn (*Diogelu Data*).

## 22. **RHYDDID GWYBODAETH A GWYBODAETH AMGYLCHEDDOL**

- 22.1 Mae pob Parti yn cydnabod bod y Cynghorau yn ddarostyngedig i ofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ("**FOIA**") a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 ("**EIR**") a bydd y Cynghorau'n cydymffurfio â pholisi'r Corff Atebol ar FOIA yng nghyswllt y rhwymedigaethau datgelu gwybodaeth hyn i'r graddau eu bod yn berthnasol i'r Cynllun Twf.
- 22.2 Pan fo Parti yn derbyn cais am wybodaeth dan naill ai'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol ynghylch gwybodaeth y mae'n ei dal ar ran unrhyw un o'r Cynghorau eraill mewn perthynas â'r Cynllun Twf, bydd yn:-
- 22.2.1 trosglwyddo'r cais am wybodaeth i'r Corff Atebol cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib ar ôl ei dderbyn, a beth bynnag o fewn dau (2) Ddiwrnod Busnes o dderbyn cais am wybodaeth;
- 22.2.2 rhoi copi i'r Corff Atebol o'r holl wybodaeth sydd yn ei feddiant, neu y mae ganddo rym drosti, yn y ffurf y mae'r Corff Atebol yn gofyn yn rhesymol amdani, o fewn deg (10) Diwrnod Busnes (neu gyfnod hirach os yw'r Corff Atebol yn nodi hynny) o pan fo'r Corff Atebol yn gwneud y cais am y wybodaeth; ac
- 22.2.3 yn rhoi pob cymorth angenrheidiol y mae'r Corff Atebol wedi gofyn yn rhesymol amdano i alluogi i'r Corff Atebol ymateb i gais am wybodaeth o fewn yr amserlen i gydymffurfio a nodir yn y FOIA neu'r EIR.
- 22.3 Mae'r Cynghorau'n cydnabod ac yn cytuno y bydd y Corff Atebol yn gyfrifol am gydlynu unrhyw ymateb ar ran y Cynghorau perthnasol i'r graddau y maent yn berthnasol i'r Cynllun Twf a chyfrifir am yr holl gostau a geir fel Costau'r Cyd-bwyllgor.
- 22.4 Bydd y Corff Atebol yn gyfrifol am benderfynu yn ôl eu dewis eu hunain yn llwyr p'un a yw unrhyw wybodaeth y ceisiwyd amdani dan y FOIA neu'r EIR:-
- 22.4.1 yn eithriedig rhag ei rhyddhau dan y FOIA neu'r EIR;

22.4.2 i gael ei rhyddhau mewn ymateb i gais am wybodaeth.

22.5 Mae pob Parti yn cydnabod y gall fod rhaid i'r Corff Atebol, dan y FOIA neu'r EIR, ryddhau gwybodaeth:

22.5.1 heb ymgynghori â'r Partïon eraill lle nad oedd yn ymarferol i gael ymgynghoriad o'r fath; neu

22.5.2 yn dilyn ymgynghori â'r Partïon eraill ac ar ôl rhoi ystyriaeth i'w barn hwy.

## 23. HYSBYSIADAU

23.1 Bydd unrhyw rybudd neu orchymyn mewn cysylltiad â'r Cytundeb hwn i unrhyw Barti yn un ysgrifenedig a gellir ei ddanfôn â llaw, drwy bost dosbarth cyntaf a dalwyd yn barod, post danfon arbennig neu e-bost, wedi'i gyfeirio at y derbynnydd yn y cyfeiriad fel y nodir yn Atodlen 3 (*Manylion y Partïon*) neu gyfeiriad derbynnydd arall gaiff ei hysbysu'n ysgrifenedig o bryd i'w gilydd gan unrhyw un o'r Partïon i'r holl Bartïon eraill.

23.2 Bydd unrhyw rybudd neu orchymyn mewn cysylltiad â'r Cytundeb hwn i'r Cyd-bwyllgor yn un ysgrifenedig a gellir ei ddanfôn â llaw, drwy bost dosbarth cyntaf a dalwyd yn barod, post danfon arbennig neu e-bost, wedi'i gyfeirio at y [Tîm Gweithredol] yn y cyfeiriad fel y nodir yn Atodlen 3 (*Manylion y Partïon*) neu gyfeiriad derbynnydd arall gaiff ei hysbysu'n ysgrifenedig o bryd i'w gilydd gan y [Tîm Gweithredol] i'r holl Bartïon.

23.3 Tybir bod y rhybudd neu'r gorchymyn wedi'i gyflwyno'n briodol os:-

23.3.1 danfonwyd ef â llaw, a'i gadawyd yn y cyfeiriad priodol i'w gyflwyno;

23.3.2 rhoddwyd neu os gwnaed ef drwy bost dosbarth cyntaf a dalwyd yn barod, bedwar deg wyth (48) awr ar ôl iddo gael ei bostio (ac eithrio dyddiau nad ydynt yn Ddiwrnodau Busnes);

23.3.3 rhoddwyd neu os gwnaed ef drwy e-bost, ar adeg ei drosglwyddo

cyn belled ag yn achos danfon â llaw neu drosglwyddo â llaw neu e-bost, y caiff ei ddanfôn neu ei drosglwyddo naill ai ar ôl 4.00pm ar Ddiwrnod Busnes, neu ar ddiwrnod nad yw'n Ddiwrnod Busnes, tybir bod y rhybudd/gorchymyn wedi'i gyflwyno am 9.00am ar y Diwrnod Busnes canlynol.

23.4 Er osgoi amheuaeth, pan gyflwynir achosion lle mae'r Rheolau Gweithdrefn Sifil yn berthnasol, rhaid cydymffurfio â darpariaethau'r Rheolau Gweithdrefn Sifil yng nghyswllt cyflwyno dogfennau mewn cysylltiad â'r achosion hynny.

## 24. CYFRAITH LYWODRAETHOL

Caiff y Cytundeb hwn ac unrhyw rwymedigaethau digytundeb sy'n codi ohono neu yn gysylltiedig ag ef, ei lywodraethu gan gyfraith Cymru a Lloegr ym mhob cyswllt, ac fe'i dehonglir yn unol â hynny. Yn amodol ar Gymal 20 (*Datrys Anghydfod*), bydd gan Lysoedd Cymru a Lloegr awdurdodaeth lwyr i setlo unrhyw anghydfod a allai godi o'r Cytundeb hwn, neu mewn cysylltiad ag ef.

## 25. ASEINIO

Ni chaiff hawliau a rhwymedigaethau'r Partïon dan y Cytundeb hwn eu haseinio, eu hamnewid neu eu trosglwyddo fel arall heb ganiatâd y Partïon eraill.

## 26. ILDIO HAWL

26.1 Ni fydd unrhyw fethiant neu ohiriad gan unrhyw Barti i gyflawni unrhyw hawl, pŵer neu

gywiriad yn golygu ei fod yn eu hildio, ac ni fydd eu gweithredu'n rhannol yn atal unrhyw weithredu pellach ar y rhain neu ryw hawl, pŵer neu gywiriad arall, oni bai fod y Parti hwnnw'n eu hildio'n ysgrifenedig.

26.2 Bydd pob Parti yn talu ei gostau ei hun yng nghyswllt paratoi, cyflawni, cwblhau a gweithredu'r Cytundeb hwn.

## 27. **Y CYTUNDEB CYFAN**

Mae'r Cytundeb hwn yn cynnwys yr holl delerau y mae'r partiön wedi cytuno iddynt yng nghyswllt testun y Cytundeb hwn, ac mae'n disodli unrhyw gytundebau, sylwadau neu ddealltwriaethau blaenorol, ysgrifenedig neu lafar, rhwng y Partiön ynghylch y testun dan sylw. Nid yw'r un Parti wedi'i gymell i ymrwymo i'r Cytundeb hwn nac i unrhyw un o'r dogfennau hyn drwy ddatganiad neu addewid nad ydynt yn eu cynnwys, eithr ni fydd y Cymal hwn yn eithrio unrhyw gyfrifoldeb fyddai gan un Parti fel arall at y llall mewn perthynas ag unrhyw ddatganiad a wnaed drwy dwyll gan y Parti hwnnw.

## 28. **GWRTHRANNAU**

Gellir cyflawni'r Cytundeb hwn mewn unrhyw nifer o wrthrannau, a bydd pob un o'r rheini'n gopi gwreiddiol os gweithredir hwy felly, ond gyda'i gilydd un ac yr un offeryn fyddant.

## 29. **PERTHYNAS Y PARTIÖN**

Mae pob Parti yn gorff annibynnol ac nid oes dim sydd wedi'i gynnwys yn y Cytundeb hwn gaiff ei ddehongli i awgrymu bod yna berthynas rhwng Partiön y bartneriaeth neu (ac eithrio pan ddarperir yn llwyr am hynny yn y Cytundeb hwn) bennaeth/asiant neu gyflogwr/gweithiwr. Ni fydd gan yr un Parti yr hawl i weithredu ar ran Parti arall nac ymrwymo'r llall drwy gontract neu fel arall, ac eithrio i'r graddau y caniateir yn glir iddo wneud hynny yn nhelerau'r Cytundeb hwn. Yn benodol er osgoi amheuaeth, ni chymerir bod unrhyw un o'r darpariaethau sy'n ymwneud ag egwyddorion gweithio mewn partneriaeth yn sefydlu unrhyw bartneriaeth fel y diffinnir yn Neddf Partneriaeth 1890.

## 30. **CYFRIFOLDEBAU STATUDOL**

Er gwaethaf unrhyw beth sydd i'w weld i'r gwrthwyneb yn y Cytundeb hwn, wrth ymgymryd â'u dyletswyddau statudol, ni chaiff disgresiwn unrhyw Gyngor ei lyffetheirio neu ei effeithio fel arall gan delerau'r Cytundeb hwn.

**FEL Y TYSTIWYD**, mae'r Cytundeb hwn wedi'i gyflawni fel Gweithred ar y dyddiad a ysgrifennwyd ar ddechrau'r Cytundeb hwn yng ngŵydd y rheini sydd wedi'u nodi.

Gosodwyd Sêl Gyffredin **CYNGOR** )

**BWRDEISTREF SIROL CONWY** )

at hynny yng ngŵydd: - )

Gosodwyd Sêl Gyffredin )

**CYNGOR SIR DDINBYCH** )

at hynny yng ngŵydd:- )

Gosodwyd Sêl Gyffredin )

**CYNGOR SIR Y FFLINT** )

at hynny yng ngŵydd:- )



Gosodwyd Sêl Gyffredin )

**CYNGOR GWYNEDD** )

at hynny yng ngŵydd:- )

Gosodwyd Sêl Gyffredin )

**CYNGOR SIR YNYS MÔN** )

at hynny yng ngŵydd:- )

Gosodwyd Sêl Gyffredin **CYNGOR** )

**BWRDEISTREF SIROL WRECSAM** )

at hynny yng ngŵydd:- )

[Gosodwyd Sêl Gyffredin )  
**PRIFYSGOL BANGOR** )  
at hynny yng ngŵydd: - )]

[Gosodwyd Sêl Gyffredin )  
**PRIFYSGOL GLYNDŴR WRECSAM** )  
at hynny yng ngŵydd: - )]

[Gosodwyd Sêl Gyffredin )  
**COLEG CAMBRIA** )  
at hynny yng ngŵydd: - )]

[Gosodwyd Sêl Gyffredin )

**GRŴP LLANDRILLO MENAI )**

at hynny yng ngŵydd: - )]

## POLISI DIRPRWYO

[NODER: Caiff hwn ei ddatblygu ymhellach yn GA2]

PENDERFYNIAD	MATER Y GRŴP RHEOLI PROSIECT	MATER Y CYDBWYLLGOR	MATER A GEDWIR I'R PARTIÖN
<b>THEMÂU ALLWEDDOL</b>			
1. Cymeradwyo GA2			<b>Ydy</b>
2. Cymeradwyo a mabwysiadu unrhyw Gynlluniau Busnes			<b>Ydy</b>
3. Cymeradwyo a mabwysiadu unrhyw Gynlluniau Busnes wedi'u diweddaru ac eithrio i'r graddau y mae diweddariad o'r fath gyfystyr â newid materol i'r Cynllun Busnes pennaf (mewn achos o'r fath bydd y penderfyniad i gymeradwyo a mabwysiadu Cynllun Busnes wedi'i ddiweddaru yn Fater a Gedwir i'r Partion)		Ydy	
<b>CYLLID A GWARIANT</b>			
4. Cytuno ar unrhyw gynnydd i amlen fforddiadwyedd Parti			<b>Ydy</b>
5. Cymeradwyo unrhyw gynnydd i Gyfraniad y Partion			<b>Ydy</b>
6. Cymeradwyo unrhyw Gostau Mewnol anghymesur yn unol â Chymal 12.2.2 (Ymrwymiad y Partion a Chyfraniadau)		Ydy	
7. Cymeradwyo gwariant o fewn Cyllideb Flynyddol gymeradwy'r Corff Atebol a gedwir ar ran y Partion fel sydd wedi'i nodi yng Nghymal 12.4 ( <i>Cyllideb Flynyddol</i> )	Ydy		
8. Cymeradwyo'r Gyllideb Flynyddol yn unol â Chymal 12.4 ( <i>Cyllideb Flynyddol</i> )			Ydy
9. Cymeradwyo gwariant ychwanegol y tu hwnt i Gyllideb Flynyddol gymeradwy'r Corff Atebol a gedwir ar ran y Partion fel sydd wedi'i nodi yng Nghymal 12.4 ( <i>Cyllideb Flynyddol</i> )			Ydy
10. Cymeradwyo o bryd i'w gilydd ddsbarthu'r Gyllideb Flynyddol rhwng y gwahanol raglenni a phrosiectau y cytunir arnynt fel rhan		Ydy	

PENDERFYNIAD	MATER Y GRŴP RHEOLI PROSIECT	MATER Y CYDBWYLLGOR	MATER A GEDWIR I'R PARTIÖN
o unrhyw Gynllun Twf neu'r Strategaeth Twf Ranbarthol			
11. Ymrwymo i (neu gytuno i ymrwymo i) unrhyw drefniant benthycia ar ran y Cyd-bwyllgor a/neu roi unrhyw sicrwydd yng nghyswllt y benthycia hwn		Ydy	
12. Derbyn amodau a thelerau yng nghyswllt unrhyw arian trydydd parti ar gyfer y Cynllun Twf		Ydy	
<b>CYFFREDINOL</b>			
13. Disodli'r Corff Atebol yn unol â Chymal 4.2		Ydy	
14. Sefydlu is-bwyllgor yn unol â'r Cytundeb hwn a phennu ei gylch gorchwyl ac ystod y dirprwyo.		Ydy	
15. Gwneud unrhyw amrywiadau neu ildio unrhyw hawliau neu derfynu unrhyw gontractau a lofnodwyd gan y Partion / y Corff Atebol (ac eithrio'r Cytundeb hwn) sy'n faterol i'r Cynllun Twf.		Ydy	
16. Diwygiadau i delerau'r Cytundeb hwn			<b>Ydy</b>
17. Cyflogi (a thelerau cyflogaeth) unrhyw berson unigol lle nad yw gwerth y penodiad yn fwy na £25,000 ym mhob Cyfnod Cyfrifyddu	Ydy		
18. Cychwyn unrhyw hawliad, gweithrediadau neu ymgyfreithiad arall a ddygir gan neu amddiffyn unrhyw hawliad, gweithrediadau neu ymgyfreithiad arall a ddygir yn erbyn y Cyd-bwyllgor neu Barti unigol yng nghyswllt y Cynllun Twf, ac eithrio yng nghyswllt casglu dyled yng nghwrs arferol busnes.		Ydy	
19. Gwneud unrhyw gyhoeddiadau neu ddatganiadau o ba bynnag natur yng nghyswllt y Cyd-bwyllgor a'r Cynllun Twf		Ydy	
20. Creu cwmni masnachu awdurdod lleol dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003			Ydy
21. Unrhyw faterion eraill nad ymdrinnir â hwy yn yr Atodlen 1 hwn ( <i>Polisi Dirprwyo</i> )		Ydy	

## CYLCH GORCHWYL

### Rhan 1

#### CYLCH GORCHWYL Y CYD-BWYLLGOR

##### Nodau/Pwrpas

1. Y Cyd-bwyllgor fydd y corff allweddol i oruchwylio'r Cynllun Twf a chynrychioli buddiannau'r Partïon a'i randdeiliaid. Yn ogystal, bydd y Cyd-bwyllgor yn gyfrifol am fonitro cynnydd y prosiect a rheoli dimensiynau gwleidyddol y Cynllun Twf.
2. Hefyd, bydd y Cyd-bwyllgor yn goruchwylio'r Strategaeth Twf Ranbarthol a bydd yn gwneud yr holl benderfyniadau angenrheidiol i hwyluso a gweithredu ei chyflawni.
3. Bydd y Cyd-bwyllgor yn ymgymryd â'r swyddogaethau a ganlyn:
  - Pennu ffurf a nifer y cronfeydd i gyflawni'r Cynllun Twf.
  - Cytuno ar brosiectau allweddol i gyflawni'r Cynllun Twf
  - Darparu cyfeiriad strategol i'r Tîm Gweithredol (i gynnwys cymeradwyo cylch gwaith y Tîm Gweithredol a chymeradwyo unrhyw faterion adnoddau)
  - Gweithredu fel cynrychiolydd i bob un o'r Partïon i sicrhau cysondeb gydag amcanion a gweledigaethau unigol
  - Monitro trefniadau perfformiad, rheoli a gwaith (i gynnwys y gwiriadau archwilio a sicrwydd angenrheidiol)
  - Sicrhau bod adnoddau digonol wedi'u hymrwymo i'r Cynllun Twf
  - Cyflafareddu ar unrhyw anghydfod o fewn y rhaglen a negodi datrysiad i unrhyw broblemau rhwng y rhaglen a chyrrff allanol
  - Cyfathrebu a darparu cynnydd ar faterion strategol o fewn y Cynllun Twf
  - Hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth rhwng y Partïon
  - Cyhoeddi datganiad llywodraethu blynyddol a Chyfrifon Blynyddol yn unol â'r Fframwaith Sicrwydd
  - Cysylltu â phartneriaid Cynlluniau Twf neu Gynlluniau Dinasoedd ledled y Deyrnas Unedig i rannu arfer gorau a sicrhau dull strategol wedi'i gydlynu
  - Darparu adroddiadau cynnydd blynyddol i'r Partïon
  - Diweddarau'r Polisi Dirprwyo o bryd i'w gilydd

##### Telerau

4. Ar ddechrau'r Cynllun Twf:
  - Cwblhau'r GA2 ac unrhyw ddogfennau cysylltiedig, yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) unrhyw Gynlluniau Busnes Cymal 7 a
  - Chytuno ar fanylion y broses gwneud penderfyniadau ac asesiadau (fel y cyfeiriwyd atynt yn y Fframwaith Sicrwydd ac os nad ydynt wedi'u cwblhau eto) cyn i'r Cyd-bwyllgor ystyried prosiectau unigol
5. Yn ystod y camau cynllunio a datblygu:
  - Adolygu statws y prosiect yn erbyn y cynlluniau sydd wedi'u cymeradwyo
  - Monitro rheolaeth cyllideb, risgiau ac ansawdd y prosiect
  - Hyrwyddo a chefnogi'r prosiect ymhlith rhanddeiliaid perthnasol a lle bo hynny'n briodol, derbyn eu caniatâd.
  - Ceisio datrys anghydfodau lle nad yw'n bosib datrys y rhain yn foddhaol drwy unrhyw ddull arall
  - Sicrhau bod y cynigion yn fforddiadwy ac yn rhoi'r gwerth gorau am arian i'r sector cyhoeddus.

##### Caffael contractau ar gyfer nwyddau, gwaith neu wasanaethau

Yn amodol ar gydymffurfio â: deddfwriaeth, rheolau sefydlog y contract a rheolau gweithdrefn eraill y Corff Atebol (os yw'r contractau i'w gosod yn enw'r Corff Atebol) ac nad yw'r mater yn disgyn o fewn Mater a Gedwir i'r Partion, mae'r darpariaethau a ganlyn yn berthnasol.

6. Os yw'r Cyd-bwyllgor yn caffael unrhyw nwyddau, gwaith neu wasanaethau, ar ddechrau'r caffaeliadau, bydd y Cyd-bwyllgor, neu os yw'n disgyn o fewn awdurdod dirprwyedig y Tîm Gweithredol, bydd y Tîm Gweithredol yn cytuno ar:
  - fesurau y dylid mesur gwireddu buddion yn eu herbyn;
  - trefniadau ar gyfer sicrwydd ansawdd a rheoli risg;
  - trefniadau ar gyfer cyfathrebiadau; a
  - threfniadau ar gyfer lansio caffael ar gyfer prosiectau penodol (lle bo hynny'n briodol).
  
7. Wrth i'r caffaeliadau fwrw ymlaen:-
  - adolygu statws y prosiect yn erbyn cynllun y prosiect;
  - monitro rheolaeth cyllideb, risgiau ac ansawdd y caffaeliad;
  - cytuno ar gynnydd drwy gamau allweddol (e.e. yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i fater yr OJEU, cam cyn cymhwyso a cham bidiwr a ffafrir) a derbyn yr holl 'ganiatadau' cysylltiedig;
  - cytuno ar ddogfennau caffael drafft;
  - cytuno ar y broses ar gyfer gwerthuso bidiau a'r meini prawf gwerthuso manwl a'r sgoriau;
  - ystyried cynnydd y caffaeliad; a
  - gweithredu fel llysgenhadon y caffaeliad a'r prosiect y mae'n ei hwyluso.
  
8. Ar ddiwedd y caffaeliad:-
  - sicrhau bod yr adolygiad risg cyn contract wedi'i gwblhau;
  - cytuno ar unrhyw achosion busnes ariannol;
  - gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu'r contract a darparu'r holl 'ganiatadau' terfynol; a
  - sicrhau bod y contract wedi'i reoli'n briodol a bod y cynnyrch disgwylidig wedi'u cyflawni'n foddhaol.

**Rhan 2**

**CYLCH GORCHWYL Y TÎM GWEITHREDOL**

[CYNNWYS Y CYNLLUN DIRPRWYO A GYMERADWYWYD GAN Y CYD-BWYLLGOR YM MIS MAI]





**RHAN 3**

**CYLCH GORCHWYL YR IS-BWYLLGORAU**

**[CYNNWYS Y CYNLLUN DIRPRWYO A GYTUNWYD GAN Y CYD-BWYLLGOR YM MIS MAI]**

Atodlen 3

**MANYLION Y PARTÏON<sup>1</sup>**

<b>ENW'R DERBYNNYDD</b>	<b>CYFEIRIAD</b>	<b>E-BOST</b>
Cyngor Conwy: [Prif Weithredwr]	[ ]	[ ]
Cyngor Sir Ddinbych: [Prif Weithredwr]	[ ]	[ ]
Cyngor Sir y Fflint: [Prif Weithredwr]	[ ]	[ ]
Cyngor Gwynedd: [Prif Weithredwr]	[ ]	[ ]
Cyngor Sir Ynys Môn: [Prif Weithredwr]	[ ]	[ ]
Cyngor Wrecsam: [Prif Weithredwr]	[ ]	[ ]
Prifysgol Bangor: [Prif Weithredwr]	[ ]	[ ]
Prifysgol Glyndŵr Wrecsam: [Prif Weithredwr]	[ ]	[ ]
Coleg Cambria: [Prif Weithredwr]	[ ]	[ ]
Grŵp Llandrillo Menai: [Prif Weithredwr]	[ ]	[ ]
Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy: [Prif Weithredwr]	[ ]	[ ]
Tîm Gweithredol [I sylw xxxx]	[ ]	[ ]

1 Manylion i'w cadarnhau os gwelwch yn dda.

### PENAWDAU GWARIANT

1. Mae'r hyn a ganlyn yn rhestr anghyflawn o'r penawdau gwariant y gallai'r Partïon eu cael yn y Cynllun Twf:-
  - 1.1 Golyga "**Costau Mewnol**" y costau sy'n gysylltiedig gyda phob Parti yn darparu adnoddau mewnol yng nghyswllt y Cynllun Twf sy'n cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:
    - 1.1.1 gostau staffio a gorbenion cysylltiedig;
    - 1.1.2 rheoli prosiectau / cefnogaeth dechnegol a gweinyddol;
    - 1.1.3 cyfathrebu; a
    - 1.1.4 (lle bo hynny'n briodol) costau sydd ynghlwm â rheoli ceisiadau FOIA yn unol â Chymal 22 (*Rhyddid Gwybodaeth a Gwybodaeth Amgylcheddol*).
  - 1.2 Golyga "**Costau'r Cyd-bwyllgor**" gostau gweithredol a rheolaeth y Cyd-bwyllgor, (ei is-bwyllgorau a grwpiau a grëir yn unol â Chymalau 10.18 a 10.19) sy'n cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i
    - 1.2.1 gostau staffio a gorbenion cysylltiedig;
    - 1.2.2 rheoli prosiectau / cefnogaeth dechnegol a gweinyddol;
    - 1.2.3 cyfathrebu;
    - 1.2.4 Costau Cyfieithu;
    - 1.2.5 y costau a geir gan y Corff Atebol wrth weithredu dyletswyddau'r Corff Atebol (Cymalau 4 a 5); a
    - 1.2.6 chyngor proffesiynol allanol.
  - 1.3 Er osgoi amheuaeth, nid yw'r Costau Mewnol a Chostau'r Cyd-bwyllgor yn cynnwys unrhyw gostau refeniw na buddsoddiad cyfalaf yng nghyswllt gweithredu unrhyw brosiect sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Twf.

Atodlen 5

### **CYFNODAU CYFRIFYDDU**

Y Cyfnod Cyfrifyddu cychwynnol fydd dyddiad y Cytundeb hwn hyd at 31 Mawrth ac wedi hynny:

[1 Ebrill i 31 Mawrth]<sup>2</sup>

**Atodlen 6**

**COD YMDDYGIAD AR GYFER YMGYNGHORWYR BWRDD UCHELGAIS GOGLEDD CYMRU  
(y Bwrdd Uchelgais)**

1. Mae'n rhaid i chi ystyried, ym mhob mater, p'un a oes gennych fuddiant personol, a ph'un a yw'r cod ymddygiad hwn yn mynnu eich bod yn datgelu'r buddiant hwnnw.
2. Mae'n rhaid i chi ystyried bod gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru ("y Bwrdd Uchelgais"):
  - a os yw'n debygol o effeithio ar les neu sefyllfa ariannol person o'r fath isod i raddau ehangach na threthdalwyr eraill Gogledd Cymru:
    - i chi,
    - ii unrhyw un yr ydych yn byw gydag ef/hi,
    - iii unrhyw un y mae gennych gysylltiad personol agos ag ef/hi,
  - b os yw'n gysylltiedig â'r isod, neu'n debygol o effeithio arnynt:
    - i unrhyw gyflogaeth neu fusnes a gynhelir gan berson o'r fath;
    - ii unrhyw unigolyn sy'n cyflogi neu sydd wedi penodi person o'r fath, unrhyw gwmni mae person o'r fath yn bartner ynddo neu unrhyw gwmni y mae'n gyfarwyddwr taledig ar ei gyfer;
    - iii unrhyw gorff corfforaethol sydd â lle busnes neu dir yng Ngogledd Cymru, ac y mae gan berson o'r fath fuddiant llesiannol ynddo mewn dosbarth o warantau'r corff hwnnw sy'n fwy na gwerth enwol £25,000 neu ganfed ran o gyfanswm cyfalaf cyfrannau dyroddedig y corff hwnnw;
    - iv unrhyw gontract ar gyfer nwyddau, gwasanaethau neu waith a wnaed rhwng y Bwrdd Uchelgais a:
      - aa pherson o'r fath
      - bb cwmni y mae person o'r fath yn bartner ynddo,
      - cc cwmni y mae person o'r fath yn gyfarwyddwr taledig ar ei gyfer neu;
      - dd gorff sy'n cyfateb i'r disgrifiad a roddir ym mharagraff iii uchod;
    - v unrhyw dir yng Ngogledd Cymru;
      - aa y mae gan berson o'r fath fuddiant llesiannol ynddo;
      - bb trwydded (ar ei ben ei hun neu ar y cyd ag eraill), i'w feddiannu am 28 diwrnod neu gyfnod hwy;
    - vi unrhyw dir y mae'r Bwrdd Uchelgais yn landlord ar ei gyfer ac y mae'r tenant yn:
      - aa gwmni y mae person o'r fath yn bartner ynddo,
      - bb cwmni y mae person o'r fath yn gyfarwyddwr taledig ar ei gyfer, neu
      - cc gorff sy'n cyfateb i'r disgrifiad a roddir ym mharagraff iii uchod;
    - vii unrhyw un o'r cyrff a ganlyn y mae person o'r fath yn aelod ohono/ohoni neu'n dal swydd o reolaeth gyffredinol ynddo/ynddi;
      - aa awdurdod neu gorff cyhoeddus sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus.
      - bb cwmni, cymdeithas ddiwydiannol neu ddarbodus, elusen, neu gorff sydd wedi'i gyfeirio at ddibenion elusennol;
      - cc corff y mae ei brif ddibenion yn cynnwys dylanwadu ar farn neu bolisi cyhoeddus;
      - dd undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol; neu
      - ee glwb, cymdeithas neu fudiad preifat sy'n gweithredu yn ardal eich awdurdod;

**Datgelu Buddiannau Personol**

3. Pan fydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef a'ch bod yn bresennol mewn cyfarfod lle mae'r busnes hwnnw'n cael ei ystyried, mae'n rhaid i chi ddatgelu bodolaeth a natur y buddiant hwnnw cyn neu ar ddechrau'r ystyriaeth honno, neu pan ddaw'r buddiant yn amlwg.

4. Pan fydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes eich awdurdod a'ch bod yn cyflwyno sylwadau ysgrifenedig neu ar lafar i aelod neu swyddog o'r Bwrdd Uchelgais ynglŷn â'r busnes hwnnw yna mae'n rhaid i chi;
- a gynnwys manylion y buddiant hwnnw yn y cyfathrebiad ysgrifenedig; neu
  - b ddatgelu'r buddiant ar ddechrau sylwadau o'r fath, neu pan ddaw'n amlwg i chi bod gennych fuddiant.
- 5 Mae'n rhaid i chi, o ran buddiant personol na ddatgelwyd yn flaenorol, cyn neu'n union ar ôl diwedd cyfarfod lle y gwnaed y datgeliad, roi hysbysiad ysgrifenedig i Swyddog Monitro'r Bwrdd Uchelgais ar y ffurflen a ddynodir ganddo ef/hi yn cynnwys;
- a manylion y buddiant personol;
  - b manylion y busnes y mae'r buddiant personol yn ymwneud ag ef; a
  - c llofnod.
6. Ac eithrio'r hyn a ddarperir ym mharagraff 7 isod bydd buddiant personol hefyd yn fuddiant sydd yn rhagfarnu os yw'r buddiant yn un y byddai'n rhesymol i aelod o'r cyhoedd sy'n ymwybodol o'r ffeithiau perthnasol fod o'r farn ei fod mor arwyddocaol fel y bydd yn debygol o ragfarnu eich barn ynghylch budd y cyhoedd.
7. Ni ystyrir bod gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes os nad yw'r busnes hwnnw yn ymwneud â phenderfynu ar unrhyw gymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded, caniatâd neu gofrestrriad ac
- a Mae'n ymwneud â'r isod:
    - i awdurdod cyhoeddus neu gorff cyhoeddus arall sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus yr ydych yn dal swydd reolaeth gyffredinol ynddo;
    - ii corff y cawsoch eich ethol, eich penodi neu eich enwebu iddo gan y Bwrdd Uchelgais
    - iii eich rôl fel llywodraethwr ysgol (os na chwsoch eich penodi neu eich enwebu gan awdurdod sydd yn aelod o'r Bwrdd Uchelgais) oni bai ei fod yn ymwneud yn benodol â'r ysgol yr ydych yn llywodraethwr arni;
    - iv eich rôl fel aelod o Fwrdd Iechyd Lleol os na chwsoch eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod sydd yn aelod o'r Bwrdd Uchelgais;
    - v ac na ystyrir buddiant yn fuddiant personol nac yn rhagfarnu lle mae'n gysylltiedig â'r Parti sydd wedi penodi'r Ymgynghorydd i'r Cyd-bwyllgor, neu'n debygol o effeithio ar y Parti hwnnw.
  - b Mae'n ymwneud â'r isod:
    - i swyddogaethau tai awdurdod sydd yn aelod o'r Bwrdd Uchelgais lle mae gennych denantiaeth neu brydles gyda'ch awdurdod, ar yr amod nad oes gennych ôl-ddyledion rhent o fwy na dau fis gyda'ch awdurdod, ac ar yr amod nad yw'r swyddogaethau hynny'n ymwneud yn benodol â'ch tenantiaeth neu'ch prydles;
    - ii swyddogaethau awdurdod sydd yn aelod o'r Bwrdd Uchelgais o ran costau prydau ysgol, cludiant a theithio, os ydych chi'n warcheidwad, yn rhiant neu'n rhiant-cu neu'n meddu ar gyfrifoldeb rhiant (fel y'i diffinnir yn Adran 3 Deddf Plant 1989) am blentyn sydd mewn addysg amser llawn, oni bai ei fod yn ymwneud yn benodol â'r ysgol y mae'r plentyn hwnnw/honno'n mynd iddi;
  - c Lle mae'n gysylltiedig â'r Parti sydd wedi penodi'r Ymgynghorydd i'r Cyd-bwyllgor, neu'n debygol o effeithio ar y Parti hwnnw.

### **Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**

8. Hefyd, bydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes a gyflwynir gerbron un o bwyllgorau trosolwg a chraffu eich awdurdod (neu un o is-bwyllgorau pwyllgor o'r fath) :
- a pan fo'r busnes hwnnw'n ymwneud â phenderfyniad a wnaed (p'un a'i gweithredwyd ai peidio) neu gam a gymerwyd gan y Bwrdd Uchelgais neu un arall o'i bwyllgorau, ei is-bwyllgorau, ei gydbwyllgorau neu ei is-gydbwyllgorau ac
  - b ar yr adeg y gwnaed y penderfyniad neu y cymerwyd y cam, yr oeddech chi'n Ymgynghorwr i'r Bwrdd Uchelgais, pwyllgor, is-bwyllgor, cydbwyllgor neu is-gydbwyllgor

a grybwyllwyd ym mharagraff (a) ac yn bresennol pan wnaed y penderfyniad hwnnw neu y cymerwyd y cam hwnnw.

### Cyfranogiad mewn perthynas â Buddiannau a Ddatgelwyd

9. Pan fydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y Bwrdd Uchelgais, mae'n rhaid i chi, oni bai eich bod wedi cael goddefeb gan Bwyllgor Safonau'r Awdurdod Arweiniol:
- a fynd allan o'r ystafell, y siambr neu'r man lle y mae cyfarfod sy'n ystyried y busnes yn cael ei gynnal:
    - i lle y mae paragraff (ii) yn berthnasol, yn union ar ôl i'r cyfnod ar gyfer gwneud sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth ynglŷn â'r busnes ddod i ben a, sut bynnag, cyn i ystyriaeth bellach o'r busnes ddechrau, p'un a ganiateir i'r cyhoedd aros yn y cyfarfod ar gyfer ystyriaeth o'r fath ai peidio; neu
    - ii mewn unrhyw achos arall, pryd bynnag y daw'n amlwg bod y busnes yn cael ei ystyried yn y cyfarfod hwnnw;
  - b peidio ag arfer swyddogaethau'r Bwrdd Uchelgais o ran y busnes hwnnw;
  - c peidio â cheisio dylanwadu ar benderfyniad ynglŷn â'r busnes hwnnw;
  - d peidio â gwneud unrhyw sylwadau ysgrifenedig (boed hynny drwy lythyr, ffacs neu ryw fath arall o gyfathrebu electroneg) mewn perthynas â'r busnes hwnnw, a
  - e pheidio â gwneud unrhyw sylwadau llafar (boed hynny'n bersonol neu drwy ryw fath o gyfathrebu electroneg) mewn perthynas â'r busnes hwnnw neu roi'r gorau ar unwaith i wneud sylwadau llafar o'r fath pan ddaw'r buddiant sy'n rhagfarnu i'r amlwg.
10. Pan fydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef, cewch fynychu cyfarfod er mwyn cyflwyno sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth yn ymwneud â'r busnes yn unig, cyn belled ag y caniateir i'r cyhoedd fynychu'r cyfarfod hefyd at yr un diben, boed hynny o dan hawl statudol neu fel arall.
11. Nid yw paragraff 10 yn eich atal rhag mynychu a chymryd rhan mewn cyfarfod:
- a os gofynnir i chi fynychu cyfarfod pwyllgor trosolwg a chraffu, gan bwyllgor o'r fath sy'n arfer ei bwerau statudol;
  - b os ydych yn mynychu cyfarfod er mwyn cyflwyno sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth yn ymwneud â'r busnes yn unig, cyn belled ag y caniateir i'r cyhoedd fynychu'r cyfarfod hefyd at yr un diben, boed hynny o dan hawl statudol neu fel arall.
  - c os oes gennych oddefeb cyn belled â'ch bod:
    - i yn datgan yn y cyfarfod eich bod yn dibynnu ar yr oddefeb; a
    - ii cyn neu yn union ar ôl i'r cyfarfod orffen, eich bod yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'ch awdurdod sy'n cynnwys:
      - aa manylion y buddiant sy'n rhagfarnu;
      - bb manylion y busnes y mae'r buddiant sy'n rhagfarnu yn ymwneud ag ef;
      - cc manylion yr oddefeb a'r dyddiad y'i caniatawyd; a'ch
      - dd llofnod.
12. Pan fydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu a'ch bod yn gwneud sylwadau ysgrifenedig neu lafar i'r Bwrdd Uchelgais gan ddibynnu ar oddefeb, mae'n rhaid i chi gynnwys manylion yr oddefeb mewn unrhyw sylwadau ysgrifenedig neu lafar o'r fath ac, yn yr achos olaf, roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Bwrdd Uchelgais o fewn 14 diwrnod o wneud y sylwadau.

Atodlen 7

**MANYLION Y CYNRYCHOLWYR**

[Manylion i'w cadarnhau]



Atodlen 8

**FFRAMWAITH SICRWYDD**

**[Fframwaith i'w ychwanegu cyn llofnodi<sup>3</sup>]**

Atodlen 9

**CYNLLUN GWEITHREDU**


**[Profforma i'w baratoi gan y Cyd-bwyllgor]**



**MAP LLYWODRAETHU**

**ATODIAD 3**

Tud. 87



*Allwedd*

**Glas** – Gwneud Penderfyniadau

**Piws** - Ymgynghorol

# Eitem 10

<b>CYFARFOD</b>	Cyngor Llawn
<b>DYDDIAD</b>	12 Gorffennaf 2018
<b>TEITL</b>	Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cyngor Gwynedd 2017/18
<b>PWRPAS</b>	Cymeradwyo a mabwysiadu Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2017/18 fel darlun clir, cytbwys a chywir o berfformiad y Cyngor yn ystod 2017/18
<b>AELOD CABINET</b>	Cyng. Dyfrig Siencyn
<b>AWDUR</b>	Geraint Owen, Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

## 1 Cyflwyniad

- 1.1 Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau er mwyn sicrhau gwelliant parhaus, a bod yn atebol amdano.
- 1.2 Rydym fel Cyngor wedi cyfarch y gofyniad hwn drwy gyhoeddi Cynllun sy'n amlinellu sut y byddwn yn gweithredu (Cynllun Cyngor Gwynedd 2017-18), ac yna'n atebol am gynnydd yn erbyn y Cynllun hwnnw drwy gyhoeddi Adroddiad Perfformiad Blynyddol.
- 1.3 Gofynnir i awdurdodau lleol gyhoeddi'r asesiad o'u perfformiad (yr Adroddiad Perfformiad) o fewn blwyddyn ariannol cyn 31 Hydref y flwyddyn ariannol ganlynol. Yn unol â'r gofynion, mae angen i'r Cyngor hefyd sicrhau fod cynnwys yr adroddiad yn rhoi darlun cywir, cytbwys a chilir o berfformiad y Cyngor.
- 1.4 Eleni mae disgwyliad arnom i adrodd ar yr hyn yr ydym wedi ei wneud i gyfrannu tuag at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Yn hytrach na chynhyrchu adroddiad ar wahân mae gwybodaeth ynghylch gweithgareddau sy'n cyfrannu tuag at egwyddorion y Ddeddf wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

## 2 Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad

- 2.1 Mae Cabinet y Cyngor wedi trafod Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2017/18 a welir yn Atodiad 1 yn ei gyfarfod ar 3 Gorffennaf 2018, ac yn argymell bod y Cyngor yn mabwysiadu'r Adroddiad.

## 3 Ystyriaethau Perthnasol

- 3.1 Mae'r Adroddiad Perfformiad yn mesur ein perfformiad yn erbyn y cynlluniau gwella a nodwyd yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2017/18 ynghyd â'r gwaith dydd i ddydd. Yn wahanol i'r gorffennol mae'r Adroddiad wedi ei strwythuro ar sail Adrannau'r Cyngor er mwyn adlewyrchu fformat Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23

### 3.2 Mae'r Adroddiad Perfformiad wedi ei rannu'n 3 rhan –

1. Prif adroddiad - Mae'r adroddiad yn seiliedig ar adroddiadau'r Aelodau Cabinet unigol sydd eisoes wedi eu cyflwyno i'r Cabinet yn ystod 2017/18. Rydym yn mesur faint yr ydym wedi ei gyflawni yn erbyn y cynlluniau gwella a nodwyd yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2017/18.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn edrych yn ôl ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni gan Gynllun Strategol y Cyngor ers 2013. Yn ogystal â hyn, rydym hefyd yn adrodd ar gynnydd yng ngwaith dydd i ddydd adrannau'r Cyngor.

2. Atodiad 1 – Rhestr o'r Mesurau Perfformiad sy'n weithredol gan adrannau'r Cyngor ar hyn o bryd ac wedi eu cyflwyno i'r cyfarfodydd herio perfformiad yn ystod y flwyddyn. Maent hefyd yn cynnwys Mesurau Strategol Cenedlaethol (NSIs). Mae ambell fesur ar ôl ble nad yw'r data terfynol ar gyfer 2017/18 ar gael tan wedi diwedd y flwyddyn addysgol bresennol, ac felly byddwn yn adrodd ar y data hwnnw yn yr hydref.
3. Atodiad 2 - Rhestr o'r Amcanion Llesiant a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar gyfer 2017/18 a'u cyfraniad tuag at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015).

## 4 Camau nesaf ac amserlen

- 4.1 Yn dilyn mabwysiadu Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2017/18 gan y Cyngor, byddwn yn ei rannu a'i hyrwyddo ymysg y cyhoedd â'n partneriaid drwy ee. cyfryngau cymdeithasol, ei gyhoeddi ar ein gwefan a'i hyrwyddo yn y wasg.

## 5 Argymhelliad

- 5.1 Gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo'r adroddiad yn adlewyrchiad cywir, cytbwys a chlir o berfformiad y Cyngor yn ystod 2017/18, a'i fabwysiadu.

### Atodiadau

Atodiad 1 – Adroddiad Blynyddol Cyngor Gwynedd 2017/18

# Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2017/18



Tud. 90

Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud



# Cynnwys

Cynnwys	Tudalen
<b>Rhagair Arweinydd Cyngor Gwynedd</b>	<b>2</b>
<b>Cyflwyniad</b>	<b>3</b>
<b>Ein Gwariant</b>	<b>4</b>
<b>Taith 5 Mlynedd Cyngor Gwynedd</b>	<b>5</b>
<b>Adroddiadau'r Adrannau</b>	
<b>Addysg</b>	<b>9</b>
<b>Oedolion, Iechyd a Llesiant</b>	<b>12</b>
<b>Plant a Chefnogi Teuluoedd</b>	<b>19</b>
<b>Economi a Chymuned</b>	<b>23</b>
<b>Priffyrdd a Bwrdeistrefol</b>	<b>27</b>
<b>Amgylchedd</b>	<b>29</b>
<b>Ymgynghoriaeth Gwynedd</b>	<b>31</b>
<b>Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth</b>	<b>32</b>
<b>Cefnogaeth Gorfforaethol</b>	<b>34</b>
<b>Atodiad 1 – Mesurau Perfformiad</b>	<b>39</b>
<b>Atodiad 2 – Amcanion Llesiant Gwynedd</b>	<b>48</b>

Os ydych chi angen y ddogfen yma mewn iaith neu fformat arall  
ffoniwch 01766 771000 neu ebostiwch [cydraddoldeb@gwynedd.llyw.cymru](mailto:cydraddoldeb@gwynedd.llyw.cymru)



Graffeg "designed  
by Freepik"

Os ydych chi angen mwy o wybodaeth am yr  
Adroddiad hwn cysylltwch â Thîm Cefnogi Busnes  
y Cyngor drwy ffonio 01766 771000  
neu cynlluncyngor@gwynedd.llyw.cymru

## Rhagair Arweinydd Cyngor Gwynedd



Mae'n bleser gen i gyflwyno'r adroddiad hwn sy'n grynhoed o adroddiadau perfformiad rheolaidd pob Adran o fewn y Cyngor dros y flwyddyn 2017/18. Mae'r drefn newydd o adrodd yn rheolaidd ar

berfformiad i'r Aelod Cabinet ac i Aelodau o'r Pwyllgorau Craffu wedi ei wreiddio yn gadarn ac yn ein galluogi i fesur pa mor effeithiol y mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau i'n dinasyddion. Mae hynny wrth gwrs yn golygu adnabod gwendidau yn ogystal â llwyddiannau.

Mae'n gyfle hefyd i fwrw golwg yn ôl dros y bum mlynedd ddiwethaf wrth ddod i ddiwedd Cynllun Strategol 2013 – 2018. Bu'n gyfnod o her sylweddol wrth wynebu toriadau i'n cyllideb o ganlyniad i bolisiau llymder Llywodraeth San Steffan. Yn ychwanegol, mae'r galw ar ein gwasanaethau yn cynyddu ac mae gofynion cynyddol Llywodraeth Cymru yn ychwanegu at y baich. Er gwaetha'r rhwystrau a'r heriau yma rydym wedi llwyddo i ddarparu gwasanaethau o safon drwy fod yn hyblyg a chreadigol. Rhan bwysig iawn o'r gwaith hwnnw yw'n hymrwymiad i ymledu Ffordd Gwynedd drwy'r holl Gyngor, a mesur ein gwaith drwy ystyried pob gweithgaredd trwy lygad a phrofiad y dinesydd.

Mae gweithio mewn partneriaeth hefyd yn greiddiol i'n gwaith ac er fod cymhlethdod y llu partneriaethau ar draws y Gogledd yn aml yn ddrysych anealladwy, y mae enghreifftiau o lwyddiant. Yn y meysydd addysg a chynllunio mae gennym berthynas agos gyda Chyngor Ynys Môn; mae ein gwaith arloesol ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd yn y maes gofal yn aeddfedu ac

yn cael ei gydnabod fel arfer da sy'n sylfaen i ddatblygiadau pellach. Mae'r cydweithio rhwng chwe sir y Gogledd ym maes datblygu'r economi eto yn enghraifft o gydweithio gwirfoddol llwyddiannus. Hoffwn ddal ar y cyfle hefyd i ddiolch i'r holl gynghorau tref a chymuned sydd wedi bod mor barod i gydweithio â ni.

Mae'r drafodaeth barhaus am ad-drefnu llywodraeth leol yn destun cryn anghytundeb rhwng awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Yn hytrach na'n gorfodi i greu strwythurau newydd mae angen ail-ddiffinio ein perthynas gyda'r Llywodraeth gan adnabod yn glir swyddogaethau'r ddwy haen o lywodraeth. Mae angen llai o ymyrraeth yng ngwaith llywodraeth leol, gan ymddiried ynom i weithredu yn y modd mwyaf effeithiol mewn ymateb i amgylchiadau lleol, ac i gydweithio gydag eraill fel y gwelwn yn dda a lle bo cyfleon i ddarparu gwasanaeth sy'n well.

Ein nod yw i weithio yn effeithiol i ddarparu'r gwasanaethau gorau posib i bobl Gwynedd, ac i fod yn lais a chefn i'r rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas. Byddwn hefyd yn manteisio ar bob cyfle i atgyfnerthu ein cymunedau drwy gefnogi ymdrechion i greu gwaith o safon uchel ac i ddarparu tai i'n pobl ifanc. Mae Cynllun Cyngor Gwynedd 2018 – 2023 yn amlygu ein bwriadau i'r dyfodol yn y gobaith y medrwn gyfrannu at y nod o greu Gwynedd Lewyrchus, Gwynedd Hyderus a Gwynedd Gymraeg!

Yn olaf ond nid yn lleiaf, mae angen diolch i bob aelod o staff y Cyngor am eu cyfraniad hwy at berfformiad clodwiw. Gwerthfawrogi eich gwaith diflino, hynny yn aml o dan amgylchiadau dyrys ac anodd. Chwi yw sail holl waith y Cyngor a'ch cyfraniad chwi yw'r adroddiad hwn. Diolch.



## Cyflwyniad

Pan gyhoeddodd Cyngor Gwynedd 'Cynllun Strategol Cyngor Gwynedd 2013-17' yn ôl yn nechrau 2013 roedd gennym weledigaeth am sut sir yr oeddem yn dymuno byw ynddi bum mlynedd yn ddiweddarach. Bob blwyddyn ers hynny rydym wedi bod yn adolygu'r Cynllun, ac yn adeiladu arno neu yn ei addasu yn ôl anghenion pobl Gwynedd.

Mae'r adroddiad hwn, felly, yn edrych yn benodol ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni yn ystod blwyddyn 2017/18, ond y mae hefyd yn edrych yn ôl ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni gan Gynllun Strategol Cyngor Gwynedd ers 2013.

Eleni mae'r adroddiad wedi ei strwythuro ar sail Adrannau'r Cyngor gan gyfeirio at berfformiad ein cynlluniau gwella ynghyd â'r gwaith dydd i ddydd a ddarperir i drigolion Gwynedd.

Mae ein sefyllfa ariannol fel Cyngor wedi newid cryn dipyn dros 5 mlynedd cyfnod y Cynllun. Rydym wedi llwyddo i gyflawni'r cynlluniau yma er gwaethaf gorfod wynebu toriadau sylweddol o £26m mewn grant gan y Llywodraeth dros y 5 mlynedd rhwng 2013/14 a 2017/18.



\*wedi addasu ffigwr 2017/18 er mwyn adlewyrchu effaith chwyddiant a throsglwyddiadau er mwyn dangos gwir effaith


Gyda dyfodiad **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)** (Y Ddeddf) mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus penodedig weithio'n unigol a chyda'i gilydd i wella llesiant Cymru. Mae'r saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio yn gosod pwrpas

cyffredin i gyrff cyhoeddus. Maent hefyd yn ceisio sicrhau gwell penderfyniadau drwy

- ystyried y tymor hir
- atal rhag digwydd
- gweithio'n integredig
- gweithio'n gydweithredol
- a chynnwys pobl o bob oed.

Fel rhan o'n hymateb fel Cyngor i'r Ddeddf, cyhoeddwyd ein Datganiad a'n Hamcanion Llesiant yng Nghynllun y Cyngor 2017-18.

Mae disgwyliad arnom i adrodd ar yr hyn yr ydym wedi ei wneud i gyfrannu tuag at egwyddorion y Ddeddf a cheir gwybodaeth ynghylch nifer o'r gweithgareddau hyn yng ngorff yr adroddiad. Yn ogystal, ar ddiwedd pob pennod fe ddangosir pa Amcanion Llesiant y mae gwaith pob Adran yn cyfrannu tuag atynt.




I bwrpas yr adroddiad hwn rydym wedi adrodd yn erbyn yr Amcanion Llesiant a fabwysiadwyd ar gyfer 2017/18 gan mai edrych yn ôl ar y flwyddyn hynny yr ydym. Nodir, fodd bynnag, fel rhan o ddatblygiad Cynllun y Cyngor 2018-23 bod cyfres newydd o Amcanion Llesiant wedi eu mabwysiadu gan y Cyngor [www.gwynedd.llyw.cymru/CynllunyCyngor](http://www.gwynedd.llyw.cymru/CynllunyCyngor).

Mae **Atodiad 2** yn nodi sut mae ein Amcanion Llesiant yn cyfrannu tuag at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol uchod.

## Ein Gwariant

Dyma wariant net Adrannau'r Cyngor er mwyn darparu gwasanaethau i bobl Gwynedd yn 2017/18:



# Taith 5 Mlynedd Cyngor Gwynedd

2013/14

Cyngor Gwynedd yw'r Cyngor cyntaf yng Nghymru i gynhyrchu trydan allan o wastraff bwyd pan agorwyd canolfan GwyrAD ger Clynnog Fawr

'Yma Mae Pethau'n Digwydd' wedi helpu 254 busnes yng Ngwynedd i gael cytundebau i gyflenwi 13 digwyddiad mawr ddaeth â £6.32m i economi'r sir

Agor Pont Briwet o'r newydd. Cyfraniad y Cyngor yn £0.321m i gyfanswm cost o £20.6m

Ysgol Craig y Deryn, ysgol newydd sbon, yn agor ym Mro Dysynni, ac uwchraddio Ysgol O M Edwards, Llanuwchllyn

194 o bobl Gwynedd wedi elwa o gael 70 uned tai fforddiadwy ychwanegol ar gyfer pobl leol, gyda 27 o'r rhain yn unedau llai ar gyfer eu rhentu

Lawnsio Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd er mwyn cynyddu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg


Cychwyn treialu'r Cartgylchu newydd yn Nwyfor


2014/15


Agor Tai Gofal Ychwanegol 'Cae Garnedd' ym Mangor - 42 o fflatiau ble all pobl barhau i fyw'n annibynnol, neu dderbyn gofal 24 awr

Sefydlu Tîm Gyda'n Gilydd er mwyn camu i mewn yn gynnar i gefnogi plant a'u teuluoedd. Gall olygu nad oes angen i blant fynd i ofal, neu eu bod yn gallu dychwelyd adref











## Adran Addysg


Un o brif flaenoriaethau'r Cyngor yw sicrhau bod plant a phobl ifanc Gwynedd yn cael yr un cyfleoedd ac yn derbyn yr addysg a'r profiadau gorau posib, er mwyn sicrhau eu bod yn barod am fywyd gwaith wrth adael yr ysgol.

Ar y cyfan mae cynnydd da wedi ei wneud o ran cyrhaeddiad addysgol ein plant a'n pobl ifanc, yn enwedig cyrhaeddiad yng Nghyfnod Allweddol 2 (11 oed) a Chyfnod Allweddol 3 (14 oed), ond mae gwaith pellach i'w wneud eto yn y Cyfnod Sylfaen (hyd at 7 oed) a Chyfnod Allweddol 4 (hyd at 16 oed - TGAU) i godi'r safonau a gwella'r canlyniadau ymhellach.

Siomedig oedd canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen (hyd at 7 oed) yn haf 2017, yn enwedig o gymharu gyda'r canlyniadau yn rhanbarthol a chenedlaethol, gyda dim ond 86.6% yn cyrraedd y dangosydd disgwylidig (sy'n gosod Gwynedd yn 15fed drwy Gymru). Rydym wedi gwneud astudiaeth i geisio deall y rhesymau pam, ac mae hwnnw wedi nodi ffactorau megis y Polisi Iaith ac asesu trwy'r Gymraeg, Anghenion Dysgu Ychwanegol, gwaelodlin isel y plant yn sgil dirywiad cymdeithasol, a chymarebau athro/disgybl. Byddwn yn gweithredu ar ganlyniadau'r gwaith yma yn ystod y flwyddyn nesaf drwy gynllun busnes GwE a'r Adran Addysg.

Wrth i'n plant symud o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2, gwelir gwelliant sylweddol yn ein canlyniadau, gyda 92.1% o blant yn cyrraedd y lefel ddisgwylidig yn 11 oed – sy'n gynnydd cyson ers 4 blynedd bellach. Mae'r canlyniad yma yn gosod Gwynedd yn gyntaf yn rhanbarth y gogledd. Mae canlyniad cyrhaeddiad plant sy'n derbyn cinio ysgol am ddim (PYD) yn 85.2% - y canlyniad gorau eto.

**cynnydd yn y ganran o ddisgyblion 11 oed sy'n cyrraedd y lefel ddisgwylidig mewn Cymraeg neu Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth rhwng 2013/14 a 2017/18**



Gwelwyd y perfformiad gorau erioed ar draws yr holl bynciau yn ogystal. Bu i'r Adran weithio'n agos gyda'r ysgolion yn ystod y flwyddyn gan rannu canllawiau asesu, a gellir dweud bod y gwaith hwnnw wedi dylanwadu'n gadarnhaol ac wedi gwella cysondeb.

Gwelwyd perfformiad cadarn eto eleni gan ein pobl ifanc yng Nghyfnod Allweddol 3 (14 oed), gydag ysgolion Gwynedd ar y brig o blith ysgolion rhanbarth gogledd Cymru, gyda 92.8% o ddisgyblion yn cyrraedd y lefel ddisgwylidig yn 14 oed. Gwelwyd cynnydd hefyd yn nifer y plant cinio ysgol am ddim (PYD) yn cyrraedd y lefel disgwylidig.

**cynnydd dros 5 mlynedd yn y ganran o ddisgyblion 14 oed sy'n cyrraedd y lefel ddisgwylidig mewn Cymraeg neu Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth**



Erbyn i ni gyrraedd Cyfnod Allweddol 4 (14-16 oed TGAU), gwelir cwmp yn ein canlyniadau o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol.

Er bod y ffigwr yma yn is na 2016/17 (65.9%), mae Gwynedd yn parhau i fod yn y safle 1af yn rhanbarth y Gogledd, ac yn 5ed ar lefel genedlaethol, sef oddeutu'r safle disgwylidig. Y prif reswm am y cwmp yma yw'r newidiadau i'r drefn arholi a'r fanyleb ar gyfer pynciau. Nid yw'r newid yma yn unigryw i Wunedd, ac mae'n deg dweud bod cwmp cenedlaethol wedi'i weld o ganlyniad i hyn. Golygai hyn nad yw'n ystyrlon i gymharu canlyniadau 2017 gyda blynyddoedd cynt gan fod y meincnod wedi newid.

Mae Estyn yn parhau i arolygu ein hysgolion, ac er bod un ysgol gynradd wedi ei rhoi mewn mesurau arbennig yn ystod haf 2017 mae gweddill ein hysgolion wedi derbyn arolygiadau da. Bu rhai o'r arolygiadau yn dyfarnu gwaith rhagorol, gydag Estyn yn canmol arweinyddiaeth, canlyniadau a'r gwelliannau mae'r ysgolion wedi eu gwneud.

Mae data categoreiddio ein hysgolion, sef adnabod yr ysgolion sydd angen fwyaf o gefnogaeth arnynt, yn gadarnhaol eto yn 2017/18, gyda 2 ysgol mewn categori oren neu goch sy'n golygu eu bod angen sylw neu gefnogaeth bellach. Ymddengys mai materion yn ymwneud ag arweinyddiaeth oedd y prif reswm dros angen yr ysgolion am gefnogaeth.

Er hyn, mae'n deg dweud bod y data arolygiadau a chategoreiddio wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae hynny yn bennaf oherwydd y gwaith sydd wedi ei wneud i sicrhau arweinyddiaeth gref yn ein hysgolion.

Mae recriwtio a chadw penaethiaid yn parhau i fod yn broblem gynyddol yn y sir ac felly rydym yn awyddus i sicrhau datrysiad i hyn. Er bod gennym nifer o arweinwyr da, nid oes digon o

arweinwyr cymwys ar hyn o bryd i sicrhau ansawdd yr addysg yn ein hysgolion. Yn ystod y flwyddyn, bu i ni weithio gyda GwE i ddarparu hyfforddiant mewn meysydd penodol ar gyfer ein harweinwyr, a darparu mentoriaid i gefnogi penaethiaid newydd. Rydym hefyd wedi bod yn adnabod arweinwyr newydd ar gyfer y dyfodol, gyda 7 unigolyn o Wunedd wedi cwblhau cwrs cymhwyster proffesiynol ar gyfer Prifathrawiaeth yn 2017/18.

Mae'r pryder am arweinyddiaeth yn fater sydd wedi codi wrth i ni ymgynghori ar gynladwyedd y gyfundrefn addysg yng Ngwynedd. O gofio'r heriau sylweddol sy'n ein hwynebu, mae pryder cynyddol nad yw'r gyfundrefn addysg bresennol yn gynaliadwy. Yn ystod y flwyddyn bu i ni ymgynghori ar gyfres o egwyddorion ddylai fod yn sail i unrhyw newid i'r dyfodol. Byddwn yn parhau â'r gwaith hwn yn ystod 2018/19.

Mae rhai o adeiladau ein hysgolion yn hen ac anaddas i gyfarch anghenion dysgu ac addysgu ein plant a'n pobl ifanc yn y dyfodol. Gwelwyd buddsoddiad o £56m ar gyfer y gwaith o foderneiddio addysg yn y sir ac adeiladu ysgolion newydd.



Yn ystod y flwyddyn, gwelwyd Ysgol Bro Idris, sy'n Ysgol Ddilynol ar gyfer plant 3-16 oed, yn agor ei drysau i ddisgyblion yn ardal Dolgellau. Yn ardal Arfon, agorwyd Ysgol Glancegin sy'n



ysgol newydd ar gyfer 240 o ddisgyblion ym Maesgeirchen, Bangor. Mae'r Adran Addysg yn awyddus i ddysgu gwersi o'r broses o adeiladu ysgolion newydd, a byddwn yn cynnal ymchwil maes o law i weld a yw'r safonau addysg yn gwella yn sgil yr ysgolion newydd.

Yn ogystal, bu gwaith pellach ar y gweill i ddatblygu Campws Dysgu 3-19 yn nalgylch y Berwyn, Bala. Gan fod newid wedi bod yng nghyfeiriad y prosiect a'r angen i ail gynnal proses statudol lawn, mae dyddiad agor yr ysgol bellach wedi llithro i 1 Medi 2019.

Yn ardal Bangor, mae'r nifer o ysgolion cynradd yn y dalgylch yn llawn neu'n orlawn, yn enwedig ym Mhenrhosgarnedd, sy'n golygu ei bod yn hanfodol i ni adolygu'r sefyllfa yn lleol. Mae gwerth £12.7m o becyn ariannol wedi'i gadarnhau i wella'r ddarpariaeth ym Mangor, a hynny yn cynnwys arian Llywodraeth Cymru, Cyngor Gwynedd a chyfraniadau sector breifat. Mae'r amserlen a roddwyd i'r prosiect yma yn un heriol, ond mae'r broses ymgynghori statudol ar gynnig i ad-drefnu ysgolion Bangor wedi cychwyn, a byddwn yn adeiladu ar y gwaith yn ystod 2018/19

Gwelwyd cynnydd positif ac arwyddocaol yn y maes anghenion dysgu ychwanegol yn ystod y flwyddyn. Bu i'r Adran sefydlu model darparu newydd ar y cyd rhwng Gwynedd ac Ynys Môn ym mis Medi, lle ceir un Tîm Integredig sy'n cefnogi ysgolion a disgyblion. Mae'r tîm yn cynnwys Seicolegwyr Addysg, Athrawon Arbenigol a Chymorthyddion Arbenigol sy'n darparu gwasanaeth i dros 650 o ddisgyblion yng Ngwynedd. Mae'r gwaith o adolygu'r meini prawf clir ar gyfer mynediad i'r gwasanaeth wedi eu cwblhau. Yn ystod 2018/19 byddwn yn datblygu'r gynhaliaeth yn y dosbarth, darpariaeth blynyddoedd cynnar a'r ddarpariaeth ôl-16.

Dros y blynyddoedd mae'r Cyngor wedi bod yn arwain ar waith arloesol i ddylanwadu ar ddefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg yn yr ysgolion cynradd a hynny trwy'r Siarter laith. Yn sgil llwyddiant y Siarter yn ein hysgolion cynradd, rydym wedi gweithio ar ddatblygu Strategaeth laith ar gyfer ein hysgolion uwchradd. Mae gwaith adeiladol wedi ei wneud yn ystod 2017/18 i gefnogi pob ysgol uwchradd i weithredu'r Strategaeth. Mae hi'n rhy fuan eto i ystyried unrhyw lwyddiant gweladwy.

Mae cynlluniau gwella a gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd gan gynorthwyo trigolion Gwynedd drwy:

- Sicrhau bod gan bob disgybl y sgiliau angenrheidiol i lwyddo.
- Cynnwys disgyblion ac anghenion emosiynol ac ymddygiadol yn llawn o fewn ysgolion Gwynedd.
- Sicrhau fod plant a phobl ifanc yn sefydlog ac yn cael eu diogelu rhag niwed.
- Hybu defnydd y Gymraeg.

## Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Mae 2017/18 wedi bod yn flwyddyn o berfformiad da ac mae llawer iawn wedi ei gyflawni yn maes oedolion a phobl hŷn yn ystod y cyfnod. Mae gennym lawer iawn i fod yn falch ohono yng Ngwynedd, ac mae hynny i raddau yn adlewyrchiad o'r berthynas dda sydd gennym gyda'n partner allweddol o fewn y maes, sef y Bwrdd Iechyd. Er bod y newidiadau rydym wedi eu gwneud yn y maes oedolion wedi cymryd amser, maent yn rhai sylweddol iawn ac roeddem yn ymwybodol iawn bod angen i'r newidiadau gael eu gwneud yn gywir os am fod yn gynaliadwy yn yr hir dymor. Mae gweithlu'r Adran Oedolion wedi bod yn hanfodol yn y newid yma ac mae pob un wedi chwarae rhan allweddol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi arweiniad clir bod disgwyl i bartneriaid allweddol gydweithio, ac felly mae 6 Awdurdod Lleol Gogledd Cymru wedi gweithio gyda'i gilydd er mwyn gwella gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ac Iechyd ar draws y rhanbarth, a hynny er mwyn diwallu anghenion pobl yn well. Ers cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru (2014) (Y Ddeddf) bu gofyn i ni ffurfioli trefniadau o'r fath. Mae arian grant ICF (Integrated Care Fund) wedi helpu gyda'r gwaith yma'n ogystal, gan ein galluogi i weithio gyda phartneriaid ehangach megis y trydydd sector.

Serch hyn, mae'n profiad ni yn lleol yn dangos ei bod yn anodd newid trefniadau gweithio mewn system fawr a chymhleth a bod trefniadau eang a chymhleth y Bwrdd Iechyd a'r trefniadau rhanbarthol yn gallu gwneud y broses o gael penderfyniad yn araf ac yn drwsgl. Wrth ddweud hyn, mae'r trefniadau a'r berthynas waith yn isranbarthol drwy Gyfarwyddwr Ardal y Bwrdd Iechyd o


gymorth mawr i ni yng Ngwynedd ac wedi arwain at y cynnydd sydd wedi ei wneud o fewn gwasanaethu oedolion a phobl hŷn.

Un o brosiectau Cynllun Cyngor Gwynedd 2017/18 oedd **Gweithio'n integredig ar yr hyn sy'n cyfri i unigolion**. Neges yr ydym wedi ei chlywed yn aml gan bobl yw pa mor gymhleth a rhwystredig yw'r maes iechyd a gofal. I geisio ymateb i hyn rydym, mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd, wedi arbrofi gyda dull newydd o weithio gan lunio'n systemau gwaith drwy roi pobl yn ganolog a chanolbwyntio ar beth sy'n cyfri i unigolion.

Calonogol oedd darllen yr 'Adolygiad Seneddol' diweddar sydd yn gwneud argymhelliad am fodelau gofal newydd, sy'n canolbwyntio'r gwasanaethau o amgylch yr unigolyn a'u teulu, mor agos at eu cartref â phosibl. Mae'n pwysleisio'r angen i wasanaethau fod yn ataliol, yn hawdd eu defnyddio ac yn uchel eu hansawdd. Dyma yn union oedd pwrpas prosiect 'Gweithio'n Integredig ar hyn sy'n cyfri i unigolion', gyda'r Adolygiad yn cadarnhau bod y cyfeiriad mae Gwynedd wedi ei ymgymryd yn y maes oedolion yn gywir.


Erbyn hyn mae gweddill y sir wedi mabwysiadu'r trefniadau a beilotwyd yn gyntaf yn ardal Eifionydd. Mae 5 Tîm Lleol wedi eu lleoli yn ardaloedd Llŷn, Caernarfon, Bangor, Eifionydd/Gogledd Meirionydd a De Meirionydd. Dyma'r cam cyntaf at greu Timau Adnoddau Cymunedol ledled Gwynedd a fydd yn gweld timau aml-ddisgyblaethol integredig o wasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd. Mi fydd y rhain yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol, ymarferwyr gofal cymdeithasol, nyrsys cymunedol, therapyddion

galwedigaethol ac ymhen amser ffisiotherapyddion. Y gobaith hefyd yw bydd y timau yn gweithio yn agos â meddygfeydd lleol. Mae'r newid hwn yn golygu fod y bobl sydd angen gwasanaeth, ynghyd a'u teuluoedd, yn gallu cysylltu gyda'r swyddogion perthnasol yn uniongyrchol. Mae ardaloedd llai o faint hefyd yn golygu bod hi'n haws i'r staff gael gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd o fewn cymunedau lleol, fydd yn ei dro yn gwella profiad unigolion. Mae pawb oddi fewn i'r tîm yn rhannu'r un egwyddorion, gan gynnig person arweiniol i'r unigolyn er mwyn hwyluso eu taith drwy'r gyfundrefn gofal ac iechyd.



1. Tîm Llŷn
2. Tîm Caernarfon
3. Tîm Bangor
4. Tîm Eifionydd/Gogledd Meirionydd
5. Tîm De Meirionydd

Mae'r newid uchod o ran dull o weithio wedi golygu bod staff yn naturiol fynd ar ôl at "beth sydd yn bwysig" i unigolion fel y prif beth sydd yn ein gyrru. Mae'r ffordd yma o weithio yn profi'n llwyddiannus iawn. Mae hwn yn newid enfawr, ac yn seiliedig ar newid sylfaenol yn y ffordd yr ydym i gyd yn gweithio. Mae'n ddyddiau cynnar, ond mae'n glir mai dyma'r ffordd ymlaen o ran cael y canlyniadau gorau i bobl Gwynedd.



Un o ofnyon y Ddeddf yw sicrhau ein bod yn rhoi gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i bobl mewn ffordd syml a hawdd i'w ganfod. Dyma felly yw nod ein prosiect **Her Gofal**. I'r perwyl hwn rydym wedi ymgorffori hyn o fewn y 5 tîm cymunedol. Mae hyn yn golygu trefniadau syml i drigolion Gwynedd, gan hefyd sicrhau bod unigolion yn parhau i gadw rheolaeth tra'n canfod gwybodaeth am hyn y maent eu hangen.

Rydym wedi bod yn diweddarau'r wybodaeth a roddir i'r cyhoedd, ac hefyd wedi bod yn gweithio yn agos iawn gyda DEWIS Cymru i ddiweddarau'r wefan ac i hybu ei defnydd. Mae'r wefan yma yn rhoi gwybodaeth i drigolion a staff am yr ystod o wasanaethau/clybiau a gweithgareddau sy'n digwydd o fewn eu hardal. Mae'r Adran yn y broses o ddiweddarau a gwella y tudalennau perthnasol ar y wefan gorfforaethol yn ogystal.


Roedd y prosiect **Her Gofal** yn ceisio sicrhau fod pobl Gwynedd yn gwbl glir o'r her sydd yn ein hwynebu i ysgogi a chefnogi cymunedau i gyfrannu drwy weithredu'n gymunedol. Mae'r angen i gryfhau'r rhan y mae unigolion a'r gymuned yn ei chwarae, trwy ddarparu llais a rheolaeth mewn iechyd a gofal i bobl.

Mae'r "Cynllun Dementia Go" yn mynd o nerth i nerth ac yn gatalydd ar gyfer datblygu cymorth ataliol i bobl a'u gofalwyr sydd yn byw â dementia. Mae "Cynllun Dementia Go" wedi cynnal sesiynau ymarfer corff ar gyfer pobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr o fewn canolfannau hamdden y Sir ers 2015. Mae'r Cynllun yma wedi bod yn llwyddiannus dros ben trwy annog pobl sydd yn byw gyda dementia a'u gofalwyr i gadw'n actif, ac hefyd i gael cyfle i gymdeithasu. Bellach mae 14 dosbarth ar draws y sir. Mae'r cynllun yn ogystal wedi ei ehangu a'i ddatblygu i gynnig profiadau i breswylwyr o fewn ein cartrefi gofal. Rydym wedi cynnal sesiynau hyfforddi gweithlu mewn 11 cartref preswyl y sir. Bydd y cynllun yn sicrhau fod preswylwyr yn cael y cyfle i fod mor actif â phosibl gan leihau'r risg o godymu, lleihau iselder a chynyddu ansawdd bywyd.

Er mwyn ymateb i broblem gyda **Chapasiti a chynaliadwyedd y gyfundrefn gofal ac iechyd** rydym, ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd, wedi bod yn darparu ystod eang o fathau gwahanol o ofal i bobl hŷn. Enghreifftiau o'r hyn sydd wedi ei ddatblygu yw gofal tymor byr, gofal ysbaid, cefnogaeth galluogi a chanolraddol yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty neu er mwyn osgoi mynediad i'r ysbyty. Gyda buddsoddiad arian o Gronfa Gofal Canolraddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae 23 gwely tymor byr wedi eu sefydlu mewn cartrefi gofal ar draws y sir. Mae'r cydweithio yma wedi arwain at berthynas well rhwng staff y cartrefi preswyl, nyrsys cymunedol, a staff gofal cymdeithasol.

Er y datblygiadau uchod hyn, mae oediad wrth drosglwyddo cleifion o'r ysbytai yn parhau yn fater heriol sydd yn derbyn sylw parhaus gan y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor. Rydym yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i sicrhau bod unigolion yn gallu gadael yr ysbyty cyn gynted ag y byddant yn barod i wneud hynny. Pan na allent wneud

hynny, ac na allwn drefnu'r gofal a'r cymorth sydd angen i alluogi i bobl adael yr ysbyty, gelwir hyn yn 'oedi wrth drosglwyddo am resymau gofal cymdeithasol'. Mae'r gyfradd oedi wrth drosglwyddo o ysbytai am resymau gofal cymdeithasol wedi dirywio, gyda chynnydd o 2.38% yn 2015/16 i 4.9 % yn 2017/18.



Er bod perfformiad Gwynedd yn cyfateb â chyfartaledd Cymru, mae'n rhaid cydnabod bod dirywiad. Mae'r perfformiad yn adlewyrchu problemau cyffredinol o ran galw uwch am wlaŷu mewn ysbytai, diffyg gwlaŷu nyrsio yn y gymuned a hefyd prinder o ran gweithwyr proffesiynol (nyrsys) a gofalwyr cartref mewn rhai ardaloedd penodol o Wunedd.

Mewn ymateb i'r uchod, rydym yn gweithio ar wella llif cleifion drwy'r system ofal ac iechyd, a hynny drwy ddilyn achosion o'r dechrau i'r diwedd a cheisio dileu'r rhwystrau sydd yn codi. Mae'r gwaith yma hefyd yn cadw at yr egwyddor o wneud beth sydd yn bwysig i'r unigolyn ac wedi ei seilio ar yr un egwyddorion â'r gwaith timau integredig.

Mewn ymateb i'r diffyg gweithwyr Gofal Cartref mewn rhai ardaloedd yng Ngwynedd, rydym wedi sefydlu "Prosiect Gofal Cartref". Byddwn yn treialu ffyrdd newydd ac arloesol o ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal gyda'r pwyslais bod gwasanaethau yn cael eu cadw




mor lleol â phosib i bobl, a bod unigolion yn ganolog i'r gwasanaethau hynny. Rydym yn edrych ar ddatblygu system comisiynu lle fydd un darparwr yn gyfrifol am becynnau gofal mewn ardal benodol. Mae'r canfyddiadau cychwynnol yn galonogol iawn. Mae potensial i wella'r ddarpariaeth wrth ymateb yn well i 'beth sy'n bwysig' i unigolion, gostwng amser teithio i staff gofal, adnabod cyfleoedd i fanteisio ar gryfderau ein cymunedau a darparwyr trydydd sector, a sicrhau bod staff yn gallu gweithio yn y ffordd fwyaf effeithiol. Mae canlyniadau cynnar yn dangos bod bodlonrwydd cwsmer, yn ogystal â bodlonrwydd y gweithlu, yn uwch. Ein bwriad yw adeiladu ar yr hyn yr ydym wedi ei ddysgu ac ymestyn y gwaith i ardaloedd eraill yng Ngwynedd.

Rydym wedi bod yn ymwybodol bod rhai o'n trigolion yng Ngwynedd yn gorfod teithio'n bell os am gael rhai gwasanaethau gofal dementia. Mae'r Cyngor wedi blaenoriaethu datblygu darpariaeth arbenigol dementia o fewn cartrefi mewnol y Cyngor mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd. Fe wnaethom adnabod Llys Cadfan yn Nhywyn fel y cartref cyntaf i fuddsoddi ynddo. Mae'r gwaith ar "Ran 1" Prosiect Llys Cadfan wedi ei gwblhau ac fe gychwynnodd unigolion symud i'r Uned Dementia yn gynnar ym mis Medi 2017. Mae gwaith adeiladu "Rhan 2" o'r prosiect, sydd yn cynnig gwasanaethau arbenigol ac ysbaid i dde'r Sir bellach wedi ei gwblhau. Bydd y datblygiad hwn yn arwain at gynnydd yn y nifer o wlaŵ gofal tymor byr yn y cartref o 2 i 7. Mae cyfleusterau gofal dydd wedi cael eu huwchraddio yn ogystal er mwyn sicrhau'r gofal gorau i ddefnyddwyr gwasanaeth ar draws y safle. Fel rhan o'r prosiect bydd y gweithlu iechyd yn sicrhau bod gofal iechyd ychwanegol ar gael i'r cartref fel y gall unigolion mwy dwys eu hanghenion barhau i breswyllo yno. Mae trefniadau ar y gweill i gofrestru y

gwasanaethau newydd gydag Arolygiaeth Gofal Cymru ac i gryfhau y capasiti staffio fel y gellir gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau newydd.

Mewn cydweithrediad â'r Bwrdd Iechyd, mae cynlluniau ar gyfer buddsoddi mewn gwlaŵ dementia cynnar yn cael eu datblygu ar gyfer 3 lleoliad arall ar draws y sir. Plas Hafan yn Nefyn ydi'r diweddaraf o gartrefi gofal Cyngor Gwynedd i elwa o raglen o fuddsoddi fydd yn golygu y gallwn gynnig gwell cymorth i bobl sy'n byw gyda dementia a chyflyrau eraill sy'n gysylltiedig â mynd yn hŷn. Bydd y buddsoddiad yn golygu uwchraddio rhan o'r cartref gofal yn Nefyn a fydd yn galluogi tîm gofal y Cyngor i weithio gyda staff meddygol y Bwrdd Iechyd i ofalu am hyd at 8 o bobl sydd â dementia. Mae'r cyllid yn cael ei ddarparu drwy Gronfa Gofal Integredig Llywodraeth Cymru. Rydym eisoes wedi buddsoddi ym Mhlas Hedd ym Mangor ac mae trafodaethau am fuddsoddi ym Mryn Blodau, Llan Ffestiniog hefyd ar y gweill.

Mae sawl prosiect gwahanol wedi cyfrannu at wireddu ein prosiect **Rhaglen o brosiectau lletya a darpariaeth gofal**. Fis Mehefin 2016 rhyddhawyd adroddiad yr Arolygiaeth ar Wasanaethau Oedolion ac Anableddau Dysgu. Ers rhyddhau'r adroddiad rydym yn falch iawn bod y gwasanaeth anableddau dysgu wedi gwneud cynnydd sylweddol i foderneiddio'r gwasanaeth. Mae rhaglen gyffrous yn ei lle ar gyfer sicrhau darpariaeth gynaliadwy i oedolion gydag anableddau dysgu ar gyfer y dyfodol.



Rydym wedi datblygu gweledigaeth glir ar y cyd gyda defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd er mwyn canolbwyntio ar ddatblygu

gwasanaethau ataliol ar draws y sir fydd yn cynnwys ffocws ar anghenion oedolion sydd ar y sbectrwm awtistiaeth.

Mae'r gwasanaeth newydd wedi ei ddylunio i helpu dinasyddion i ganolbwyntio ar eu cryfderau ac ar yr hyn y medrant ei gyflawni yn ddiogel ac ar ben eu hunain. Mae'r Cyngor wedi denu cyllid o Gronfa Ganolradd Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r model newydd, a bydd wedi'i leoli yng Nghanolfan Hamdden Arfon. Ers iddo agor fis Mai 2018 mae'r Hwb Cymunedol newydd yma yn cynnig cyfleon hyfforddi achrededig, datblygu sgiliau a hyder unigolion fel y gallent maes o law symud ymlaen i leoliad gwaith neu goleg. Mae hon yn rhaglen gyffrous iawn a'n bwriad i'r dyfodol yw sefydlu hybiau eraill a sicrhau bod y ddarpariaeth yn gyson ar draws Gwynedd.

Mae datblygiadau newydd ar y gweill ar safle cartref Frondeg yng Nghaernarfon. Mae penderfyniad wedi ei wneud i ddatblygu model llety newydd ar gyfer oedolion ag Anableddau Dysgu ar gyfer 16 o bobl. Bydd cartref cofrestredig presennol Y Frondeg yn parhau ar agor nes bydd y datblygiad newydd wedi ei gwblhau, a bydd trigolion presennol y cartref yn symud fel tenantiaid i'r datblygiad newydd. Mae Grŵp Cynefin yn bartner datblygol ac mae llawer o waith wedi ei gwblhau i ddatblygu cynlluniau drafft ar y cyd â'r prif fudd-ddeiliaid.

Bydd y prosiect newydd yn cael ei adeiladu'n bwrpasol i gyfarch anghenion yr unigolion a chynnig cyfleoedd gwell i gymryd rheolaeth o'u bywydau a chwarae rhan mewn cymdeithas. Gall y model llety newydd gefnogi unigolion ag anghenion cymhleth gan gynnwys unigolion sydd ar hyn o bryd yn derbyn eu gofal tu allan i Wunedd, a bydd cyfle i rai unigolion ddychwelyd yn ôl i'r sir i fyw.



Mae'r Adran Oedolion hefyd yn gyfrifol am weithredu **Strategaeth Cyflenwad Tai** y Cyngor. Fel rhan o'n hymdrech i gyfarch yr her ddemograffeg ac i sicrhau darpariaeth ddigonol i bobl hŷn sy'n hybu annibyniaeth, rydym wedi bod yn gweithio ar gynllun Tai Gofal Ychwanegol Hafod y Gest. Mae'r cynllun gwerth £8.5 miliwn yn cael ei ddatblygu gan gymdeithas dai Grŵp Cynefin mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd. Mae Hafod y Gest newydd, sydd wedi'i leoli yng nghanol tref Porthmadog, mewn safle delfrydol yng nghanol y gymuned yn agos i siopau a chyfleusterau'r dref ac yn cynnig llety gofal ychwanegol i bobl hŷn yr ardal. Bydd yno 40 o fflatiau un a dwy lofft gyda gofal 24 awr; canolbwynt cymunedol ar gyfer gweithgareddau; ystafelloedd hobiau, ffirwydd, harddwch a therapi; lolfa a bwyty. Ni lwyddwyd i gadw at yr amserlen wreiddiol i orffen y gwaith erbyn Hydref 2017 oherwydd problemau yn ymwneud â thywydd garw ac argaeledd adeiladwyr yn yr ardal. Rydym bellach yn edrych ymlaen at weld Hafod y Gest yn agor erbyn diwedd 2018.



Hafod y Gest

Mae'r Tîm Tai Gwag wedi bod yn helpu pobl sy'n cael trafferth cymryd y cam ar yr ysgol eiddo i brynu eu cartref cyntaf. Mae gwaith y tîm wedi helpu i roi bywyd newydd i dai sydd wedi bod yn sefyll yn wag, a rhoi'r cyfle i brynwyr tro cyntaf eu troi i mewn i gartrefi clyd. Byddant yn gwneud hynny drwy gynnig blaendal morgais di-log i brynwyr tro cyntaf fel

eu bod nhw'n gallu prynu tŷ heb orfod cynilo am flynyddoedd o flaen llaw. Maent hefyd yn cynnig grant i brynwyr tro cyntaf i'w helpu gyda chostau gwneud tŷ i fyny. Yn ogystal â chael effaith bositif ar fywydau prynwyr tro cyntaf yng Ngwynedd, mae'r gwaith adfywio tai gwag yn helpu'r gymuned a'r economi lleol i ffynnu. Er cychwyn y cynllun yn 2008, mae'r Cyngor wedi buddsoddi dros £3.9m ar adfywio tai gwag gan helpu i gartrefu 900 o bobl ar draws Gwynedd - ac yn aml yn eu caniatáu i aros o fewn eu hardaloedd lleol.

Rydym wedi bod yn canolbwyntio ar sicrhau



fod digon o dai addas ar gyfer anghenion pobl Gwynedd gan fod prisiau uchel yn rhwystro pobl leol rhag prynu tai. Rydym hefyd yn ymwybodol o brinder tai rhent addas. Mewn ymateb i'r broblem mae'r Cyngor wedi ceisio darparu amrywiaeth o dai fforddiadwy yng nghymunedau gwledig Gwynedd ac mae datblygiad 9 tŷ wedi cael ei godi ym Mynytho. Mae'r Cyngor hefyd yn parhau â'r bartneriaeth gyda Grŵp Cynefin ac yn gobeithio datblygu cynlluniau tebyg yn ardaloedd Penygroes, Bethesda a Waunfawr i'r dyfodol.

Mae'r Gwasanaeth Tai yn gweithio er mwyn atal digartrefedd yn y lle cyntaf, ond hefyd i ddarparu cefnogaeth i deuluoedd neu unigolion sy'n canfod eu hunain yn ddigartref.



Bu cynnydd sylweddol yn y galw yn ystod 2017/18 a darparwyd gwasanaeth ar gyfer 760 o unigolion. Mae perfformiad yr uned ymhlith y gorau yng Nghymru mewn atal digartrefedd, a'r maes hwn sydd angen ei flaenoriaethu i'r dyfodol.

Gydag arian grant gan Lywodraeth Cymru mae'r gwasanaeth digartrefedd wedi cyllido prosiect i gyd-gordio gwasanaeth ar gyfer pobl sy'n gadael carchar. Rydym yn cefnogi'r rhai sy'n dod yn ôl i Wynedd i fyw ar ôl cyfnod yn y carchar, ac yn ceisio trefnu llety ar eu cyfer os oes peryg iddynt fod yn ddigartref. Fe wnaethom gefnogi 101 o unigolion yn ystod 2017/18. Drwy'r prosiect hwn rydym wedi datblygu perthynas dda gyda'r carchardai, y Gwasanaeth Prawf a nifer o asiantaethau eraill sydd yn gweithio efo'r unigolion.

Cawsom gryn dipyn o dywydd eithafol dros aeaf 2017/18, ac mae materion digartrefedd wedi derbyn cryn sylw o fewn o wasg. Yng Ngwynedd rydym wedi cydweithio yn agos iawn gyda Gwasanaeth Ymestyn Allan Tai Gogledd Cymru i gyfarch anghenion pobl yn cysgu allan. Yn ystod y cyfnodau tywydd eithafol adnabuwyd bod 33 o bobl yn cysgu allan. Llwyddwyd i gael datrysiad i bob un o'r 33 unigolyn drwy gynnig llety dros dro iddynt. Gwrthododd 2 berson y cynnig o lety.

Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn rhoi cymorth i bobl sy'n agored i niwed reoli neu gynnal eu tenantiaeth a byw'n annibynnol. Yn ystod

2017/18 mae'r rhaglen yng Ngwynedd wedi cefnogi 2,157 (ffigwr hyd at Gorffennaf 2017) i gael mynediad a chynnal tenantiaethau parhaol neu dros dro ac atal digartrefedd. Oherwydd newid deddfwriaeth ac amodau'r grant cefnogi pobl, ceir mwy o bwyslais bellach ar dargedu atal digartrefedd drwy ymyriadau cynharach a chreadigol. Rydym wedi datblygu gwasanaeth galw heibio mewn 2 ardal sydd yn cynnig cefnogaeth i bobl ifanc cyn yr angen am lety neu gefnogaeth fwy arbenigol. Ers cychwyn y prosiect yn 2016 rydym wedi cefnogi 202 o bobl ifanc.

Mae dadansoddiadau mapio yn cadarnhau mai ein grwpiau blaenoriaeth uchaf yw'r rhai sy'n ffoi rhag cam drin domestig, pobl ifanc, pobl sy'n gadael carchar, pobl ddigartref rhwng 25 a 54 mlwydd oed, rhai sydd yn camddefnyddio sylweddau a rhieni sengl. Mae'r bwloch wedi bod yn amlwg dros y blynyddoedd diwethaf gyda chynnydd yn nifer ein cleientiaid sydd â phroblemau iechyd meddwl dwys ac unai wedi dod yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd. Mewn ymateb i hyn yn ystod 2017/18 comisiynwyd gwasanaeth newydd gan 'Gorwel' fydd yn gweithio'n ddwys gydag unigolion sydd gydag anghenion cymhleth megis iechyd meddwl.

Mae'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant wedi rhoi trefniadau cadarn yn eu lle er mwyn sicrhau arbenigedd a dealltwriaeth lawn o holl faterion sy'n ymwneud â **Diogelu Oedolion Bregus**. Mae'r Uned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd wedi ei sefydlu'n llawn ers Hydref 2017. Mae cynnydd cyffredinol wedi bod mewn achosion sy'n ymwneud â materion diogelu yn ddiweddar, ond mae'n amlwg o drafodaethau gydag Awdurdodau eraill o fewn y rhanbarth ein bod mewn sefyllfa gyffelyb. Mewn ymateb i'r cynnydd mewn cyfeiriadau diogelu mae'r Uned wedi datblygu 'Hwb Diogelu' er mwyn bod yn fan cyswllt cychwynol i'r holl

gyfeiriadau Diogelu Oedolion cyn iddynt gael eu pasio ymlaen am ymyrraeth briodol.

Mae ein mesurau diogelu oedolion yn awgrymu perfformiad cadarn eto yn 2017/18. O'r holl atgyfeiriadau amddiffyn oedolion sydd wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, ein bod wedi llwyddo i reoli'r perygl 95% o'r amser.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Uned wedi parhau i fonitro Cartrefi Gofal mewnol a darpariaeth gofal preswyl preifat er mwyn sicrhau safon gofal i'r preswylwyr. Byddwn yn cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i fonitro gofal nyrsio ac ein bwriad yw cynhyrchu adroddiadau ar y cyd. Mae adroddiad y Comisiynydd Pobl Hŷn 'Lle i Alw'n Gartref' wedi cynnig barn annibynnol am ein darpariaeth ac yn cynnig lle y gallwn wella, ac rydym yn gweithredu ar yr argymhellion yma.

Mae cynlluniau gwella a gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd gan gynorthwyo trigolion Gwynedd drwy:

- Galluogi pobl Gwynedd i fod yn egniol a byw bywydau iach.
- Rhoi'r cymorth iawn i unigolion ar yr adeg iawn.
- Atal anghenion unigolion rhag cynyddu.
- Diogelu plant ac oedolion rhag niwed.
- Darparu cyfleoedd adsefydlu ar gyfer ffoaduriaid.



## Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

Ers sawl blwyddyn bellach mae'r Cyngor wedi rhoi pwyslais cynyddol ar ymyrraeth gynnar a gwaith ataliol er mwyn helpu plant a'u teuluoedd i ffynnu, ac i leihau'r angen am wasanaethau mwy dwys. Rydym wedi darparu gwasanaethau ataliol yn bennaf trwy grantiau Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg ac yn fwy diweddar drwy'r Tîm Trothwy Gofal.

Er yr holl ddatblygiadau a'r llwyddiannau rydym wedi ei weld gan y timau yma, mae niferoedd plant mewn gofal a'r teuluoedd sydd angen cefnogaeth fwy ffurfiol yn parhau i gynyddu. Yn ystod 2017/18 rydym wedi cymryd stoc o'r sefyllfa, a chan ddilyn egwyddorion Ffordd Gwynedd o roi anghenion y plentyn neu'r teulu yn ganolog, rydym wedi gweld bod cydweithio'n integredig â sefydliadau eraill yn diwallu anghenion plant a'u teuluoedd yn well.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi bod yn gweithio ar ddatblygu ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau plant a chefnogi teuluoedd. Adnabuwyd hyn fel blaenoriaeth i'r Cyngor dros y 5 mlynedd nesaf, a byddwn yn ceisio mabwysiadu Cynllun Cefnogi Teuluoedd ar y cyd gyda'n partneriaid dros y flwyddyn i ddod.

Daeth "Rhaglen Gyfredol" Teuluoedd yn Gyntaf i ben fis Mawrth 2018 ar ôl bod yn rhedeg ers 2013. Fel rhan o'r gwaith o ail gomisiynu rhaglen o'r newydd, bu i ymgynghorydd annibynnol werthuso'r rhaglen gyfredol Teuluoedd yn Gyntaf yng Ngwynedd. Adnabuwyd modelau o ymarfer da er mwyn datblygu'r rhaglen i'r dyfodol.

Mae'r "Raglen Newydd" eisoes wedi ei chomisiynu ac yn seiliedig ar y gwerthusiad uchod. Ar ôl proses o ymgynghori a thendro, mae'r strwythur newydd yn weithredol ers y 1af o Ebrill 2018. Bydd Tîm o Amgylch y Teulu yn parhau i gynnig ymyrraeth gynnar ac ataliol wedi ei gydlynu i deuluoedd ar draws pob ardal a chymuned yng Ngwynedd. Nod y rhaglen yw parhau i ganolbwyntio ar leihau'r nifer o deuluoedd sydd yn datblygu anghenion a fydd yn fwy cymhleth yn y dyfodol, ac felly angen ymyraethau statudol mwy dwys a chostus.



o deuluoedd sydd wedi derbyn gwasanaeth Tîm o Amgylch y Teulu wedi gweld cynnydd neu welliant yn eu bywydau

Er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu mor lleol ag sy'n bosib, mae 3 Tîm Cefnogi Teulu Teuluoedd yn Gyntaf yn cael eu sefydlu yn ardaloedd Arfon, Meirion a Dwyfor, gyda Barnardos yn arwain ar y Tîm ym Meirionydd. Mae'r Timau yn cynnwys gweithwyr cefnogi teulu sydd yn cynnig cefnogaeth uniongyrchol gyda datblygu sgiliau rhiantu a chefnogaeth i bobl ifanc, yn ogystal â chefnogaeth ymarferol. Yn wahanol i'r rhaglen flaenorol, ac yn ymateb i ganfyddiadau'r arolwg annibynnol a chanllawiau Llywodraeth Cymru, bydd Gweithiwr Ieuenctid ynghlwm â phob tîm er mwyn gallu canolbwyntio ar wella canlyniadau i bobl ifanc 11-25. Bydd modd i deuluoedd yn ogystal gael mynediad i amrediad eang o wasanaethau therapiwtig a chefnogol er mwyn diwallu eu hanghenion unigol. Rydym

hefyd wedi comisiynu 'Y Bont' i ddarparu gwasanaeth eiriolaeth.

Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chefnogaeth wedi ei sefydlu hefyd gyda'r gwasanaeth yn cynnig ystod eang o wybodaeth am weithgareddau a sefydliadau o fewn cymunedau all arwain at ddiwallu anghenion unigolion. Bydd y gwasanaeth yma yn datblygu fwy fwy i'r dyfodol.

Bu i'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd fod yn destun Arolygiad llawn gan Arolygaeth Gofal Cymru ym mis Mai 2018. Er nad yw'r adroddiad swyddogol wedi ei ryddhau eto roedd sylwadau llafar cychwynnol gan yr arolygwyr yn bositif iawn am berfformiad yr Adran.

Mae'r Tîm Derbyn Cyfeiriadau plant wedi cynnal safonau uchel eto yn 2017/18 wrth ymateb yn amserol i gyfeiriadau. Mae hyn yn gyson a pherfformiad blynyddoedd blaenorol.



Yn yr un modd mae'r Timau Gwaith Cymdeithasol wedi cynnig cefnogaeth ac ymyrraeth amserol i blant a'u teuluoedd.

Mae'r Canran o adolygiadau ac amddiffyn plant oedd wedi eu cynnal o fewn yr amserlen yn 90%, sydd eto'n berfformiad cyson o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Rydym yn ffodus iawn yng Ngwynedd bod ein Timau Gwaith Cymdeithasol yn sefydlog a phrofiadol gyda throsiant staff yn isel iawn. Mae

canran o'n staff sydd siaradwyr Cymraeg yn 84% sef yr uchaf yng Nghymru, gyda gweddill yn ddysgwyr brwd.

Fel rhan o waith dydd i ddydd y timau gweithredol o fewn yr adran, mae'r gweithwyr yn cynnig cefnogaeth ac ymyrraeth broffesiynol. Yn ogystal â hyn, mae ganddynt yr opsiwn i fynd ar ofyn ymyraethau mwy arbenigol fel yr hyn sydd yn cael ei gynnig gan y Tîm Trothwy Gofal. Daeth y Tîm yn weithredol yn 2015 ac mae wedi bod yn ddatblygiad cyffrous a phwysig wrth i ni drawsnewid profiad i blant a theuluoedd. Pwrpas y Tîm ydi gweithio'n ddwys gyda phlant a theuluoedd bregus, a phlant sydd ar fin mynd i ofal. Ers cychwyn y cynllun mae'r Tîm wedi gweithio gyda 236 o blant.

**Yn 2017/18 roedd 70% o'r teuluoedd sydd wedi derbyn ymyrraeth gan y tîm yn dangos lleihad yn y ffactorau oedd yn amlwg cyn ymyrraeth.**




Mae llwyddiant cydweithio rhwng y teuluoedd a'r tîm yn golygu bod nifer o blant wedi gallu aros adref gyda'u teuluoedd, rhai wedi gallu dychwelyd yn ôl adref o ofal maeth a gofal preswyl, ynghyd â sicrhau bod lleoliadau maeth bregus wedi'u sefydlogi yn sylweddol.

Ddiwedd Mawrth 2018 roedd 231 o blant yn ein gofal. O gymharu'r nifer plant mewn gofal dros gyfnod o 5 mlynedd mae'r cyfanswm wedi cynyddu o 185 i 231, sef cynnydd o bron i 25%. Serch hyn mae'r nifer o blant sydd un ai mewn lleoliadau preswyl neu leoliadau maeth wedi aros yn gyson neu leihau.

Mae cynnydd yn y nifer o blant mewn gofal yn ymwneud a phlant sydd wedi eu lleoli gartref gyda'u rhieni o dan Orchymyn Gofal i'r Cyngor, sydd wedi codi o 6 i 58 dros y 5 mlynedd ddiwethaf.

Plant Mewn Gofal - Math o Leoliad 2013-18



Mae plant a phobl ifanc yn dod i'n gofal o dan amgylchiadau anodd iawn ond rydym yr un mor uchelgeisiol ar gyfer y plant yma ag y byddai unrhyw un ar gyfer ei blentyn ei hun. Mae gennym Swyddogion Adolygu Annibynnol sydd yn monitro cynlluniau gofal pob un plentyn a pherson ifanc sydd yn ein gofal, ac maent yn rhoi sicrwydd i ni fel Cyngor bod buddiannau'r plentyn yn cael eu sicrhau drwy gydol eu hamser mewn gofal.



Rhan allweddol o'r gwasanaeth i blant yw'n gallu fel Cyngor i leoli plant gyda rhieni maeth. Rydym yn hynod falch o'n rhieni maeth ac mae'r Tîm Maethu yn parhau i sicrhau fod gennym ddigon o rieni maeth i ddiwallu anghenion plant sydd yn methu byw gartref. Bu i ni gynnal sawl ymgyrch recriwtio dros y 5

mlynedd ddiwethaf i geisio annog mwy o bobl i fod yn rhieni maeth. Mae tua 120 o ofalwyr maeth sydd wedi cofrestru yng Ngwynedd er mwyn i blant gael llefydd diogel i fyw a thyfu i fyny. Maent yn derbyn hyfforddiant llawn, gyda chefnogaeth swyddogion arbenigol a phrofiadol. Mae'r ymdrechion recriwtio yma yn galluogi ni i leoli plant o fewn ein hadnoddau ein hunain ac mae gennym fwy o rieni maeth yn cofrestru gyda ni na sydd yn ein gadael. Roedd Arolygaeth Gofal Cymru yn eu harchwiliad diwethaf o wasanaethau maethu (2016) yn nodi bod adborth gan ofalwyr maeth yn holiaduron y gwasanaeth ar gyfer eu hadolygiadau blynyddol yn dangos eu bod yn gwerthfawrogi'r cymorth y maent yn ei dderbyn gan eu gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol.


Rydym hefyd wedi rhoi cryn bwyslais ar ein heffeithiolrwydd fel Panel Rhiant Corfforaethol yn ystod cyfnod y Cynllun er mwyn sicrhau bod gwasanaethau priodol ar gael i bob un o'r plant sydd mewn gofal er mwyn iddynt lwyddo i gyrraedd eu llawn botensial. Mae person ifanc sydd mewn gofal ar hyn o bryd bellach yn aelod o'r panel fydd yn helpu ni i sicrhau ein bod yn clywed a gwrandao ar brofiadau plant mewn gofal ac yn dysgu ohonynt. Datblygodd y Panel Rhiant Corfforaethol 'Strategaeth' er mwyn sicrhau'r cyfleodd gorau i'r plant a phobl ifanc sydd yng ngofal y Cyngor ac i dreiddio yn ddyfnach i rai materion fel diogelu, iechyd, lles emosïynol a sefydlogrwydd plant a phobl ifanc. Yn fwy diweddar bu i'r Panel Rhiant Corfforaethol roi sêl bendith i blant a phobl ifanc sydd yn gadael gofal cael eu heithrio o dalu Treth Cyngor nes hyd at 25 oed, sydd yn gam positif ymlaen wrth gynnig cefnogaeth ymarferol iddynt.

wedi eu asesu yn ofalus a ddim wedi golygu ardrawiad annerbyniol ar y plentyn.



Un o uchafbwyntiau'r Adran yn ystod 2013-18 oedd gweld Uned Egwyl Fer Hafan y Sêr yn agor ei drysau am y tro cyntaf fis Ebrill 2018 i blant a phobl ifanc anabl. Mae'r Uned wedi ei lleoli ar safle Ysgol Hafol Lon ym Mhenrhyndeudraeth. Mae'r gwasanaeth newydd yma yn cynnig darpariaeth egwyl fer fydd yn rhoi gofal a chefnogaeth gan staff arbenigol i blant anabl a'u teuluoedd, ac yn ateb y galw sydd wedi ei fynegi gan deuluoedd i Dîm Derwen ers tro.

Mae gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd Uned Ddiogelu a Sicrwydd Ansawdd sydd yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor bod ein trefniadau diogelu yn gadarn.



Mae'r rhesymau am unrhyw lithriad yn y perfformiad wedi ei herio ac yn ymwneud yn helaeth â salwch aelodau o staff, argaeledd cydweithwyr o gyrff statudol arall ac argaeledd teuluoedd. Mae'r oedi ar y cyfan yn fychan (dyddiau) ac mae'r oediadau sydd yn hirach

Mae dyletswydd ar bawb i ddiogelu plant ac oedolion ac mae'r cyfrifoldeb i ddiogelu yn un o gyfrifoldebau pwysicaf y Cyngor. Gwir yw dweud bod cynnydd wedi ei wneud mewn ymwybyddiaeth y gweithlu ar faterion diogelu dros y 5 mlynedd diwethaf. Pwyslais y prosiect 'diogelu' yng Nghynllun Strategol Cyngor Gwynedd 2013-18 oedd sicrhau bod trefniadau'r maes diogelu yn gadarn, a'n bod yn sylweddoli ein cyfrifoldeb personol am ddiogelu.

Bu i'r Cyngor hefyd yn ddiweddar gynyddu ffocws eu Panel Strategol Diogelu i gynnwys materion diogelwch cymunedol megis trais yn y cartref, atal terfysgaeth a chaethwasiaeth fodern. Gwnaethpwyd hyn er mwyn sicrhau bod pob mater diogelu yn derbyn sylw ac i sicrhau bod gweithdrefnau cadarn o fewn y Cyngor i ymateb i unrhyw fater diogelu.

Mae cynlluniau gwella a gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd gan gynorthwyo trigolion Gwynedd drwy:

- Sicrhau bod gan bob disgybl y sgiliau angenrheidiol i lwyddo.
- Sicrhau fod plant a phobl ifanc yn sefydlog ac yn cael eu diogelu rhag niwed.
- Rhoi'r cymorth iawn i unigolion ar yr adeg iawn.
- Atal anghenion unigolion rhag cynyddu.
- Diogelu plant ac oedolion rhag niwed.



# Adran Economi a Chymuned



## Datblygu Economi Gwynedd

Mae economi Gwynedd yn perfformio yn gymharol dda ar lefel Cymru ond ddim o gymharu â rhanbarthau eraill o Brydain ac Ewrop. Mae lefelau cyflog yn llawer is na rhannau eraill o ogledd Gymru, ac mae anghysondebau o ran twf a chyfleoedd ar draws ein cymunedau.

Mae'r Cyngor wedi cydnabod er amser bod angen gweithio gyda phartneriaid i wella lefelau cyflogau a denu mwy o swyddi sy'n talu'n well i'r sir.

Rydym yn gweithio i dargedu'r sectorau sy'n talu'n dda trwy greu'r amodau sy'n cefnogi busnesau newydd a thyfu busnesau presennol, ac mae hon yn ymdrech hir dymor. Ers 2013, mae 111 o swyddi gwerth uchel (cyflog £26,500 neu fwy) wedi eu creu a 308 o swyddi wedi eu gwarchod yn sgil y gwaith dwys sy'n cael ei wneud i ddenu buddsoddwyr a busnesau i'r ardal. Yn ystod 2017/18 rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i greu swyddi sy'n talu'n dda yn y sector ddigidol, creadigol, ynni a bwyd, gyda dros 200 yn derbyn gwybodaeth a chymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau.



Mae'r gwaith o ddenu buddsoddiad mewn safleoedd strategol yn safle Trawsfynydd a Maes Awyr Llanbedr wedi dechrau dwyn ffrwyth yn ystod y flwyddyn. Yn sgil gwaith lobio, mae Trawsfynydd bellach wedi ei adnabod fel safle amlwg ym Mhrydain ar gyfer lleoli Adweithydd Technoleg Uwch. Rhoddwyd

cryn sylw hefyd i ddatblygu cais am £25m o arian Ewrop ar gyfer uwchraddio isadeiledd Safle Canolfan Awyrofod Eryri yn Llanbedr, gan gynnwys gwella mynediad i'r safle a gwella problemau traffig pentref Llanbedr.

Er gwaethaf y gwaith da, gwelir bod llai o ddi-ddordeb cyffredinol mewn buddsoddi wedi bod yn ystod y flwyddyn. Mae busnesau'r Sir wedi adrodd bod materion megis Brexit a diffyg gofod busnes yn y Sir yn faterion sy'n effeithio arnynt. Mae'r galw am unedau gwag wedi cynyddu ar draws y sir, gyda'r galw yn uchel yn ardal Arfon. Rydym hefyd wedi gweld bod nifer o'r sectorau sy'n creu swyddi sy'n talu'n dda wedi eu lleoli yn Arfon. Mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau ein bod yn lledaenu'r twf ar draws y sir i ardal Dwyfor a Meirionnydd yn ogystal. Bydd y materion hyn yn cael sylw wrth i ni barhau gyda'r gwaith yn 2018/19.

Mae sicrhau isadeiledd technoleg gwybodaeth dda yn hollbwysig mewn Sir wledig fel Gwynedd, ac yn ffactor allweddol i fusnesau sydd eisiau cystadlu ar lefel genedlaethol a rhyngwladol. Mae cynnydd da wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn i sicrhau, erbyn Rhagfyr 2017, bod dros 88% o gartrefi/busnesau Gwynedd yn gallu manteisio ar fandeang cyflym, sydd ymhell uwchben cyfartaledd Cymru wledig. Wrth i Lywodraeth Cymru baratoi i gomisiynu rhaglen Cyflymu Cymru 2, fydd yn ymestyn y ddarpariaeth i tua 100,000 o eiddo ychwanegol ledled Cymru, bydd angen sicrhau bod Gwynedd yn cael blaenoriaeth. Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, byddwn hefyd yn gweithio'n rhanbarthol i geisio sicrhau bandeang uwchgyflym fel rhan o Gynllun Twf Gogledd Cymru.

Yn dilyn treialu Wi-Fi cyhoeddus yn Aberdaron, rydym bellach wedi sicrhau ariannu pellach i ehangu'r peilot llwyddiannus i ardaloedd eraill yng Ngwynedd. Roedd yr arbrawf yn Aberdaron yn un o 43 sydd bellach wedi eu cynnal gan gynllun Arloesi Gwynedd

Wledig i ddatblygu ffyrdd arloesol o gynyddu llewyrch ein trigolion a'n cymunedau cefn-gwlad.

Mae nifer o'n cymunedau ni yn gyfoethog o ran treftadaeth ac wedi derbyn dynodiad Safleoedd Treftadaeth y Byd. Rydym wedi bod yn gweithio i adfywio canol tref Caernarfon er mwyn gwella ansawdd a phrofiad ymwelwyr i'r ardal a gwella gwedd a golwg y dref. Mae'r gwaith o adfywio canol tref Caernarfon wedi cychwyn gyda buddsoddiad o £15m sydd yn mynd tuag at amryw o brosiectau yn cynnwys adeiladu gorsaf newydd Rheilffordd Ucheldir Cymru ac estyniad i Galeri yn Noc Fictoria. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio ar gael dynodiad Safle Treftadaeth y Byd ar gyfer ein hardaloedd llechi. Y gobaith yw i gyflwyno'r cais i Ganolfan Treftadaeth y Byd ym Mharis yn 2019. Byddwn yn parhau gyda'r gwaith adfywio canol trefi a datblygu'r ardaloedd llechi yn ystod y flwyddyn i ddod.

Twristiaeth yn dod â £6 biliwn i economi Gwynedd



Mae'r sector twristiaeth yn gyflogwr pwysig ac mae digwyddiadau cyhoeddus yn flaenoriaeth sy'n cynnig cyfle masnachol i fusnesau lleol gyflenwi neu ddarparu

gwasanaethau yn ystod y flwyddyn. Trwy gynnal digwyddiadau rydym wedi llwyddo i godi proffil Gwynedd a'i marchnata i ymwelwyr fel lle cyffrous a byrlymus. Cefnogwyd nifer o ddigwyddiadau mawr yn y sir yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys Red Bull Hardline a Gŵyl Rhif 6. Trwy'r digwyddiadau yma,

Digwyddiadau	
2017/18	2014 -18
£5.2 miliwn	£20 miliwn


llwyddwyd i ddiogelu o leiaf 105 o swyddi i'r economi yn ystod y flwyddyn.

Parhaodd y Cyngor i gynnal yr harbyrau a'r traethau sy'n rhan annatod o arlwy twristiaeth y Sir, gan groesawu dros 220,000 o ymwelwyr yn 2017/18. Yn ystod y flwyddyn rydym hefyd wedi cychwyn ar y gwaith o adolygu'r Harbwr ym Mhwlheli, gyda gweithgor wedi ei sefydlu i adolygu rheolaeth yr Hafan i'r dyfodol.



Cefnogi Cymunedau Cryf ac Iach

Mae tlodi yn fater sy'n effeithio nifer o drigolion Gwynedd ac rydym wedi bod yn gweithio ar y cyd gyda phartneriaid eraill i leihau effaith tlodi yn y sir ers 2014. Gyda'r tâl wythnosol yng Ngwynedd yr ail isaf yng Nghymru a diweithdra yn golygu dibyniaeth ar fudd-daliadau, mae'n fater allweddol sydd angen ymateb iddo. Yn ystod 2017/18 rydym wedi cynnal digwyddiadau 'Call efo'r Geiniog' ar draws Gwynedd, gyda 314 o drigolion Gwynedd wedi elwa o'r cyngor a'r cymorth a gafwyd trwy'r sesiynau rheiny. Amcangyfrifir arbediad o £10,757 ar gyfer trigolion Gwynedd yn ystod yr 11 digwyddiad Call efo'r Geiniog sydd wedi eu cynnal ers 2016.



Yn ogystal, derbyniwyd cyllideb o £726,374 gan Lywodraeth San Steffan a Llywodraeth Cymru ar gyfer gwneud Taliadau Tai Dewisol yn ystod 2017/18. Fe wnaethom fel Cyngor ychwanegu cyfraniad o £25,098 o'n cronfeydd ein hunain at y ffigur hwn. Yn wahanol i nifer o gynghorau eraill yng Nghymru, fe wnaethom basio'r cyfanswm arian hwn ymlaen mewn taliadau i'n trigolion heb orfod rhoi unrhyw danwariant yn ôl i'r Llywodraeth. Defnyddiwyd yr arian yma i

gefnogi 1,597 o aelwydydd i liniaru'r effaith a achoswyd gan ystod o ddiwygiadau lles. Mae hwn yn gynnydd ar ffigwr 2016/17. Mae'r Polisi yn bodoli ac yn weithredol ers 2015 ac yn cael ei adolygu'n flynyddol a'i ddiwygio fel bo'r angen i gydymffurfio efo unrhyw newidiadau Diwygio Lles all effeithio ein cwsmeriaid.

Gyda dyfodiad Credyd Cynhwysol, rydym yn ymwybodol bod y newidiadau hyn yn mynd i effeithio dros 6,000 o aelwydydd yng Ngwynedd. Rydym wedi bod yn paratoi drwy gynnal sesiynau hyfforddiant ar gyfer staff rheng flaen, i roi mwy o wybodaeth am newidiadau sy'n dod yn sgil y Credyd Cynhwysol. Mae dros 180 o staff wedi mynychu gan gynnwys gweithwyr gofal, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr llyfrgelloedd, gweithwyr lles yr Adran Addysg a'r tîm Gyda'n Gilydd. Wrth sicrhau bod staff y Cyngor yn ymwybodol o'r newidiadau, gellir sicrhau cymorth gwell i drigolion i ymdopi wrth fynd trwy'r newid yma. Rydym hefyd wedi cefnogi dros 1,300 o drigolion Gwynedd i ddatblygu eu sgiliau digidol fel eu bod yn fwy tebygol o allu defnyddio gwasanaethau ar-lein.

Mae Swyddogion Adfywio Bro yn parhau i gynig cefnogaeth allweddol i gymunedau er mwyn iddynt barhau yn gynaliadwy, yn arbennig yn sgil y wasgfa ar wasanaethau cyhoeddus. Cefnogwyd 72 o gynlluniau sy'n datblygu neu gynnal gwasanaethau lleol yn 2017/18. Bydd adolygiad o'r gwaith adfywio i'w gynnal yn 2018/19 yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i ddod a rhaglen Cymunedau'n Gyntaf i ben fis Mawrth 2018.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi agor llyfrgell newydd ar Gampws Dysgu Gydol Oes y Bala, sy'n ddatblygiad cyffrous. Rydym hefyd wedi bod yn cyflwyno rhaglen hunanwasanaeth yn y 9 prif lyfrgell sy'n golygu bod defnyddwyr yn gallu defnyddio'r peiriannau i fenthyg a dychwelyd llyfrau heb orfod mynd at y ddesg sydd, yn ei dro, yn caniatáu staff i dreulio mwy o amser gyda defnyddwyr sydd angen cymorth.

Er hyn, mae'r nifer o ymweliadau i'r llyfrgelloedd wedi lleihau yn ystod y flwyddyn, ond nid yw hynny yn annisgwyl o gofio ein bod wedi gostwng oriau agor llyfrgelloedd mewn rhai ardaloedd. Mae'n deg dweud hefyd bod y tueddiad cenedlaethol yn dangos gostyngiad yn nifer yr ymweliadau




Mae'r Cyngor yn parhau i gynnal orielau, amgueddfeydd ac archifau yng Ngwynedd. Derbyniwyd dros 65,000 o ymwelwyr iddynt yn ystod 2017/18. Rydym yn parhau i weithio gyda Chyfeillion Amgueddfa Lloyd George a Neuadd Buddug, ac mae gwaith hefyd wedi ei gomisiynu ar adolygu rheolaeth Neuadd Dwyfor i'r dyfodol.

Gwelwyd newid yn ystod y flwyddyn gyda ymgynghoriad ar sefydlu gwasanaeth ieuenctid newydd i'r sir. Yn dilyn penderfyniad y Cyngor yn 2016 i arbed £70,000, mae'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi bod yn ymgynghori ar ail fodelu, wedi ystyried opsiynau ac wedi ymgysylltu â thrigolion Gwynedd.

Mae'r Adran hefyd yn cefnogi trigolion Gwynedd o bob oed i fyw bywydau iach a gwella eu hiechyd trwy raglenni chwaraeon, rhaglenni cyfeirio i ymarfer a'r canolfannau byw'n iach. Mae ein staff yn trefnu a chynnal ystod o weithgareddau chwaraeon yn ystod y flwyddyn o fewn ysgolion, yn y gymuned ac yn yr awyr agored.

Canran plant 11 oed sy'n  
cyrraedd safon y Cwricwlwm  
Cenedlaethol ar gyfer nofio



Yn yr un modd, mae'r Adran hefyd yn cefnogi trigolion Gwynedd i wella cyflwr eu hiechyd drwy'r Tîm Cyfeirio i Ymarfer. Bu cynnydd sylweddol yn niferoedd y cleientiaid ar gyfer y gwasanaeth yma yn ystod y flwyddyn, yn arbennig ym meysydd dementia a chyflyrau cronig. Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun i'w weld ym mhennod Adran Oedolion, lechyd a Llesiant.

Fodd bynnag, mae ansicrwydd cenedlaethol am drefniadau ariannu rhaglenni chwaraeon a DementiaGo i'r dyfodol yn gosod her i'r Adran i edrych ar fodelau eraill o gynnal y gwasanaethau i'r dyfodol, a hynny mewn cydweithrediad â phartneriaid sector lechyd. Bydd hyn yn flaenoriaeth i ni yn ystod 2018/19.

Yn ystod 2017/18, buom yn gweithio ar sefydlu cwmni hamdden newydd yng Ngwynedd er mwyn rheoli Canolfannau Hamdden y sir i'r dyfodol, a bydd manylion pellach am y trefniadau yn cael eu cyhoeddi yn ystod 2018/19.

Mae cynlluniau gwella a gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd gan gynorthwyo trigolion Gwynedd drwy:


- Creu'r amodau i fentrau ffynnu ar draws Gwynedd.
- Creu'r amodau i fusnesau greu a chynnal swyddi gwerth uchel.
- Galluogi pobl Gwynedd i fod yn egniol a byw bywydau iach.
- Mynd i'r afael â thlodi.
- Adfywio a chryfhau cymunedau.
- Hyrwyddo ein diwylliant, treftadaeth a'r celfyddydau.
- Darparu gwasanaeth llyfrgell.



## Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Mae Gwynedd yn sir ddaeryddol fawr, gydag amgylchedd naturiol o'r safon uchaf ar y naill law ond nifer o heriau amgylcheddol ar y llaw arall. Mae'n bwysig bod ein trigolion yn medru byw bywydau cyflawn o fewn eu hardaloedd, a dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi parhau i weithio tuag at ddarparu amgylchedd mwy iach, mwy glân, mwy diogel a mwy cynaliadwy ar gyfer ein trigolion, ein busnesau a'n hymwelwyr.

Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi adnabod bod angen lleihau faint o wastraff sy'n mynd i'w dirlenwi. Mae'r newidiadau i drefniadau casglu gwastraff gweddilliol pob tair wythnos, a chasglu gwastraff bwyd a deunyddiau ailgylchu yn wythnosol, wedi bod yn allweddol er mwyn sicrhau cynnydd yn y gyfradd ailgylchu.



Erbyn diwedd 2017/18 roedd 60.28% o wastraff cartrefi Gwynedd yn cael ei ailgylchu. Mae hyn yn gynydd sylweddol o dros 5% yn y cyfraddau ers 2013/14. Gwelwyd gostyngiad yn y canran o ddeunyddiau sy'n cael ei ailgylchu o'i gymharu â 2016/17 (61.08%) ond gellir priodoli'r gostyngiad hwn i'r ffaith bod llai o wastraff gardd yn cael ei anfon i'w drin o ganlyniad i'r trefniadau i dalu am y gwasanaeth



Mae ymroddiad trigolion a busnesau'r sir i leihau eu gorddibyniaeth ar waredu gwastraff i'w dirlenwi wedi chwarae rhan allweddol i wella ein perfformiad ac mae cyfradd ailgylchu Gwynedd wedi cynyddu'n sylweddol dros y 4 mlynedd diwethaf.

Gwyddom fod casglu gwastraff ar yr adeg yr ydym yn dweud ein bod am ei gasglu yn bwysig i drigolion Gwynedd. Yn ystod 2017/18 bu i ni fetu 0.23% o gasgliadau allan o 4,872,676 yr oedd disgwyl i ni eu cyflawni yn ystod y flwyddyn. Roedd rhai o'r methiannau yma oherwydd y tywydd garw ac eraill oherwydd diffygion ar ein rhan ni. Ble mae'r diffyg ar ein rhan ni rydym eisoes yn gweithredu i weld pa wersi allwn ni ddysgu i'r dyfodol.

Byddwn yn parhau i weithredu'r Strategaeth Wastraff i'r dyfodol gyda'r bwriad i aildefnyddio, ailgylchu neu gompostio 64% o'r gwastraff o'n cartrefi erbyn 2020.

Mae ansawdd yr amgylchedd leol yn hynod bwysig i bobl leol ac i ymwelwyr i'r sir. Gwelwyd safonau glendid ein strydoedd yn sgorio 71.95 allan o 100 mewn asesiad gan Arolygwyr annibynnol yn 2017/18 sy'n ostyngiad o sgôr o 75.7 yn 2016/17. Gyda'r Cyngor wedi gweithredu ar yr hyn a ddywedodd pobl Gwynedd wrthym yn ystod Her Gwynedd bu yna ostyngiad yn y gyllideb ar

gyfer y maes yma, ac mae'n anorfod felly y bydd elfen o ddirywiad.

Gall tipio anghyfreithlon lygru'r amgylchedd, niweidio iechyd dynol a difetha'n mwynhad o'n trefi a chefn gwlad. Mae'r nifer o achosion tipio anghyfreithlon wedi gostwng o 623 yn 2016/17 i 550 yn 2017/18. Mae'r canran o ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon sy'n cael ei glirio o fewn 5 diwrnod gwaith wedi bod yn sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae'r ffigur o 97% eleni yn gymharol a 97.90% yn 2016/17.



Mae'n bwysig bod busnesau a thrigolion yn medru symud yn rhwydd a diogel o fewn y sir ac er mwyn sicrhau hyn, mae'r

Cyngor yn cynnal 2,697 cilometr o ffordd sirol ynghyd â 199 cilometr o gefnffyrdd (sef priffyrdd o bwysigrwydd cenedlaethol, ar ran Llywodraeth Cymru). Yn flynyddol y caiff yr ystadegau ar safon y ffordd eu mesur ac ar hyn o bryd mae priffyrdd yng Ngwynedd, sef ffordd Dosbarth A a B, mewn cyflwr da gyda llai na 4% ohonynt yn ddiffygiol. Mae perfformiad Prif ffordd dosbarth C wedi gwella ychydig eleni, gyda 14.1% o'r ffordd mewn cyflwr gwael o'i gymharu â 15.2% yn 2016/17. Yn anffodus, oherwydd y toriadau cynyddol yn y gyllideb, bydd yn her i'r Cyngor cynnal y perfformiad hwn ac i atal dirywiad yn y blynyddoedd i ddod.

Rydym wedi ymgymryd â rhaglen dreigl o gynlluniau "Buddsoddi i Arbed" i leihau costau ynni ac allyriadau carbon y Cyngor. Mae ystod eang o gynlluniau wedi cael eu cwblhau gan gynnwys gwelliannau i eiddo, gosod goleuadau stryd LED a phrynu cerbydau lefel allyriadau isel yn lle'r hen fflyd o gerbydau.



Er mwyn lleihau'r allyriadau carbon, atal llygredd golau a lleihau costau ynni, mae rhaglen sylweddol i newid goleuadau stryd i dechnoleg LED wedi bod yn weithredol dros y blynyddoedd diwethaf. Yn ystod 2015/16 newidiwyd 1,709 o unedau golau stryd ac arwyddion i LED gyda 3,418 ychwanegol yn cael ei newid yn 2016/17, a 3,472 yn 2017/18. Yn ystod 2018/19 bydd 1,680 uned i'w newid a fydd yn golygu bod cyfanswm o 10,279 o unedau wedi newid yn ystod y rhaglen gychwynnol hon. Yn sgil y newidiadau yma rhagwelir y byddwn yn arbed £260,000 y flwyddyn.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd gan gynorthwyo trigolion Gwynedd drwy:

- Cynyddu ailgylchu.
- Cadw trefi a phentrefi yn daclus a diogel.
- Darparu cyfleoedd teithio i bawb ar draws y sir.
- Cynnal llwybrau cyhoeddus a meysydd chwarae.
- Lleihau costau ynni, allyriadau carbon ac atal llygredd goleuo.
- Addysg a chodi ymwybyddiaeth plant am ailgylchu ac atal sbwriel a graffiti.

## Adran Amgylchedd

Prif feysydd cyfrifoldeb yr Adran Amgylchedd yw Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd, Trafnidiaeth a Chefn Gwlad a'r Gwasanaeth Eiddo Corfforaethol.

Mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn hwyluso a rheoli datblygiadau cynaliadwy er budd cymunedau, economi a'r amgylchedd o fewn ardal awdurdod cynllunio Gwynedd (nad yw'n cynnwys ardal y Parc Cenedlaethol), gyda 90% o gwsmeriaid y gwasanaeth yn fodlon gyda'r gwasanaeth. O'r rhai sy'n anfodlon mae llwyddiant y cais yn ffactor gyda rhai, ond cael gafael ar swyddog Cynllunio yn ffactor gan eraill. Byddwn yn ystyried hyn wrth adolygu'r gwasanaeth y flwyddyn nesaf. Ar gyfartaledd yn 2017/18 roedd ceisiadau cynllunio yn cymryd 59 diwrnod i'w penderfynu, gan barhau'r perfformiad cyson ar y mesur yma ers dechrau ei adrodd yn 2015/16.

Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd gan Gyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn yng Ngorffennaf 2017. Wedi cwblhau'r dasg sylweddol o lunio'r Cynllun Datblygu mae golygon yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi troi tuag at lunio Canllawiau Cynllunio Atodol. Pwrpas y Canllawiau Cynllunio Atodol yw manylu ac egluro polisiâu'r Cynllun Datblygu ble mae hynny'n angenrheidiol, er mwyn hwyluso'r broses Gynllunio. Bwriedir cyhoeddi Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer yr Iaith Gymraeg yn ystod 2018.

Mae tai fforddiadwy yn fater sydd yn flaenoriaeth i'r Cyngor, gyda 38% o'r tai a ganiatawyd trwy'r drefn gynllunio yn 2017/18 yn dai fforddiadwy, naill ai trwy gytundeb 106 neu oherwydd eu bod yn dai a adeiladwyd gan landlord cymdeithasol cofrestredig. Tra bod y ffigur yma'n ostyngiad ar y ganran gyfartalog o 47% rhwng 2013 a 2017, mae'n parhau i fod yn uwch na'r targed uchaf yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, sef bod datblygiadau yn cynnwys 30% o dai fforddiadwy. Golyga hyn fod y Gwasanaeth Cynllunio wedi cyfrannu yn

uniongyrchol tuag at y ddarpariaeth tai fforddiadwy yng Ngwynedd mewn ffordd arwyddocaol.




Un o ddyletswyddau'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yw sicrhau fod busnesau yn cydymffurfio â safonau hylendid bwyd, gyda 98.81% o fusnesau Gwynedd wedi gwneud hynny yn ystod 2017/18. Ar ddiwedd 2017/18 roedd 98.7% o'r 601 Eiddo Bwyd Risg Uchel yng Ngwynedd wedi eu harchwilio yn unol â'r rhaglen a fabwysiadwyd gan yr Uned, er bod grant wedi ei rannu gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith wedi iddynt ddatgan pryder yn ffurfiol am berfformiad y gwasanaeth.

Fodd bynnag, mae cyfanswm o 2,211 o fusnesau bwyd yng Ngwynedd sydd angen eu harchwilio o bryd i'w gilydd ac mae'r perfformiad yn amlygu gwasanaeth sydd yn ymdrechu'n galed i ddygymod ond yn ei chael yn anodd cwblhau archwiliadau busnesau risg uchel, heb sôn am fusnesau risg isel. O gofio pwysigrwydd y maes yma bydd angen i ni ystyried ail flaenoriaethu er mwyn sicrhau ein bod yn defnyddio ein hadnoddau yn y modd mwyaf effeithiol.


Fel arall fe welir perfformiad calonogol ym maes Gwarchod y Cyhoedd gyda'r holl archwiliadau llygredd awyr a sefydliadau bwyd anifeiliaid yn cael eu harchwilio yn unol â'r rhaglen.

Ar ddechrau 2018 bu newidiadau sylweddol i wasanaethau bysus Gwynedd yn sgil diddymu trwydded un cwmni sylweddol. Yn anffodus, er gwaethaf y ffaith ein bod wedi ceisio meirioli effaith colli'r cwmni, a gwaith sylweddol wedi ei wneud i edrych am ddarparwyr eraill, mae diffyg darparwyr wedi golygu na fu modd adfer yr holl wasanaethau a welwyd yn flaenorol.

Mae Teleofal, neu dechnoleg gynorthwyol, yn cynnig sicrwydd fod cymorth gerllaw os oes ei angen, ac yn gymorth i leihau risgiau o fewn y cartref gan alluogi i unigolion bregus i fyw bywyd annibynnol. Yn Ionawr 2018 bu i Wasanaeth Eiddo'r Cyngor gymryd cyfrifoldeb am wasanaeth mewnosod cyfarpar Teleofal yng Ngwynedd. Hyd yn hyn mae'r newid yma wedi galluogi gwasanaeth cyflymach a mwy effeithlon i bobl Gwynedd, gyda'r amser mae'n ei gymryd i fewnosod cyfarpar i ddefnyddiwr wedi gostwng o 54 diwrnod ar gyfartaledd gan y darparwr blaenorol, i 4 diwrnod o dan ofal y Cyngor.



Er mwyn ymateb i'r heriau sy'n codi o newid yn yr hinsawdd, a sicrhau fod cymunedau Gwynedd yn cael eu paratoi ar gyfer y dyfodol bu i'r Cyngor fabwysiadu Cynllun Rheoli Carbon fis Mai 2010. Mae'r cynllun wedi bod yn fuddsoddiad sylweddol o £903,173 er mwyn gostwng allyriadau carbon gweithgareddau'r Cyngor, yn ogystal â chyfrannu tua'r amcan ehangach o Wunedd garbon isel.



Erbyn hyn mae ffocws y cynllun wedi newid o fuddsoddi mewn technoleg newydd er mwyn canolbwyntio ar leihau gorddefnydd diangen o egni wrth i'r Cyngor wneud ei waith.

Mae natur cynlluniau o'r fath yn annatod yn cael eu mesur dros gyfnod hir, gyda gwahaniaethau bychan rhwng cyfnodau monitro yn cael effaith gronnsus dros dymor ehangach. Ers sefydlu'r waelodlin yn 2005/06 mae allyriadau carbon y Cyngor wedi gostwng 38.9%, gyda gostyngiad o 5.8% yn 2017-18, ac wedi arwain at arbedion ariannol cronnsus o £4,007,419 ers cychwyn gwireddu'r cynllun.

Fel rhan o arbedion effeithlonrwydd yr adran ar gyfer 2015-18 cynigwyd dileu'r Gwasanaeth Difa Pla. Yn dilyn ymgynghori gyda'r Pwyllgor Craffu Cymunedau penderfynwyd parhau'r gwasanaeth ar sail hunangynhaliol, fasnachol.

Ers ei ailstrwythuro ym Medi 2016 mae'r Gwasanaeth wedi bod yn llwyddiannus wrth ddarparu gwasanaeth sy'n gynaliadwy i'r Cyngor, yn ogystal â bod yn fforddiadwy i'r cyhoedd. Mae'r gwasanaeth ar ei newydd wedd wedi derbyn adborth cadarnhaol iawn gan ei gwsmeriaid, gan nodi ei fod o safon uchel ac yn cael ei werthfawrogi.

Mae cynlluniau gwella a gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd gan gynorthwyo trigolion Gwynedd drwy:


- Hybu bywyd gwyllt.
- Gwarchod a rheoli ansawdd Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn.
- Hwyluso a rheoli datblygiadau cynaliadwy.
- Diogelu iechyd a lles y cyhoedd.
- Darparu cyfleoedd teithio i bawb ar draws y sir.
- Cynnal llwybrau cyhoeddus a meysydd chwarae.
- Lleihau costau ynni, allyriadau carbon ac atal llygredd goleuo.

# Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC)

Mae Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd yn cyflawni swyddogaethau statudol y Cyngor yn y meysydd Risg Llifogydd a Rheolaeth Adeiladu. Mae gweddill gwaith yr Adran yn ymwneud â darparu gwasanaethau ymgynghorol masnachol i gleientiaid, gan arbenigo mewn prosiectau peirianyddol neu adeiladu.

Ar gyfer ochr masnachol y gwaith, nodir fod y sefyllfa yn gadarnhaol gyda pherfformiad ar gyfer 2017/18 yn dangos elw £81,695, mae hyn yn uwch na hyn a ddisgwyllir gan y Cyngor.

Mae'r Uned Rheolaeth Adeiladu yn gyfrifol am sicrhau bod gwaith adeiladu yn cwrdd â'r safonau adeiladu. Mewn arolwg boddhad cwsmeriaid yn 2017/18 rhoddwyd sgôr cyfartalog o 9.6 allan o 10. Mae hwn yn welliant ar sgôr o 8.7 yn 2013/14 a 2014/15, sgôr o 9.1 yn 2015/16 a sgôr cyfartalog o 9.3 yn 2016/17.



Un o ddyletswyddau'r Uned Rheolaeth Adeiladu yw prosesu ceisiadau Rheolaeth Adeiladu Cynlluniau Llawn. Mae'r Uned yn anelu i archwilio'r cynlluniau o fewn 15 diwrnod, gyda'r gwaith penderfyniad ar y cais yn cael ei ryddhau cyn gynted â phosib. Yn ystod 2017/18, cymerwyd cyfartaledd o 16 diwrnod i wirio ceisiadau cynlluniau llawn (penderfyniad cyntaf), sy'n cymharu â 15 diwrnod yn ystod 2016/17. Gellir priodoli'r cynnydd hwn i gynnydd mewnbwn amser swyddogion i geisiadau cymhleth, a hefyd y lleihad yn y nifer o Swyddogion Rheolaeth Adeiladu.

Yn yr un modd ag ardaloedd arfordirol eraill yng Nghymru, mae rhai ardaloedd yng Ngwynedd ble mae mwy o berygl o lifogydd. Yn ystod 2017/18 cofnodwyd 52 achos o lifogydd mewnol ar draws y Sir. Dros y cyfnod yma, llwyddodd Ymgynghoriaeth Gwynedd i ddenu gwerth £633,969 o grantiau a ddefnyddiwyd i ddarparu cymorth a gwelliannau i 81 eiddo. Yn ychwanegol, dros y flwyddyn ddiwethaf, mae 928 eiddo wedi elwa o ran gwaith i godi ymwybyddiaeth o risg llifogydd.

Erbyn hyn, llifogydd yw'r math mwyaf cyffredin o drychineb naturiol sy'n effeithio ar ein cartrefi a'n busnesau, ac yn amharu ar weithgaredd dydd i ddydd cymunedau cyfan. Yn ystod 2017/18 cwblhawyd gwaith uwchraddio asedau draenio tir ar hyd y Sir er mwyn lleihau'r risg o lifogydd i gymunedau. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi helpu a chydweithio gyda chymunedau, y sector gyhoeddus, a chyrrff eraill drwy godi ymwybyddiaeth am beryglon llifogydd ac erydu arfordirol. Er mwyn ymateb i'r heriau sy'n codi o newid yn yr hinsawdd, rydym wedi parhau i ymgymryd â rhaglen fawr o ddiogelu'r arfordir i leihau'r tebygolrwydd o lifogydd eto yn y dyfodol.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd drwy:

- **Lleihau risg llifogydd.**
- **Sicrhau bod gwaith adeiladu yn ddiogel, cynaliadwy ac effeithiol o ran ynni.**




# Adran Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth

Mae'r Adran Cyllid yn sicrhau'r gefnogaeth briodol i'r Cyngor wrth reoli, gwarchod a datblygu ei sefyllfa ariannol yn ogystal â darparu gwasanaethau, megis casglu refeniw a thalu budd-daliadau, mewn ffordd deg. Mae gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth y Cyngor hefyd yn rhan o'r Adran Cyllid ac maent yn cynnig arweiniad a chefnogaeth dechnegol o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo gwerthoedd sylfaenol y Cyngor.

Ers 2013/14 mae cyllideb y Cyngor wedi lleihau, gyda chyfanswm o £32.5m o arbedion wedi eu gwireddu dros 4 blynedd. Golyga hynny fod gwaith rheolaeth ariannol a chefnogaeth gyfrifol yr adran yn gaffaeliaid i adrannau'r Cyngor wrth gyflawni i bobl Gwynedd mewn cyfnod ariannol anodd. Trwy reolaeth ariannol gydwybodol, mae'r adran wedi cynorthwyo'r Cyngor i lwyddo i gadw o fewn ei gyllideb pob blwyddyn rhwng 2013/14 a 2017/18.

Canran o danwariant yn erbyn y gyllideb




Yn yr hinsawdd ariannol lle mae gofyn i'r Cyngor leihau ei gyllidebau bob blwyddyn oherwydd y cyfyngiadau parhaus ar wariant cyhoeddus, mae'n hollol hanfodol fod gan y Cyngor drefniadau cadarn ar gyfer sicrhau fod adrannau yn gwireddu'r hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt.

Rydym wedi gweithredu'r cynllun Gwireddu Arbedion ers 2015/16, a dengys yr wybodaeth

ddiweddaraf fod 99% o gynlluniau 2016/17 eisoes wedi'u gwireddu gyda dim ond un cynllun allan o 144 yn llithro ychydig. O ran cynlluniau 2017/18, mae 81% wedi'u gwireddu cyn 31 Mawrth 2018, dim ond un cynllun yn destun pryder, gyda'r holl gynlluniau eraill yn debygol o gael eu gwireddu yn 2018/19.

Mae'r Gwasanaeth Pensiynau yn gyfrifol am weinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Cronfa Gwynedd) ar ran dros 40 o gyflogwyr, gan gynnwys cynghorau Gwynedd, Môn a Chonwy. Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar weithredu'n gywir ac yn gyflym ar ran ei aelodau. Rydym wedi gallu gwella ein gwasanaeth drwy leihau'r nifer o ddyddiau gwaith y mae'n ei gymryd i ddarparu amcangyfrifon o werth buddion ymdeol ar gyfer unigolion. Mae'r cynnydd yma'n dangos fod gwaith gwella systemau yn dwyn ffrwyth, a gwaith gwella cyfathrebu gyda chyflogwyr sy'n rhan o Gronfa Gwynedd yn ein galluogi i gasglu'r wybodaeth angenrheidiol yn gynt. Mae tueddiad y gyfradd o gamgymeriadau hefyd yn lleihau, sydd yn arwydd fod y gwasanaeth yn cadw cydbwysedd rhwng ymateb yn gyflym a chywirdeb eu gwybodaeth.

Amser y mae'n ei gymryd i ddarparu amcangyfrifon o werth buddion ymdeol ar gyfer unigolion



Mae gweddill unedau cefnogol yr adran yn perfformio'n dda, gyda'r mesurau a ddefnyddir yn dangos fod perfformiad yn cael ei gynnal neu'n gwella. Mae bodlonrwydd adrannau gyda'r gwasanaethau cefnogol yn dangos cynnydd cyffredinol ym mhob maes.

Ar 29 Mehefin 2017 bu i'r Gronfa Bensiwn sydd yng ngofal y Cyngor ymuno gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru, sydd yn trefnu i gyd-fuddsoddi holl gronfeydd pensiwn llywodraeth leol Cymru, er mwyn gwella dychweliadau o fuddsoddiadau ac isafu costau perthnasol. Er bod y gronfa pensiwn yn ymuno gyda'r bartneriaeth, ni fydd yn colli ei hunaniaeth unigol, a bydd yn parhau i fedru dilyn egwyddorion Gwynedd wrth benderfynu sut a lle i fuddsoddi.

Fel rhan o'r gymuned, mae'r Cyngor yn ymwybodol iawn o'r budd lleol sy'n deillio o gydweithio gyda chyflenwyr lleol. Mae'n fwriad yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2018-23, trwy gynllun 'Cadw'r Budd yn Lleol', i gaffael gymaint ag sy'n ymarferol yn lleol. Hefyd mae angen cofio fod y Cyngor yn cydweithio gyda chyflenwyr lleol, yn aml ar lefel llai ffurfiol na chontractau caffael. Beth sy'n bwysig i'r busnesau yma yw cael eu talu yn amserol, ac mae'r Cyngor yn ymgeisio i dalu ei gyflenwyr o fewn 30 diwrnod i dderbyn anfoneb. Mae perfformiad y Cyngor wrth dalu cyflenwyr o fewn 30 diwrnod wedi dirywio o 94% yn 2013/14 i 89% yn 2017/18, yn bennaf oherwydd dirywiad ym mherfformiad adrannau unigol wrth brosesu anfonebau cyn eu gyrru i'r Gwasanaeth Taliadau. Er hynny, mae perfformiad y Cyngor wrth dalu anfonebau cyflenwyr lleol wedi bod yn gyson ar 90-92%, gan adlewyrchu'r ymroddiad i hyrwyddo busnesau lleol. Byddwn yn talu sylw pellach i'r mater yma yn ystod y flwyddyn i ddod.

Mae'r Gwasanaeth Budd-Daliadau yn cefnogi pobl mewn amgylchiadau ariannol anodd drwy brosesu Budd-dal Tai a Gostyngiadau Treth Cyngor yn brydlon a chywir, er mwyn helpu dinasyddion Gwynedd i dalu rhent a treth. Yn 2017/18, rhoddwyd cymorth i dros 16.3% o'r tai yng Ngwynedd. Yn ychwanegol, llwyddwyd i sicrhau a dosbarthu dros £750,000 o Daliadau Tai Dewisol i hawlwyr mwyaf anghenus Gwynedd, gan ddefnyddio grant ag "ychwanegiad gwledig" sylweddol, wedi i'r Cyngor lobio Lywodraeth San Steffan amdano. Hefyd, wrth gasglu Treth Cyngor yn gydymdeimladol, cyfeiriwyd 200 o bobl mewn

amgylchiadau ariannol anodd at Cyngor ar Bopeth am gyngor ariannol.

Mae'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth (TG) yn darparu a chefnogi datrysiadau er mwyn helpu pobl Gwynedd i gael mynediad rhwydd at wybodaeth a gwasanaethau'r Cyngor, ac i staff weithio'n effeithlon. Ym mis Mai 2016, mabwysiadodd Gabinet y Cyngor y Strategaeth Technoleg Gwybodaeth, sydd wedi galluogi'r Gwasanaeth i ddatblygu ac arloesi wrth ddarparu cefnogaeth TG i'r Cyngor.

Un newid amlwg sydd wedi deillio o'r gwaith hyn yw datblygu 'sianel ddigidol' er mwyn cael mynediad at amrywiol wasanaethau'r Cyngor. Lanswyd darpariaeth hunanwasanaeth ar wefan y Cyngor yn Nhachwedd 2017, ac wedi'r newid yma mae lefel y trafodion digidol wedi codi o 27% i 29%. Hefyd, mae'r Gwasanaeth TG wrthi'n datblygu "ap Gwynedd", fydd yn cael ei ryddhau yn ystod 2018.

At ddefnydd staff y Cyngor, mae'r Gwasanaeth TG wedi datblygu system hunanwasanaeth ddigidol sydd yn galluogi staff i reoli amrediad o brosesau mewnol eu hunain. Rydym yn rhagweld y gallwn ddatblygu'r system hon er mwyn i fwy a mwy o brosesau mewnol fod yn fwy effeithlon i'r dyfodol.

Un o flaenoriaethau'r Gwasanaeth TG yw sicrhau fod gwefan y Cyngor ar gael i'r cyhoedd, a bod rhwydwaith systemau'r Cyngor ar gael i'w staff. Mae perfformiad y Gwasanaeth yn yr agweddau yma wedi bod yn gyson, gyda'r rhwydwaith ar gael 99.78% o'r amser yn 2017/18, a gwefan y Cyngor ar gael 99.52% o'r amser.

Mae cynlluniau gwella a gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd gan gynorthwyo trigolion Gwynedd drwy:

- **Gefnogi pobl mewn amgylchiadau ariannol anodd.**

## Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Er mai Gwynedd yw'r sir gyda'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru mae niferoedd ei siaradwyr wedi gostwng 3.5% rhwng Cyfrifiad 2001 a 2011. Credwn bod gennym ni fel Cyngor gyfrifoldeb nid yn unig i geisio atal y dirywiad yma ymhellach, ond hefyd mae hi yr un mor bwysig ein bod yn dylanwadu er mwyn cynyddu'r defnydd o'r iaith. Buom yn canolbwyntio dros y blynyddoedd diwethaf ar y defnydd o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc, yn y gymuned, a gan fydd busnes.

Rydym wedi bod yn cydweithio gyda phedair cymuned, sef Bangor, Dolgellau, Porthmadog a Phwllheli er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Gwelwyd newid gwirioneddol mewn arferion ieithyddol yn ystod 2017/18 gyda mudiadau fel y Geidiaid a'r Brownies a chlybiau chwaraeon yn cynnig mwy o weithgarwch cyfrwng Cymraeg. Mae'r cynllun cyfieithu cymunedol hefyd wedi rhoi mwy o gyfleoedd i siaradwyr Cymraeg gyfrannu drwy'r iaith drwy beidio gorfod newid i'r Saesneg, ac mae sesiynau hyfforddiant i weithwyr blynyddoedd cynnar wedi arwain atyn nhw yn eu tro yn cynyddu eu defnydd o'r Gymraeg gyda plant ifanc a'u rhieni.



Mae anghysondeb yn parhau yn y lefel o ddarpariaeth Cymraeg gan gyrrff cyhoeddus yng Ngwynedd, ac fel Cyngor rydym wedi bod yn gweithio o fewn Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn i geisio gwella'r sefyllfa. Mae Cynllun Llesiant newydd y Bwrdd yn nodi bod yr iaith Gymraeg yn 'linyn euraidd'

sy'n rhedeg drwyddo. Disgwylwn, felly, i weld y cyrrff cyhoeddus sy'n aelodau o'r Bwrdd yn cydweithio i gynyddu eu darpariaeth ddwyieithog ac yn annog trigolion i ddewis y Gymraeg wrth ymwneud â'r cyrrff hynny. Yn y cyfamser rydym fel Cyngor wedi defnyddio'r hyn sydd wedi ei ddysgu dros y bum mlynedd a mwy ddiwethaf er mwyn llunio 'Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-2023'.



Mae Cyngor Gwynedd yn unigryw gan mai y ni yw'r unig Gyngor sy'n gweinyddu'n fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg. Os nad ydi aelod o staff yn teimlo eu bod yn gwbl hyderus i weithio drwy'r Gymraeg rydym wedi bod yn eu cefnogi i loywi eu hiaith fel bod y gwasanaeth sy'n cael ei gynnis i'n trigolion ar gael drwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog yn ôl y dewis. Yn ystod 2017/18 cafwyd achosion ble nad oedd darpariaeth gan gontractwyr allanol ar gael o'r dechrau yn y ddwy iaith, megis apiau ffôn symudol, ond gan y bydd mwy o ddefnydd o dechnoleg fel hyn i'r dyfodol byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau bod darpariaeth ddwyieithog gyflawn ar gael.

Mae'r gwaith o geisio sicrhau diwylliant cyson ar draws y Cyngor a'r egwyddor o roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud yn parhau. Erbyn diwedd 2017/18 roeddem wedi disgwyl cynnal 15 adolygiad ffurfiol, (dim ond 10 a gyflawnwyd), ond yn ystod y flwyddyn daeth yn amlwg fod angen ail ystyried ein dull o wreiddio'r diwylliant ymysg holl staff y Cyngor. Yn sgil hynny fe



ganolbwyntiwyd ein hymdrechion ar hyfforddi rheolwyr y Cyngor ar yr egwyddorion dan sylw, ac erbyn diwedd y flwyddyn roedd y mwyafrif o reolwyr bellach wedi cwblhau hyfforddiant Ffordd Gwynedd. Maent eisoes wedi dechrau ar y gwaith o arwain timau gwasanaeth i adlewyrchu ar eu trefniadau gwaith presennol, i herio a ydynt yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog, ac i ystyried a oes lle i wella. O ran yr adolygiadau ffurfiol a fu, mae yna ganlyniadau addawol yn amlygu eu hunain ym meysydd Oedolion a Phrifyrdd, a disgwyliwn weld ffrwyth y gwaith hwnnw yn dod i'r amlwg yn ystod y flwyddyn i ddod.

Llwyddiant arall y rhaglen hyfforddi i reolwyr oedd bod aelodau o Gabinet y Cyngor hefyd wedi manteisio ar y rhaglen ddatblygu yma a chael ei fod yn ddefnyddiol iawn i finiogi eu sgiliau hwythau fel arweinwyr.



Mae'n angenrheidiol i ni fel Cyngor nid yn unig ddarparu cyfleoedd i bobl Gwynedd ddweud eu dweud am ein gwasanaethau, ond hefyd wrando ac ymateb yn gadarnhaol i'w blaenoriaethau. Rhwng 2013 a 2018 mae dros 17,000 o bobl Gwynedd wedi cymryd rhan a siapio dros 24 o ymarferiadau ymgysylltu cyhoeddus, gan gynnwys

oddeutu 4,400 o bobl ifanc 11 i 25 oed. Fe wnaethom ymestyn ein gwaith ymgysylltu â phobl ifanc yn ystod 2017/18 ac mae mewnbyn y bobl ifanc wedi ein harwain i gynyddu llawer ar y defnydd o gyfryngau cymdeithasol fel modd effeithiol o rannu gwybodaeth a chasglu eu barn. Mae technoleg hefyd wedi helpu aelodau ein Panel Trigolion i gyfathrebu'n haws hefo'r Cyngor, gyda 67% ohonynt bellach yn dewis llenwi holiaduron ar-lein.



Drwy'r sianeli digidol y mae mwy a mwy o drigolion Gwynedd bellach yn dewis cysylltu â'r Cyngor. Mae creu cyfrif yn rhoi'r gallu i drigolion wneud cais am wasanaeth a'i dracio ar adeg sy'n gyfleus iddynt hwy. Bu 2017/18 yn flwyddyn lwyddiannus o ran cynyddu'r nifer o wasanaethau ar-lein, megis talu am gasgliad gwastraff gardd, taliadau am ginio neu dripiâu mewn ysgolion cynradd, neu logi sesiynau ffitrwydd mewn Canolfannau Hamdden. Mae yna 11,500 o drigolion ychwanegol wedi dewis creu cyfrif ar lein gyda'r Cyngor yn ystod 2017/18, gan ddod a'r cyfanswm i 35,530. Un elfen o'r prosiect hunanwasanaeth na lwyddwyd i'w gwblhau cyn diwedd Mawrth 2018 oedd datblygu 'ap' sy'n cyd-fynd â'r cyfri ar-lein. Rydym wedi bod yn gweithio i ddatrys problemau gyda'r cwmni sy'n darparu'r dechnoleg, a bydd yr 'ap' yn barod yn fuan yn ystod 2018/19.

Mae'r gefnogaeth a ddarperir i Gynghorwyr yn cael ei gydgordio gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ac eleni llwyddodd y Cyngor i gael ei gydnabod gyda Siarter Aelodau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am y gwaith hwn.

Ymhellach, llwyddwyd i gynnal Lefel Aur y Safon Iechyd Corfforaethol, sef cydnabyddiaeth bod y Cyngor yn darparu cefnogaeth o'r radd uchaf i iechyd a llesiant ei staff. Adlewyrchir hyn yn y lefel absenoldeb staff o fewn y Cyngor, sydd gyda'r isaf ar draws holl awdurdodau lleol Cymru.

Rydym fel Cyngor yn ymwybodol iawn bod yr wybodaeth sydd ar gadw gennym am bobl ac

adnoddau yn ddata sensitif a gwerthfawr. Mae llawer o waith paratoi wedi ei wneud yn y cefndir er mwyn paratoi at ddyfodiad y ddeddf diogelu data newydd ddaeth i rym ar 25 Mai 2018 (GDPR). Mae'r gwaith paratoi hwn, a'r hyfforddiant sydd wedi ei roi i swyddogion, yn hanfodol. Ychydig iawn o achosion a geir o beidio â chydymffurfio â threfniadau diogelu data, ond yn 2017/18 fe welwyd cynnydd yn y niferoedd gydag 13 achos o wybodaeth wedi ei rannu, ei golli, neu ei anfon i'r cyfeiriad anghywir. Bu'n rhaid adrodd ar un digwyddiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth oherwydd ei ddifrifoldeb, ac rydym yn aros am ganlyniad yr ymchwiliad. Beth bynnag fydd y canlyniad, rydym eisoes yn parhau i dynhau ein trefniadau diogelu data. Mae'r niferoedd ceisiadau rhyddid gwybodaeth yn parhau i gynyddu, o 1,051 yn 2016/17 i 1,097 yn 2017/18 ac mae hynny yn effeithio ar ein gallu i ymateb heb dynnu adnoddau oddi wrth wasanaethau rheng flaen. Yn 2017/18 llwyddwyd i ateb 89% o fewn yr amser dynodedig o'i gymharu gyda 87% yn y flwyddyn flaenorol.

Mae Uned Caffael y Cyngor yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn cael gwerth am arian o'r symiau a werir gan y Cyngor ar nwyddau a gwasanaethau, tra ar yr un pryd yn ceisio sicrhau ein bod yn cadw cymaint o wariant ag sy'n bosibl yn lleol. Yn ystod 2017/18 buom yn canolbwyntio ar gefnogi busnesau Gwynedd sy'n gweithio ym meysydd cynnal a chadw adeiladau, bwyd, cludiant tacsî, peirianeg sifil, hurio offer a gofal cartref i'w cynorthwyo i fedru ceisio am dendrau gwaith gyda'r Cyngor. Yn sgil yr holl waith a wneir yn y maes yma, ers 2015/16 mae canran o wariant reffeniw'r Cyngor gyda busnesau lleol wedi cynyddu o £58m (56%) i £60m (62%).

Ers cychwyn y prosiect yn 2014/15 rydym hefyd wedi llwyddo i gynaeafu £3.55 miliwn o arbedion caffael ar draws y Cyngor. Ni fyddwn

yn llaesu dwylo ar y gwaith hwn i'r dyfodol chwaith, gan bod gwaith pellach i'w wneud i ganfod arbedion pellach tra'n taro'r cydbwysedd gorau rhwng cadw gwariant yn lleol a gwneud arbedion ariannol.

Yn ystod 2017/18 mae Uned Hyfforddi'r Cyngor wedi bod yn ymchwilio i ddulliau o geisio ad-ennill rhywfaint o'r £642,000 y mae'n rhaid i'r Cyngor ei dalu i'r Llywodraeth mewn ardoll prentisiaethau. Yn ystod y flwyddyn bu i 80 o staff fanteisio ar reolau'r cynllun ond ni chawn ddefnyddio'r ardoll i dalu cyflogau prentisiaid. Bydd gwaith pellach yn mynd rhagddo yn ystod y flwyddyn i ddod i weld sut y gallwn fanteisio ymhellach ar y gronfa genedlaethol yma.

Mae cwynion yn ddull o ddysgu am feysydd lle gallwn wella, ac mae'r Uned Datblygu'r Sefydliad yn cadw golwg ar y cwynion sydd yn dod i mewn lle nad ydynt yn cael eu datrys gan y Gwasanaeth a hynny er mwyn ymddwyn fel "asiant" i'r sawl sy'n cwyno ac i sicrhau ein bod yn dysgu unrhyw wersi. Da yw gweld fod yr Uned wedi gorfod delio gyda llai o gwynion yn 2017/18 (51) na fu'n rhaid yn ystod y flwyddyn flaenorol (67) sydd yn arwydd efallai ein bod fel corff yn dysgu'r wersi.

Wrth gwrs os nad yw unigolyn yn hapus gydag ymateb y Cyngor mae ganddynt hawl i fynd at yr Ombwdsmon lleol ac yma eto fe welwyd lleihad yn y nifer o gwynion aeth ato o 29 yn 2016/17 i 24 yn 2017/18. O'r 24 a gyfeiriwyd ato dim ond un achos oedd wedi mynd ymlaen i fod yn destun ymchwiliad ganddo.



## Diogelu

Mae'r cyfrifoldeb i ddiogelu plant ac oedolion bregus yn un o gyfrifoldebau pwysicaf y Cyngor.

Fe sefydlwyd y Panel Strategol Diogelu Plant a Oedolion er mwyn rhoi sylw penodol i'r


materion corfforaethol a statudol o ran diogelu. Yn ystod 2017/18 fe wnaeth y Panel ehangu ei ffocws ac ychwanegu'r agenda 'PREVENT/ATAL' at eu maes gwaith. Hon yw rhaglen y Swyddfa Gartref sy'n ymwneud â cheisio atal unigolion rhag cael eu radicaleiddio. Mae'r agenda trais yn erbyn menywod a caethwasiaeth fodern hefyd yn fater sydd yn derbyn sylw gan y Panel. Rydym wedi cynnal gweithdy er mwyn adnabod beth mae'r Cyngor angen ei wneud i sicrhau bod ymwybyddiaeth clir o'n dyletswyddau yn y meysydd diogelu pwysig yma. Mae materion megis troseddau sydd yn ymwneud â chyflenwad cyffuriau i'r Gogledd wedi derbyn sylw hefyd.

Mae llawer o waith codi ymwybyddiaeth a hyfforddi wedi ei wneud ar draws gweithlu'r Cyngor, ac erbyn hyn rydym wedi sicrhau ein bod wedi mabwysiadu'r polisiau a gweithdrefnau diogelu priodol. Rydym yn cynnal awdit blynyddol i fesur effaith a gwelliant mewn lefelau ymwybyddiaeth staff o'r maes diogelu, ynghyd â chynnal archwiliadau blynyddol i sicrhau fod ein trefniadau ni'n gadarn yn y maes. Mae'r Awdit Ymwybyddiaeth wedi dangos eleni bod cynnydd wedi bod yn y lefelau ymwybyddiaeth o Bolisi a Gweithdrefnau Diogelu. Serch hynny, mae'r awdit yn dangos fod dal lle i fynd i wella lefelau ymwybyddiaeth ymysg gweithwyr maes ac mi fydd hyn yn derbyn sylw y Panel Diogelu yn ystod 2018/19. Rydym wedi parhau i sicrhau bod y staff hynny sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion bregus yn derbyn gwiriad Disclosure and Barring Service (DBS), ac yn ystod 2017/18 roedd y ffigwr unwaith eto'n 100%.

## Gwasanaethau Cyfreithiol

Rydym fel Gwasanaeth yn darparu gwasanaeth cyfreithiol cyflawn i holl adrannau'r Cyngor. Er mwyn creu incwm byddwn hefyd yn darparu'r un math o wasanaeth i gleientiaid allanol. Er ein bod yn parhau i dderbyn adborth cadarnhaol cyson, gydag 87% o gleientiaid yn nodi eu bod yn hollol fodlon (sgôr o 10 allan o 10) gyda'r gwasanaeth a ddarperir, rydym yn ymchwilio ymhellach i ddarganfod y rhesymau pam nad yw'r 13% sy'n weddill yn hollol fodlon er mwyn gweld a allwn wneud rhywbeth yn ei gylch. Un ffactor cyffredin y gwyddom amdano yw fod angen cyfathrebu'n amlach gyda chleientiaid er mwyn rhoi gwybod iddynt os fydd pethau yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl. Byddwn yn rhoi sylw i hyn yn ystod y flwyddyn i ddod.

### Holiadur Bodlonrwydd



Rydym yn falch o fedru dweud na fu yr un achos o dorri'r Cod Ymddygiad Aelodau dros y flwyddyn ddiwethaf, ac mae Pwyllgor Safonau'r Cyngor hefyd wedi medru sicrhau bod safonau ymddygiad o fewn y Cyngor, a holl drafodion y Cyngor hefyd wedi eu gwarchod.



Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am weinyddu holl etholiadau'r Sir. Ers Ebrill 2013 rydym wedi gweinyddu'r etholiadau llywodraeth leol ar gyfer Cyngor Gwynedd a chynghorau cymuned

a thref y Sir, ynghyd ag 16 is-etholiad, 1 etholiad ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2 etholiad cyffredinol i Senedd San Steffan, etholiad Comisiynydd Heddlu Gogledd Cymru ac un refferendwm. Rydym hefyd wedi gweinyddu pŵl cymunedol a phleidlais i sefydlu ardaloedd gwella busnes Bangor a Chaernarfon. Cafwyd un sefyllfa anffodus o anfon cardiau anghywir at unigolion yn ardal Dolgellau yn ystod yr etholiad Cyngor Sir, ond fel arall roedd gweinyddiad yr etholiadau yn unol â gofynion y Comisiwn Etholiadau.

Mae yna gwestiwn parhaus ynglŷn ag a ydym wedi medru sicrhau fod pawb wedi cofrestru ar gyfer pleidleisio. Yn ystod y flwyddyn i ddod byddwn yn canolbwyntio i weld a oes unrhyw beth y dylem fod yn ei wneud i sicrhau fod unrhyw fylchau yn cael eu llenwi.

Mae cynlluniau gwella a gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd gan gynorthwyo trigolion Gwynedd drwy:

- Diogelu plant ac oedolion rhag niwed.
- Cydweithio â phartneriaid i leihau trosedd ac anrhefn.
- Hybu defnydd y Gymraeg.
- Hyrwyddo ein diwylliant, treftadaeth a'r celfyddydau.

# Atodiad I - Mesurau Perfformiad

Mesur	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18
<b>Adran Addysg</b>					
Canran disgyblion 16 oed sydd yn ennill y Dangosydd Pynciau Craidd (Gradd C neu uwch mewn Cymraeg/ Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth)	53.2%	57.35%	60.5%	64.4%	57.4%
Canran y disgyblion 16 oed sy'n ennill trothwy lefel 1 (5 gradd A* - G TGAU) neu gyfatebol	93.1%	97.1%	97.9%	97.3%	97.3%
Canran disgyblion 15 oed sydd yn ennill trothwy lefel 2 (5 gradd A* - C TGAU) neu gyfatebol	81.55%	87.7%	88.9%	85.9%	70%
Canran y bobl ifanc 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant	3%	1.7%	1.8%	1%	data i ddilyn
Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Sylfaen yn 7 oed, ac sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig	–	–	86.8%	86.8%	86.6%
Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (Blwyddyn 6), yn 11 oed, ac yn cyrraedd y lefel disgwyliedig mewn Saesneg neu Gymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth.	86.6%	86%	89.5%	89.8%	92.1%
Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 (Blwyddyn 9), yn 14 oed ac sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth.	85.4%	89.11%	91.3%	92%	92.8%
Canran y disgyblion a aseswyd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cael Asesiad Athrawon yn y Gymraeg (iaith Gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3	82.5%	81.2%	83.2%	83.7%	82.7%
Nifer o waharddiadau parhaol mewn ysgolion cynradd yn y flwyddyn academaidd	0	0	3	0	0
Nifer o ddisgyblion a waharddwyd yn barhaol mewn ysgolion uwchradd yn y flwyddyn academaidd	4	4	3	2	0
Cyfartaledd y sgor pwyntiau ar gyfer y disgyblion sy'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdodau lleol	578.20	616.00	617.20	591.00	497.3
Canran presenoldeb yn ysgolion cynradd yn y flwyddyn academaidd	94.3%	95.1%	95%	95.45%	95.29%

Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd yn y flwyddyn academaidd	93.6%	94.2%	94.6%	95.16%	95.19%
Canran y disgyblion 15 oed ar 31ain Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyflawnodd y trothwy Lefel 2+ yn cynnwys gradd A*-C TGAU mewn Cymraeg mamiaith neu Saesneg a Mathemateg	58%	61.1%	63.3%	65.9%	58.1%
Canran yr ysgolion cynradd sydd yn gallu dangos cynnydd yn nefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg	64%	Heb Adrodd	75%	–	data ar gael haf 2018
Canran yr ysgolion uwchradd sydd wedi sefydlu gwaelodlin o ddefnydd cymdeithasol pobl ifanc Blwyddyn 7 o'r Gymraeg	–	Gosod Gwaelodlin	100%	100%	100%

### Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Lud. 130

Galluogi - Canran o achosion sydd wedi derbyn cyfnod o alluogi sy'n gadael heb becyn gofal	54%	45%	55%	59.3%	–
Nifer y defnyddwyr gwasanaethau oedolion sy'n derbyn taliadau uniongyrchol	104	121	–	121	–
Canran o bobl hŷn a phobl sydd ag Anableddau Corfforol lle gweler cynnydd mewn cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt hwy	–	–	–	88%	80.5%
Cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu drosodd	1.55	1.05	2.38	3.40	4.9
Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) sy'n cael cymorth i fyw gartref fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed a throsodd	46.21	45.07	43.10	44.70	41.2
Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) sy'n cael cymorth i fyw gartref fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed a throsodd (yn cynnwys addasiadau ac offer)	79.41	78.17	73.00	89.30	82.5
Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth	25.59	24.15	22.69	22.60	23.2
Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth ac eithrio rhai sy'n hunan ariannu	20.08	18.48	17.10	16.40	17.8
Canran y cyfeiriadau diogelu oedolion wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle'r mae'r risg wedi ei reoli	95.72%	100%	96.7%	97.9%	97.6%

O'r atgyfeiriadau amddiffyn oedolion sydd wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, y canran lle mae'r perygl wedi'i reoli (gan eithrio'r rhai sydd wedi gwrthod ymyrraeth)	—	—	99%	100%	99.4%
Y nifer o ddiwrnodau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl	242	316	271	281	204
Canran yr anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1 Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol	5.24%	5.7%	5.13%	3.68%	4.82%
Nifer o unedau tai fforddiadwy a sicrhawyd i Wynedd	70	144	48	71	77
Cyfnod (nifer dyddiau) mae wedi gymryd i'r Uned Ddigartrefedd gyflawni cynllun atal i'r rhai sydd o dan fygythiad	145.85	84.94	69.08	77.73	101
Cyfnod a dreuliodd mewn llety dros dro (nifer dyddiau)	113.78	75.82	126.02	104.44	92

### Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

Canran plant 2 oed sy'n bresennol yn **Dechrau'n Deg	84%	82%	83%	84%	81%
Nifer o'r pecynnau cymorth uwch rhiantu sy'n arwain at deithio pellter cadarnhaol	57%	38%	48%	89%	65%
Canran o deuluoedd sydd wedi adrodd cynnydd yn dilyn derbyn gwasanaeth gan Tîm o Amgylch y Teulu (Gyda'n Gilydd)	15%	30%	25%	95%	92%
Cynllun trosiannol wedi ei gytuno ar gyfer plant anabl 16 oed	100	100	100	Dim plentyn anabl mewn gofal	100%
Cynllun llwybr wedi ei gytuno ar gyfer plant mewn gofal	100	100	100	100	99%
Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a chanddynt brofiad o symud ysgol unwaith neu ragor, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, ac nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau trosiannol, yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth	22.8%	18.7%	18.1%	17.1%	10%
Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn	4.9%	6.2%	7.7%	6%	7.5%
Canran yr adolygiadau plant sy'n derbyn gofal wedi eu cynnal o fewn amserlen statudol yn ystod y flwyddyn	94.3%	93.8%	91%	91%	89%



Canran yr adolygiadau amddiffyn plant wedi eu cynnal o fewn amserlen statudol yn ystod y flwyddyn			85.5%	92.0%	90%
Canran yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal oedd fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn a'u cynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau	83.7%	89%	86.9%	90%	92%
Canran y plant cymwys, perthnasol a phlant a fu'n berthnasol sydd â chynlluniau llwybr yn ôl yr angen	100%	100%	100%	100%	100%
Canran y plant cymwys, perthnasol a phlant a fu'n berthnasol sydd wedi cael cynghorydd personol wedi'i ddyrannu iddynt	100%	100%	100%	100%	100%
Canran o gynadleddau achos lle bu clywed llais/barn y plentyn (ac eithro plant o dan 7 oed)	81%	83%	85%	84%	92%
Cyfradd y plant a gafodd eu trafod mewn goruchwyliaeth, lle rhoddwyd ystyriaeth i niwed arwyddocaol (a'r ateb wedi ei gofnodi)	100	100	100	100	100%
Cyfradd yr asesiadau risg a gafodd eu cyflwyno i Gynadleddau Achos a oedd yn cael eu hystyried yn rhai a oedd yn dangos ansawdd wrth wneud penderfyniadau	95	98	97	94	96%

## Adran Economi a Chymuned

Nifer o achrediadau mae pobl ifanc yn eu derbyn drwy'r gwasanaeth ieuenctid	2,323	2,049	2,807	4,051	508 (diwedd mis Mawrth ond cylch adrodd gorffennaf i Gorffennaf)
Canran plant yn mynychu 20 sesiwn neu fwy o sesiynau chwaraeon allgwricwlaidd (wedi eu trefnu gan y Tim Chwaraeon am oes.	22.6%	19.2%	21.5%	20.7%	18.7%
Nifer o ymweliadau i ganolfannau hamdden fesul 1,000 y pen o'r boblogaeth	12,906	13,790	10,278	11,010	9,968
% wedi gwella sgor ansawdd bywyd gyda chefnogaeth y Tim Dementia Go	–	–	–	63%	68%
% wedi gwella sgor ansawdd bywyd gyda chefnogaeth y Tim Cyfeirio i Ymarfer	62%	62%	59%	66%	68%
Canran y Plant sy'n 11 oed ac wedi cyrraedd safon y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer nofio	79%	82%	78%	79%	81%
Canran o swyddi newydd a grewyd gan fentrau sy'n derbyn cymorth gan y Cyngor sy'n swyddi gwerth uchel	–	15.4%	43.2%	45.7%	35.1%



Canran o swyddi a ddiogelwyd o fewn mentrau sy'n derbyn cymorth gan y Cyngor sy'n swyddi gwerth uchel (sleid 10)	–	–	–	–	73.5%
Nifer y busnesau sy'n derbyn cymorth gan y Cyngor	–	–	–	–	394
Cyfanswm buddsoddiad arian cyhoeddus a phreifat sydd wedi ei sicrhau i Wynedd o ganlyniad i gefnogaeth y Cyngor	–	£1.3m	£3.2m	£6.6m	£10.4m
Canran yr eiddo sy'n gallu derbyn bandeang cyflym - Gwynedd/Cymru	52.2 / 17.6	66.6 / 55.4	76 / 75.9	84.2 / 84.1	87.2 / 87.0
Canran yr eiddo sy'n tanysgrifio i dderbyn bandeang cyflym - Gwynedd/Cymru	–	–	–	39.3 / 34.5	42.1 / 40.3 (Rhag '17)
Budd i'r economi o gefnogi digwyddiadau proffil uchel a strategol	£4,666,662	£4,814,867	£5,928,034	£6,764,860	£5,300,000
Canran sydd wedi cael budd o sesiynau Llythrennedd Gwybodaeth	–	–	–	100%	98%
Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth	-	376,713	384,722	375,009	346,567
Canran defnyddwyr llyfrgelloedd (oedolion) sydd yn nodi iddynt ddarganfod y wybodaeth oeddent angen	85%	90.7%	–	89%	98.3%

100.133

### Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Canran o'r graffiti/posteri sy'n ymguddio arwyddion traffig ac yn achosi peryglon, glanhawyd/cliriwyd o fewn 24 awr i'r amser hysbyswyd	100%	100%	100%	100%	100%
Canran o'r graffiti/posteri hiliol/tramgwyddol ar eiddo'r Cyngor, glanhawyd/cliriwyd o fewn 5 diwrnod gwaith i'r amser hysbyswyd	100%	100%	100%	100%	100%
Canran lefelau ailgylchu/compostio masnachol	30.79%	35.45%	41.44%	40.55%	44.34%
Canran o ddigwyddiadau o ddifrod peryglus i ffyrdd a phafinau atgyweirwyd neu wnaethpwyd yn ddiogel o fewn 24 awr i'r amser hysbyswyd	97.2%	97%	97.8%	98%	98%
Mesur o Lendid ac Edrychiad Strydoedd	73.50	70.65	76.26	75.70	71.95
Canran y priffyrdd a thir perthnasol a archwiliwyd sydd a'u safon glanweithdra yn uchel neu dderbyniol	93.5%	94.3%	96.7%	96.55%	94.10%
Canran o ddigwyddiadau gwaredu slei bach ar dir perthnasol wedi clirio o fewn 5 diwrnod gwaith i'r amser hysbyswyd	97.3%	96.50%	96.50%	97.90%	97%

Nifer o ddyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn i atgyweirio holl ddiffygion ar lampau stryd	2.70	3.50	2.76	2.52	2.77
Canran prif ffyrdd (dosbarth A) sydd mewn cyflwr gwael	4.4%	3.5%	3.1%	3.5%	3.2%
Canran ffyrdd (dosbarth B) sydd mewn cyflwr gwael	4.7%	3.7%	3.4%	3.9%	3.8%
Canran ffyrdd (dosbarth C) sydd mewn cyflwr gwael	14.7%	14.2%	15.8%	15.2%	14.1%
Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a anfonir i safle tirlenwi	45.94%	43.33%	34.34%	30.62%	24.33%
Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei aildddefnyddio a'i ailgylchu/neu ei ailgylchu, gan gynnwys deunyddiau biowastraff wedi eu gwahanu yn eu tarddle ac a gompostir neu a drinnir yn fiolegol mewn ffordd arall	54.3%	55.25%	58.7%	61.08%	60.28%
Canran y casgliadau a fethwyd yn ystod y flwyddyn	–	–	–	–	0.23%

Tud. 134

### Adran Amgylchedd

Nifer o gwynion a dderbyniwyd am wasanaethau cludiant cyhoeddus dan gontract i'r Cyngor	–	–	–	10	27*(*ddim yn cynnwys cynwys am ddiffyg yn dilyn cwmp Express Motors)
Canran o gwsmeriaid a ddwedodd eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r lefel gwasanaeth Cynllunio	-	-	88.9%	94.4%	90.48%
Canran o fynychwyr sydd wedi dysgu bod yn fwy diogel ar y ffyrdd o ganlyniad i'r wers/hyfforddiant	–	–	99%	100%	100%
Canran o sefydliadau bwyd sydd yn 'cydymffurfio'n fras' a safonau hylendid bwyd	97.49%	97.2%	97.95%	98.61%	98.83%
Canran yr holl geisiadau cynllunio perthnasol wedi eu penderfynu o fewn 56 diwrnod	72.86%	76.44%	82.3%	81.18%	76.03%
Nifer cyfartalog y dyddiau mae'n cymryd i wneud penderfyniad ar geisiadau cynllunio perthnasol	–	–	60.00	59.26	59.0

Canran yr oedolion sy'n 60 oed neu drosodd sy'n ddeiliaid tocynnau teithio rhatach ar y bws	84.6%	80.3%	79%	80%	Ddim yn cael ei fesur bellach
Pa mor sydyn mae'r holl achosion gorfodaeth wedi cymryd i'w datrys (dyddiau)	-	-	-	-	88.8
Canran o dai fforddiadwy ganiatawyd	-	-	-	-	38%
Canran y busnesau bwyd uchel eu risg sydd wedi cael arolygiad yn unol â'r rhaglen	-	-	-	-	98.60%
Canran y busnesau Prosesau Llygredd Awyr sydd wedi cael arolygiad yn unol a'r rhaglen	-	-	-	-	100%
Canran y sefydliadau bwyd anifeiliaid sydd wedi cael arolygiad yn unol a'r rhaglen	-	-	100%	100%	100%
Canran y Troseddau a gafodd eu datrys drwy ymyrraeth gan Warchod y Cyhoedd	-	-	-	-	89%
Amser ar gyfartaledd i benderfynu cais Trwydded Tacsï (dyddiau)	-	-	-	-	10
Nifer o ddyddiau cymerir i brosesu gorchmynion aros a manau parcio	-	-	-	-	457
Nifer o ddyddiau cymerir i brosesu gorchmynion cyfyngu cyflymder	-	-	-	-	541
Canran bodlonrwydd cwsmeriaid yr Uned Cynnal a Chadw	-	97.50%	98.10%	99.40%	95.30%
Canran adeiladau'r Cyngor yng nghategori cyflwr da neu dderbyniol	95.80%	96.30%	97%	97.35%	97.73%
Canran adeiladau gyda systemau diogelwch priodol mewn lle	-	-	66%	81.27%	92.70%
Canran bodlonrwydd cwsmeriaid Uned Difa Pla	-	-	-	-	99.00%
Adborth gan ddefnyddwyr adeiladau newydd, ddwy flynedd ar ol agor (sgor cyfartalog allan o 10)	-	-	10	10	9
Nifer o apelïadau cosbau parcio i'r beirniaid annibynnol sy'n cael eu caniatu	-	-	10	5	1
<b>YGC (Ymgynghoriaeth Gwynedd)</b>					
Elw (£) yn erbyn y targed - Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd	£ 120,000.00	£ 21,000.00	-£ 34,000.00	£ 95,619.50	£ 81,695.00
Arolwg Boddhad Cwsmeriaid - ffigwr a roddir gan gleientiaid ar gyfer gwasanaeth yr adran Rheolaeth Adeiladu (sgôr uchafswm o 10)	8.7	8.7	9.1	9.3	9.6
Nifer cyfartalog y diwrnodau a gymerwyd i wirio cais cynlluniau llawn (penderfyniad cyntaf)	12.9	15.2	17.2	15.0	16.1

### Adran Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)

Canran yr anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod (ar draws y Cyngor)	94%	94%	91%	90%	89%
--	-----	-----	-----	-----	-----

Swm arbedion effeithlonrwydd a gyflawnwyd fel canran o'r holl arbedion	100%	100%	100%	71%	71%
Cyfradd Casglu Treth Cyngor yn y Flwyddyn Gyfredol	96.98	97.20	97.29	97.35	97.13
Cyfradd Casglu Blwyddyn Gyfredol Trethi Annomestig	97.79	98.20	98.13	97.91	98.54
Asesiad o ddiogelwch buddsoddiadau ariannol y Cyngor (Diogelwch arian y Cyngor wrth adnau arian mewn banciau – dadansoddiad chwarterol gan Arlingclose o'r sgôr credyd (1 ydi'r gorau, sef statws credyd AAA, 2 ydi AA+, 3 ydi AA-, 5 ydi A+, 6 ydi A, 7 ydi A-))	5.80	3.62	3.57	3.27	3.96
Llwyddiant i gadw o fewn y gyllideb (%)	-0.14	-0.18	-0.13	-0.28	-0.36
Cyfradd casglu dyledion amrywiol o fewn y chwarter – Gwerth	67.84	87.47	86.91	89.56	89.39
Swm arbedion a gyflawnwyd	£3,439,940	£ 4,765,850.00	£ 7,618,820.00	£ 9,162,730.00	£ 5,996,890.00

### Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Tud. 136

Canran holl staff Gwynedd wedi derbyn hyfforddiant Lefel I mewn amddiffyn a diogelu	-	-	Trefniadau Corfforaethol yn cael ei ddatblygu	12%	44%
Canran o'r holl staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion bregus sydd â gwiriad Disclosure and Barring Service (DBS) cyfredol	-	100%	100%	100%	100%
Cyfanswm arbedion caffael blynyddol		£657,278	£1,563,120	£1,002,500	£326,500
Canran o wariant refeniw caffael y Cyngor sydd yn mynd i gwmnïau sydd â'i bencadlys neu gangen yng Ngwynedd a gwariant lleol drwy is-gontractau	56%	57%	56%	58%	62%
Cyfanswm arbedion caffael blynyddol	-	£657,278	£1,563,120	£1,002,500	£326,500
Canran o darged arbedion caffael yr achos busnes rheolaeth categori sydd wedi cwblhau (targed o £2.3m dros y cyfnod 2014/15 - 2018/19)	-	-	-	44% (£1.01m)	150% (£3.55m)
Canran a nododd sgôr o llai na 10 gyda'r gwasanaeth a ddarparwyd wrth gysylltu â'r Cyngor drwy Galw Gwynedd	-	-	-	-	30%
Canran a nododd sgôr o llai na 10 gyda'r gwasanaeth a ddarparwyd wrth gysylltu â'r Cyngor drwy Siopau Gwynedd	-	-	-	-	11%
Canran yr holiaduron bodlonrwydd sy'n graddio'r gwasanaeth Cofrestru Genedigaethau, Marwolaethau a Phriodasau yn dda iawn (sgôr 10 allan o 10)	-	-	-	-	86.34%
Nifer o ddiffygion sydd wedi eu canfod mewn archwiliadau rhaglenedig iechyd, diogelwch a llesiant					75

Barn defnyddwyr am waith cyfieithu ysgrifenedig	–	–	–	–	100%
Barn defnyddwyr am waith cyfieithu ar y pryd	–	–	–	–	100%
Nifer a chanran y defnyddwyr sy'n adrodd eu bod yn anfodlon neu'n anfodlon iawn â gwefan y Cyngor	–	–	–	–	22%
Nifer o gwynion ffurfiol a dderbyniwyd o dan Drefn Gorfforaethol y Cyngor	–	–	28	24	27
Nifer o ddigwyddiadau gwybodaeth - ble mae gwybodaeth am unigolyn wedi e iddwy/golli/mynd i'r cyfeiriad anghywir	15	10	9	4	13
Canran Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a atebwyd o fewn 20 diwrnod gwaith	91%	91%	86%	87%	89%
Nifer y diwrnodau/shifftiau gwaith wedi'u colli oherwydd salwch, fesul gweithiwr awdurdod lleol cyfwerth ag amser llawn / NEU - Nifer o ddyddiau absenoldeb salwch y pen ar gyfartaledd	8.20	8.62	8.44	9.00	8.72
Nifer o achosion cyflogaeth sy'n cael eu cyfeirio at sylw'r Pwyllgor Apelau Cyflogaeth, a'r nifer o benderfyniadau sy'n mynd yn groes i benderfyniadau gwreiddiol y cyflogwr			4 achos / gwrthod 3 apêl / caniatáu l apêl	7 achos / gwrthod 6 apêl / caniatáu l apêl	3 achos / gwrthod 2 apêl / caniatáu l apêl yn rhannol

ATODIAD 2 – CYFRANIAD AMCANION LLESIANT CYNGOR GWYNEDD TUAG AT GYFLAWNI Y NODAU LLESIANT CENEDLAETHOL.

Byddwn yn cynorthwyo trigolion Gwynedd drwy:		Llewyrchus	Cydnerth	Iachach	Cyfartal	Cymunedau Cydlynus	Diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu	Yn gyfrifol ar lefel byd-eang
Tud. 138	1 Sicrhau bod gan bob disgybl y sgiliau angenrheidiol i lwyddo							
	2 Creu'r amodau i fentrau ffynnu ar draws Gwynedd							
	3 Creu'r amodau i fusnesau greu a chynnal swyddi gwerth uchel							
	4 Cynyddu ail-gylchu							
	5 Lleihau risg llifogydd							
	6 Hybu bywyd gwyllt							
	7 Cadw trefi a phentrefi yn daclus a diogel							
	8 Gwarchod a rheoli ansawdd Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn							
	9 Hwyluso a rheoli datblygiadau cynaliadwy							
	10 Cynnwys disgyblion ac anghenion emosiynol ac ymddygiadol yn llawn o fewn ysgolion Gwynedd							
	11 Sicrhau fod plant a phobl ifanc yn sefydlog ac yn cael eu diogelu rhag niwed							
	12 Galluogi pobl Gwynedd i fod yn egniol a byw bywydau iach							
	13 Diogelu iechyd a lles y cyhoedd							
	14 Rhoi'r cymorth iawn i unigolion ar yr adeg iawn							

<b>Byddwn yn cynorthwyo trigolion Gwynedd drwy:</b>		<b>Llewyrchus</b>	<b>Cydnherth</b>	<b>Iachach</b>	<b>Cyfartal</b>	<b>Cymunedau Cydlynus</b>	<b>Diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu</b>	<b>Yn gyfrifol ar lefel byd-eang</b>
15	Atal anghenion unigolion rhag cynyddu							
16	Cefnogi pobl mewn amgylchiadau ariannol anodd							
17	Mynd i'r afael â thlodi							
18	Darparu cyfleoedd teithio i bawb ar draws y sir							
19	Sicrhau bod gwaith adeiladu yn ddiogel, cynaliadwy ac effeithiol o ran ynni							
20	Adfywio a chryfhau cymunedau							
21	Diogelu plant ac oedolion rhag niwed							
22	Cydweithio â phartneriaid i leihau trosedd ac anrhefn							
23	Cynnal llwybrau cyhoeddus a meysydd chwarae							
24	Hybu defnydd y Gymraeg							
25	Hyrwyddo ein diwylliant, treftadaeth a'r celfyddydau							
26	Darparu gwasanaeth llyfrgell							
27	Lleihau costau ynni, allyriadau carbon ac atall llygredd goleuo							
28	Darparu cyfleoedd adsefydlu ar gyfer ffoaduriaid							
29	Addysg a chodi ymwybyddiaeth plant am ailgylchu ac atal sbwriel a graffiti							

Tud. 139



# Adroddiad Blynyddol Craffu 2017-18





# CRAFFU YNG NGWYNEDD



Cynghorydd  
Seimon Glyn



Cynghorydd  
Beth Lwton



Cynghorydd Eryl Jones  
-Williams



Cynghorydd  
Medwyn Hughes

## Cyflwyniad Cadeiryddion

**Rydym yn craffu yng Ngwynedd er mwyn ceisio gwneud gwahaniaeth i drigolion Gwynedd.**

**Mae'r rôl craffu yn cadw hyd braich oddi wrth y gwasanaethau, gan gynnig argymhellion annibynnol i geisio gwella gwasanaethau a dal Aelodau Cabinet i gyfrif am eu perfformiad. Mae hyn yn digwydd trwy graffu ffurfiol mewn pwyllgorau ac hefyd drwy ymchwiliadau neu weithgorau gwella sy'n edrych ar faterion yn ddyfnach ac yn adrodd argymhellion i'r Aelod Cabinet.**

**Bu 2017/18 yn flwyddyn o newid ym maes craffu yng Ngwynedd, gyda'r trefniadau ar gyfer craffu wedi eu haddasu, a'r ffocws ar geisio sicrhau'r sylw priodol i wahanol feysydd a thrwy hynny wella'r cydbwysedd gwaith rhwng y gwahanol bwyllgorau. Rydym wedi symud i fod yn craffu mwy ar faterion CYN i benderfyniadau gael eu gwneud gan y Cabinet, yn hytrach na chraffu effaith polisiau yn unig.**

**Bellach mae tri pwyllgor craffu—Cymunedau, Addysg ac Economi, a Gofal, ac elfennau corfforaethol yn cael eu craffu yn y Pwyllgor Archiwlio a Llywodraethu. Mae'r trefniadau craffu newydd yn datblygu'n barhaus, ac rydym yn cydnabod fod gwaith addasu pellach i'w wneud, gan gadw ffocws clir ar geisio gwneud gwahaniaeth i drigolion Gwynedd.**

**Mae ein diolch yn fawr i drigolion Gwynedd, Aelodau Cabinet, asiantaethau eraill a swyddogion perthnasol sy'n ein cefnogi i geisio sicrhau cyrraedd ein nod.**

*Cynghorydd Beth Lawton*

Cadeirydd y Fforwm Craffu  
Tud. 141

# **Cadeiryddion ac Is- gadeiryddion Craffu 2017-18**

**Pwyllgor Craffu Cymunedau**

Cadeirydd - Cynghorydd Simon Glyn

Is-gadeirydd - Cynghorydd Mike Stevens

**Pwyllgor Craffu Gofal**

Cadeirydd - Cynghorydd Eryl Jones-Williams

Is-gadeirydd - Cynghorydd R. Medwyn Hughes

**Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi**

Cadeirydd - Cynghorydd Beth Lawton

Is-gadeirydd - Cynghorydd Nia Jeffreys

**Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu**

Cadeirydd - Cynghorydd R Medwyn Hughes

Is-gadeirydd - Cynghorydd John Brynmor  
Hughes

# Cynnwys

## Pwyllgor Craffu Gofal.....5-9

Cefnogi Teuluoedd	Tud. 5
Plant Mewn Gofal	Tud 6
Iechyd ym Mlaenau Ffestiniog	Tud 7
Materion Eraill	Tud 8-9

## Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi.....10-15

Addysg yng Ngwynedd	Tud 10-11
Newid Gwasanaethau	Tud 12-13
Strategaeth Uwchradd	Tud 14
Materion Eraill	Tud 15

## Pwyllgor Craffu Cymunedau..... 16-20

Hawliau Tramwy	Tud 16
Hylendid Bwyd	Tud 17
Cynllunio a'r Iaith Gymraeg	Tud 18
Materion Eraill	Tud 19-20

## Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu..... 21

# Cefnogi Teuluoedd

Teuluoedd cryf a llewyrchus gyda chyfle i bawb dyfu a datblygu yw calon cymdeithas hapus a llwyddiannus.

Rydym yn gwybod bod rhai teuluoedd yng Ngwynedd yn byw gyda nifer o broblemau cymhleth fel diweithdra, anghydfod teuluol, dyledion, problemau iechyd a diffyg cartref neu dŷ addas.

Yng Ngwynedd, mae pwyslais ar gefnogi teuluoedd **cyn** i faterion fynd yn ddrwg yn y lle cyntaf.

Mae *Strategaeth Gomisiynu Teuluoedd yn Gyntaf Gwynedd* wedi bod yn ei le ers 2012. Mae'r strategaeth yma'n rhoi pwyslais ar gydweithio gyda gwasanaethau o fewn y Cyngor a gydag asiantaethau allanol gan roi **anghenion y teulu yn gyntaf**.

Fe wnaed adolygiad o'r Strategaeth yn ystod Haf 2017, a gwelwyd bod y strategaeth yn llwyddiannus ond ei bod yn amser i'w ehangu.

Adnabuwyd 10 o egwyddorion ar gyfer y Strategaeth newydd—***Strategaeth Cefnogi Teuluoedd yng Ngwynedd***:

Y prif egwyddor yw:

**Sicrhau fod y plentyn a'r teulu'n ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.**



## Argymhellion a sylwadau'r Pwyllgor Craffu:

1. Dylid cyflwyno gwaith y Gwasanaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd i gyfarfod o'r Cyngor llawn.
2. Nodi llwyddiant cyfraniadau'r Trydydd Sector a gresynu bod Llywodraeth Cymru wedi dod â'r grantiau yma i ben.
3. Nodwyd bod Adran Addysg y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn bartneriaid cryf
4. Angen rhoi sylw penodol i ddiffyg sgiliau ymysg rhai plant gan gynnwys iaith a llefaredd.
5. Cefnogi'r bwriad i ymestyn y ddarpariaeth ar draws y Sir ac i gydweithio'n draws asiantaethol gan gynnwys y trydydd sector.
6. Cadw golwg ar lwyddiant cynllun peilot gyda Wardeniaid Tai ym Maesgeirchen, Bangor.
7. Atgoffwyd yr Aelod Cabinet o'r angen i gyfarch anghenion plant gydag anabledau.



# Plant mewn Gofal

Pwrpas y Gwasanaeth yma ydi gofalu am blant pan nad ydi rhieni'n medru gwneud hynny am nifer o resymau.

Mae hyn yn cynnwys sefyllfaoedd lle mae'r rhieni'n dreisgar, yn methu darparu gofal digonol neu lle nad oes rhiant neu ofalwr ar gael.

- Mae'r nifer o blant mewn gofal ar gynnydd yng Ngwynedd ac yn gyffredinol ar draws y wlad. Gwelwyd cynnydd o 6% yn y Sir eleni gyda 231 o blant mewn gofal (Chwefror 2018).
- Rhoddwyd ystyriaeth gan yr Aelodau Craffu i'r elfennau canlynol:
  - ⇒ Math o leoliad—gyda rhieni, byw'n annibynnol, gofal preswyl, maethu a mabwysiadu.
  - ⇒ Rhesymau dros ddod i ofal.
  - ⇒ Lleoliadau o fewn y Sir a thu allan.
  - ⇒ Cymariaethau gyda siroedd eraill.
  - ⇒ Achosion Llys.
  - ⇒ Gwaith y Tîm Trothwy.
  - ⇒ Enghreifftiau o Achosion.



Nodwyd bod pob un o gynghorwyr Gwynedd yn Rhiant Corfforaethol gyda chyfrifoldeb dros ystyried gwybodaeth yn ofalus am ba mor dda mae'r Cyngor yn cefnogi canlyniadau i'r 231 o blant mewn gofal.ac fe anogwyd pawb i fynychu'r hyfforddiant.



- 1 Sicrhawyd y Pwyllgor bod y Gwasanaeth yn ymateb yn brydlon, yn amserol ac yn cymryd camau i ddiogelu ymhob achos.
- 2 Mae canlyniadau ar lefel TGAU a Lefel A ymysg y gorau yng Nghymru.
- 3 Gofynnwyd am gyflwyniadau arbenigol ar waith y Tîm Trothwy yn y dyfodol.
- 4 Bod ymyrraeth gynnar y Tîm Trothwy yn allweddol.
- 5 Nodwyd nad oedd gan Weithwyr Cymdeithasol ddim mwy na 22 achos ar unrhyw adeg.

[Dolen i'r Adroddiad a'r Cofnod](#)



# Iechyd ym Mlaenau Ffestiniog

Fe ad-drefnwyd gwasanaethau iechyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ardal Blaenau Ffestiniog yn ddiweddar. Er bod y ddarpariaeth newydd yn cynnwys Canolfan Iechyd newydd, mae peth pryderon yn lleol nad oes darpariaeth addas ar gyfer gwasanaethau pelydr X, man anafiadau na digon o wlâu i gleifion



Cynhaliwyd Cyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor Craffu Gofal ym mis Medi 2017 pan ystyriwyd tystiolaeth gan y Bwrdd Iechyd a Phwyllgor Amddiffyn Ysbyty Coffa Ffestiniog. Gofynnwyd i'r Bwrdd Iechyd:

- ⇒ Rhannu'r holl wybodaeth ynglŷn a'r penderfyniad.
- ⇒ Cynnal adolygiad annibynnol o'r ddarpariaeth newydd
- ⇒ Ystyried diffygion ymgysylltu ac ymgynghori er mwyn gwella.
- ⇒ Gofynnwyd i'r Aelodau Cabinet Amgylchedd ac Oedolion, Iechyd a Llesiant i gynnal asesiad o hwylustod cludiant cyhoeddus yn yr ardal.
- ⇒ Gofynnwyd i Aelodau Cabinet Tai ac Oedolion, Iechyd a Llesiant gydweithio gyda phartneriaid perthnasol er mwyn gwella'r ddarpariaeth o gar-trefi addas i bobl hyn yn yr ardal.
- ⇒ Gofynnwyd i'r Bwrdd Iechyd a Chyngor Gwynedd gydweithio i recriwtio mwy o staff gofal ac iechyd i'r ardal ac i Wynedd gyfan.

[Dolen i'r Adroddiad a'r Cofnod](#)

## Materion eraill sydd wedi cael sylw gan Aelodau'r Pwyllgor Craffu Gofal

- Iechyd Meddwl - Gwaith a chynlluniau datblygol yn rhanbarthol
- Eiriolaeth - Gwybodaeth am drefniadau rhanbarthol a chenedlaethol newydd
- Pobl Ifanc sy'n gadael gofal—gwybodaeth am y gwasanaethau ymyrraeth gynnar a chanlyniadau i unigolion
- Gofalwyr—Cafwyd adroddiad cynnydd ar 30 Ionawr 2017 ar gyflawni argymhellion ymchwiliad craffu i gefnogi gofalwyr di-dál.
- Talu am Wasanaethau Gofal—Cafwyd diweddariad ar effaith cyflwyno'r polisi newydd ar ddefnyddwyr gwasanaeth.
- Cefnogi Pobl Anabl Gwynedd—sefydlwyd Gweithgor o aelodau i gynnal ymchwiliad i asesu'r gwasanaeth a gynigir i bobl Gwynedd gan ALAC (Gwasanaeth Cyfarpar ac Aelodau Artiffisial) Gogledd Cymru.
- OPUS—Cafwyd diweddariad ar y Cynllun sy'n gweithio gydag unigolion sydd ag anableddau dysgu a phroblemau iechyd meddwl i'w cynorthwyo i dderbyn hyfforddiant a gwaith.
- Gwasanaeth Anableddau Dysgu—yn dilyn cynnal arolwg gan Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru fe wiriwyd bod y Cynllun Gweithredu wedi'i gwblhau.
- Tai Cymdeithasol—ystyriwyd gwybodaeth am dai gwag a nododd yr Aelodau eu dymuniad bod unrhyw arian ychwanegol a ddaw o'r premiwm treth cyngor ar ail gartrefi a chartrefi gwag yn cael ei ail-fuddsoddi at ddibenion dod a tai gwag yn ôl i ddefnydd.
- Gofal Cartref—ystyriwyd manylion gwaith datblygol o safbwynt rhanbarthol a'r cynlluniau yn ardal Tywyn.
- Deddf Llesiant 2014—cafwyd gwybodaeth am gynlluniau ac effaith cychwynnol yn sgil cyflwyno'r Ddeddf.
- Cynllun Cydweithio Gofal-Iechyd yn Ysbyty Alltwn—ystyriwyd diweddariad .
- Gwaith Rhanbarthol—cafwyd gwybodaeth am waith Bwrdd Rhif 9 ar draws y gogledd.
- Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol—ystyriwyd Adroddiad Blynyddol Oedolion, Iechyd a Llesiant ar gyfer 2016-17 a gwnaed sylwadau i'r Aelod Cabinet eu hystyried cyn cyflwyno'i adroddiad i'r Cabinet.
- Digartrefedd— ystyriwyd adroddiad ar effaith y cynlluniau budd-daliadau newydd ar ddigartrefedd. Nodwyd bod pwysau ychwanegol

## Materion eraill sydd wedi cael sylw gan Aelodau'r Pwyllgor Craffu Gofal (parhad)

- Cartrefi Cymunedol Gwynedd—craffwyd gwaith Cartrefi Cymunedol Gwynedd am y flwyddyn 2016-17.
- Bwrdd Gofal-Iechyd y Canolbarth—mae dau Aelod o'r Pwyllgor yn craffu gwaith y Bwrdd ar y cyd gyda chynrychiolwyr o Bosys a Cheredigion.
- Polisi Gosod Tai—Cafwyd gwybodaeth am opsiynau a gyflwynwyd i symud i drefn bandio sydd yn rhoi blaenoriaeth yn seiliedig â chysylltiadau cymunedol, ond bod angen mwy o wybodaeth ynglyn â'r sistem

## Materion eraill a gyfeiriwyd at Raglen Waith 2018-19

Cyfeiriwyd y canlynol at Raglen Waith Craffu y flwyddyn nesaf:

- Frondeg, Caernarfon—datblygu model llety newydd ar gyfer oedolion gydag anableddau dysgu.
- Swyddogion Awtistiaeth—diweddariad ar effaith eu gwaith
- Gofal Ysbaid
- Anawsterau Recriwtio
- Effaith Arbedion a Thoriadau—ystyried effaith 10 mlynedd ers cyflwyno'r Strategaeth Arbedion gyntaf yn 2007 ym maes Gofal.
- Cyfarfodydd Achos—yn dilyn trosglwyddo o Frondeg Pwllheli i Ffordd y Cob ystyried addasrwydd yr adnoddau.
- Tal Gweithwyr Gofal—angen eglurder am y trefniadau newydd
- Plant gydag Anableddau—angen rhoi ystyriaeth cyson fel rhan o ad-

## Materion a gyfeiriwyd ymlaen

- Diogelu— Cafodd Adroddiad Blynyddol y Panel Strategol Diogelu ar gyfer 2016-17 ei graffu gan y Cyngor llawn ar 5 Hydref 2017.
- Tlodi—ystyried y sefyllfa o safbwynt Tlodi Plant, Tlodi Anabledd a Thlodi Tanwydd (Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi).
- Cydlynu Gwasanaethau Iechyd— rhwng y Bwrdd Iechyd a Meddygfeydd (Cyngor Iechyd Cymuned)



# Addysg yng Ngwynedd

Mae llwyddiant a chyflawni potensial ein plant a'n pobl ifanc yn un o'r materion pwysicaf i'r sir .

Yn y flwyddyn diwethaf, bu'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi edrych ar nifer o wahanol eflennau o'r gwasanaeth, gan gynnwys canlyniadau arholiadau, materion penodol yng nghfnod allweddol un, cefnogaeth Gwe a'r Awdurdod Addysg ac egwyddorion addysg i'r dyfodol.

## ADDYSG ADDAS I BWRPAS

Wrth ystyried gwahanol elfennau o'r gwasanaeth addysg dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r argymhellion yn clymu nol at arweinyddiaeth gadarn a chryf, a'r amodau priodol I alluogi arweinwyr (nawr ac i'r dyfodol) I arwain a datblygu l'w potensial.

Mae tair egwyddor sylfaenol wedi eu datblygu fel sail I gynudrefn addysg fydd yn mynd l'r afael a'r problemau hyn ac yn darparu addysg l'r ansawdd orau posib l'r dyfodol.

- cyfundrefn o ysgolion uwchradd hyfyw
- dau ystod oedran o fewn yr un dosbarth **yn y cynradd**
- oddeutu 80% o amser di-gyswllt i'r Pennaeth i ganolbwyntio ar faterion arweinyddiaeth **yn y cynradd**

Roedd yr Aelodau craffu yn gefnogol i'r egwyddorion a nodwyd uchod, ond bydd angen craffu ymhellach er mwyn sicrhau dealltwriaeth lawn o oblygiadau gweithredu ar lawr gwlad.



# Addysg yng Ngwynedd

## CANLYNIADAU ADDYSGIADOL HAF 2017

Bu i'r Pwyllgor edrych ar ganlyniadau'r haf ar draws yr ystod oedranau. Adroddwyd fel a ganlyn:

- ⇒ Pryder ynghylch cyrhaeddiad yn y cyfnod Sylfaen. Bu i aelodau'r pwyllgor edrych ar y mater mewn manylder mewn cyfarfod pellach yn dilyn codi'r pryder yma.
- ⇒ Cyrhaeddiad cadarn yn Cyfnod Allweddol 2 a Cyfnod Allweddol 3
- ⇒ Gostyngiad ym mherfformiad dangosydd TL2+, a hynny yn unol a'r darlun cenedlaethol o ganlyniad i'r newidiadau yn y ffordd o adrodd a newidiadau yn y gofynion arholi
- ⇒ Perfformiad Gwynedd A\*-E yn Cyfnod Allweddol 5 ychydig yn uwch na pherfformiad Gwynedd yn 2016.

Gyda maes mor allweddol bwysig i ddisgyblion Gwynedd bydd aelodau'r Pwyllgor yn parhau i gadw golwg ar hyn.



## CEFNOGAETH GWE

Mae Consortiwn GwE yn darparu cefnogaeth addysgol i holl awdurdodau Gogledd Cymru. Mae aelodau'r Pwyllgor wedi edrych os yw Gwynedd yn cael cefnogaeth deg gan GwE, ac yn comisiynu'r gefnogaeth sydd ei angen ar Wynedd.

Roedd Aelodau'r pwyllgor yn gyffredinol hapus, ond yn pwysleisio'r angen i herio'r ddarpariaeth yn barhaus yn ogystal a pharhau gyda'r cyd-weithio da.

Tud. 150

# Newid gwasanaethau

Yn sgil y wasgfa ariannol barhaus, mae'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi wedi edrych ar sut i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd gwahanol ar fwy nag un achlysur eleni.

## GWASANAETH IEUENCTID

Maes heriol y bu i'r Pwyllgor ei graffu oedd y gwasanaeth ieuencid. Gyda'r angen am arbedion yn y mes, sefydlwyd gweithgor i edrych a cheisio cael dealltwriaeth ar y gwahanol opisynau posib ar gyfer gwasanaeth newydd a fyddai'n

- Gynaliadwy a theg
- Fforddiadwy
- Ateb gofynion pobl ifanc i'r dyfodol.



Bu'n faes lle bu cryn drafodaethau, ac ni lwyddodd y Pwyllgor i ddod i farn nac argymhellion penodol am ddyfodol y gwasanaeth. Roedd rhai Aelodau yn gwyro tuag at gadw'r ddarpariaeth draddodiadol, ac eraill am addasu i'r dyfodol.



Fodd bynnag, nododd y pwyllgor y sylwadau isod:

- Y syniad o edrych ar sefydlu clybiau yn y gymuned a chynorthwyo'r clybiau hynny i sefydlu eu hunain.
- Cysylltu gyda'r cynghorau cyuned a thref i weld sut y gellir eu cynorthwyo i gynnal gweithgareddau a phrosiectau ar ran y Gwasanaeth Ieuencid.
- Bod pryder ynglyn a'r effaith ar y bobl ifanc hynny sy'n byw mewn ardaloedd di-freintiedig yn benodol o ran cael mynediad at y gwasanaeth
- A phryder hefyd ynglyn a'r effaith ar yr iaith.

Tud. 151

# Newid gwasanaethau

## SEFYDLU CWMNI HAMDDEN.

Mae Aelodau'r Pwyllgor yn cefnogi'r angen am ddarparu cyfleusterau hamdden i bobl Gwynedd er mwyn hybu pawb i fyw bywydau iach.

Bu i'r Pwyllgor edrych ar yr arbedion yr oedd yn rhaid i'r gwasanaeth eu cyflawni - gan edrych ar yr opsiynau i wneud hynny heb orfod cau nifer o ganolfannau neu gynyddu ffioedd aelodaeth ar raddfa sylweddol.

Cefnogodd y pwyllgor yr opsiwn i'r Cyngor ffurfio Cwmni sy'n cael ei reoli gan y Cyngor, gan fod hynny am ddod a'r arbedion angenrheidiol i'r Cyngor tra hefyd yn diogelu staff a'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd.



Cododd y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi nifer o bwyntiau:-

- Yr angen am arweinydd deinamig i'r Cwmni
- Cyfleon i hyrwyddo a marchnata'r gwasanaethau sydd ar gael yn fwy creadigol
- Parhau i gefnogi cynlluniau llwyddiannus mewn canolfannau unigol
- Yr angen am drefniadau llywodraethu cadarn a rheolaeth o'r ddarpariaeth fel y gellir diogelu staff a pharhau i gynnal safonau uchel a darpariaeth ddwy-ieithog.

Mae'r Cyngor llawn wedi penderfynu mai dyma'r ffordd orau ymlaen, ac mae'r gwaith o sefydlu'r Cwmni yn digwydd. Bydd y Pwyllgor craffu yn parhau i gadw golwg ar ddatblygiadau aros y misoedd i ddod.



# Strategaeth Iaith Uwchradd




O gofio targed Llywodraeth Cymru i gynyddu'r nifer o siadardwyr Cymraeg yn sylweddol erbyn 2050, roedd Aelodau'r Pwyllgor yn awyddus i edrych sut mae'r Awdurdod yn bwriadu annog ein pobl ifanc yn ein ysgolion uwchradd (a'n colegau) i siarad Cymraeg yn yr ysgol ac yn gymdeithasol.

Nododd y pwyllgor bwysicrwydd:

- \* Dilyniant rhwng y Siarter Iaith sy'n cefnogi'r disgyblion cynradd a'r Strategaeth Iaith ar gyfer yr uwchradd
- \* Rôl cynghorau ysgol er mwyn sicrhau perchogaeth o'r Strategaeth
- \* Rôl ysgolion i gynorhtwyo trefnu "gigiau" Cymraeg, a'r angen i hyrwyddo bywyd cymdeithasol trwy'r Gymraeg—gan gynnwys Cyfathrebu'n ddigidol yn Gymraeg.

Nod  
Llywodraeth  
Cymru o  
gyrraedd miliwn  
o siaradwyr  
Cymraeg erbyn  
2050!

## TWF Economaidd Gogledd Cymru



north wales economic ambition board  
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

Mae mwy a mwy o brosiectau a gwaith yn digwydd yn rhanbarthol erbyn hyn, ac un o'r prosiectau hynny yw datblygu ffyniant economaidd ar draws Gogledd Cymru. Maer'r gwaith rhwng chwech awdurdod y gogledd wedi carlamu yn ei flaen eleni, ac yn parhau i ddatblygu.

Mae'n ddatblygiad cyffroes gyda phosibiliadau gwych i'r Gogledd ac i Wynedd.

Mae'n gyfnod heriol hefyd i sicrhau adnabod y prosiectau cywir a sicrhau fod budd i Wynedd, gan gynnwys de'r Sir .

Mae gweithdai i sicrhau fod holl Aelodau'r Cyngor yn ymwybodol o'r datblygiadau sy'n digwydd yn y 15a wedi eu cynnal yn sgil argymhellion yr Aelodau craffu.

# Materion eraill sydd wedi cael sylw gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi

## **CYFNOD SYLFAEN**

Roedd pryder ynghylch cyrhaeddiad yn y cyfnod Sylfaen, a chafwyd adroddiad pellach i sicrhau fod materion yn gwella ac athrawon yn cael cefnogaeth briodol.

## **GWASANAETHAU CEFNOGOL ADDYSG**

Adroddwyd ar ganlyniadau yr ymchwiliad craffu am gefnogaeth gwasanaethau cefnogol addysg, gyda'r Aelod Cabinet yn derbyn y 6 argymhelliad.

## **SWYDDFEYDD ARDAL**

Bu'r datblygiadau gyda'r Swyddfeydd ardal newydd yn ystyriaeth gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi. Bydd y pwyllgor yn edrych ymhellach ar effaith y datblygiad yma yn ystod 2018/19.

## **ADRODDIADAU'R PWYLLGOR**

Gellir gweld holl adroddiadau a ystyriwyd gan y Pwyllgor trwy ddilyn y ddolen isod.

[Dolen i dudalen cyfarfodydd 2017-18](#)

# Hawliau Tramwy

- Mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau priffyrdd fel Cyngor Gwynedd i baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT).
- Cafodd y Cynllun cyntaf ei lunio yn 2007 a'l adolygu llynedd.
- Yn dilyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus fe gafodd y Cynllun Gweithredu drafft ei graffu gan Aelodau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 7 Rhagfyr 2017.
- Bydd y CGHT yn cael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer cynlluniau manwl.



Nodwyd y sylwadau yma gan y craffwyr:

- Mae'r rhaglen waith yn heriol o ystyried rhaglen arbedion y Cyngor.
- Mae angen gwella'r mynediad at wybodaeth am lwybrau a mapiau i'r cyhoedd.
- Gofynnwyd i'r Aelod Cabinet weld a ellir dylanwadu ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno cynllun mudo llwybrau arfordirol (automatic roll back).

# Hylendid Bwyd

- Mae pob awdurdod lleol fan gynnwys Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am orfodi gofynion y Ddeddf Diogelwch Bwyd yn lleol.
- Yn dilyn Ymchwiliad Cyhoeddus i achosion o e.coli 0157 yn ne Cymru ym mis Medi 2005, fe wnaed argymhellion i bob awdurdod yng Nghymru gan gynnwys rheoli ymyraethau mewn busnesau bwyd newydd.
- Ym mis Mawrth 2014 fe gynhaliwyd archwiliad gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) o drefniadau Cyngor Gwynedd. Roedd yr Adroddiad yn cynnwys beirniadaeth lem o ddiffyg cydymffurfiaeth gydag argymhellion i wella.
- Lluniwyd Cynllun Gweithredu i gyfarch y diffygion a chafwyd adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ym mis Mai 2015 pryd y nodwyd bod y mwyafrif o'r pwyntiau gweithredu wedi cael eu cyflawni..
- Cafwyd diweddariad i gyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 10 Hydref 2017.

- Roedd yr Aelodau'n hapus bod y mwyafrif o'r argymhellion wedi cael eu cyflawni, ond yn bryderus bod arwyddion o ddiffyg adnoddau i gyflawni'r gwaith mewn amser rhesymol yn creu risg i'r Cyngor ac i ddinasyddion y Sir.
- Bydd yr Aelodau yn gofyn an adroddiad cynnydd pellach y flwyddyn nesaf.





# Cynllunio a'r Iaith Gymraeg

- Mae cyfraith cynllunio yng Nghymru yn gymhleth ac yn anodd ei ddeall mewn manau.
- Gall cynllunio defnydd tir mewn ffordd effeithiol gyfrannu at ddatblygiad economaidd cadarn, at gadw asedau naturiol ac at wella ansawdd bywyd unigolion a chymunedau.
- Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn darparu'r fframwaith polisi i awdurdodau cynllunio lleol baratoi eu Cynlluniau Datblygu yn effeithiol ac fe'i hategir gan Nodiadau Cyngor Technegol (NCT) ar bynciau penodol.
- Yn ogystal, mae modd i awdurdodau lleol lunio Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) er mwyn helpu i sicrhau y caiff polisiau eu deall yn well.
- Fe fabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Mon 2011-26 ym mis Gorffennaf 2017.
- Sefydlwyd Ymchwiliad Craffu ar 7 Rhagfyr 2017 i gyfrannu at lunio'r Canllaw Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy.
- Cyflwynwyd argymhellion yr Ymchwiliad i gyfarfod y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 24 Ebrill 2018.

## Dyma'r argymhellion:

- Cynnal ymgyngoriad cyhoeddus ar gyfer datblygiadau o 10+ o dai trefol a 5+ yn wledig.
- Datganiad iaith ac Asesesiad iaith ar gyfer pob datblygiad sy'n mynd i ymgyngoriad cyhoeddus.
- Sicrhau mewnbwn arbenigol allanol ar Gynllunio Ieithyddol, Ymchwil, Dadansoddeg, Ymgyngori ac Ymgysylltu.
- Bod yr uchod yn cael cyfle i gyfrannu at y Canllaw drafft cyn ymgyngori arno'n gyhoeddus er mwyn uchafu gwerth o'r ymgyngoriad.



Tud. 157

## Materion eraill sydd wedi cael sylw gan Aelodau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau

- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus—Ystyried Cynllun Llesiant drafft Gwynedd a Mon
- Gorfodaeth Gwastraff—ystyriwyd gwybodaeth cefndirol a sefydlwyd Ymchwiliad.
- Gorchmynion Rheoli Cwn—ystyriwyd gwybodaeth am ofynion y Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus.
- Difa Pla—cafwyd diweddariad ar gynlluniau i wneud yr Uned Rheoli a Difa Pla yn ariannol hunan-gynhaliol. Roedd yr Aelodau'n hapus gyda'r cynnydd.
- Toiledau Cyhoeddus—cadw golwg ar y Cynllun partneriaethu a'r sefyllfa lle mae toiledau wedi cau.
- Trosedd ac Anrhefn—ystyriwyd Adroddiad Blynyddol y Bartneriaeth Trosedd ac Anrhefn. Roedd yr Aelodau'n hapus gyda gwaith y Bartneriaeth.
- Trefn Cynllunio—ystyriwyd y tensiwn rhwng sicrhau derbyn arweiniad gan Swyddogion a'r angen i Aelodau fod yn annibynnol eu barn mewn materion cynllunio. Nodwyd hefyd nad oedd modd bod yn hollol glir am rai data fel ystadegau adeiladau a llety myfyrwyr Bangor.
- Materion Parcio—cafwyd gwybodaeth a thrafodaeth am drefniadau ac effeithiau ar draws y Sir gan gynnwys ymwelwyr, parcio bler, manau parcio dynodedig a thaliadau electronig.
- Trosi Adeiladau Amaethyddol—ystyriwyd gwybodaeth a rhwystrau i bobl leol a gofynnwyd i'r Aelod Cabinet lobio'r Llywodraeth i wella'r sefyllfa.

## **Materion eraill sydd wedi cael sylw gan Aelodau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau (parhad)**

- Gor-ddatblygiad Meysydd Carafanau—ystyriwyd gwybodaeth am y mater a gwnaed cais i graffu'r Canllaw Cynllunio Atodol Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid cyn iddo gael ei fabwysiadu.
- Radicaleiddio— ystyriwyd gwybodaeth am waith Bwrdd CONTEST sy'n anelu i rwystro pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth.
- Twr Grenfell—Ystyriwyd gwybodaeth am oblygiadau'r drychineb. Clywodd yr Aelodau nad oes gan y Cyngor unrhyw adeilad wedi'i orchuddio gyda'r deunydd penodol dan sylw.
- Effaith Arbedion a Thoriadau—nodwyd awgrym bod rol i'r Aelodau Craffu i gasglu adborth Defnyddwyr Gwasanaeth.
- Torri Gwair—ystyriwyd adroddiad a oedd yn nodi anhawster i wireddu arbediad ariannol a gwnaed argymhelliad i wario llai ar wlaau blodau yn hytrach ac i ystyried opsiynau eraill.
- Cydbwysedd Cynaliadwyedd—ystyriwyd gwybodaeth cefndirol
- Man-ddaliadau—ystyriwyd gwybodaeth cefndirol

## **Materion a gyfeiriwyd ymlaen at Raglen Waith 2018-19**


- Datganoli Gwasanaethau—I Gyngorau Tref a Chymuned a sefydliadau eraill.
- Llifogydd—Cynlluniau lliniaru effaith.

**Dan y trefniadau craffu newydd mae gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gyfrifoldeb, ymysg cyfrifoldebau eraill, i graffu materion corfforaethol.**

**Rhodddwyd sylw i graffu'r materion a ganlyn gan y Pwyllgor eleni.**

## Adolygiad o Ffiniau Etholaethol Gwynedd

Ar hyn o bryd mae 75 cynghorydd yn cynrychioli pobl Gwynedd ar y Cyngor. Mae Comisiwn Ffiniau yn adolygu'r niferoedd hyn, gyda golwg ar eu lleihau. Cafodd y Pwyllgor gyfle i graffu syniadau'r Cyngor ar gyfer wardiau newydd cyn i'r Cyngor symud ymlaen i gyflwyno'r syniadau hynny i'r Comisiwn Ffiniau.



Nododd y pwyllgor bwysicrwydd:

- \* Rhoi sylw i anghenion cynrychiolaeth leol effeithiol
- \* Effaith y boblogaeth oedd ddim ar y gofrestr etholwyr

Roedd y Pwyllgor o'r farn y byddai'n angenrheidiol i'r Comisiwn ystyried y ffactorau hynny wrth ddod i benderfyniad.

Bydd y wardiau etholaethol yn cael eu newid ar gyfer etholiadau 2022. Nid ydym yn gwybod, hyd yma, pa newid a fydd.

## Adolygu polisi'r Cyngor ar ganiatau rhyddhad dewisiol i ardrethi annomestig.

Sefydlwyd gweithgor o aelodau'r pwyllgor i adolygu polisi y Cyngor ar ganiatau rhyddhad dewisiol i ardrethi annomestig gan nad yw'r polisi wedi ei adolygu yn drylwyr ers peth amser.

Bu i'r gweithgor awgrymu newidiadau i'r polisi cyfredol, a'u cyflwyno i'r Aelod Cabinet. Gellir gweld yr adroddiad llawn ar safle we'r Cyngor.



# Eitem 12

<b>CYFARFOD:</b>	<b>Y Cyngor</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>12 Gorffennaf 2018</b>
<b>AELOD CABINET:</b>	<b>Cynghorydd William Gareth Roberts Cynghorydd Dilwyn Morgan</b>
<b>TEITL:</b>	<b>Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol 2017/18</b>
<b>AMCAN:</b>	<b>I'r Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol</b>
<b>AWDUR:</b>	<b>Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Statudol a Chyfarwyddwr</b>

## I. Cyflwyniad

- I.1 Ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol, mae'n ofynnol i bob Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol baratoi a chyhoeddi adroddiad ynglŷn â dyletswyddau gwasanaethau cymdeithasol o fewn yr awdurdod lleol dros y flwyddyn flaenorol.
- I.2 Diben yr adroddiad blynyddol yw nodi taith yr awdurdod lleol at wella wrth ddarparu gwasanaethau i bobl yn eu hardaloedd, y rheini sydd yn derbyn gwybodaeth, cyngor a chymorth, yr unigolion a'r gofalywr hynny sy'n derbyn gofal a chymorth.
- I.3 O dan ofynion newydd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant mae angen i'r adroddiad ddangos sut mae awdurdodau lleol wedi hyrwyddo lles a rhoi cyfrif am gyflwyno safonau lles.

## **2. Y Gyfundrefn**

- 2.1 Mae'n rhaid i'r cyfarwyddwr lunio Adroddiad Blynyddol a'r gyhoeddi cyn gynted a bod hynny'n ymarferol bosib ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Hwn yw Adroddiad y Cyngor ar ei berfformiad o ran cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, ac mae'n rhaid iddo esbonio'r modd y mae swyddogaethau eraill y Cyngor wedi cyfrannu ar gyflawni canlyniadau o ran llesiant pobl, a'r modd y bydd hynny'n parhau.
- 2.2 Gofynnir i'r Cyfarwyddwr Statudol ystyried yr ystod wybodaeth a phrofiadau sy'n cael effaith ar allu'r Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau dibynadwy a chynaliadwy o'r safon uchaf.
- 2.3 Mae'r Adroddiad yn arfarnu'r perfformiad ar hyd y flwyddyn gan gynnwys gwersi a ddysgwyd, a bydd yn pennu'r amcanion am y flwyddyn i ddod ynglŷn â phobl y mae arnynt angen gofal a chymorth, a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth. Mae'n rhaid iddo ddangos hefyd y modd yr aseswyd anghenion pobl, a'r modd y mae'r gwasanaethau wedi bodloni'r Safonau Ansawdd a benni'r yn y Ddeddf.

## **3. Argymhelliad**

- 3.1 Gofynni'r i'r Cyngor dderbyn yr adroddiad ynghyd a'r blaenoriaethau strategol ar gyfer 2018-19.





# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol

2017/18

# Arweiniad leithyddol

Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth, gofynnwch i rywun yr ydych yn eu hadnabod sydd yn siarad Cymraeg neu Saesneg ffonio 01766 771000. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome telephone calls in Welsh.

If you need further information, please ask someone you know who speaks English or Welsh to telephone 01766 771000

Jeżeli potrzebują państwo dalszych informacji, proszę poprosić kogoś, kto mówi po angielsku lub walijsku żeby zadzwonił pod numer 01766 771000

Se você precisar de nova informação, por favor pergunte alguém você sabe quem diz o galês o'r inglês para telefonar 01766 771000

如果您需要更多信息，请向你认识的人谁讲英语或威尔士电话：01766 771000

আপনার যদি আরো তথ্যের প্রয়োজন হয়, তাহলে আপনার জানা ইংরেজী অথবা ওয়েলশ ভাষা বলতে পারেন এমন কাউকে অনুগ্রহ করে 01766 771000 নম্বরে টেলিফোন করতে বলুন

اگر آپ کو مزید معلومات درکار ہوں تو برائے مہربانی انگریزی یا ویلش زبان جاننے والے اپنے کسی واقف کار سے کہیں کہ وہ آپ کی جانب سے فون نمبر 01766 771000 سے رابطہ کریں۔

إذا كنت بحاجة إلى مزيد من المعلومات، يرجى الطلب من شخص ما تعرف من يتحدث الإنجليزية أو الويلزية الهاتف 01766771000



# Cyflwyniad Agoriadol y Cyfarwyddwr



**Mae'n bleser gennyf unwaith eto gyflwyno fy adroddiad blynyddol sy'n cynnig trosolwg o berfformiad 2017/18 ond sydd hefyd yn gwerthuso'r ffordd y mae**

**Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd wedi hybu lles y bobl sydd angen gofal a chymorth a'u gofalwyr yng Ngwynedd. Yn rhinwedd fy swydd fel Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Statudol, mae'n ofynnol imi roi gwybod ichi bob blwyddyn pa mor dda yw perfformiad cyffredinol Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor ar gyfer oedolion, plant a'u teuluoedd.**

Mae hi wedi bod yn flwyddyn o berfformiad cadarnhaol, a hyn mewn cyd-destun o alw uwch a chymhlethdod cynyddol. Fel y gwelwch wrth ddarllen yr adroddiad, mae llawer iawn wedi'i gyflawni yn y maes yn ystod y flwyddyn ac mae gennym llawer iawn i fod yn falch ohono yng Ngwynedd.

Mae hynny, i raddau, yn adlewyrchiad o'r berthynas dda sydd gennym gyda'n partneriaid allweddol o fewn y maes ac yn sicr, bydd angen i ni adeiladu ar y berthynas dda yma yn y dyfodol, gan sicrhau ein bod ni oll fel partneriaid yn gweithio gyda'n gilydd i roi'r hyn sy'n bwysig i bobl yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud. Mae'r Cyngor yn parhau i elwa o arweinyddiaeth gref ar draws y gwasanaethau oedolion a phlant, gyda sefydlogrwydd da a chymorth effeithiol ar gyfer ein gweithlu. Yn ogystal, hoffwn nodi fy niolech i'r ddau aelod Cabinet sydd yn gweithio gyda mi o fewn y maes allweddol hwn, sef y Cynghorydd Gareth Roberts a'r Cynghorydd Dilwyn Morgan.

Yn ddiweddar, cafodd yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd Arolygiad llawn o'u gwasanaethau gan Arolygaeth Gofal Cymru

(AGC). Er nad yw'r Adroddiad swyddogol wedi'i gytuno a'i gyhoeddi eto gan yr AGC, roedd yr adborth llafar gan y Prif Arolygwr ar ddiwedd y gwaith maes yn gadarnhaol iawn ac yn canmol y gwaith sy'n digwydd o fewn y Cyngor. Mae hyn yn adlewyrchiad o'r gwaith caled a chyson a wneir gan nifer o staff ac asiantaethau i gefnogi plant a'u teuluoedd yng Ngwynedd.

Fis Ionawr 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Adolygiad Seneddol ar lechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. Fel Cyngor, croesawom yr adolygiad. Mae'r Adolygiad yn gwneud argymhelliad am fodolau gofal newydd, sy'n canolbwyntio'r gwasanaethau o amgylch yr unigolyn a'u teulu, mor agos at eu cartref ag y bo modd. Mae'n pwysleisio'r angen i wasanaethau fod yn ataliol, yn hawdd eu defnyddio ac yn uchel eu hansawdd. Dyma'n union oedd prif ffocws ein prosiectau trawsffurfio yn ystod y pum mlynedd diwethaf a gallwn fod yn hyderus wrth symud ymlaen gyda'n rhaglen 'ail-ddylunio gofal oedolion' sydd wedi dechrau, a'r 'strategaeth cefnogi teuluoedd' sydd ar fin dechrau, drwy ddefnyddio'r adroddiad hwn fel cadarnhad ein bod ar y trywydd cywir.

Bydd y blynyddoedd nesaf yn parhau i fod yn rhai cyffrous a heriol. Mae adnoddau'n parhau i fod yn brin ac mae'r gofynion sydd gan bobl yn dwysáu. Mae'n rhaid i ni barhau ar ein siwrne o drawsffurfio, a hynny ar y cyd gyda'n partneriaid allweddol, a gan roi ein pobl yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.

Rwy'n mawr obeithio y byddwch yn mwynhau darllen yr adroddiad blynyddol hwn, a'i fod yn cyflwyno trosolwg teg o berfformiad gwasanaethau cymdeithasol yng Ngwynedd.

**Morwena Edwards,**  
Cyfarwyddwr Corfforaethol a  
Chyfarwyddwr Statudol  
Gwasanaethau Cymdeithasol

# Cynnwys

	Tudalen
1. Cyflwyniad	1
2. Crynodeb y Cyfarwyddwr o Berfformiad	2
3. Sut mae pobl yn llunio ein gwasanaethau?	3
4. Hyrwyddo a gwella lles y rheini yr ydym yn eu cynorthwyo	4
5. Sut yr ydym yn gweithio	23
6. Cysylltiadau a Dogfennau Allweddol	27
ATODIAD 1:	28
Mesurau Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd 2017/18	

# 1. Cyflwyniad

Ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol, mae'n ofynnol i bob Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol baratoi a chyhoeddi adroddiad ynglŷn â dyletswyddau gwasanaethau cymdeithasol o fewn yr awdurdod lleol dros y flwyddyn flaenorol.

Felly, pwrpas yr adroddiad blynyddol hwn yw gwerthuso perfformiad yr awdurdod lleol mewn perthynas â chyflawni dyletswyddau gwasanaethau cymdeithasol a thynnu sylw at unrhyw wersi sydd wedi'u dysgu neu welliannau sydd angen eu cyflwyno.

Dylai'r adroddiad hefyd osod amcanion ar gyfer y flwyddyn i ddod mewn perthynas â hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chefnogaeth, a gofaluwr sydd angen cefnogaeth.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i osod mewn perthynas â sut mae Cyngor Gwynedd wedi cyflawni yn erbyn chwe safon ansawdd llesiant fel sydd wedi'u nodi o fewn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae ffurf yr adroddiad bellach yn ofyniad, ac mae gofyn i bob awdurdod lleol fesur perfformiad eu gwasanaethau cymdeithasol drwy ddefnyddio'r dangosyddion a'r mesurau perfformiad perthnasol yn erbyn y safonau ansawdd.

Er mwyn llunio'r adroddiad hwn, cefais sylwadau a chymorth gan grwpiau ffocws, a diolch yn fawr iawn i bawb am eu cyfraniadau. Wedi darllen yr adroddiad, pe byddai gennych unrhyw sylwadau neu sylw penodol i'w wneud ar y cynnwys, neu o ran sut i lunio gwasanaethu at y dyfodol, rwy'n awyddus iawn i glywed gennych.





## 2. Crynodeb y Cyfarwyddwr o Berfformiad

Mae 2017/18 wedi bod yn flwyddyn o berfformiad da, ac mae llawer iawn wedi'i gyflawni o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd yn ystod y flwyddyn a fu. Er y cyddestun ariannol heriol, rwy'n falch o allu adrodd ein bod wedi gallu darparu gwasanaethau o safon i bobl Gwynedd.

Fel Cyngor, mae gennym uchelgais i gyflawni'r gorau i bobl Gwynedd, drwy fod yn arloesol ac yn effeithiol yn ein gwaith i ddarparu gwasanaethau. Gyda'r egwyddor o rhoi pobl Gwynedd a'r hyn sy'n bwysig iddynt yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud hwn, rydym wedi ceisio trawsnewid ein ffyrdd o weithio ynghyd a sut yr ydym yn cydweithio gyda'n partneriaid allweddol. Rydym yn hynod falch o'r gwaith da sy'n digwydd gyda'n partneriaid yma'n lleol.

Rydym yn ceisio symud i ddiwylliant system gyfan ble mae 'Beth sy'n Bwysig' i unigolion yn gyrru pawb. Rydym wedi datblygu mesurau perfformiad sy'n edrych yn benodol ar pa mor dda yr ydym yn cyflawni yn erbyn yr hyn sy'n bwysig i bobl. Eleni, gwelwn bod ein mesur perfformiad 'Beth Sy'n Bwysig' yn y maes Pobl Hŷn yn 80%. Gan fod y mesurau hyn yn newydd, nid yw'n hawdd cymharu perfformiad gyda'r blynyddoedd a fu. Serch hynny, rydym wedi bod yn canolbwyntio ar ddeall y rhesymau sydd wedi'n rhwystro ni rhag cyflawni'r hyn oedd yn bwysig i unigolion, gan geisio dileu'r rhwystrau hyn ble bo modd. Yr hyn y gallaf ei adrodd yw fy mod yn gweld newid amlwg yn yr awydd a'r brwdfrydedd o fewn fimau a gan reolwyr i ddileu'r rhwystrau yma sy'n ein hatal ni rhag cyflawni'r hyn sy'n bwysig i bobl. Drwy wneud hyn, rydym yn edrych ar berfformiad drwy lygaid pobl, ac rydym yn angerddol am geisio gwella profiadau i bobl.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg i chi o'r gwaith sy'n digwydd i geisio gwella profiadau i bobl Gwynedd. Rwyf yn sicr y gwelwch fod sawl maes gwaith yn symud yn ei flaen a bod cynnydd da wedi'i wneud ers y llynedd.

Yn ogystal â'n trefniadau mewnol o ran gwirio perfformiad, mae gwasanaethau cymdeithasol yn derbyn arolygiadau cyson gan Arolygaeth Gofal Cymru (AGC). Braff oedd derbyn cadarnhad gan AGC yn ddiweddar, yn dilyn arolygiad llawn o wasanaethau plant y sir, bod y gwasanaethau yma o ansawdd. Er nad yw'r Adroddiad swyddogol wedi'i ryddhau eto, roedd yr adborth llafar yn nodi bod gennym weithlu ymroddedig a strwythurau diogelu cadarn, er y cydnabuwyd bod peth gwaith i'w wneud ar ddatblygu ein gwasanaethau ataliol.

O ran y Gwasanaeth Oedolion, rydym wedi ymateb i'r Comisiynydd Pobl Hŷn a'i hadroddiad dilynol, Lle i Alw'n Gartref, a chawsom ein hasesu yn erbyn ei hargymhellion. Er bod cynnydd da iawn wedi'i wneud yn y maes, rydym yn cydnabod bod gwaith pellach i'w wneud i sicrhau bod pobl hŷn yn byw bywyd o ansawdd yn ein cartrefi ac rydym yn gweithio ar yr argymhellion a wnaethpwyd gan y Comisiynydd.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r perfformiad yn llawn am y flwyddyn, ond gallaf gadarnhau fy mod, fel Cyfarwyddwr, yn gweld cynnydd mewn sawl maes. Cadarnhaf yn ogystal bod y gwaith newid a thrawsffurfio yn gadarn ac rydym yn gweld gwir newid o ran sicrhau mae be sy'n bwysig i bobl a plant Gwynedd sy'n ein gyrru.

### 3. Sut Mae Pobl Yn Llunio Ein Gwasanaethau?

Mae llais a barn preswylwyr Gwynedd yn allweddol i ni er mwyn i ni fod yn gallu ymateb i'r hyn sy'n bwysig iddynt.

Mae hefyd yn rhan bwysig o Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru. Nod yr Asesiad Poblogaeth yw gwella ein dealltwriaeth o'n poblogaeth, ynghyd â sut y gallai newid dros y blynyddoedd sydd i ddod, er mwyn ein helpu i ddarparu gwell gwasanaethau cyhoeddus yng Ngogledd Cymru. Yn dilyn cyhoeddi'r fersiwn ranbarthol, roedd Cyngor Gwynedd o'r farn ei fod yn bwysig cael fersiwn fwy lleol oedd yn datgan llais a barn preswylwyr Gwynedd yn benodol mewn modd clir. Mae'r gwaith ar gyfer y cyfnod dan sylw i'w gwblhau yn fuan.

Yn unol ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (2014), mae aelodau o'r timau Adnoddau Cymunedol eisoes yn cynnal sgysiau gydag unigolion a'u teuluoedd i ddarganfod 'beth sy'n bwysig' iddynt, er mwyn adnabod beth yw eu hamcanion personol a'u cefnogi i gwrdd â'r amcanion hyn er mwyn eu galluogi i 'Fyw eu bywydau fel y maent yn ei ddymuno'.

Fel rhan benodol o'r asesiad hwn, bydd dadansoddiad o'r wybodaeth gan unigolion o ran 'beth sy'n bwysig' iddynt yn dod i law. Ceir gwybodaeth werthfawr tu hwnt yma o ran y materion sydd angen sylw sy'n ein rhwystro ni rhag cyflawni 'beth sy'n bwysig' i bobl.

Un o ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yw creu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru er mwyn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i greu gwell dyfodol i bobl Cymru. Mae Asesiad Llesiant Gwynedd a Môn eisoes wedi'i gwblhau ac er mwyn ceisio deall 'beth sy'n bwysig' i bobl Gwynedd, cynhaliwyd sesiynau cyhoeddus a datblygwyd holiaduron ar-lein. Mae'r asesiad Llesiant wedi rhoi blas o lesiant yng Ngwynedd ac wedi arwain at adnabod beth sy'n bwysig i drigolion ac mae gwaith wedi mynd rhagddo yn ystod y flwyddyn i ddefnyddio'r asesiadau yma ynghyd

â ffynonellau eraill i lunio Cynllun Llesiant.

Un elfen hanfodol o'n ffordd ni o weithio yw sicrhau bod gennym drefniadau ymgysylltu addas. Rhoddodd y Cyngor flaenoriaeth i hyn yn ei gynllun strategol 2013-18. Yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, mae ymgysylltu wedi dod yn gynyddol bwysig gan fod y berthynas y bydd yn rhaid i unrhyw Gyngor ei gael gyda'r bobl y mae'n ei wasanaethu newid. Ni fydd modd i ni barhau i weithredu yn y ffordd y mae pawb wedi arfer a bydd angen sicrhau nid yn unig ein bod ni yn deall dyheadau ein pobl yn well, ond hefyd eu bod hwy yn deall y realiti ariannol newydd a'r hyn y mae hynny'n ei olygu. Mae gan y Cyngor weledigaeth i sicrhau fod pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud ac er mwyn sicrhau fod hynny'n digwydd, mae'r Cyngor am hybu diwylliant drwy'r Cyngor cyfan sy'n adlewyrchu'r weledigaeth honno.

Mae'n angenrheidiol i ni fel Cyngor ein bod nid yn unig yn rhoi cyfleoedd i bobl Gwynedd gael dweud eu dweud am ein gwasanaethau, ond ein bod hefyd yn gwrandao ac yn ymateb yn gadarnhaol i'w blaenoriaethau. Rhwng 2013 a 2018, mae dros 17,000 o bobl Gwynedd wedi cymryd rhan i siapio dros 24 o ymarferiadau ymgysylltu cyhoeddus, gan gynnwys oddeutu 4,400 o bobl ifanc 11 i 25 oed. Gwnaethom ymestyn ein gwaith ymgysylltu â phobl ifanc yn ystod 2017/18 ac mae mewnbyn y bobl ifanc wedi ein harwain at gynyddu llawer ar y defnydd o gyfryngau cymdeithasol fel modd effeithiol o rannu gwybodaeth a chasglu eu barn.

**Mae technoleg hefyd wedi helpu aelodau ein Panel Trigolion i gyfathrebu'n haws hefo'r Cyngor, gyda 67% ohonynt bellach yn dewis llenwi holiaduron ar-lein.**



## 4. Hyrwyddo a Gwella Llesiant y rhai yr ydym yn eu helpu

Fel yr amlinellwyd ym mhennod un uchod, bydd y chwe safon ansawdd sydd yn cael eu nodi gan y Llywodraeth yn cael eu defnyddio yma i amlinellu'r hyn y bwriadwyd ei wneud, beth ddigwyddodd a pha wahaniaeth a welsom. Yn ogystal, ar gyfer pob safon, byddwn yn rhoi braslun o'r hyn y bwriedir ei wneud yn 2018/19. Mae'n bwysig nodi bod asesiad o anghenion y boblogaeth yng Ngwynedd wedi'i gwblhau ac mae hwn wedi bwydo i mewn i'r blaenoriaethau sydd wedi'u cynnig ar gyfer 2018/19.

### Safon Ansawdd 01

Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y mae pobl am eu cyflawni

Er mwyn cyflawni hyn, dylai awdurdodau lleol:


- sicrhau mynediad i wybodaeth, cyngor a chymorth clir, dealladwy i gefnogi pobl i gynnal eu lles a gwneud penderfyniadau gwybodus
- gweithio gydag unigolion, eu gofalwyr a sefydliadau sy'n bartneriaid, i gefnogi a chynnal annibyniaeth unigolyn heb yr angen am ofal a chymorth
- cwblhau asesiadau lles mewn modd amserol
- sicrhau bod penderfyniadau'n parhau amgylchiadau unigol ar draws yr ystod gyfan o anghenion a'u bod yn rhoi sylw priodol i gonfensiynau ac egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer plant, pobl hŷn a phobl anabl
- sicrhau bod pobl yn cael eu trin ag urddas a pharch
- galluogi pobl i gael rheolaeth dros gynllunio a darparu gofal
- hyrwyddo ffyrdd o fyw iach a'u cefnogi
- galluogi mynediad i wasanaethau a gweithgareddau sy'n cynnal iechyd meddwl a lles emosiynol
- annog a grymuso pobl i reoli eu hiechyd a'u lles eu hunain, i fod yn actif ac elwa o ofal a chymorth ataliol rhagweithiol
- trefnu eiriolaeth annibynnol lle bo angen neu gyfeirio at fathau eraill o eiriolaeth i alluogi pobl i oresgyn rhwystrau i gyfranogiad wrth adolygu a diwallu anghenion
- trefnu enwau cyswllt a rhannu gwybodaeth berthnasol gyda phartneriaid er mwyn caniatáu trosglwyddo gofal a chymorth yn llyfn ar draws y gwasanaethau
- hwyluso cynlluniau gofal a chymorth amlddisgyblaethol
- rhoi trefniadau ar waith ar gyfer asesu anghenion a phenderfynu ar gymhwysedd
- egluro heriau yn ogystal â chyflawniadau
- mesur effaith y gofal a'r cymorth, a chymorth i ofalwyr ar fywydau pobl a'u canlyniadau lles
- sicrhau bod pobl yn ymwybodol o dalu am ofal a threfniadau codi tâl

#### Gwerthusiad o gynnydd yn erbyn Safon Un

Un o'r prif faterion y mae pobl yn ei adrodd ydym yw pa mor gymhleth a rhwystredig

yw'r maes iechyd a gofal. I geisio ymateb i hyn, mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd, rydym wedi arbrofi â dull newydd o weithio gan lunio'n systemau gwaith drwy roi pobl yn ganolog ac yn sicrhau bod gofal yn agos at gartrefi unigolion. Calonogol oedd darllen yr 'Adolygiad Seneddol' diweddar. Roedd yr Adolygiad yn cadarnhau bod y trywydd a gymerodd Gwynedd yn y maes oedolion yn un cywir, a bu i Wynedd dderbyn cydnabyddiaeth am y gwaith.

Mae'r ffordd newydd hwn o weithio o fewn y maes pobl hŷn wedi bod yn weithredol mewn un rhan o Wynedd (Ardal Eifonydd) ers rhai blynyddoedd, ond erbyn hyn mae gweddill y sir wedi mabwysiadu'r un trefniadau. Mae'n debyg eich bod wedi gweld yn y wasg a thrwy gyfryngau cymdeithasol bod pum Tîm Lleol wedi'u lleoli yn ardaloedd Llŷn, Caernarfon, Bangor, Eifonydd/Gogledd Meirionnydd a De Meirionnydd. Mae'r newid hwn yn golygu fod y bobl sydd angen gwasanaeth, ynghyd â'u teuluoedd yn gallu cysylltu gyda'r swyddogion perthnasol yn uniongyrchol. Mae gweithredu o fewn ardaloedd llai hefyd yn golygu ei bod yn haws i'r staff gael gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd o fewn cymunedau lleol, a fydd yn ei dro yn gwella profiad unigolion.



**Map: Timau Gwasanaethau Gofal Newydd yng Ngwynedd**

Mae'r ffordd yma o weithio yn profi i fod yn llwyddiant o ran canlyniadau ac adborth unigolion. Rydym yn parhau i ddatblygu ein systemau ar gyfer casglu data gan ddefnyddwyr gwasanaeth oedolion ac rydym

yn defnyddio'r data yma i ddysgu a gwella ein gwasanaethau yn barhaus.

**Canran y bobl hŷn a phobl sydd gydag Anableddau Corfforol lle gwelir cynnydd wrth gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt yw 80%.**

Adroddais flwyddyn ddiwethaf ein bod yn ymwybodol bod rhai o'n trigolion yng Ngwynedd yn gorfod teithio'n bell os am gael rhai gwasanaethau gofal dementia. Mewn ymateb i hyn mae'r Cyngor wedi blaenoriaethu datblygu darpariaeth dementia arbenigol o fewn cartrefi mewnol y Cyngor mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd.

Gwnaethom adnabod Llys Cadfan yn Nhywyn fel y cartref cyntaf i fuddsoddi ynddo. Mae'r gwaith dechreuol ar Brosiect Llys Cadfan wedi'i gwblhau a dechreuodd unigolion symud i'r Uned Dementia Cynnar ym mis Medi 2017. Mae gwaith adeiladu pellach wedi'i gwblhau, ac unwaith y byddwn wedi sefydlu'r gweithlu ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd, bydd y ddarpariaeth yn cynnig gwasanaethau arbenigol ac ysbaid i de'r Sir. Bydd y datblygiad hwn yn arwain at gynnydd yn y nifer o wlaŷ gofal tymor byr yn y cartref o ddau i saith. Bydd cyfleusterau gofal dydd hefyd yn cael eu huwchraddio er mwyn sicrhau'r gofal gorau i ddefnyddwyr gwasanaeth ar draws y safle.

Mewn cydweithrediad â'r Bwrdd Iechyd, mae cynlluniau ar gyfer buddsoddi mewn gwlaŷ dementia cynnar yn cael eu datblygu ar gyfer tri lleoliad arall ar draws y Sir. Plas Hafan yn Nefyn ydi cartref gofal diweddaraf Cyngor Gwynedd i elwa o raglen fuddsoddiad, a fydd yn golygu y gallwn gynnig gwell cymorth i bobl sy'n byw gyda dementia a chyflyrau eraill sy'n gysylltiedig â mynd yn hŷn. Bydd y buddsoddiad yn golygu uwchraddio rhan o'r cartref gofal yn Nefyn a fydd yn galluogi fîm gofal y Cyngor i weithio gyda staff meddygol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ofalu am hyd at wyth o bobl sydd â dementia ar yr un adeg.



Tra bod cydweithio gyda phartneriaid yn uchel iawn ar ein hagenda, mae'n bwysig ein bod yn cofio mai ein prif bartner wrth foderneiddio ein darpariaeth gofal ydi'r rheini sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rwyf, felly, yn hynod falch fod y gwasanaethau sy'n cael eu cyflwyno ym Mhlas Hafan, ynghyd ag ardaloedd eraill o'r sir, yn ymateb yn glir i'r hyn y mae pobl leol wedi'i ddweud wrthym ni y maent am ei weld.

Un o ofynion y Ddeddf yw sicrhau ein bod yn rhoi gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i bobl mewn ffordd syml a hygyrch. I'r perwyl hwn rydym wedi ymgorffori'r gwasanaeth hwn o fewn y pum fîm oedolion. Bydd hyn yn golygu trefniadau syml i drigolion Gwynedd gan hefyd sicrhau bod unigolion yn parhau i gadw rheolaeth wrth ganfod gwybodaeth ar yr hyn y maent ei angen. Yn yr un modd, mae'r gwasanaethau Cefnogi Plant a Theuluoedd hefyd wedi bod yn datblygu eu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth dros y flwyddyn. Mae'r gwasanaeth yma ar gyfer plant a'u teuluoedd yn adeiladu ar ein gallu i gyfeirio plant a theuluoedd at wasanaethau ataliol. Dros y misoedd nesaf, bydd yr adran yn raddol ddatblygu eu gwasanaeth ac yn adeiladu ar y syniad o gael 'un drws ffrynt' i gyfeiriadau.

Mae gwaith wedi digwydd i sicrhau bod y wybodaeth a roddir i'r cyhoedd yn glir ac yn gyfredol, nid yw Dewis Cymru wedi ateb ein gofynion i gyd ac felly rydym am gryfhau'r wybodaeth sydd ar gael i'n staff ar l-gwynedd ac i'n trigolion trwy Wefan Gorfforaethol Cyngor Gwynedd. Bydd y wefan yma yn rhoi gwybodaeth i drigolion a staff am yr ystod o wasanaethau/clybiau a gweithgareddau sy'n digwydd o fewn eu hardal. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda DEWIS Cymru i geisio sicrhau bod y wefan yn gweithio'n effeithiol yn ddwyieithog.

Mae'r Cyngor a phartneriaid allweddol eraill yn cydnabod bod angen parhau i gryfhau gallu unigolion i aros yn iach cyhyd ag y bo modd, a bod gwydnwch cymunedol yn rhan bwysig i wireddu hyn. Felly, un o brif flaenoriaethau gwella ar gyfer y pum mlynedd nesaf yw gweithio gyda chymunedau i geisio sicrhau eu gwydnwch fel y gall unigolion barhau i fyw'n annibynnol o fewn eu cymunedau yn unol â'u dymuniadau. Rhan allweddol o hyn yw

cyfraniad gwasanaethau ataliol o fewn ein cymunedau, cyfraniad gwerthfawr y trydydd sector ac, wrth gwrs, cyfraniad enfawr gofalgwr teuluol/cyfeillion.

Mae gwaith da wedi digwydd yn ystod y flwyddyn wrth symud prosiectau penodol yn eu blaenau o ran gwaith ymyrraeth gynnar ac ataliol o fewn y maes plant a chefnogi teuluoedd. Mae Cefnogi Teuluoedd wedi cael ei adnabod fel un o brif raglenni blaenoriaeth y Cyngor, ac i'w chynnwys yng Nghynllun y Cyngor 2018 ymlaen. Bydd y rhaglen waith yma yn ein harwain i drawsnewid meysydd traddodiadol o ddarparu gwasanaethau cymdeithasol i blant a theuluoedd a bydd yn sicrhau ein bod yn cynnig ymyrraeth gynnar ac yn gwneud gwahaniaeth wrth fynd i'r afael â phroblemau cyn iddynt waethygu. Mae swyddog wedi'i adnabod o fewn adnoddau presennol y Cyngor i arwain ar y gwaith yma gan ddilyn yr un egwyddorion â'r gwasanaethau oedolion, sef ymyrryd yn gynnar i atal problemau rhag gwaethygu a darparu gwasanaethau yn lleol gyda'n partneriaid allweddol drwy weithio mewn ffordd integredig.

Fel rhan o'r gwaith yma, daeth rhaglen gyfredol Teuluoedd yn Gyntaf yng Ngwynedd i ben fis Mawrth 2018, ac felly mae'r adran wedi bod yn gweithio ar ail gomisiynu rhaglen o'r newydd. Gwerthusodd ymgynghorydd annibynnol raglen gyfredol Teuluoedd yn Gyntaf yng Ngwynedd a chyflwynwyd adroddiad cynhwysfawr oedd yn amlinellu llwyddiannau'r ddarpariaeth dros gyfnod y rhaglen yn ogystal ag adnabod modelau o arfer dda ac adnabod cyfleoedd ar gyfer rhaglen ar gyfer y dyfodol.

Fel Cyngor, rydym yn parhau i hybu'r defnydd o Daliadau Uniongyrchol ar draws y maes gofal er mwyn rhoi hyblygrwydd, dewis a rheolaeth i unigolion fod yn cyflawni eu hamcanion gofal. Ar hyn o bryd mae 125 o unigolion yn manteisio ar y defnydd o Daliadau Uniongyrchol ac rydym yn awyddus i weld y niferoedd yn cynyddu yn ystod y misoedd nesaf. Bydd angen sicrhau bod y trefniadau hyn yn cael eu hyrwyddo fel bod unigolion yn cael pob cyfle posibl i fanteisio ar gadw hyblygrwydd, dewis a rheolaeth.



posibl i fanteisio ar gadw hyblygrwydd, dewis a rheolaeth.

Rydym yn parhau i ddefnyddio'r fframwaith ganlyniadau ar gyfer adolygiadau statudol plant mewn gofal ac amddiffyn plant fel rhan o ddatblygiad model gwarantu ansawdd. Mae'r fframwaith yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau i blant a mesur effaith y gwaith sy'n digwydd. Roedd canran yr asesiadau craidd oedd eu hangen ar gyfer plant ac a gwblhawyd ar amser yn 91% yn ystod 2017/18, sy'n berfformiad cyson o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Mae systemau rheoli perfformiad cadarn yn eu lle ac mae'r asesiadau hwyr wedi eu craffu gan reolwyr y timau ac rydym yn hyderus bod rhesymau dilys dros yr adroddiadau oedd yn hwyr. Wedi dweud hynny, mae'n hanfodol bwysig bod ein hasesiadau yn gywir, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn gynhwysfawr ac, oherwydd natur cymhleth rhai amgylchiadau, mae'n rhaid cydnabod y bydd ambell adroddiad yn cymryd ychydig mwy o amser.

Mae ein Swyddogion Adolygu Annibynnol yn rhoi eu barn am ansawdd lleoliadau plant yn ogystal â gwaith cymdeithasol. Eto eleni, maent o'r farn bod yr adran yn perfformio'n dda, gyda chyfradd yr asesiadau risg a gafodd eu cyflwyno i Gynadleddau Achos a oedd yn cael eu hystyried yn rhai a oedd yn dangos ansawdd wrth wneud penderfyniadau yn 96%. Mae rhaglen hyfforddiant barhaus ar gyfer cefnogi holl weithlu'r adran gwaith cymdeithasol yn ei lle.

Rydym angen sicrhau ein bod yn cynnwys barn y plentyn, ble gallwn, wrth wneud penderfyniadau wrth gynllunio ar eu cyfer. Mae sicrhau ein bod yn gwrando ar lais y plentyn, ac yn ei glywed ym mhopeth yr ydym yn ei wneud, yn hynod bwysig.

Yn ystod 2017/18, canran y cynadleddau achos lle clywyd llais/barn y plentyn (ac eithrio plant dan 7 mlwydd oed) oedd 92%.



Mae'r perfformiad yma wedi gwella o'i

gymharu â'r ddwy flynedd ddiwethaf, sy'n dangos ein bod yn gweithredu mewn dull sy'n seiliedig ar hawliau plant.

### Blaenoriaethau ar gyfer 2018/19

- Rydym yn adnabod bod cynnig ymyrraeth gynnar yn hanfodol er mwyn helpu plant a'u teuluoedd i ffynnu ac i leihau'r angen am wasanaethau dwysach. Er mwyn diwallu anghenion plant a'u teuluoedd yn well, mae angen i ni weithio mewn ffordd integredig. I sicrhau hyn, yn 2018-19, byddwn yn sefydlu gweledigaeth a chytundeb gyda'n partneriaid o ran gweithio'n integredig o fewn y maes plant a chefnogi teuluoedd.
- Rydym yn adnabod y gwerth ychwanegol y mae taliadau uniongyrchol ar draws y maes gofal yn ei roi er mwyn rhoi hyblygrwydd, dewis a rheolaeth i unigolion fod yn cyflawni eu hamcanion gofal. Mae hi felly yn flaenoriaeth i ni geisio cynyddu'r defnydd o Daliadau Uniongyrchol yn ystod 2018-19.



## Safon Ansawdd 02

**Gweithio gyda phobol a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol, meddyliol a lles emosiynol pobl**

Er mwyn cyflawni hyn, dylai awdurdodau lleol:

- **hyrwyddo a chefnogi ffyrdd o fyw iach**
- **cefnogi gwasanaethau mynediad i gynnal iechyd meddwl a lles emosiynol**
- **annog a grymuso pobl i reoli eu hiechyd a'u lles, bod yn actif ac elwa o ofal a chymorth ataliol rhagweithiol**

### **Gwerthusiad o gynnydd yn erbyn Safon Ansawdd Dau**

Y llynedd, adroddais ar y rhaglen gyffrous oedd yn ei lle i sicrhau darpariaeth anableddau dysgu gynaliadwy i oedolion ar gyfer y dyfodol. Rwyf yn hynod falch o adrodd bod y Gwasanaeth Anableddau Dysgu wedi gwneud cynnydd sylweddol i foderneiddio'r gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ac wedi datblygu gweledigaeth glir, ar y cyd gyda defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd a phartneriaid allweddol. Mae ein gweledigaeth yn canolbwyntio ar ddatblygu gwasanaethau ataliol ar draws y Sir, fydd yn canolbwyntio ar anghenion oedolion sydd ar y sbectwm awtistiaeth. Mae gwaith hefyd wedi digwydd ar lefel ranbarthol i ddatblygu gwasanaeth awtistiaeth gydol oes.

Dyluniwyd y gwasanaeth newydd yma er mwyn cynorthwyo dinasyddion i ganolbwyntio ar eu cryfderau ac ar yr hyn y gallant ei gyflawni'n ddiogel. Mae'r Cyngor wedi sicrhau cyllid gan Gronfa Ganolradd Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r model newydd i ddarparu gwasanaeth fydd o fudd i unigolion. Mae hwn wedi'i leoli yng Nghanolfan Hamdden Arfon. Agorwyd y datblygiad newydd ym mis Mai 2017, ac mae'r Hwb Cymunedol newydd hwn yn cynnig cyfleoedd hyfforddi achrededig, a datblygu sgiliau a hyder unigolion, fel y ganant

symud ymlaen i leoliad gwaith neu goleg maes o law. Mae hon yn rhaglen gyffrous iawn a'n bwriad i'r dyfodol yw sicrhau bod y math yma o ddarpariaeth yn gyson ar draws Gwynedd.

Gan fod unrhyw newid yn gallu bod yn anodd, mae'r staff yn gweithio'n agos gyda'r unigolion, ynghyd â'u teuluoedd. Rydym yn hyderus y bydd y trefniadau newydd a chyffrous yn cyfarch eu hanghenion a'u dyheadau yn llawn.

Rydym hefyd wedi sicrhau eglurder ar safle Frondeg a phenderfynu ar y ffordd ymlaen. Gwnaed penderfyniad i ddatblygu model llety newydd ar gyfer y gwasanaeth Anableddau Dysgu ar gyfer 16 o bobl. Bydd cartref cofrestredig presennol Y Frondeg yn parhau i fod ar agor nes bydd y datblygiad newydd wedi'i gwblhau, a bydd trigolion presennol y cartref yn symud fel tenantiaid i'r datblygiad newydd. Mae Grŵp Cynefin wedi'i adnabod fel partner datblygol ac mae llawer o waith wedi'i gwblhau i ddatblygu cynlluniau drafft ar y cyd gyda phrif fudd-ddeiliaid.


Bydd y prosiect newydd yn cael ei adeiladu'n bwrpasol er mwyn cyfarch anghenion yr unigolion a chynnig cyfleoedd gwell i gymryd rheolaeth o'u bywydau a chwarae rhan mewn cymdeithas. Gall y model llety newydd gefnogi unigolion sydd yn wynebu rhwystrau cymhleth, gan gynnwys unigolion sy'n derbyn eu gofal a'u cefnogaeth y tu allan i Wynedd ar hyn o bryd. Bydd cyfle i rai unigolion, felly, ddychwelyd i'r Sir i fyw, pe dymunant.

Fel yr addewais, mae lechyd Meddwl wedi derbyn sylw yn ystod y flwyddyn a bydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth dros y blynyddoedd nesaf er mwyn sicrhau ein bod yn diwallu anghenion unigolion. Fel gwasanaeth lechyd Meddwl, rydym yn gweithio ar y cyd â'r Bwrdd lechyd gan weithio'n amlasiantaethol, ac rydym hefyd yn gweithredu yn unol â Deddf lechyd Meddwl (Cymru) 2010. Mae gwaith wedi mynd rhagddo yn ystod y flwyddyn i weithredu'r strategaeth 'Law yn Llaw at lechyd Meddwl' ar y cyd â'n partneriaid allweddol. Mae cynnydd da iawn wedi'i wneud, gyda Gwynedd yn bartner llawn yn y trafodaethau i drawsnewid gwasanaethau lechyd Meddwl ar gyfer y dyfodol, er mwyn sicrhau gwell mynediad at wasanaethau ataliol a mwy o

bwyslais ar lesiant meddyliol ar gyfer pobl o bob oed.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi datblygu'r Bartneriaeth Dysgu Iechyd Meddwl Gwynedd ar y cyd gyda'r Uned Llesiant, Opus, Unllais a Rheolwr Iechyd Meddwl Gwynedd, er mwyn hyrwyddo cydweithio a rhoi sylw i'r angen am waith ataliol yn y maes Iechyd Meddwl. Cynhaliwyd gweithdai ymgynghorol ym Meirionnydd, Dwyfor ac Arfon yn ddiweddar a bydd y bartneriaeth yn cynhyrchu llyfryn gwybodaeth am gyrsiau a gwasanaethau llesiant fydd ar gael i bobl yn lleol i roi cymorth gyda'u lles meddyliol, emosiynol a chymdeithasol. Bydd gwasanaeth Llyfrgelloedd y Cyngor a'r Uned Gelfyddydau, yn ogystal ag Ad-trac, yn ymuno â'r Bartneriaeth, i ledaenu'r cysylltiadau a'r sgiliau gwerthfawr sydd ar gael i helpu ein trigolion.

**Mae cynnydd eto eleni yn nifer y plant sydd mewn gofal o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Bellach, mae 227 o blant mewn gofal (diwedd mis Ebrill 2018) o gymharu â 218 yn yr un cyfnod y llynedd.**



Mae'n werth nodi bod hyn yn batrwm a welir yn genedlaethol ac mae gwaith ymchwil yn digwydd yn genedlaethol ar hyn o bryd i edrych yn fanylach i mewn i'r rhesymau am hyn.

Wrth gwrs, mae plant fel arfer yn dod i'n gofal o dan amgylchiadau anodd iawn. Weithiau, mae ganddynt lawer o anghenion iechyd a lles sydd angen eu cyfarch. Soniais yn fy adroddiad diwethaf bod y Panel Rhiant Corfforaethol wedi datblygu strategaeth newydd ar gyfer cyfnod 2017-2020 er mwyn sicrhau'r cyfleoedd gorau i blant a phobl ifanc ac i dreiddio'n ddyfnach i rai materion amlwg megis iechyd, lles emosiynol a sefydlogrwydd. Erbyn hyn, mae'r Panel wedi datblygu pum grŵp ffocws sy'n edrych i ddatblygu ymarfer mewn pum prif faes, sef: Cadw'n Ddiogel, Addysg, Iechyd a Lles, Gwneud Cyfraniad Cadarnhaol, a Throi

yn Oedolyn. Mae Cynghorwyr a swyddogion ar draws y Cyngor, yn ogystal â swyddogion o'r Bwrdd Iechyd, yn aelodau o'r grwpiau ffocws yma, ac maent yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n mynd yn dda a'r hyn y gallwn ei ddylanwadu er mwyn gwella canlyniadau i'r plant sydd yn ein gofal. Mae gwneud 'Beth sy'n bwysig' i'r unigolion hyn wrth wraidd y gwaith ac rwyf yn falch iawn bod plentyn sy'n ein gofal bellach yn aelod o'r Panel Rhiant Corfforaethol hefyd.

O ran y plant sy'n derbyn gofal, canran yr asesiadau iechyd a gynhaliwyd yn ystod 2017/18 yw 65%. Er nad oes dirywiad o'i gymharu â'n perfformiad y llynedd, siomedig yw'r cynnydd yn erbyn y mesur yma. Hyderaf y bydd grwpiau ffocws y Panel Rhiant Corfforaethol yn mynd i'r afael â'r broblem hon eleni. Canran yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn yw 90%. Mae hyn yn gynydd calonogol ers y llynedd.

Ym mis Mawrth eleni, cafodd gweithwyr a phartneriaid sy'n cefnogi pobl ifanc yng Ngwynedd y cyfle i gyfarfod a rhwydweithio gydag amryw o asiantaethau o fewn y maes cyflogaeth, sgiliau, addysg, hyfforddiant a gwirfoddoli. Roedd y digwyddiad yn gyfle i fudiadau hyrwyddo eu gwasanaethau i gynulleidfa allweddol sydd yn cefnogi pobl ifanc o ddydd i ddydd.

Roedd y digwyddiad yn rhan o ymgyrch ehangach Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid Llywodraeth Cymru i leihau nifer y bobl ifanc 16-24 mlwydd oed sydd ddim mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth. Y bwriad yw sicrhau bod pobl ifanc sydd ddim mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET), neu sydd mewn perygl o ddatgysylltu o addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, yn cael eu nodi ac yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt i'w rhoi ar ben ffordd unwaith eto.

Mae'r Cyngor eisoes wedi adnabod yr angen i ganolbwyntio fwy ar gefnogi teuluoedd, gyda phwyslais cryf ar waith ataliol a gweithio'n integredig ar draws partneriaid allweddol. Y bwriad yw gwneud hyn mewn ffordd ddi-dor sy'n cryfhau swyddogaeth a chyfraniad partneriaid i wella deilliannau plant a phobl o bob oed. Y nod yn y pen draw fydd cyfuno'r holl sgiliau, adnoddau ac ymrwymiad pob gwyfwr proffesiynol ar draws adrannau



a sectorau mewn ffordd gydlynol i gyflawni canlyniadau gwell i blant a phobl ifanc a theuluoedd yng Ngwynedd. Mae'n rhaglen arloesol ac uchelgeisiol sy'n golygu newid enfawr yn y ffordd yr ydym yn gweithio ond mae'r 'Adolygiad Seneddol' yn cynnig cadarnhad ein bod ar y trywydd cywir.

Mae datblygiadau ar gyfer plant a phobl ifanc anabl yn dibynnu'n arw ar grantiau, a thros y flwyddyn ddiwethaf, datblygodd tîm integredig Derwen ymyraethau megis cymorth gyda chwsg dan grant Teuluoedd yn Gyntaf, ac mae wedi dechrau datblygu amrywiaeth o gyfleoedd egwyl fer drwy grant ICF. Mae modd hefyd i'r Tîm gynnig cyfleoedd hamdden i deuluoedd drwy'r Grant Gofalwyr.

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn oedd agor yr Uned Egwyl Fer, Hafan y Sêr. Agorwyd eu drysau am y tro cyntaf i blant a phobl ifanc anabl a gwael ym mis Ebrill eleni. Er bod llithriad wedi bod yn yr amserlen wreiddiol, mae'r gwasanaeth newydd hwn yn cynnig darpariaeth seibiant byr fydd yn rhoi gofal a chefnogaeth gan staff arbenigol i blant anabl a'u teuluoedd. Mae'r Uned wedi ei lleoli ar safle Ysgol Hafod Lon ym Mhenrhyndeudraeth, sy'n ysgol newydd sydd yn addysgu plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol o ardaloedd Dwyfor a Meirionydd. Mae'n cynnwys ystafelloedd ddosbarth modern gyda'r adnoddau diweddaraf, yn ogystal â phwll hydrotherapi, ystafelloedd therapi, offer synhwyraidd ac ardal chwarae awyr agored.

Yn genedlaethol ac yn lleol, mae darparu gwasanaeth Awtistiaeth yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Eleni, ar lefel ranbarthol, rydym wedi gweld dyfodiad y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig sy'n cynnig cefnogaeth unigolion awtistig a'u gofalwyr. Mae'n wasanaeth gydol oes a fydd yn ceisio goresgyn rhai o'r rhwystrau sydd yn cael eu hadrodd gan deuluoedd, sef yr angen am wasanaethau amserol, mynediad i weithgareddau cymdeithasol a hyfforddiant a chefnogaeth. Mae themâu amlwg yn codi o fewn y maes, e.e. unigolion awtistig sydd heb anabledd dysgu neu gyflwr iechyd meddwl yn methu cael mynediad at wasanaethau. Mae'n rhy gynnar gweld faint o wahaniaeth mae'r Gwasanaeth yma'n ei wneud i deuluoedd yng Ngwynedd a byddwn yn adolygu'r sefyllfa



Hafan y Sêr

rheolaidd.

Mae oediad mae pobl yn ei brofi wrth drosglwyddo o ysbytai wedi derbyn sylw gan y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn ystod y flwyddyn. Rydym yn gweithio i sicrhau bod pobl Gwynedd yn gallu gadael yr ysbyty cyn gynted ag y byddant yn barod i wneud hynny. Pan na allant wneud hynny, a phan na allwn drefnu'r gofal a'r cymorth sydd ei angen i alluogi pobl i adael yr ysbyty, gelwir hyn yn 'oedi wrth drosglwyddo am resymau gofal cymdeithasol'. Rydym wedi bod yn craffu'n fanwl iawn ar y rhesymau dros oedi yn ystod y flwyddyn ac rydym ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd yn gweithio ar wella'r llif drwy'r system ofal ac iechyd, a hynny drwy ddilyn achosion o'r dechrau i'r diwedd a cheisio dileu'r rhwystrau sy'n codi. Mae'r gyfradd oedi wrth drosglwyddo o ysbytai am resymau gofal cymdeithasol wedi dirywio, o 3.4% yn 2016/17 i 4.9% yn 2017/18. Mae'r perfformiad yn adlewyrchu problemau cyffredinol sydd yn y system iechyd a gofal o ran galw uchel ar yr ysbytai, diffyg gwllâu nyrsio yn y gymuned a hefyd prinder capasiti a ran gweithwyr proffesiynol a gofalwyr cartref mewn rhai ardaloedd penodol o Wynedd.

Mae prosiect gofal cartref ar y gweill sydd yn treialu ffyrdd newydd ac arloesol o ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal sy'n canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i bobl sy'n derbyn gwasanaethau iechyd a gofal. Mae hefyd yn ceisio ymateb i broblemau megis y diffyg gwasanaeth gofal ac iechyd yn rhai

ardaloedd o'r Sir, a allai arwain at bobl yn gorfod aros yn yr ysbyty am gyfnod hirach nag y dylent.

Mae'r prosiect uchod yn rhan o'n hymdrechion i helpu pobl i barhau i fod mor annibynnol ag y bo modd, a lleihau nifer y bobl sydd angen cymorth mewn cartrefi gofal preswyl. Ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd, rydym yn darparu gofal tymor byr ar gyfer gofal ysbaid, galluogi a chanolraddol yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty neu er mwyn osgoi mynediad i'r ysbyty. Gyda chefnogaeth buddsoddiad Arian Cronfa Gofal Canolraddol, gosodwyd 23 gwely tymor byr mewn cartrefi gofal ar draws y Sir yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r cydweithio angenrheidiol i gefnogi'r ddarpariaeth hon wedi arwain at berthynas well rhwng staff y cartrefi preswyl, nyrsys cymunedol, a staff gofal cymdeithasol.

### Blaenoriaethau ar gyfer 2018/19

- Byddai'n well gan y rhan fwyaf o'r bobl fod yn agosach at adref wrth dderbyn gwasanaeth iechyd a gofal, ac aros yn yr ysbyty am gyn lleied o amser ag y bo modd. I'r perwyl hwn, ar y cyd â'r Partneriaid Iechyd, byddwn yn parhau i ddatblygu ffyrdd newydd o ragweld y llif i mewn ac allan o ysbytai i sicrhau gwasanaethau diddor sy'n helpu pobl cyn ac ar ôl eu hamser yn yr ysbyty.
- Byddwn hefyd yn parhau gyda'n prosiect gofal cartref fel rhan o'n hymdrechion i helpu pobl i barhau i fod mor annibynnol ag y bo modd, a lleihau nifer y bobl sydd angen cymorth mewn cartrefi gofal preswyl.
- Rydym yr un mor uchelgeisiol ar gyfer y plant sydd yn ein gofal ag yr ydym ar gyfer ein plant ni'n hunain, ac rydym am iddynt gael y cyfleoedd gorau posibl wrth iddynt adael gofal. Yn ystod y flwyddyn, drwy waith y Panel Rhiant Corfforaethol, rydym am ddatblygu'r cyfleoedd ar gyfer y plant sy'n gadael gofal trwy ddatblygu cynllun prentisiaeth/profiad gwaith.
- Mae rhaglen arloesol o foderneiddio eisoes ar waith yn y maes anableddau dysgu oedolion. Byddwn yn adolygu ein trefniadau mewnol ar gyfer y maes anableddau dysgu plant yn ystod y flwyddyn i sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaeth gorau i'n defnyddwyr ar draws yr ystod oedran.
- Mae cynnydd da wedi'i wneud yn lleol ar yr agenda Iechyd Meddwl a byddwn yn parhau i gydweithio â'n partneriaeth i sicrhau ein bod yn parhau i weithredu'r Strategaeth Iechyd Meddwl. Ar y cyd gyda'n partneriaid, byddwn yn datblygu gwasanaethau ataliol yn ôl yr angen lleol.



## Safon Ansawdd 03

Diogelu ac amddiffyn pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

Er mwyn cyflawni hyn, dylai awdurdodau lleol:

- **Ymateb yn effeithiol i amgylchiadau sy'n newid ac adolygu cyflawniadau canlyniadau lles unigolion yn rheolaidd**
- **Darparu gofal a chefnogaeth i gwrdd ag anghenion a aseswyd i amddiffyn pobl rhag camdriniaeth neu esgeulustod neu niwed arall**
- **Datblygu trefniadau amddiffynnol ar gyfer y rhai sy'n rhoi eu diogelwch eu hunain mewn perygl i atal camdriniaeth ac esgeulustod**
- **Rheoli risg mewn ffordd sy'n grymuso pobl i deimlo mewn rheolaeth sy'n gyson ag anghenion diogelu**
- **Gweithio mewn partneriaeth i ymchwilio i honiadau o gamdriniaeth neu esgeulustod er mwyn sicrhau bod pobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed**
- **Eiriolaeth mewn perthynas â diogelu**

### Gwerthusiad o gynnydd yn erbyn Safon Ansawdd Tri


Mae ymdrechion yn parhau i godi ymwybyddiaeth o ddiogelu ar draws y Cyngor ac erbyn hyn, mae'r Cyngor wedi sicrhau ein bod wedi mabwysiadu polisiâu a gweithdrefnau diogelu ar draws holl wasanaethau'r Cyngor ac mae llawer o waith codi ymwybyddiaeth a hyfforddi wedi'i wneud ar draws yr holl weithlu.

Rydym yn cynnal awdit blynyddol i fesur effaith a gwelliant mewn lefelau ymwybyddiaeth o'r maes diogelu, ynghyd â chynnal archwiliadau blynyddol i sicrhau bod ein trefniadau ni'n gadarn yn y maes. Mae'r Awdit

Ymwybyddiaeth wedi dangos eleni bod cynnydd wedi bod yn lefelau ymwybyddiaeth o Bolisi a Gweithdrefnau Diogelu. Serch hynny, mae'r awdit yn dangos bod lle eto i wella lefelau ymwybyddiaeth ymysg gweithwyr maes, a bydd hyn yn derbyn sylw'r Panel Diogelu yn y flwyddyn sydd i ddod.

Mae Panel Diogelu Strategol y Cyngor wedi ehangu'i ffocws yn ystod y flwyddyn ac wedi ychwanegu'r agenda 'PREVENT' at eu maes gwaith. Hon yw rhaglen y Swyddfa Gartref sy'n ymwneud â cheisio atal unigolion rhag cael eu radicaleiddio. Mae agenda trais yn erbyn menywod a chaethwasiaeth fodern hefyd yn fater sydd yn derbyn sylw gan y Panel. Mae materion megis troseddau sydd yn ymwneud â chyflenwad cyffuriau yn y Gogledd wedi derbyn sylw hefyd.

**Yn benodol o ran plant, mae cyfradd yr asesiadau risg a gafodd eu cyflwyno i gynadleddau achos a oedd yn cael eu hystyried yn rhai oedd yn dangos ansawdd wrth wneud penderfyniadau yn 96%, sy'n berfformiad cyson o gymharu â blynyddoedd blaenorol.**



Gan adeiladu ar arloesedd y Gwasanaeth Plant gyda datblygiad y Model Risg rai blynyddoedd yn ôl, mae'r gwasanaeth wedi datblygu dull ar gyfer canolbwyntio ar effeithiolrwydd ein gwaith amddiffyn plant. Mae'r rhaglen yn plethu i mewn i'r rhaglen datblygu ymarfer genedlaethol, 'Sgyrsiau Synhwyrol,' sy'n rhoi ffocws ar sgyrsiau adeiladol ac ysgogol gyda theuluoedd tuag at newid. Mae 'Diogelu Effeithiol' yn canolbwyntio ar adnabod a deall y newidiadau sydd eu hangen gan blant a'u teuluoedd i amddiffyn plant yng Ngwynedd. Ynghyd â hyn, mae'r posibilrwydd o fesur canlyniadau newid. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi dod i ymweld er mwyn deall mwy am y datblygiad yn ystod y cyfnod datblygol cynnar yma a'r hyn a gynigir i'r sector yn genedlaethol o ran sut i fesur canlyniadau yn y maes heriol o amddiffyn



plant.

Mae'r uned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd wedi'i sefydlu'n llawn erbyn hyn o fewn yr Adran Oedolion. Er bod cynnydd cyffredinol wedi bod mewn achosion sy'n cael eu cyfeirio o dan drefniadau diogelu yn ddiweddar, mae'n amlwg o drafodaethau gydag Awdurdodau eraill o fewn y rhanbarth ein bod mewn sefyllfa gyffelyb. Mae hyn yn debygol o fod yn sgil newid mewn deddfwriaeth o ran yr hyn sy'n cael ei adnabod o dan y canllawiau, a hefyd cynnydd yn yr ymwybyddiaeth gyffredinol. Rydym wedi datblygu 'hwb' Diogelu o fewn y maes oedolion. Mae'r hwb yn derbyn holl gyfeiriadau Diogelu oedolion ac yn gwneud yr ymholiadau cychwynnol er mwyn dyrannu'r achosion yn briodol. Byddwn yn adolygu'r trefniant yma er mwyn sicrhau ei fod yn gwneud gwahaniaeth i'r sawl sydd yn cael eu cyfeirio. Rhan o hyn yw adolygu profiadau gydag unigolion (a/neu aelod o'u teulu) sydd wedi bod trwy'r drefn Diogelu. Mae hyn yn ein galluogi i ddyngu am yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn yr ydym angen ei wella.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Uned wedi parhau i fonitro ansawdd Cartrefi Gofal o fewn y Sir ac mae cryn amser wedi'i dreulio ar reoli cartrefi sydd mewn sefyllfa o "bryderon cynyddol" a bu chwe chartref o dan y drefn pryderon cynyddol eleni. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Cartrefi hyn, ar y cyd â'r arolygaeth, i geisio ymateb i'r pryderon. Byddwn yn cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i fonitro gofal nyrsio, ac ein bwriad yw cynhyrchu adroddiadau ar y cyd pan fo hynny'n addas.

Mae ein mesurau ym meysydd oedolion a phlant yn awgrymu perfformiad cadarn eto yn 2017/18. O'r holl atgyfeiriadau amddiffyn oedolion sydd wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, rydym wedi llwyddo i reoli'r perygl 99% o'r amser eto eleni.



Pwrpas prosiect 'Diogelu Plant a Phobl Ifanc' y Cyngor yw gwella'r trefniadau a'r diwylliant diogelu i blant a phobl ifanc yn barhaus. Yn ystod y flwyddyn, mae'r prosiect wedi sicrhau fod gweithdrefnau a pholisïau diogelu yn cael eu deall yn glir gan bawb sy'n gweithio o fewn y maes Addysg yn benodol. Mae hefyd yn canolbwyntio ar ein hymateb i'r risg o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE) ar draws Gogledd Cymru. Erbyn hyn, mae gan Wynedd banel sy'n ystyried achosion gweithredol sydd mewn perygl, neu yr amheuir o fod mewn perygl, yng Ngwynedd, ac mae'r panel hefyd yn edrych ar ôl plant a leolir yng Ngwynedd gan awdurdodau lleol eraill. Mae trefniadau casglu gwybodaeth gadarn yn eu lle sydd wedi gwella ein hymwybyddiaeth ac wedi ein helpu ni i ddeall tueddiadau sy'n ymwneud â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant yng Ngwynedd. Mae hyfforddiant amlasiantaethol yn y maes i ddatblygu sgiliau adnabod arwyddion CSE a sut i adnabod bregusrwydd mewn unigolion sydd yn agored i gael eu cam-fanteisio yn parhau ac rydym hefyd yn parhau i gyfrannu at y maes gwaith hwn yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

### Blaenoriaethau ar gyfer 2018/19

- Yn ystod 2018-19, bydd y Panel Strategol Diogelu yn adolygu eu trefniadau llywodraethu i sicrhau bod holl weithdrefnau Diogelu sydd yn ymwneud â'r maes diogelu ehangach yn gadarn.



## Safon Ansawdd 04

Annog a darparu cefnogaeth i bobl ddysgu a chyfranogi mewn cymdeithas

Er mwyn cyflawni hyn, dylai awdurdodau lleol:

- **Darparu cefnogaeth i bobl wneud y pethau sydd o bwys iddynt hwy**
- **Helpu pobl i ennill y sgiliau a'r cyrhaeddiad addysgol sydd angen arnynt i gymryd rhan yn y pethau sydd o bwys iddynt hwy**
- **Annog pobl i fod yn aelodau gweithredol o gymunedau a chefnogi'i gilydd i leihau ynysu cymdeithasol.**

### Gwerthusiad o gynnydd yn erbyn Safon Ansawdd Pedwar

Un o'r cynlluniau mwyaf cyffrous yr ydym wedi'i ddatblygu dros y blynyddoedd yw Cynllun DementiaGo ac mae'n falch gennyf adrodd ei fod yn mynd o nerth i nerth ac yn gatalydd ar gyfer datblygu cymorth ataliol i bobl a'u gofalwyr sydd yn byw gyda dementia. Mae wedi arwain at gydweithio gydag ystod eang o bartneriaid a bu cynhadledd yn Llandudno yn ddiweddar a gadeiriwyd gan Beti George.

Mae cynllun DementiaGo wedi cynnal sesiynau ymarfer corff ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr o fewn canolfannau hamdden ers 2015. Mae'r cynllun hwn wedi bod yn llwyddiant aruthrol drwy annog pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr i gadw'n actif, a hefyd i gael cyfle i gymdeithasu. Bellach, mae 14 dosbarth ar draws y Sir. Mae'r dosbarthiadau hefyd yn agored i'r rheini sy'n pryderu am eu cof, sydd ag ychydig o ddirywiad gwybyddol ac / neu gyflyrau iechyd cronig eraill. Mae'r rhaglen hefyd wedi'i ehangu a'i datblygu i gynnig profiadau i breswylwyr ein cartrefi gofal. Bydd y cynllun yn sicrhau fod preswylwyr yn cael y cyfle i fod mor actif â phosibl i leihau'r risg o godymau, i leihau iselder ac i gynyddu ansawdd bywyd.

**Tud. 180**



Mae swyddogaeth y Panel Rhiant Corfforaethol yn hanfodol i sicrhau bod bob un o'r plant sy'n derbyn gofal yn llwyddo i gyrraedd eu llawn botensial. Mae'r Panel Rhiant Corfforaethol wedi datblygu strategaeth er mwyn sicrhau'r cyfleoedd gorau i'r plant a'r bobl ifanc sydd o dan ein gofalaeth ac i dreiddio yn ddyfnach i rai materion megis iechyd, lles emosiynol a sefydlogrwydd plant a phobl ifanc. Gyda'r cynnydd yn niferoedd y plant sydd yn ein gofal byddwn yn canolbwyntio yn arbennig ar sicrhau bod ein plant yn cael pob cyfle i lwyddo mewn bywyd.

Fel rhieni corfforaethol byddwn yn anelu at wella'r cyfleoedd ar gyfer ein plant ym mhob agwedd o'u bywydau. Drwy wrando a chanfod barn y plant sy'n ein gofal, byddwn yn sicrhau bod y gefnogaeth sydd yn cael ei roi gennym yn cwrdd â'u hanghenion gan weithredu i gau unrhyw fylchau. Byddwn hefyd yn sicrhau bod y rhai sydd yn gadael ein gofal yn cael eu paratoi a'u harfogi ar gyfer bywyd fel oedolyn gan sicrhau eu bod yn derbyn y gefnogaeth addas i'w cynorthwyo i wireddu eu potensial. Gall hynny gynnwys cytuno trefniadau gyda'n partneriaid Tai i sicrhau eu bod yn cael pob cefnogaeth i fyw'n annibynnol.



75% yw canran y plant sydd wedi gadael gofal ac sydd mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant 12 mis ar ôl gadael gofal eleni, sy'n gynydd sylweddol i'r 50% a adroddwyd y llynedd. Yn yr un modd, 63% yw canran y plant sydd mewn addysg, gwaith a hyfforddiant ar ôl 24 mis, ac mae hyn eto yn gynydd o gymharu â blynyddoedd blaenorol.



Mae'r ffigurau yma yn galonogol iawn, er bod dal lle i wella. Bydd cynlluniau megis Cynllun 'Ad Trac' yn gymorth i roi'r pwyslais angenrheidiol i sicrhau bod y plant sy'n gadael gofal yn cael eu hadnabod fel blaenoriaeth i dderbyn y gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i sicrhau addysg bellach, hyfforddiant neu waith. Mae'n rhaglen gyffrous fydd yn mynd rhagddi i gynorthwyo gyda chodi momentwm y gwaith sydd angen ei wneud gyda'r plant sydd yn ein gofal. Rydym yn gweithredu argymhellion adroddiad y Comisiynydd Plant, Sally Holland 'Breuddwydion Cudd' er mwyn sicrhau bod plant sy'n gadael gofal yn derbyn yr un cyfleoedd, cefnogaeth a chymorth i ddarganfod eu ffordd yn y byd.

Mae Gwynedd wedi bod yn rhan o raglen beilot i'r cynllun 'Pan fydda i'n barod' ers 2013 ac ers mis Ebrill 2016, mae'n gyfrifoldeb statudol ar bob awdurdod lleol yng Nghymru. Y nod yw medru cynnig sefydlogrwydd a pharhad i bobl ifanc fel nad ydynt yn symud allan o ofal cyn eu bod yn barod i wneud hynny. Yn ystod 2017-18, bu 14 person ifanc yn rhan o'r cynllun.

Mae galw cynyddol i gryfhau'r rhan y mae unigolion a'r gymuned yn ei chwarae, trwy ddarparu llais a rheolaeth mewn iechyd a gofal a sicrhau bod pobl o bob oed a phob cymuned yn cael eu cynnwys yn gyfartal. Mae sicrhau cymunedau gwydn yn rhan hanfodol o hyn. Mae ein rhaglen 'Cymunedau Gwydn', sydd o fewn Cynllun y Cyngor, yn canolbwyntio ar greu buddsoddiad mewn gwasanaethau ataliol newydd neu gyfredol o fewn

canolfannau sylfaenol a chymunedol sy'n berthnasol i blant a phobl o bob oed. Bydd y rhaglen yn cynnig cyfleodd newydd mewn gwasanaethau ataliol ochr yn ochr â 'busnes fel arfer' yn y system bresennol. Mae'r Cyngor wedi cynnwys 'gwydnwch cymunedol' fel un o brif flaenoriaethau gwella ar gyfer y pum mlynedd nesaf, a bydd yn rhan bwysig o geisio sicrhau bod unigolion yn gallu aros o fewn eu cymunedau ac i barhau i fyw yn annibynnol o fewn eu cymunedau. Rhan allweddol i hyn yw swyddogaeth y trydydd sector a chyfraniad enfawr gofalmwr di-dâl.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi ariannu prosiect peilot 'Cysylltwyr Cymunedol' trwy gronfa ICF o fewn ein timau cymunedol, ac mae'r swyddi'n mynd o nerth i nerth ac maent yn gwbl allweddol ar gyfer deall cryfderau ein cymunedau. Pwrpas y swyddi hyn yw cynyddu gallu Timoedd i adnabod adnoddau ataliol, cymunedol er mwyn cefnogi oedolion bregus rhag datblygu problemau dwysach, yn ogystal â sbarduno gweithgarwch cymunedol sy'n hybu llesiant pobl. Mae Cysylltwyr Cymunedol yn cysylltu gweithiwrwr ein timoedd ardal gyda'r hyn sy'n mynd ymlaen ar lawr gwlad er mwyn cefnogi pobol o fewn eu cymunedau.

Yn ystod y flwyddyn, mae Cysylltwyr wedi llwyddo i sefydlu rhwydweithiau llwyddiannus yn eu hardaloedd lleol, gan wneud mynediad at wasanaethau cymunedol yn haws i'w cydweithwyr ac maent hefyd wedi llwyddo i ddod â'r bylchau mewn gwasanaeth yn fwyfwy amlwg. O ganlyniad, mae rhai gweithgareddau wedi dechrau mewn rhai ardaloedd i geisio datblygu mwy o gydweithio e.e. sefydlu cyfarfodydd Cydweithio er lles Llŷn, sydd wedi dod â'r sectorau at ei gilydd i rannu gwybodaeth am fentrau newydd ac i gynnal ymgynghoriadau. Hefyd, yn Arfon, rydym wedi edrych ar sut i gydweithio gyda mentrau cymdeithasol megis Menter Fachwen a Gisda i weld sut y gallwn weithio ar y cyd er mwyn gwasanaethu pobl sy'n gaeth i'w tŷ.

Mae llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden Gwynedd eisoes yn gwneud gwaith pwysig. Yn yr un modd, mae Canolfannau Heneiddio'n Dda Age Cymru Gwynedd a Môn wedi profi i fod yn llwyddiant mawr. Mae dros fil o bobl hyn eisoes yn cael gwneud defnydd o'r canolfannau sydd wedi'u sefydlu ym

Mlaenau Ffestiniog, Llanrug, Nefyn, y Bala, Cricieth, Penrhyndeudraeth a Dolgellau gydag ymdrechion ar waith hefyd ar gyfer sefydlu darpariaeth reolaidd yn Abersoch, Caernarfon, Bangor a Phenngroes.

Mae'r Uned Celfyddydau Cymunedol hefyd yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau celfyddydol ar hyd a lled Gwynedd, gyda rhai ohonynt wedi'u targedu'n benodol ar gyfer pobl hŷn. Ymhlith y prosiectau, cafodd henoed Awel y Coleg, y Bala a henoed ardal Gellilydan y cyfle i fynychu sesiwn Atgofion ar Gân - prosiect sy'n mynd ati i leihau unigrwydd drwy'r celfyddydau. Cydweithiwyd â dwy ysgol gynradd a dengys yr ystadegau bod y cynllun wedi mynd i'r afael ag unigrwydd, gyda dros 90% yn nodi bod y cynllun wedi eu helpu i deimlo'n llai unig, ac wedi eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol eraill. Mae'r Cynllun nawr wedi'i ymestyn i ardaloedd Deiniolen a Bethesda, a bydd yn parhau yn 2018/19 hefyd.

Ychwanegol Cae Garnedd ac Ysgol y Garnedd ym Mangor, fel dau safle i gynnal y cynllun peilot cychwynol. Bydd myfyriwr meistr o Brifysgol Bangor yn gwerthuso'r prosiect. Bydd llawlyfr adnoddau i ddilyn, a gweithdai ar wersi a ddysgwyd o'r profiad o ddod a phlant a phobl hŷn at ei gilydd mewn bob math o sefyllfaoedd ar draws Gwynedd.



Hen Blant Bach



Atgofion ar Gân

Mae'r gwaith a wnaeth Cyngor Gwynedd gyda'r Brifysgol, ac a gafodd ei ddarlledu mewn rhaglen deledu, sef 'Hen Blant Bach' yn sicr wedi bod yn sbardun i ddatblygu rhaglenni 'Pontio'r Cenedlaethau'. Yn ystod y flwyddyn sefydlwyd Grŵp Partneriaeth rhwng Cyngor Gwynedd (yn cynnwys yr Adranau Oedolion ac Addysg), Prifysgol Bangor, cynrychiolwyr o'r bwrdd Iechyd, y sector wirfoddol (Tai Gogledd Cymru) a'r sector preifat (Cartref Bryn Seiont newydd) i ddechrau prosiect newydd 'Pontio'r Cenedlaethau'. Adnabuwyd ysgol Nefyn a chartref preswyl Plas Hafan, a Thai Gofal **Tud. 182**

Mae Dechrau'n Deg yn rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru sydd ar gael mewn ardaloedd penodol i gefnogi pob teulu i roi gwell cyfle mewn bywyd i blant o dan 4 mlwydd oed. Gwyddom fod blynyddoedd cyntaf unrhyw blentyn yn bwysig ac yn cael effaith ar lesiant gydol oes. Nod y cynllun Dechrau'n Deg yw rhoi cymorth dwys i blant o dan 4 mlwydd oed a'u teuluoedd, a hynny drwy gynnig ystod eang o ymyraethau wedi'u teilwra i anghenion yr unigolion megis rhiantu, coginio, chwarae, ac ati. Yn ystod y flwyddyn 17-18 derbyniodd y panel cyfeiriadau Dechrau'n Deg 404 o gyfeiriadau am wasanaeth. Dosbarthwyd nifer o'r pecynnau ymyraeth i'r timau amlasiantaethol i'w gweithredu, boed yn staff iechyd, gofal plant, cefnogi teuluoedd neu ddatblygiad iaith cynnar. 81% oedd canran presenoldeb y plant sy'n 2 mlwydd oed yn Dechrau'n Deg yn 2017-18, sy'n gyson â pherfformiad y llynedd. Nifer y pecynnau uwch rhiantu sydd wedi arwain at deithio pellter cadarnhaol yw 76%.



## Blaenoriaethau ar gyfer 2018/19

- Mae dull holistaidd o ddarparu iechyd a llesiant yn mynd y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau gofal yn y cartref neu mewn cartref preswyl. Mae gweithgareddau cymunedol a chysylltiad rheolaidd â theulu a ffrindiau yn gymorth i bobl leihau unigrwydd a chynnal iechyd meddwl a chorfforol. Yn ystod 2018-19, byddwn yn asesu'r Cynlluniau Ataliol sydd yn bodoli i fodloni'n hunain eu bod yn creu ac yn cynyddu gwydnwch cymunedol
- Fel rhieni corfforaethol, byddwn yn anelu i wella'r cyfleoedd ar gyfer ein plant ymhob agwedd o'u bywydau. Drwy wrando a chanfod barn y plant sy'n ein gofal, byddwn yn sicrhau bod y gefnogaeth a ddarperir gennym yn cwrdd â'u hanghenion gan weithredu i gau unrhyw fwch.



## Safon Ansawdd 05

Darparu cefnogaeth i bobl er mwyn iddynt ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthnasau iach yn y cartref, gyda'u teulu ac ar lefel bersonol

Er mwyn cyflawni hyn, dylai awdurdodau lleol:

- **Darparu cefnogaeth i bobl gynnal perthnasau sydd o bwys iddynt, yn gyson ag anghenion diogelu**
- **Helpu pobl i gydnabod perthnasau annïogel ac i ddiogelu eu hunain rhag camdriniaeth ac esgeulustod**
- **Lle bo'n briodol, rhoi ystyriaeth i farn teuluoedd, gofalwyr a pherthnasau personol eraill wrth asesu anghenion gofal a chymorth**

### Gwerthusiad o gynnydd yn erbyn Safon Ansawdd Pump

Mae gofalwyr o bob oedran wedi eu hadnabod fel un o'r grwpiau sydd yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Rydym yn adnabod bod y cyfraniad y mae gofalwyr yn ei wneud yn un gwerthfawr ac rydym angen sicrhau bod y profiad o ofalu yn un llawer gwell. Mae ein gweithwyr cymdeithasol yn asesu anghenion gofalwyr ac mae ein gweithwyr cefnogi gofalwyr yn cynnig cefnogaeth iddynt.

Rydym wedi cynnal awdit o wasanaethau cefnogi gofalwyr gyda phroblemau iechyd meddwl yn ystod y flwyddyn. Mae'r adborth cyffredinol yn galonogol, gyda gofalwyr yn nodi eu bod yn fodlon gyda'r gefnogaeth sydd yn cael eu cynnig iddynt, a'u bod yn gwerthfawrogi'r amser un i un sydd ar gael iddynt.

Yn rhanbarthol hefyd mae'r maes Gofalwyr wedi derbyn cryn sylw gyda gwaith ar y cyd wedi digwydd i sicrhau bod y cynnig i ofalu yn glir ac yn gyson ar draws y rhanbarth. Mae gofalwyr wedi dweud wrthym drwy'r sesiynau datblygu hyn eu bod angen trefniadau llawer

symlach a mwy hyblyg ar gyfer y dyfodol sydd yn ymateb i'w sefyllfa unigryw nhw.

Mae ceisio cefnogi teuluoedd mor fuan ag y bo modd er mwyn osgoi problemau rhag dwysáu yn un o'n hamcanion. Sefydlwyd y Tîm Trothwy Gofal ar gyfer gweithio'n ddwys gyda phlant a'u teuluoedd pan mae sefyllfaoedd adref yn fregus. Wrth gydweithio gyda'r plant a'u teuluoedd mae anghenion iechyd corfforol, meddyliol a lles emosiynol plant a'u teuluoedd yn cael eu diwallu. Ers dechrau'r cynllun mae'r Tîm wedi cefnogi 236 o blant. Yn ystod 2017/18, roedd 70% o blant oedd yn gorffen gyda'r Tîm yn dangos lleihad yn y ffactorau a oedd yn amlwg cyn ymyrraeth, ac felly wedi osgoi plant yn gorfod dod i ofal mewn rhai achosion. Mae'r math yma o gefnogaeth yn amlwg yn cael effaith gadarnhaol iawn ar nifer o deuluoedd a hyderwn y gallwn barhau i ddatblygu'r ffordd yma o weithio ymhellach.

Un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r Adran Plant a Cefnogi Teuluoedd yw'r unigolion hynny sydd yn anodd iawn i'w lleoli oherwydd eu anghenion cymhleth a dwys, gan amlaf plant yn eu harddegau. Yn ystod y flwyddyn mae'r Adran wedi wynebu'r her ble mae lleoliadau yn torri i lawr ar fyr rybudd a bod ceisio canfod lleoliadau i'r plant hyn yn anodd iawn. Ar adegau, bu'n anrffod lleoli plant mewn lleoliadau yn Lloegr, milltiroedd i ffwrdd o'u cymunedau a'u cysylltiadau teuluol. Nid yw'r sefyllfa yma yn ddelfrydol nac yn unigryw i Wynedd ac mae'r mater wedi'i uchafu i'r Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol. Gyda chefnogaeth y Bwrdd Comisiynu Rhanbarth, rydym wedi bod yn edrych ar opsiynau ar gyfer datrysiadau addas yn fwy lleol.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi bod yn canolbwyntio ar eu gwasanaeth Adfer Cyfiawnder. Mae ymchwil gan y Llywodraeth yn dangos bod Cyfiawnder Adferol yn cael effaith gadarnhaol ar ddiodefwyr a throseddwr a bod 85% o'r rhai hynny a gymerodd rhan mewn proses gyfiawnder adferol yn fodlon gyda'r canlyniad. Mae niferodd y Cynadleddau Adferol a gynhaliwyd yng Ngwynedd a Môn yn 2017 wedi cynyddu 86% o gymharu â 2016. Ceir adborth cadarnhaol gan y diodefwyr a'r bobl ifanc a gymerodd rhan yn y broses. Ein bwriad dros



y flwyddyn nesaf yw gweithio tuag at farc ansawdd gwasanaethau (RSQM). Mae'r RSQM yn fathodyn o ansawdd sy'n gwarantu fod y gwasanaeth yn darparu arfer adferol diogel o ansawdd uchel. Mae llawer o waith paratoi tuag at y marc yma a gobeithiwn y byddwn yn y sefyllfa i ymgeisio rhyw ben yn 2018/2019.

Mae Teuluoedd yn Gyntaf yng Ngwynedd yn cynnig ymyrraeth i deuluoedd sydd â phlant sy'n wynebu anawsterau, yn enwedig i'r rhai sy'n profi problemau incwm isel a thlodi. Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn ymwneud â darparu gwahanol fathau o gefnogaeth i'r teulu cyfan yn dibynnu ar eu hanghenion. Maent yn gwneud hyn drwy brosiectau, gweithgareddau a hyfforddiant a drefnir gan rannau o'r Cyngor, elusennau a sefydliadau eraill. Mae canran uchel o deuluoedd yn nodi fod gwahaniaeth cadarnhaol i'w bywydau yn dilyn derbyn ymyrraeth.

**Mae canran uchel o deuluoedd yn nodi fod gwahaniaeth cadarnhaol i'w bywydau yn dilyn derbyn ymyrraeth. Mae 92% o deuluoedd yn adrodd eu bod wedi gweld gwelliant arwyddocaol yn eu bywydau teuluol wedi ymyrraeth.**



Mae gwaith gofal cymdeithasol Plant a Theuluoedd yn waith heriol sy'n arwain yn genedlaethol gyda gweithlu sydd ar adegau yn ansefydlog. Yng Ngwynedd, mae'r darlun yn un tra gwahanol o fewn y gwasanaeth plant a chefnogi teuluoedd, sydd â gweithlu sefydlog, profiadol a hyn ers sawl blwyddyn bellach. Mae hyn yn ein galluogi ni i sicrhau nad oes plant na theuluoedd yn gorfod newid eu gweithiwyd cymdeithasol gan sicrhau cysondeb, sefydlogrwydd ac ein gallu i fagu a datblygu perthnasau cadarnhaol sydd yn elfen hollbwysig wrth gynnig ymyrraeth wrth geisio sicrhau newid cadarnhaol.

Mae Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd (IFSS) yn rhoi cymorth arbenigol i deuluoedd sydd wedi'u heffeithio gan

gyffuriau ac alcohol. Oherwydd natur ddwys yr ymyrraeth, mae'r gwasanaeth yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer y teuluoedd sydd arnynt angen y gefnogaeth fwyaf. Yn ystod y flwyddyn mae'r gwasanaeth wedi gweithio gyda 31 o deuluoedd yn cynnwys 62 o blant. Mae'r adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn galonogol iawn.

### **Beth yw'n blaenoriaethau o ran safon 5 ar gyfer 2018/19**

- Rydym yn cydnabod bod y cyfraniad y mae gofalwyr yn ei wneud i gymdeithas yn un gwerthfawr ac rydym angen sicrhau bod y profiad o ofalu yn un llawer gwell. Byddwn yn adolygu ein trefniadau ar gyfer gofalwyr yn 2018-19 er mwyn sicrhau ein bod yn cyfarch 'Beth sy'n Bwysig' iddynt.
- Un o'r heriau mwyaf sydd yn wynebu'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yw'r unigolion hynny sy'n anodd iawn i'w lleoli oherwydd anghenion cymhleth a dwys; gan amlaf, plant yn eu harddegau. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol i geisio datblygu datrysiad ar lefel lleol.



## Safon Ansawdd 06

Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i gyflawni gwell lles economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llefydd addas sy'n bodloni'u hanghenion

Er mwyn cyflawni hyn, dylai awdurdodau lleol:

- Darparu cefnogaeth i bobl gyfranogi fel dinasyddion gweithgar yn economaidd ac yn gymdeithasol
- Darparu cefnogaeth i bobl gael gwaith ystyrlon a chynnal y gwaith hwnnw
- Darparu cefnogaeth i bobl gael cyngor a chymorth ariannol a help gyda budd-daliadau a grantiau
- Darparu mynediad i wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg ac ieithoedd eraill o ddewis
- Darparu cefnogaeth i bobl gael llefydd sy'n diwallu eu hanghenion ac i hwyluso byw'n annibynnol

### Gwerthusiad o gynnydd yn erbyn Safon Ansawdd Chwech

Fel rhan o'n hymdrech i gyfarch yr her ddemograffeg ac i sicrhau darpariaeth ddigonol i bobl hŷn sy'n hybu annibyniaeth, rydym wedi bod yn gweithio ar gynllun Tai Gofal Ychwanegol Hafod y Gest. Mae'r cynllun, gwerth £8.5 miliwn, yn cael ei ddatblygu gan gymdeithas dai Grŵp Cynefin mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd. Bydd Hafod y Gest newydd, sydd wedi'i leoli yng nghanol tref Porthmadog mewn safle delfrydol yng nghanol y gymuned yn agos i siopau a chyfleusterau'r dref, yn cynnig llefydd gofal ychwanegol i bobl hŷn yr ardal. Bydd yno 40 o fflatiau un a dwy lofft gyda gofal 24 awr; canolbwynt cymunedol ar gyfer gweithgareddau; ystafelloedd hobiau, ffitrwydd, harddwch a therapi; lolfa a bwyty. Mae'r amserlen wreiddiol yn nodi y dylai'r cynllun fod wedi ei gwblhau ers Hydref 2017. Fodd bynnag, mae oediad wedi digwydd

ac mae'r amserlen ar gyfer cwblhau bellach wedi symud i Hydref 2018. Mae hyn yn bennaf oherwydd problemau yn ymwneud â thywydd garw ac argaeledd adeiladwyr yn yr ardal.

Hafod y Gest



Rydym wedi bod yn canolbwyntio ar sicrhau fod digon o dai addas ar gyfer anghenion pobl Gwynedd gan fod prisiau uchel yn rhwystro pobl leol rhag prynu tai, ac rydym hefyd yn ymwybodol o brinder tai rhent addas. Mewn ymateb i'r broblem, mae'r Cyngor wedi ceisio darparu amrywiaeth o dai fforddiadwy yng nghymunedau gwledig Gwynedd a chodwyd datblygiad o naw tŷ ym Mynytho. Mae'r Cyngor hefyd yn parhau gyda'r bartneriaeth



Datblygiad Mynytho

â Grŵp Cynefin ac yn gobeithio datblygu cynlluniau tebyg yn ardaloedd Penygroes, Bethesda a Waunfawr yn y dyfodol.

Mae'r Gwasanaeth Tai yn gweithredu er mwyn atal digartrefedd, ond hefyd er mwyn darparu cefnogaeth i deuluoedd neu unigolion sy'n ddigartref.

**Rydym wedi gweld cynnydd o 35% yn y nifer sy'n cyflwyno'u hunain i fod yn ddigartref neu dan fygythiad o fod yn ddigartrefedd dros y pum mlynedd diwethaf. Bu cynnydd sylweddol yn y galw'r llynedd a darparwyd gwasanaeth ar gyfer 760 o unigolion.**



Mae perfformiad yr uned ymhlith y gorau yng Nghymru ar y meysydd atal digartrefedd ac mae'n cefnogi'r pwyslais a roddwyd ar atal.

Gydag arian grant gan Lywodraeth Cymru, mae'r gwasanaeth digartrefedd wedi ariannu prosiect i gydlynu gwasanaeth ar gyfer pobl sy'n gadael carchar. Mae un swyddog yn y fîm yn cymryd cyfrifoldeb am bobl sy'n dychwelyd i Wynedd i fyw ar ôl cyfnod yn y carchar a cheisio adnabod a threfnu llety ar eu cyfer i osgoi digartrefedd wrth adael carchar. Mae'r prosiect wedi datblygu perthynas dda gyda'r carchardai, y Gwasanaeth Prawf a nifer o asiantaethau eraill sy'n gweithio gyda'r unigolion. Rydym wedi cefnogi 101 unigolion yn ystod y flwyddyn.

Y gaeaf hwn, rydym wedi profi cryn dipyn o dywydd garw ac mae materion digartrefedd wedi derbyn cryn sylw yn y wasg. Yng Ngwynedd, rydym wedi cydweithio'n agos iawn gyda gwasanaeth ymestyn allan Tai Gogledd Cymru i gyfarch anghenion pobl sy'n cysgu allan. Yn ystod y cyfnodau o dywydd eithafol, adnabuwyd bod 33 o bobl yn cysgu allan. Llwyddwyd i gael datrysiaid i bob un o'r 33 unigolyn drwy gynnig llety dros dro iddynt, er i ddau unigolyn wrthod y cynnig.

Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn rhoi cymorth i bobl sy'n agored i niwed reoli neu gynnal

eu tenantiaeth a byw'n annibynnol. Yn ystod 2017/18, cefnogodd y rhaglen yng Ngwynedd 2157 o unigolion (Gorffennaf 2017) i gael mynediad a chynnal tenantiaethau parhaol neu dros dro ac atal digartrefedd. Oherwydd newid mewn deddfwriaeth ac amodau'r grant cefnogi pobl, ceir mwy o bwyslais nawr ar dargedu atal digartrefedd drwy ymyraethau cynharach a chreadigol. Rydym wedi datblygu gwasanaeth galw heibio mewn dwy ardal sy'n cynnig cefnogaeth i bobl ifanc cyn yr angen am lety neu gefnogaeth fwy arbenigol. Ers dechrau'r prosiect yn 2016, rydym wedi cefnogi 202 o bobl ifanc.

Mae dadansoddiadau mapio yn cadarnhau mai ein grwpiau blaenoriaeth uchaf yw'r rhai sy'n ffoi rhag cam-drin domestig, pobl ifanc, pobl sy'n gadael carchar, pobl ddigartref rhwng 25 a 54 mlwydd oed, rhai sy'n camddefnyddio sylweddau a rhieni sengl. Mae'r bwlch wedi bod yn amlwg dros y blynyddoedd diwethaf gyda chynnydd yn nifer ein cleientiaid sydd â phroblemau iechyd meddwl dwys ac sydd naill ai wedi dod yn ddigartref neu dan fygythiad o fod yn ddigartrefedd. Mewn ymateb i hyn, yn ystod 2017/18, gwnaethom gomisiynu gwasanaeth newydd gan 'Gorwel' a fydd yn gweithio'n ddwys gydag unigolion sydd ag anghenion cymhleth megis iechyd meddwl.

Mae'r Tîm Tai Gwag wedi bod yn helpu pobl sy'n cael trafferth cymryd eu cam ar yr ysgol eiddo i brynu eu cartref cyntaf. Mae eu gwaith wedi helpu i roi bywyd newydd i dai yma yng Ngwynedd sydd wedi bod yn sefyll yn wag, a rhoi'r cyfle i brynwyr tro cyntaf eu troi yn gartrefi clyd. Byddant yn gwneud hynny drwy gynnig blaendal morgais di-log i brynwyr tro cyntaf fel eu bod nhw'n gallu prynu tŷ heb orfod cynilo am flynyddoedd ymlaen llaw. Maent hefyd yn cynnig grant i brynwyr tro cyntaf i fynd tuag at gostau adnewyddu tŷ. Yn ogystal â chael effaith gadarnhaol ar fywydau prynwyr tro cyntaf yng Ngwynedd, mae'r gwaith adfywio tai gwag yn cael effaith ar helpu'r gymuned a'r economi leol i ffynnu.



Ers dechrau'r cynllun yn 2008, mae'r Cyngor wedi buddsoddi dros £3.9m ar adfywio tai gwag gan helpu i gartrefu 900 o bobl ar draws Gwynedd - ac yn aml yn eu caniatáu i aros o fewn eu hardaloedd lleol.



Mae'r prosiect OPUS yn weithredol yng Ngwynedd. Mae'r prosiect yn agored i unigolion 25 oed a throsodd sy'n economaidd anweithgar neu sy'n ddi-waith ar sail hirdymor ac sydd â rhwystrau cymhleth i waith, er enghraifft iechyd, anableddau a phroblemau iechyd meddwl.

Rhan allweddol o'r gwasanaeth i blant yw'n gallu fel Cyngor i leoli plant gyda rhieni maeth. Fel Cyngor, rydym yn hynod falch o'n rhieni maeth ac mae'r Tîm Maethu yn parhau i sicrhau fod gennym ddigon o rieni maeth i ddiwallu anghenion plant sydd yn methu byw gartref. Bu i ni gynnal sawl ymgyrch recriwtio dros y pum mlynedd diwethaf i geisio annog mwy o bobl i fod yn rhieni maeth. Mae tua 120 o ofalwyr maeth wedi cofrestru yng Ngwynedd er mwyn i blant gael llesych diogel i fyw a thyfu i fyny. Maent yn derbyn hyfforddiant llawn, gyda chefnogaeth swyddogion arbenigol a phrofiadol. Mae'r ymdrechion recriwtio yma yn ein galluogi i leoli plant o fewn ein hadnoddau ein hunain ac mae gennym fwy o rieni maeth yn cofrestru gyda ni na sydd yn ein gadael. Yn eu harchwiliad gwasanaethau maethu (2016) diwethaf, nododd Arolygaeth Gofal Cymru bod adborth gan ofalwyr maeth yn holiaduron y gwasanaeth ar gyfer eu hadolygiadau blynyddol yn dangos eu bod yn gwerthfawrogi'r cymorth y maent yn ei dderbyn gan eu gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol.

Mae llwyddiant cydweithio rhwng y teuluoedd a'r fîm trothwy gofal yn golygu bod nifer o blant wedi gallu aros adref gyda'u teuluoedd, rhai wedi gallu dychwelyd adref o ofal maeth a gofal preswyl, ynghyd â sicrhau bod lleoliadau maeth bregus wedi'u sefydlogi yn sylweddol. Er i nifer y plant sy'n derbyn gofal gynyddu **Tud. 188**

yn ystod cyfnod gweithredu'r fîm, mae nifer y plant mewn lleoliadau maeth neu leoliadau preswyl wedi aros yn sefydlog.

Ar ddiwedd mis Mawrth 2018, roedd 231 o blant yn ein gofal. O gymharu â nifer y plant mewn gofal dros gyfnod o bum mlynedd, mae'r cyfanswm wedi cynyddu o 185 i 231, sef cynnydd o bron i 25%. Serch hynny, mae nifer y plant sydd naill ai mewn lleoliadau preswyl neu leoliadau maeth wedi aros yn gyson neu wedi lleihau.

### Blaenoriaethau ar gyfer 2018/19

- Mae'r darlun o ran y cymorth sydd yn ymwneud ag anghenion tai yn un cymhleth ac mae heriau sy'n wynebu pobl yn amrywio'n fawr ac, o'r herwydd, mae angen i ni ymateb yn well. Fel Cyngor, rydym yn adnabod y cyfraniad sylweddol gallai tai addas gael ar iechyd a llesiant ein pobl. Yn 2018-19, byddwn yn sicrhau ein bod yn deall y galw am dai yng Ngwynedd rŵan ac i'r dyfodol a bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn ein Strategaeth Tai.



## 5. Sut yr ydym yn gweithio

### Yr Iaith Gymraeg a chyflawni yn erbyn gofynion Fframwaith 'Mwy na Geiriau'

Rhan greiddiol o unrhyw ddarpariaeth gofal yw'r angen i sicrhau bod defnyddwyr yn gallu derbyn y gwasanaeth yn yr iaith Gymraeg. Ers 1996 rydym yn gweithredu'n ddwyieithog ymhob agwedd o'n gwaith. Mae ein polisi o ran yr iaith Gymraeg wedi ymestyn i brosesau a gofynion recriwtio, casglu data, cytundebau, comisiynu, caffael a hyfforddiant.

Fel Cyngor, rydym wedi ymrwymo'n llawn i ofynion 'Mwy na Geiriau'. Rydym yn croesawu egwyddorion y Fframwaith Strategol Olynol a gyhoeddwyd ym mlwyddyn 2016. Rwy'n arwain yn genedlaethol ar yr agenda 'Mwy na Geiriau' ar ran Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac yn aelod o Fwrdd Partneriaeth yr Iaith Gymraeg, sydd yn cael ei arwain gan Lywodraeth Cymru.

Fel Cyngor, rydym yn cyfrannu'n llawn i Fforwm 'Mwy na Geiriau' Gogledd Cymru. Mae'r Fforwm yn rhannu syniadau ac yn gyfle gwych i gydweithio gydag lechyd, cynghorau a mudiadau eraill. Ym mis Hydref 2017, cydnabuwyd y Fforwm mewn digwyddiad cenedlaethol Mwy na Geiriau yng Nghaerdydd drwy ennill Cydnabyddiaeth Arbennig yn y categori Arweinyddiaeth.

Mae ymrwymiad Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd i egwyddorion 'Mwy na Geiriau' yn adlewyrchiad o'r ymrwymiad a'r flaenoriaeth a roddir ar draws y Cyngor i gynnig gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Dynodwyd uwch swyddog i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y maes gofal. Mae'r swyddog yma hefyd yn cael ei adnabod fel 'Llysgennad Busnes' i gydweithio gyda Gyrfa Cymru.

Ar hyn o bryd mae tua 88% o staff y gwasanaeth yn gallu'r Gymraeg ac rydym yn hyderus iawn yng ngallu'r Cyngor i ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol.



Rydym nawr mewn gwell sefyllfa i gofnodi'r data ieithyddol ers i'r system gyfrifiadurol newydd WCCIS ddod i rym eleni. Yn y dyfodol, bydd adroddiadau o'r system WCCIS yn fodd i adnabod gwendidau a diffygion y ddarpariaeth o ran y Cynnig Rhagweithiol a fydd wedyn yn bwydo i mewn i'r broses cynllunio a chomisiynu.

Wrth adolygu cytundebau Gofal Preswyl a Gofal Cartref yn ddiweddar, rydym wedi gosod disgwyliad ar ddarparwyr i baratoi Polisi Iaith i ddangos sut y byddent yn cyflawni egwyddorion 'Mwy na Geiriau' ac i ffurfio cynllun gwella. O ganlyniad, gallwn sicrhau bod egwyddorion 'Mwy na Geiriau' yn prif ffrydio i bob agwedd o wasanaethau y byddwn yn eu comisiynu.

Cynhaliodd y Cyngor waith ymchwil ehangach dros y flwyddyn ddiwethaf hefyd, sy'n ein helpu i gael gwell darlun o sut mae gwasanaethau yn llwyddo i gynnig gwasanaethau dwyieithog. Cynhaliwyd awdit iaith, oedd yn cynnwys casglu gwybodaeth gan reolwyr am allu eu timau ac unedau i weithredu a darparu gwasanaethau yn ddwyieithog. Cafwyd darlun cadarnhaol iawn ar y cyfan. Er hynny, rydym yn ymwybodol bod diffygion mewn rhai ardaloedd ac rydym yn parhau i gynllunio i geisio ymateb i hyn.


### Ein gweithlu a sut yr ydym yn cefnogi eu swyddogaeth broffesiynol

Mae gofal cymdeithasol yng Ngwynedd yn cael ei ddarparu gan nifer o asiantaethau o'r sector preifat, y trydydd sector a gan wasanaethau statudol. Mae gwaith ymchwil

diweddar yn dangos bod y sector gofal cymdeithasol yn creu gwerth economaidd ehangach ac er mwyn ceisio denu mwy o ddiddordeb gyrfaoel bydd angen i ni godi proffil a statws gwaith gofal cymdeithasol.

I'r perwyl hwn, rydym wedi adnabod yr angen i wneud gwaith pellach ar hyn a bydd prosiect o fewn Cynllun y Cyngor 2018-23 yn rhoi sylw i'r mater yma.

Mae tua 3,000 o aelodau staff wedi bod yn gyflogedig yn y sector Gofal Cymdeithasol yng Ngwynedd yn ystod y flwyddyn. Mae 122 o weithwyr cymdeithasol yn gweithio i'r Cyngor ar draws meysydd plant ac oedolion ac rydym yn ffodus yng Ngwynedd ein bod yn llwyddo i gadw staff profiadol.



Mae'r fframwaith Cymwysterau ar gyfer y Sector Gofal Cymdeithasol yng Nghymru yn gosod sylfaen ar gyfer cymwysterau addas yng ngofal cymdeithasol a gwaith cymdeithasol. Fel rhan o'r broses cofrestru gwasanaethau, mae'r arolygaeth yn disgwyl i weithwyr gofal gwblhau cymhwyster addas i'w swyddi ac mae canran uchel o weithwyr wedi cwblhau'r cymwysterau angenrheidiol. Mae'r Uned Datblygu'r Gweithlu yn cynnig amrediad o raglenni hyfforddiant i ddarparwyr mewnol a'u partneriaid. Yn ogystal mae gennym raglen hyfforddiant a chefnogaeth gynhwysfawr i weithwyr cymdeithasol yn eu blwyddyn gyntaf o ymarfer, yn ogystal a rhaglen tair blynedd ar gyfer gweithwyr cymdeithasol newydd eu cymhwyso

Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn amlinellu bod disgwyliad i weithwyr gofal cartref ddechrau cofrestru fel gweithlu cofrestredig o 2018 ymlaen, a gweithwyr preswyl o 2020 ymlaen. Fel Cyngor rydym wedi dechrau gweithio i sicrhau bod gan ein gweithlu'r cymwysterau angenrheidiol er mwyn cofrestru.

Mae trosiant staff yn parhau i fod yn broblem o fewn y gweithlu Gofal Cartref ac wedi ei adnabod fel blaenoriaeth i'r Cyngor. Bu nifer o ymdrechion recriwtio yn ystod y flwyddyn gan gynnwys gweithio gyda cholegau lleol i adnabod unigolion i fynd ar y Cynllun Prentisiaeth mewn Gofal. Rydym hefyd wedi bod yn cydlynu profiad gwaith er mwyn denu pobl ifanc i'r maes ac yn mynychu ffeiriau recriwtio. Mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Bangor, a siroedd cyfagos, rydym yn cynnig 16 lleoliad y flwyddyn i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol ar gyfartaledd.

Roedd adroddiad dilynol diweddar y Comisiynydd Pobl Hŷn, Lle i Alw'n Gartref, yn adrodd yr angen i holl weithiwy'r cartrefi gofal dderbyn hyfforddiant dementia. Mae hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar ddementia wedi rhedeg yn ystod y flwyddyn ar gyfer yr holl weithlu. Yn ogystal mae Uned Hyfforddi a Datblygu'r Cyngor wedi bod yn rhedeg rhaglen 'Moeseg, Rhagoriaeth Ac Ymgysylltu'. Nod y rhaglen yw sicrhau parhad gwasanaeth tymor hir ac i wneud y mwyaf o gapasiti cymunedau i gefnogi pobl a theluoedd sy'n byw gyda dementia i fwynhau'r ansawdd bywyd gorau posibl. I'r perwyl hwn, rydym yn cyflwyno rhaglen hyfforddiant pwrpasol tuag at ragoriaeth.

Mae'r hyfforddiant 'Collaborative Conversations' ar gyfer y timau gwaith cymdeithasol wedi parhau yn ystod y flwyddyn gyda ffocws yr hyfforddiant ar adnabod yr hyn sy'n bwysig i unigolion a chefnogi gweledigaeth 'Ffordd Gwynedd'.

### **Ein hadnoddau ariannol a sut yr ydym yn Cynllunio ar gyfer y dyfodol**

Fel Gwasanaethau Cymdeithasol, ac fel Cyngor cyfan, rydym wedi ceisio cydweithio i barhau i ddarparu'r gwasanaethau mae pobl Gwynedd eu hangen, tra hefyd yn cynllunio'n gydwybodol ar gyfer y dyfodol o fewn ein hamlen ariannol.

Rhaid cofio bod cyllideb y Cyngor wedi lleihau dros y blynnyddoedd diwethaf, yn bennaf oherwydd y lleihad yn y grant a ddaw gan Lywodraeth Cymru. Tra bod yr arian sy'n dod i mewn atom yn lleihau, mae'r galw ar ein gwasanaethau, a'n cyllideb fel Cyngor, yn



cynyddu. Mae pobl yn byw yn hirach, ac yn aml gyda chyflyrau iechyd cymhleth, ac mae hyn yn ei dro yn gallu golygu'r angen am wario uwch. Mae hi'n gryn dasg felly i gadw'r ddysgl ariannol yn wastad er mwyn sicrhau ein bod yn gallu darparu gwasanaethau sy'n gwbl angenrheidiol i bobl Gwynedd.

Yn sgil yr heriau yma, rydym wedi ceisio bod yn fwy hyblyg a chreadigol yn y ffordd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau. O ganlyniad rydym wedi ceisio cadw effaith ar bobl Gwynedd i'r lleiafswm posib, gan geisio parhau i gyflawni mwy yn y meysydd hynny sydd o flaenoriaeth. Rhan o hyn yw ceisio sicrhau ein bod yn edrych ar ffyrdd gwell a di-dor drwy ddarparu ein gwasanaethau i bobl. Nododd yr Adolygiad Seneddol bod modd i ni weithio mewn ffordd integredig a drwy ddefnydd technoleg ac y byddai hyn yn gwella ansawdd gwasanaethau iechyd a gofal i bobl. Yn aml, ar ôl y buddsoddiad gwreiddiol, gall newid fel hyn fod yn fwy cynaliadwy i'r dyfodol yn ogystal.

Ein blaenoriaeth felly yw deall a chyflawni beth sydd yn bwysig i bobl a dyma sydd wedi ein gyrru dros y flwyddyn a fu, a fydd yn ein gyrru i'r dyfodol. Fel Cyfarwyddwr rwyf yn ceisio'r sicrwydd yma, drwy ein trefniadau mewnol, yn gyson gan unedau gwasanaethau.

### **Gweithio mewn partneriaeth**

Ers dwy flynedd, mae trefniadau llywodraethu'r maes iechyd a gofal o fewn y sector cyhoeddus yng Nghymru wedi newid, a hynny'n bennaf oherwydd bod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol wedi dod i rym.

Mae rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn rhoi cyfrifoldeb arnom i wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithio gyda'u partneriaid er mwyn gwella canlyniadau llesiant pobl. Mae Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru yn weithredol ers rhai blynnyddoedd bellach, a'r Cynghorydd Gareth Roberts, aelod Cabinet Cyngor Gwynedd, yw Cadeirydd y Bwrdd. Mae'r Bwrdd yn mynd rhagddo i sicrhau bod trefniadau cydweithio ac integreiddio gydag lechyd yn digwydd ac yn codi momentwm.

Eleni, cymeradwyodd Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol y Strategaeth Gweithlu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cymunedol 2018-21, ac mae'r Partneriaeth yn gweithio ar sawl ffrwd gwaith yn deillio o'r Strategaeth, megis ymgyrchu i wella delwedd y sector Gofal a gwella llwybrau gyrfaol y maes gofal. Bydd y Bwrdd yn gweithio'n agos gyda Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru ar eu ffrwd gwaith 'sgiliau' er mwyn uchafu pwysigrwydd y sector gofal ar draws y rhanbarth.

Mae'n rhaid i'r Bwrdd Partneriaeth fodloni eu hunain eu bod yn ymateb i anghenion pobl Gogledd Cymru ac mae'r Asesiad Anghenion Poblogaeth yn arf fydd yn cynorthwyo trafodaethau rhanbarthol a lleol. Nod yr Asesiad Poblogaeth yw gwella ein dealltwriaeth o'n poblogaeth, ynghyd â sut y gallai newid dros y blynnyddoedd sydd i ddod, er mwyn ein helpu i ddarparu gwell gwasanaethau cyhoeddus yng Ngogledd Cymru. Mae'r Bwrdd Partneriaeth wedi croesawu'r Adolygiad Seneddol, ac mae ffrydiau gwaith yn cael eu datblygu'n rhanbarthol er mwyn ymateb i'r Cynllun mae'r Llywodraeth wedi ei gyhoeddi. Yn lleol yn ogystal, ac yn unol â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, byddwn yn parhau i weithio'n galed ar ein cynlluniau gydag iechyd a'n partneriaid allweddol, a hyn drwy adrodd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar ein cyrhaeddiad. Mae dau o'r prif amcanion gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnwys materion sydd o fewn y maes gofal a bydd Grŵp Integredig Iechyd a Gofal yn gyrru'r newidiadau perthnasol ymlaen ac yn adrodd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn rheolaidd.

Partner allweddol i gyflawni'r hyn sy'n bwysig i bobl, yw'r Trydydd Sector. Mae Grŵp Cyswllt mewn lle o fewn y Cyngor gyda'r bwriad o gael trosolwg a'r sicrwydd bod cydweithio'n effeithiol rhwng y sefydliadau statudol a'r trydydd sector. Mae trefniadau'r grŵp wedi'u cryfhau yn ddiweddar gan geisio sicrhau bod y trefniadau llywodraethu yn glir.

### **Arweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, Llywodraethu ac Atebolrwydd**

Rhan o'r Ddeddf sy'n bwysig imi dynnu eich sylw ati yw Rhan 8, sy'n nodi'r gofynion sydd o'n rhwydd fel Cyfarwyddwr Statudol am

Wasanaethau Cymdeithasol. Mae Cabinet Cyngor Gwynedd wedi cymeradwyo 'Protocol y Cyfarwyddwr'. Dogfen yw hon sy'n amlinellu sut y byddwn yn sicrhau ein bod yn cyfarch y gofynion deddfwriaethol. Mae'r protocol hwn yn sicrhau trefniadau llywodraethu cadarn ynghyd â llinellau atebolrwydd cryf. Mae'r protocol hwn ar y wefan, ac mae'n bwysig fod staff ac aelodau hefyd yn ymgysgu eu hunain â'r gofynion.

Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu mewnol cadarn i gefnogi rheolaeth effeithiol o wasanaethu cymdeithasol. Yn ogystal â chyflwyno adroddiadau i bwyllgorau craffu, mae gennym hefyd strwythur herio perfformiad adrannol cadarn. Rydym hefyd yn cwrdd yn rheolaidd gyda'r Arolygaeth i sicrhau bod ein gweithdrefnau'n gadarn. Mae'r Uned Craffu wedi cyfrannu'n helaeth eto eleni wrth graffu meysydd arbennig a chynnig persbectifau pwysig inni er mwyn gwella'n barhaus.

Mae'r Cyngor wedi pennu dau o aelodau'r Cabinet ar gyfer y meysydd o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol, sef y Cyngorydd Gareth Roberts ar gyfer y meysydd Oedolion, lechyd a Llesiant, a'r Cyngorydd Dilwyn Morgan ar gyfer y meysydd Plant a Chefnogi Teuluoedd.

## Dysgu a Datblygu

Fel sydd eisoes wedi'i nodi yn yr adroddiad blynyddol hwn, mae dysgu a gwella yn rhan allweddol i ni os yr ydym am wella ein perfformiad a chyflawni'r hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd.

Mae trefniadau yn eu lle i adrodd yn ôl yn gyson ar gwynion sy'n codi o'r maes gofal, a gwneir pob ymdrech i ddatrys, ymateb, a dysgu ohonynt cyn gynted ag y bo modd. Mae derbyn barn ein defnyddwyr gwasanaeth am ansawdd ein gwasanaethau yn bwysig iawn i ni wrth i ni wella'n barhaus, ac mae cwynion yn rhan o hyn. Cyhoeddir adroddiad blynyddol penodol ar gwynion, sy'n cynnig trosolwg o'r holl gwynion a dderbyniwyd yn ystod 2017/18, ond hoffwn gymryd y cyfle, yn yr adroddiad hwn, i grynhof'r prif negeseuon.

O ran y maes Oedolion, mae cwynion yn parhau eto eleni ynghylch y diffyg darpariadau

yn Ne Meirionydd. Rydym yn ceisio ymateb i'r broblem hon mewn sawl ffordd ac rwyf wedi cyfeirio at ein cynlluniau o fewn yr adroddiad yma. Yn ogystal, cafwyd sawl ymholiad gan Aelodau Seneddol ac Aelodau Lleol yn datgan pryderon ar ran etholwyr am yr oedi cyn gallu darparu gofal cartref i bobl allu dod adref o'r ysbyty. Mae'r tuedd yma yn ddilyniant o'r prif duedd yn 2016-17 ac mae gwaith yn parhau gan yr Adran i ddatrys y problemau cyflenwad yma. O ran y maes plant, mae cwynion anorfod wedi bod o ran disgwyliadau'r rheini mewn sefyllfaoedd anodd a derbyniwyd un cais i uchafu cwyn i Gam 2 Trefn Gwyno Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol. Fel y nodais, mae pob cwyn yn cael ei chymryd o ddifrif ac mae'r Adrannau'n sicrhau bod dysgu parhaus yn digwydd yn dilyn unrhyw gwyn.



## 6. Cysylltiadau a Dogfennau Allweddol

### Aseidiadau Llesiant a Phoblogaeth

Cynllun Llesiant Gwynedd:

<https://www.llesiantgwyneddaron.org/Uploads/Pages/Documents/3-5-3-88-2-Cynllun-Llesiant-Drafft-Gwynedd-a-M244n.pdf>

Aseiad Llesiant Gwynedd a Môn:

<https://www.llesiantgwyneddaron.org/Uploads/Pages/Library/3-3-9-66-2-Aseiad-Llesiant-Gwynedd.pdf>

Aseiad Poblogaeth Gogledd Cymru:

[https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/wp-content/uploads/2017/04/NW-Population-Assessment-1-April-2017\\_cym.pdf](https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/wp-content/uploads/2017/04/NW-Population-Assessment-1-April-2017_cym.pdf)

### Polisiau Gwynedd

Gwybodaeth Hyfforddiant:

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Busnesau/Cymorth.-cefnogaeth-a-hyfforddiant/Partneriaeth-datblygur-gweithlu/Rhestr-hyfforddiant-ac-archebu-cwrs.aspx>

Polisi Iaith:

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Safonau-r-iaith-Gymraeg/Polisilaith2016.Cymraeg.pdf>

Gwranddo, gwella, ymateb:

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Dogfennau-trigolion/Iechyd-a-gofal-cymdeithasol---dogfennau/Gwranddo-ymateb-gwella.pdf>

Cynllun Heneiddio'n Dda:

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Gwasanaethau-cymdeithasol-a-iechyd/Cynllun-Heneiddion-Dda-Gwynedd.aspx>

### Adroddiadau Cenedlaethol

Adroddiad Mwy na Geiriau:

<https://gov.wales/docs/dhss/publications/160317morethanjustwordscy.pdf>

Adroddiad y Comisiynydd Pobl Hŷn - Lle i Alw'n Gartref:

[http://www.olderpeoplewales.com/Libraries/Uploads/Lle\\_i\\_w\\_Alw\\_n\\_Gartref\\_-\\_Adolygiad\\_o\\_ansawdd\\_bywyd\\_a\\_gofal\\_pobl\\_hŷn\\_sy\\_n\\_byw\\_mewn\\_cartrefi\\_gofal\\_preswyl\\_yng\\_Nghymru1\\_1\\_sflb.ashx](http://www.olderpeoplewales.com/Libraries/Uploads/Lle_i_w_Alw_n_Gartref_-_Adolygiad_o_ansawdd_bywyd_a_gofal_pobl_hŷn_sy_n_byw_mewn_cartrefi_gofal_preswyl_yng_Nghymru1_1_sflb.ashx)

Adroddiad y Comisiynydd Plant - Breuddwydion Cudd:

<https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2017/02/Breudd-Cudd.pdf>

Adolygiad Seneddol i Iechyd a Gofal yng Nghymru:

<https://gov.wales/docs/dhss/publications/180116reviewcy.pdf>

### Mynediad at wybodaeth bellach

Dewis Cymru:

<https://www.dewis.cymru/>

### Pryderu am unigolyn.

Os ydych yn gwybod am unigolyn sydd mewn perygl o gael ei gam-drin neu yn cael ei gam-drin, mae'n bwysig iawn eich bod yn rhoi gwybod i'r Cyngor neu'r heddlu.

Os yw'r unigolyn mewn perygl uniongyrchol ffoniwch yr heddlu ar 999. Os nad yw mewn perygl uniongyrchol, ffoniwch y Gwasanaethau Cymdeithasol cyn gynted ag y bo modd i rannu eich pryderon.

### Plentyn:

01758 704455

01248 353551 (y tu allan i oriau gwaith)

### Oedolyn:

01286 682888

01248 353551 (y tu allan i oriau gwaith)

# Atodiad 1 - Mesurau Perfformiad 2017-19

## Adran Oedolion Iechyd a Llesiant

	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18
Galluogi - Canran o achosion sydd wedi derbyn cyfnod o alluogi sy'n gadael heb becyn gofal	54%	45%	55%	59,3%	-
Nifer y defnyddwyr gwasanaethau oedolion sy'n derbyn taliadau uniongyrchol	104	121	-	121	-
Canran o bobl hŷn a phobl sydd ag Anableddau Corfforol lle gweler cynnydd mewn cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt hwy	-	-	-	88%	80.5%
Cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu drosodd	1.55	1.05	2.38	3.40	4.9
Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) sy'n cael cymorth i fyw gartref fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed a throsodd	46.21	45.07	43.10	44.70	41.2
Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) sy'n cael cymorth i fyw gartref fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed a throsodd (yn cynnwys addasiadau ac offer)	79.41	78.17	73.00	89.30	82.5
Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth	25.59	24.15	22.69	22.60	23.2
Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth ac eithrio rhai sy'n hunan ariannu	20.08	18.48	17.10	16.40	17.8
Canran y cyfeiriadau diogelu oedolion wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle'r mae'r risg wedi ei reoli	95.72%	100%	96.7%	97.9%	97.6%
O'r atgyfeiriadau amddiffyn oedolion sydd wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, y canran lle mae'r perygl wedi'i reoli (gan eithrio'r rhai sydd wedi gwrthod ymyrraeth)	-	-	99%	100%	99.4%



	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18
Y nifer o ddiwrnodau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl	242	316	271	281	204
Canran yr anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1 Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol	5.24%	5.7%	5.13%	3.68%	4.82%
Nifer o unedau tai fforddiadwy a sicrhawyd i Wynedd	70	144	48	71	77
Gyfnod (nifer dyddiau) mae wedi gymryd i'r Uned Ddigartrefedd gyflawni cynllun fforddiadwy i'r rhai sydd o dan fygythiad	145.85	84.94	69.08	77.73	101
Gyfnod a dreuliwyd mewn llety dros dro (nifer dyddiau)	113.78	75.82	126.02	104.44	92

## Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18
Canran plant 2 oed sy'n bresennol yn Dechrau'n Deg	84%	82%	83%	84%	81%
Nifer o'r pecynnau cymorth uwch rhiantu sy'n arwain at deithio pellter cadarnhaol	57%	38%	48%	89%	65%
Canran o deuluoedd sydd wedi adrodd cynnydd yn dilyn derbyn gwasanaeth gan Tîm o Amgylch y Teulu (Gyda'n Gilydd)	15%	30%	25%	95%	92%
Cynllun trosiannol wedi ei gytuno ar gyfer plant anabl 16 oed	100%	100%	100%	-	100%
Cynllun llwybr wedi ei gytuno ar gyfer plant mewn gofal	100%	100%	100%	100%	99%

	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18
Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a chanddynt brofiad o symud ysgol unwaith neu ragor, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, ac nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau trosiannol, yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth	22.8%	18.7%	18.1%	17.1%	10%
Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn Cynllun llwybr wedi ei gytuno ar gyfer plant mewn gofal	4.9%	6.2%	7.7%	6%	7.5%
Canran yr adolygiadau plant sy'n derbyn gofal wedi eu cynnal o fewn amserlen statudol yn ystod y flwyddyn	94.3%	93.8%	91%	91%	89%
Canran yr adolygiadau amddiffyn plant wedi eu cynnal o fewn amserlen statudol yn ystod y flwyddyn	-	-	85.5%	92.0%	90%
Canran yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal oedd fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn a'u cynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau	83.7%	89%	86.9%	90%	92%
Canran y plant cymwys, perthnasol a phlant a fu'n berthnasol sydd â chynlluniau llwybr yn ôl yr angen	100%	100%	100%	100%	100%
Canran y plant cymwys, perthnasol a phlant a fu'n berthnasol sydd wedi cael cynghorydd personol wedi'i ddyrannu iddynt	100%	100%	100%	100%	100%
Canran o gynadleddau achos lle bu clywed llais/barn y plentyn (ac eithro plant o dan 7 oed)	81%	83%	85%	84%	92%
Cyfradd y plant a gafodd eu trafod mewn goruchwyliaeth, lle rhoddwyd ystyriaeth i niwed arwyddocaol (a'r ateb wedi ei gofnodi)	100%	100%	100%	100%	100%
Cyfradd yr asesiadau risg a gafodd eu cyflwyno i Gynadleddau Achos a oedd yn cael eu hystyried yn rhai a oedd yn dangos ansawdd wrth wneud penderfyniadau	95%	98%	97%	94%	96%





[www.facebook.com/CyngorGwyneddCouncil](http://www.facebook.com/CyngorGwyneddCouncil)



[www.twitter.com/CyngorGwynedd](http://www.twitter.com/CyngorGwynedd)



[www.instagram.com/cyngorgwyneddcouncil/](http://www.instagram.com/cyngorgwyneddcouncil/)

<b>CYFARFOD</b>	<b>Y CYNGOR LLAWN</b>
<b>DYDDIAD</b>	<b>12fed Gorffennaf 2018</b>
<b>TEITL YR ADRODDIAD</b>	<b>CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR</b>
<b>PWRPAS</b>	<b>Adolygu'r cydbwysedd gwleidyddol yn dilyn newid pellach i gyfansoddiad y Cyngor.</b>
<b>ARGYMHELLIAD</b>	<b>Mabwysiadu'r dyraniad seddau yn unol â'r cydbwysedd gwleidyddol.</b>
<b>AWDUR</b>	<b>Geraint Owen Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd</b>

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Adroddwyd yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor llawn ar 3ydd o Fai, 2018 fod cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:-

Plaid Cymru	41
Annibynnol	22
Llais Gwynedd	6
Llafur Rhyddfrydol	2
Grwp Annibynnol Unedig Gwynedd	3
Aelod Unigol	1

**Cyfanswm 75**

1.2 Ers hynny, mae'r Cyngorydd Sion Jones wedi gadael y Grwp Llafur/Rhyddfrydol a bellach yn Aelod o'r Grwp Annibynnol.

1.3 O ganlyniad i'r symud uchod, nid yw'r Grwp Llafur/Rhyddfrydol ar Gyngor Gwynedd yn bodoli bellach. Mae'r Cyngorydd Stephen Churchman yn parhau yn aelod o'r Democratiaid Rhyddfrydol. Bydd yr aelod yn cael ei drin fel 'aelod unigol' ar gyfer adnabod y cydbwysedd gwleidyddol, gan bod yn rhaid sicrhau mwy nag un Aelod er mwyn ffurfio grŵp.

1.4 Bellach, felly, mae cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:-

Plaid Cymru	41
Annibynnol	23
Llais Gwynedd	6
Grwp Annibynnol Unedig Gwynedd	3
Aelod Unigol	2

**Cyfanswm 75**

## 2. DYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

- 2.1 I atgoffa'r aelodau, nodir yma'r pedair prif reol yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ynglŷn â dyrannu seddau:-
- 2.2 (a) Ni chaiff pob sedd ar bwyllgor ei dyrannu i'r un grŵp gwleidyddol;
- (b) Rhaid dyrannu mwyafrif y seddau ar bwyllgor i grŵp gwleidyddol os yw nifer y personau sy'n perthyn i'r grŵp yn fwyafrif o aelodau'r Cyngor;
- (c) Yn amodol ar baragraffau (a) a (b) uchod, bydd nifer y seddau ar y pwyllgorau cyffredin a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un fath â'r nifer o'r holl seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor;
- (ch) Yn amodol ar (a),(b) ac (c) uchod, bydd nifer y seddau ar bwyllgor a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un gyfran o'r seddau ar y pwyllgor â'r nifer o seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor.
- 2.3 Er mwyn sicrhau y glynir wrth y rheolau hyn, mae'r Cyngor wedi bod yn ymdrin â phwyllgorau mewn blociau gwahanol yn y gorffennol. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i sicrhau y glynir wrth reol (c) ym mharagraff 2.2 uchod hefyd.

## 3. NEWIDIADAU I DDYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

- 3.1 Golyga fod y Grwp Annibynnol yn ennill sedd ar y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r Pwyllgor Trwyddedu. Seddi y Grwp Llafur/Rhyddfrydol oedd rhain yn flaenorol. Yn unol â'r rheoliadau ar gyfer cydbwysedd gwleidyddol, bydd yn ofynnol i Arweinydd y Grwp Annibynnol benodi i'r ddwy sedd yma.
- 3.2 Golyga fod aelodau unigol yn ennill sedd ar y Pwyllgor Craffu Cymunedau, Pwyllgor Cynllunio a'r Pwyllgor Pensiynau. Seddi y Grwp Llafur/Rhyddfrydol oedd rhain yn flaenorol. Mater i'r Cyngor llawn yw penodi i seddi nad ydynt wedi eu dynodi i grwp gwleidyddol. Argymhellir fod deilydd presennol y tair sedd sy'n trosglwyddo gan y cyn Grwp Llafur / Rhyddfrydol, Y Cynghorydd Stephen Churchman, yn cael ei benodi ar y pwyllgorau hynny er sicrhau cysondeb.
- 3.3 Mae'r newidiadau wedi eu dangos yn **Atodiad A**, gyda'r newid uchod wedi ei liwio mewn melyn.

## 4. ARGYMHELLION

- 4.1 Gofynnir i'r Cyngor fabwysiadu'r dyraniad seddau yn unol â'r cydbwysedd gwleidyddol.
- 4.2 Gofynnir i'r Cyngor benodi'r Cynghorydd Stephen Churchman i'r seddau unigol ar y Pwyllgor Craffu Cymunedau, y Pwyllgor Cynllunio a'r Pwyllgor Pensiynau.

**ATODIAD A – DYRANIAD SEDDI AR BWYLLGORAU**

A	Plaid Cymru	Annibynnol	Llais Gwynedd	Llafur Rhyddfrydol	Annibynnol Unedig Gwynedd	Aelod Unigol	Cyfanswm
Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi	10	5	2	0	1		18
Pwyllgor Craffu Cymunedau	10	5	2	4 0	0	1	18
Pwyllgor Craffu Gofal	10	5	1	0	1	1	18
Archwilio a Llywodraethu	10	5 6	1	4 0	1		18

B	Plaid Cymru	Annibynnol	Llais Gwynedd	Llafur Rhyddfrydol	Annibynnol Unedig Gwynedd	Aelod Unigol	Cyfanswm
Gwasanaethau Democrataidd	8	5	1	0	1		15
Cynllunio	8	4	1	4 0	1	1	15
Trwyddedu Canolog	8	4 5	1	4 0	0	1	15
Iaith	8	5	1	0	1		15
Penodi Prif Swyddogion	8	5	2	0	0		15
Apelau Cyflogaeth	4	2	1	0	0		7
<b>Nifer y seddau</b>	<b>84</b>	<b>45</b>	<b>13</b>	<b>4</b>	<b>6</b>	<b>4</b>	<b>154</b>

C	Plaid Cymru	Annibynnol	Llais Gwynedd	Llafur Rhyddfrydol	Annibynnol Unedig Gwynedd	Aelod Unigol	Cyfanswm
Pensiynau	4	2	0	4 0	0	1	7
Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol	6	3	1	0	1		11
CYSAG	4	3	0	0	0		7
Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y cyd	5	2	1	0	0		8

<b>Cyfanswm y seddau</b>	<b>103</b>	<b>57</b>	<b>15</b>	<b>0</b>	<b>7</b>	<b>5</b>	<b>187</b>
--------------------------	------------	-----------	-----------	----------	----------	----------	------------



# Eitem 14a

Hannah Blythyn AC/AM  
Gweinidog yr Amgylchedd  
Minister for Environment



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref HB/00391/18

Annwen Daniels

erianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

4 May 2018

Annwyl Gyngorydd Daniels,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 9 Ebrill ynghylch trethi ar blastig yng Nghymru.

Mae cryn ddiddordeb a chefnogaeth wedi bod ar gyfer treth ar blastigion untro yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru bob amser yn edrych am ffyrdd i wella cyflawniad ein hamcanion amgylcheddol, a chyhoeddassom ein hystyriaeth barhaus am dreth ar blastigion untro ym mis Chwefror 2018. Bydd y gwaith hwn yn derbyn gwybodaeth gan ganfyddiadau cais cyfredol Llywodraeth y DU am dystiolaeth sy'n archwilio sut y gall ffioedd neu newidiadau i'r system drethi fynd i'r afael â'r problemau yn ymwneud â gwastraff plastig untro. O ystyried ei ddull o ymestyn yn eang, rhagwelir y bydd cymysgedd helaeth o ymatebion yn cael eu derbyn. Bydd yn bwysig meddwl yn ofalus am sut yr ydym yn diffinio paramedrau'r dewisiadau a'r modelau posibl, ac edrychwn ymlaen at hysbysu dewisiadau ar y ffordd ymlaen.

Rwyf yn falch bod Llywodraeth y DU yn ystyried treth ar blastigion untro ar lefel y DU, ac rwyf yn croesawu'r Cais am Dystiolaeth. Rydym wedi cael trafodaethau adeiladol gyda Llywodraeth y DU ar lefel Weinidogaethol a swyddogol. Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod yn rhan o'r broses hon, ac wedi bod yn hysbysebu'r cais am dystiolaeth yn weithgar yng Nghymru er mwyn annog cyfraniadau i gynorthwyo i sicrhau bod yr holl dystiolaeth berthnasol yn cael ei hystyried o bersbectif datganoledig. Byddwn yn cyfrannu at ddadansoddiad yr ymatebion am y cais am dystiolaeth, wrth rannu barn Cymru ar ddatblygiad y dewisiadau polisi. Edrychwn ymlaen at drafod cynnydd yn ystod y cam hwn, a rhannu ein barn ar y dewisiadau polisi.

Bydd unrhyw adolygiad ar dreth annibynnol ar blastigion untro yng Nghymru hefyd yn derbyn gwybodaeth gan y dadansoddiad a'r argymhellion a ddarperir mewn astudiaeth yn asesu'r gost a'r buddion o ymyraethau cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr (EPR) i gynyddu atal gwastraff ac ailgylchu a lleihau ysbwriel o ddeunydd pecynnu allweddol a ddefnyddir i becynnu bwyd a diod.

Rwyf wedi derbyn drafft terfynol crynodeb yr adroddiad hwnnw a gobeithiaf allu ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo modd.

Yr eiddoch yn gywir,


Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru)  
[Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales](mailto:Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



**Hannah Blythyn AC/AM**  
Gweinidog yr Amgylchedd  
Minister for Environment

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru)  
[Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales](mailto:Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Eitem 14b

Adran Gadael  
Yr Undeb Ewropeaidd

Robin Walker AS  
Is Ysgrifennydd Gwladol Seneddol  
ar gyfer  
Gadael yr Undeb Ewropeaidd

+44(0)20 7004 1249

correspondence@dexeu.gov.uk

Y Cyngorydd Annwen Hughes

Cadeirydd y Cyngor  
Cyngor Gwynedd  
Swyddfa'r Cyngor  
Caernarfon  
Gwynedd  
LL55 1SH

Ein cyf: RW/00436

Eich cyf: ER

11 Mehefin 2018

Annwyl Gyngorydd Hughes,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Mai ynghylch pryderon Cyngor Gwynedd am Ddinasyddiaeth Gysylltiol yr Undeb Ewropeaidd. Ymatebaf ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol.

Fel crybwyllais yn Natganiad Gweinidogaethol Ysgrifenedig 24 Mai 2018, mewn ymateb i ddatl ar y cynnig hwn yn y Tŷ, mae'r Prif Weinidog wedi bod yn glir o'r dechrau mai diogelu hawliau dinasyddion yr UE sy'n byw yn y DU a gwladolion y DU sy'n byw yn yr UE yw ei blaenoriaeth bennaf ar gyfer trafod. Bydd y cytundeb a gafwyd ac a nodwyd yn nhestun y Cytundeb Ymadael yn rhoi sicrwydd iddynt am eu hawliau wrth fynd rhagddi. Bydd yn caniatáu i ddinasyddion yr UE yn y DU ac i wladolion y DU yn yr UE ddal ati i fyw eu bywydau, fwy neu lai fel y maent yn ei wneud ar hyn o bryd yn y gwledydd lle maent yn byw ar hyn o bryd. Bydd yn galluogi i deuluoedd sydd wedi sefydlu eu bywydau gyda'i gilydd yn yr UE a'r DU i aros gyda'i gilydd, gan roi mwy o sicrwydd am breswyllo, gofal iechyd, pensiynau a buddion eraill.

Rydym wedi ystyried yr argymhellion a geir yn adroddiad yr Athro Volker Roeben, 'The feasibility of the associate EU citizenship for UK citizens post-Brexit', yn ofalus. Fodd bynnag, yn ôl ein dealltwriaeth ni o ddarpariaethau cytundeb yr UE, dim ond dinasyddion Aelod Wladwriaethau'r UE fydd yn gallu cael dinasyddiaeth UE. Felly, pan fydd y DU yn peidio â bod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd, ni fydd gwladolion Prydain yn ddinasyddion yr UE, oni bai fod ganddynt ddinasyddiaeth ddeuol gydag Aelod Wladwriaeth arall yn yr UE.

I'r perwyl hynny, nid yw dinasyddiaeth yr UE yn un o'n hamcanion wrth drafod ac nid oes darpariaeth iddo mewn cytundebau UE. Er mwyn i ddinasyddion y DU aros yn ddinasyddion yr UE ar ôl i'r DU adael yr UE, byddai'n rhaid cael diwygiad i gytundebau'r UE. Statws sylfaenol gwladolion Aelod Wladwriaethau'r UE yw dinasyddiaeth, ac er bod Gwladwriaethau EEA EFTA yn rhan o'r Farchnad Sengl, nid yw eu gwladolion yn ddinasyddion yr UE ac mae eu hawliau, felly, yn fwy cyfyngedig. Felly, fel dywedais yn y Datganiad Gweinidogaethol Ysgrifenedig, nid yw hyn yn rhywbeth y gallem mewn gwirionedd ddisgwyl i'r UE gytuno iddo.

Gwyddwn y bydd nifer o wladolion y DU yn y dyfodol yn dymuno dal ati i deithio, byw a gweithio yn yr Undeb Ewropeaidd, yn yr un modd y bydd dinasyddion yr UE yn dal i ddymuno gwneud hynny yn y

Adran Gadael  
Yr Undeb Ewropeaidd

Robin Walker AS  
Is Ysgrifennydd Gwladol Seneddol correspondence@dexeu.gov.uk  
ar gyfer  
Gadael yr Undeb Ewropeaidd

+44(0)20 7004 1249

DU. Edrychwn ymlaen at drafod y berthynas fydd gennym yn y dyfodol gyda'r UE, un fydd yn gweithio er budd y ddwy ochr.

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau cytundeb fydd yn gweithio i'r Deyrnas Unedig i gyd: i Gymru, i'r Alban, i Ogledd Iwerddon, a phob rhan o Loegr. Trwy gydol y trafodaethau, bydd Llywodraeth y DU yn trafod ar ran y Deyrnas Unedig. Rydym wedi bod yn eglur o'r dechrau y dylai'r gweinyddiaethau datganoledig gymryd rhan lawn yn y broses hon. Mae Ysgrifennydd Gwladol Gadael yr Undeb Ewropeaidd wedi sgwrsio gyda gweinidogion llywodraethau Cymru a'r Alban ar sawl achlysur i'w diweddarau ar y trafodaethau, gan gynnwys trwy Gyd-bwyllgor y Gweinidogion ar Drafodaethau'r UE.

Bellach, cafwyd naw cyfarfod o Gydbwyllgor y Gweinidogion ar Drafodaethau'r UE. Roedd y cyfarfod diwethaf ar 2 Mai 2018 a roddodd y cyfle diweddaraf i'r gweinyddiaethau datganoledig gyfrannu at y broses hon.

Yng nghyfarfod CG (NUE), cyflwynais gynigion ar ymgysylltu pellach gyda'r gweinyddiaethau datganoledig wrth i ni ymgymryd â chymal nesaf trafodaethau'r UE.

Diolch am rannu cynnig y Cyngor gyda mi.

Yr eiddoch yn gywir,

Robin Walker AS

IS YSGRIFENNYDD GWLADOL

GADAEI YR UNDEB EWROPEAIDD



Ein cyf/Our ref MD/00285/18

Cynghorydd Annwen Hughes  
Cadeirydd y Cyngor  
Cyngor Gwynedd

eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

20 Mehefin 2018

Annwyl Cynghorydd Hughes,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 18 Mai ynglŷn â Dinasyddiaeth Gysylltiol yr Undeb Ewropeaidd (UE).

Rydym yn gosod gwerth mawr ar y rhyddid a'r mynediad y mae dinasyddiaeth yr UE yn eu cynnig. Mae cadw mynediad llawn a dirwystr at y Farchnad Sengl, gan gynnwys sicrhau bod dinasyddion Cymru yn gallu gweithio yn Ewrop, yn gwbl annatod i'n llewyrch yn y dyfodol. Yn ein dogfen *Brexit a Thegwch o ran Symudiad Pobl*, rydym yn amlinellu dull hyblyg ond dan reolaeth o edrych ar fudo, gan greu cysylltiad agosach rhwng mudo a gwaith <http://beta.llyw.cymru/brexit>.

Ar ôl ymadael â'r UE, bydd sicrhau hawliau a statws gwladolion yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) a dinasyddion y Swistir yng Nghymru, a dinasyddion Cymru yn yr AEE, yn hanfodol bwysig. Mae diogelu'r un hawliau i ddinasyddion y DU, ac felly pobl Cymru, yn rhywbeth yr ydym yn parhau i ymbil ar Lywodraeth y DU i'w wireddu fel rhan o'r negodiadau Brexit.

Penodwyd Grŵp Cynghori Allanol gan y Prif Weinidog yn fuan ar ôl y refferendwm ym mis Mehefin 2016. Ym mis Gorffennaf llynedd, cyflwynwyd papur iddo ar *The Feasibility of Associate EU Citizenship for UK Citizens Post Brexit* a gomisiynwyd gan Jill Evans ASE, sef y papur y mae'r cynnig yn cyfeirio ato. Cynhaliwyd cyfarfod arall yn ddiweddar rhwng Jill Evans a Swyddfa Ewropeaidd Llywodraeth Cymru ym Mrwsel.

Wrth gwrs, gan mai Llywodraeth y DU sy'n llwyr gyfrifol am bolisi ar ddinasyddiaeth a mewnfudo, rydym ninnau wedi bod yn canolbwyntio ar sicrhau bod dinasyddion yr UE yn y DU, a dinasyddion y DU yn yr UE, yn cael cymaint o sicrwydd ag sy'n bosibl ynglŷn â'u hawliau a'u statws yn y dyfodol. Byddwn yn parhau i weithio mewn modd adeiladol gyda Llywodraeth y DU, gan gynnwys drwy'r Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE) i'r perwyl hwn.

*In gywir.*

*Mark Drakeford*

**Mark Drakeford AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid  
Cabinet Secretary for Finance